

## ‘Yn fy ngeiriau brau, brau innau’ Cyflwyniad

Ers cyn cof, y mae dyn wedi brwydro yn erbyn ei gyd-ddyn, a brawd wedi codi cledd yn erbyn ei frawd dros wahanol achosion yn ymwneud â grym, yn hanesyddol ac yn y chwedlau cynharaf sydd ar gof. Cofiwn, er enghraifft, am Cain ac Abel yr Hen Destament, am Polynices ac Etocles ym mytholeg y Groegiaid, am frwydrau'r Hen Ogledd a brwydrau enwog lled-hanesyddol y Brenin Arthur. Gan mor aml y clywn am wrthdaro heddiw ac am frwydro sy'n dal i ddigwydd yn rhywle o hyd, erys rhyfel yn thema oesol. Daw'n gyson yn gwmwl du i dywyllu pum munud o'r bwletin newyddion neu i daflu cysgod dros ychydig o dudalennau'r papur newydd. Yn ôl un erthygl a gyhoeddwyd ar wefan y *Guardian* yn 2002, fe laddwyd 187 miliwn o bobl gan ryfeloedd neu achosion yn gysylltiedig â rhyfel yn ystod yr ugeinfed ganrif yn unig. 'The 20th century was the most murderous in recorded history,' meddai'r newyddiadurwr a'r hanesydd Eric Hobsbawm.<sup>1</sup> Does ryfedd, felly, i Alan Llwyd gyfeirio ati fel 'canrif y trais' yn ei gerdd 'Lleoedd',<sup>2</sup> ac i Aled Gwyn yn ei gerdd yntau, 'Yr Ugeinfed Ganrif',<sup>3</sup> ysgwyd ei ben yn siomedig ar '[G]anrif y drin, blin ei bloedd / Un filain ei rhyfeloedd'. Disgrifiodd Jerry Hunter gyfrol Alan Llwyd, *Ffarwelio â Chanrif* (2000), fel 'canrif o gofebau' yn ei adolygiad ohoni,<sup>4</sup> ac fe ymestyn Idris Reynolds ei feirniadaeth ymhellach yn 'Y Fileniwm Hon',<sup>5</sup> gan edliw i'r 'Mileniwm o alanas' ei fethiant a'i ddagrau.

Wedi troad y ganrif, a throad y mileniwm, bron na theimlwyd y dŵr a'r sebon yn golchi dros lechen front y gorffennol, a dyma gyrraedd 'glannau gwryf gwladfa 2000', fel y rhamanteiddia Gerwyn Williams yn 'Goroeswyr',<sup>6</sup> a'i dafod yn sownd yn ei foch. Wrth gwrs, ni chafodd y ganrif newydd gadw ei morwyndod yn hir, ac ar yr unfed ar ddeg o Fedi 2001 fe safodd y byd yn stond i wyllo'r ddau dŵr yn Efrog Newydd yn troi'n llwch dan ymosodiadau terfysgol. Dyma'r drychineb a yrrodd America a Phrydain i ryfel yn erbyn terfysgaeth, gan anfon lluoedd i Affganistan yn 2001 ac i Irac yn 2003 mewn ymgais honedig i ddileu

<sup>1</sup> <http://www.guardian.co.uk/education/2002/feb/23/artsandhumanities.highereducation> (Cyrchwyd 11/12/2012).

<sup>2</sup> Alan Llwyd, *Ffarwelio â Chanrif* (Llandybie, 2000), tt.93-4.

<sup>3</sup> Gerallt Lloyd Owen (gol.), *Pigion Talwrn y Beirdd*, 4 (Caernarfon, 1988), t.164.

<sup>4</sup> Jerry Hunter, 'Canrif o Gofebau', *Taliesin*, 112 (Haf 2001), tt.139-45.

<sup>5</sup> *Barddas*, 207/208 (Gorffennaf/Awst 1994), t.38.

<sup>6</sup> Gerwyn Williams, *Rhwng Gwibdaith a Coldplay* (Caernarfon, 2011), t.48.

bygythiadau terfysgol. Codwyd arfau mewn sawl gwlad yn y Dwyrain Canol ac yng Ngogledd Affrica ers troad y ganrif, a daeth 'Gwanwyn Arabaidd' a 'throsedd yn erbyn dynoliaeth' yn dermau cyfarwydd ym mhenawdau'r newyddion yn y blynyddoedd diwethaf, gan ddeffro protestiadau gwrthryfelgar ac ymyrraeth filwrol yn Libia, yr Aifft, Syria ac mewn gwledydd Arabaidd eraill. Cafwyd nifer o ymosodiadau treisgar eraill er y flwyddyn 2000 ac nid yw'r sôn am derfysgaeth byth ymhell o adroddiadau'r cyfryngau.

Noda'r diweddar Iwan Llwyd, wrth iddo drafod ei gerdd 'Aneirin', fod cyflwyno newyddion o'r fath ger bron y byd yn rhan o ddyletswydd y cyfryngau, ac yn rhan o swyddogaeth bardd hefyd:

Rhan o gyfrifoldeb beirdd a newyddiadurwyr ar hyd yr oesau ydi cofnodi hanes a helynt pobol, a milwyr cyffredin. Gobeithio ein bod yn dal i wneud hynny.<sup>7</sup>

Mae'n gwbl amlwg fod y newyddiadurwyr yn parhau i sylwebu ar ryfeloedd. Ond beth am y beirdd, a'r beirdd Cymraeg yn benodol? A ydyn nhw'n dal i gofnodi helyntion rhyfel fel y gwna Aneirin a Thaliesin ym more oes barddoniaeth Gymraeg? A ydi hynny'n ddisgwylidig gan feirdd o hyd?

Am flynyddoedd wedi'r ddau Ryfel Byd, roedd tuedd i feddwl mai prin oedd canu rhyfel yn y Gymraeg yn gyffredinol, ond drwy baratoi dwy flodeugerdd werthfawr, *Gwaedd y Bechgyn* (1989) a *Gwaedd y Lleiddiad* (1995), a chynnwys rhagymadroddion trylwyr i gyd-fynd â'r ddwy, fe unionodd Alan Llwyd ac Elwyn Edwards y camsyniad. Bwriodd Gerwyn Williams, hefyd, oleuni ar lenyddiaeth y Rhyfeloedd Byd, ac mae ganddo yntau ei ymdriniaethau manwl â'r maes yn ei gyfrolau *Y Rhwyg* (1993), *Tir Neb* (1996) a *Tir Newydd* (2005). Archwilio barddoniaeth cyfnod y Rhyfel Mawr a wna cyfrol gyntaf Gerwyn Williams yn bennaf, ond fe ehangir y drafodaeth yn *Tir Newydd* wrth iddo edrych ar yr ymateb llenyddol i'r Ail Ryfel Byd. Yno, fe geir dwy bennod yn canolbwyntio ar yr ymateb rhwng 1960 a 2000, yr ymateb mewn gweithiau rhyddiaith yn gyntaf ac yna'r ymateb barddonol lle caiff gwaith tri bardd ei drin a'i drafod: Gwyn Thomas, Alan Llwyd a Siôn Eirian. Dewisodd Alan Llwyd ac Elwyn Edwards, hefyd, gerddi gan feirdd diweddar i'w cynnwys yn adrannau

---

<sup>7</sup> Iwan Llwyd a Myrddin ap Dafydd (gol.), *Mae'n Gêm o Ddau Fileniwm* (Llanrwst, 2002), t.110.

clo *Gwaedd y Bechgyn* a *Gwaedd y Lleiddiad*, cerddi i gynrychioli'r cof a gadwyd am y ddau ryfel ac i brofi fod y 'rhyfeloedd hyn yn rhan o'n profiad llenyddol a hanesyddol ni', a dyfynnu Alan Llwyd.<sup>8</sup> Felly, dyna agor cil y drws ar ymateb barddoniaeth Gymraeg ddiweddar i'r Rhyfeloedd Byd, a dyna fan cychwyn yr ymchwil hwn.

Ond nid cerddi sy'n sôn am y ddau Ryfel Byd yn unig a drafodir yma. Cyfnod y cerddi dan sylw yn y penodau a ganlyn yw'r chwedegau hyd heddiw, gan roi ystod o hanner canrif o farddoniaeth i'w ystyried. Yn ystod y cyfnod hwn, mae sawl bardd wedi troi at y Rhyfeloedd Byd yn eu cerddi, y rhan fwyaf yn dibynnu ar brofiad ail-law gan i'r ddau ryfel ddigwydd cyn eu geni.<sup>9</sup> Yr eithriadau amlwg yw Gwyn Thomas a Bobi Jones, er nad ymddengys rhyfel yn thema mor uniongyrchol yng ngwaith Bobi Jones ag ydyw gan Gwyn Thomas. Dyma ddau fardd a dystiodd i'r Ail Ryfel Byd yn ystod eu plentyndod ac a fu'n gynhyrchiol iawn fel beirdd dros y blynyddoedd. Ond er i'r beirdd cyfoes droi at ddau ryfel mawr hanner cyntaf yr ugeinfed ganrif o bryd i'w gilydd, mae digon o gyfle, gwaetha'r modd, wedi bod i ymateb i ryfeloedd diweddarach, i newyddion y dydd ac i helyntion rhyngwladol. O dyrchu mewn cylchgronau a byseddu cyfrolau, fe geir bod ymateb i'w gael yn y Gymraeg i sawl achos o wrthdaro ac o derfysgaeth: i'r ymladd hir sy'n parhau yn Israel, i'r gwrthdaro yn Iwerddon, i ryfel y Falklands/Malvinas, Rhyfel y Gwlff, Rhyfel Fiet-nam, Rhyfeloedd Bosnia, Irac ac Affganistan ynghyd ag ymateb i drychineb Medi'r unfed ar ddeg ac i'r bomio yn Llundain ym mis Gorffennaf 2005. Fe geir hefyd nifer o gerddi cyffredinol sy'n sôn am ryfel heb iddynt drafod unrhyw ryfeloedd penodol, ac yn y rheiny yn aml y gwelir lladd ar wleidyddion, ffeiddio at lanast yr hil ddynol a dyrchafu heddwch fel delfryd. Ar wahân i bennod ddadlennol Gerwyn Williams yn *Cof Cenedl*, XXI, sy'n archwilio'r ymateb llenyddol i ryfel y Falklands/Malvinas,<sup>10</sup> prin eithriadol yw'r ymdriniaethau â'r ymateb llenyddol Cymraeg i ryfeloedd degawdau olaf yr ugeinfed ganrif ac i ryfeloedd yr unfed ganrif ar hugain hyd yma.

---

<sup>8</sup> *Barddas*, 291 (Chwefror/Mawrth 2007), t.4.

<sup>9</sup> Yn ei ragymadrodd i'r flodeugerdd *Gwaedd y Bechgyn: Blodeugerdd Barddas o Gerddi'r Rhyfel Mawr 1914-1918*, gol. Alan Llwyd ac Elwyn Edwards (Llandybie, 1989), t.24, gesyd Alan Llwyd holl gerddi'r Rhyfel Mawr mewn naw dosbarth, a'r olaf o'r dosbarthiadau hyn yw'r cerddi a gyfansoddwyd gan feirdd diweddar na welsant ac na phrofasant ddim o'r rhyfel eu hunain. Ystyrir y cerddi hyn yr un mor ddilys ag ymateb y beirdd-filwyr gan olygydd y flodeugerdd.

<sup>10</sup> Gerwyn Williams, 'Cofio Rhyfel Anghofiedig: Dehongli a Chyd-Destunoli Rhyfel y Falklands/Malvinas 1982', *Cof Cenedl*, XXI, gol. Geraint H. Jenkins (Llandysul, 2006), tt.159-91.

Fel y nododd D. Tecwyn Lloyd yn *Llên Cyni a Rhyfel a Thrafodion Eraill*, mae gwahaniaeth rhwng ‘canu rhyfel’ a cherddi sy’n trafod rhyfel.<sup>11</sup> Gan nad oes gennym, hyd y gwn i, feirdd-filwyr o Gymry a ymrithiodd yn ystod y degawdau diwethaf, ac felly neb a all hawlio bod eu barddoniaeth yn ‘ganu rhyfel’ sy’n datgan profiadau uniongyrchol, cerddi sy’n sôn am ryfel yw’r corff cyfan o farddoniaeth ddiweddar a drafodir yma. Awgryma Alan Llwyd, mewn sylw beiddgar, mai’r ffaith mai milwyr proffesiynol sy’n brwydro yn rhyfeloedd Prydain, yn hytrach na sifiliaid cyffredin fel a fu yn achos y ddau Ryfel Byd, sydd i’w gyfrif am ddifodiant ‘canu rhyfel’ Cymraeg erbyn hyn:

Heb fwriadu unrhyw amarch, rhaid dweud nad yw milwyr proffesiynol ymhlith y mwyaf llenyddol, darllengar a diwylliedig o ddynion.<sup>12</sup>

Ond gyda chryn bwyslais ar ofal iechyd milwyr a chyn-filwyr heddiw, a thriniaethau o bob math yn bosib gan gynnwys therapi trwy ysgrifennu, nid amhosib fuasai gweld cerddi Cymraeg wedi eu hysgrifennu yn y blynyddoedd diwethaf gan filwyr. Diddorol fyddai gwybod a gafodd cerddi o’r fath eu hysgrifennu rhwng pedair wal canolfan Tŷ Gwyn yn Llandudno cyn iddi gau yn 2005, canolfan a sefydlwyd gan Gymro Cymraeg, Dr Dafydd Alun Jones, a oedd yn trin milwyr oedd yn dioddef o PTSD. Mae’n werth nodi hefyd fod gan Ganolfan Ysgrifennu Tŷ Newydd yn Llanystumdwy brosiect ‘Llên er Lles’ sy’n cynnig yr un math o therapi llenyddol.

Fe geir bod cerddi Saesneg wedi eu cyhoeddi ar y we gan filwyr a fu’n brwydro yn Irac ac yn Affganistan a bu sôn am gyhoeddi blodeugerdd o’r farddoniaeth.<sup>13</sup> Mae blodeugerddi o gerddi rhyfel cyfoes Saesneg yn bod yn barod, megis *101 Poems Against War* (2003)<sup>14</sup> a *100 Poets Against the War* (2003),<sup>15</sup> er enghraifft. Un gyfrol gyfatebol sydd, mae’n debyg, ac ynddi gerddi Cymraeg, sef *Glas-Nos: Cerddi dros Heddwch/Poems for Peace* (1987),<sup>16</sup> cyfrol o gerddi Cymraeg a Saesneg gan feirdd o Gymru. Yn 1985, rhyddhawyd *Caneuon Heddwch*, casét yn ymgyrchu dros Gymru ddiniwclear ac arno ganeuon poblogaidd

<sup>11</sup> D. Tecwyn Lloyd, *Llên Cyni a Rhyfel a Thrafodion Eraill* (Llandysul, 1987), t.35.

<sup>12</sup> Alan Llwyd ac Elwyn Edwards (gol.), *Gwaedd y Bechgyn*, t.12.

<sup>13</sup> <http://www.telegraph.co.uk/culture/culturenews/8455677/Modern-war-poetry-British-soldiers-explore-Afghanistan-and-Iraq-wars-in-verse.html> (Cyrchwyd 11/12/2012).

<sup>14</sup> Matthew Hollis a Paul Keegan (gol.), *101 Poems Against War* (London, 2003).

<sup>15</sup> Todd Swift (gol.), *100 Poets Against the War* (Cambridge, 2003).

<sup>16</sup> Nigel Jenkins a Menna Elfyn (gol.), *Glas-Nos: Cerddi dros Heddwch/Poems for Peace* (Machynlleth, 1987).

yn cefnogi'r achos gan Meic Stevens, Plethyn, Huw Jones, Edward H. Dafis, Tecwyn Ifan, Geraint Lovgreen a Dafydd Iwan. Yn fwy diweddar, yn 2003, rhyddhawyd albwm, *Clyw Leisiau'r Plant*, CD o ganeuon am ryfel gan artistiaid Cymraeg poblogaidd, ac elw'r gwerthiant yn mynd at gymorth dyngarol yn Irac. Gyda thraddodiad byw yn y Gymraeg o ganu protest, mae nifer o ganeuon wedi eu hysgrifennu yn gwrthwynebu rhyfel, a Tecwyn Ifan a Dafydd Iwan yn ddau amlwg a fu'n cyfansoddi i'r perwyl hwnnw. Parhau y mae'r cysylltiad rhwng caneuon ac ymgyrchoedd heddwch, fel y profodd gîg a gynhaliwyd gan Gymdeithas yr Iaith yn Eisteddfod Genedlaethol Wrecsam yn 2011 i gofio trychineb Hiroshima. Fe geir caneuon mwy storiol eu cywair ynghlwm wrth ryfel hefyd; daw 'Daeth Neb yn Ôl' gan Meic Stevens, 'Gwaed ar eu Dwylo' gan Plethyn (ei geiriau gan Myrddin ap Dafydd) ac 'Ellis Humphrey Evans' gan Gai Toms i gof. Fe gyfeirir o bryd i'w gilydd at ambell gân yn nhrefodaethau'r penodau sy'n dilyn, gan eu hystyried yn gyfraniadau llenyddol dilys.

Ymatebodd rhai o'n llenorion cyfoes i thema rhyfel yn ystod y cyfnod dan sylw hefyd, a gwelodd nifer o nofelau olau dydd fel cynhyrchion yr Eisteddfod Genedlaethol. Enillodd T. Wilson Evans y Fedal Ryddiaith yn 1983 gyda'i nofel fer *Y Pabi Coch*,<sup>17</sup> sydd wedi ei gosod yng nghyfnod y Rhyfel Mawr, yna fe gipiodd *Seren Wen ar Gefndir Gwyn*<sup>18</sup> Robin Llywelyn y fedal yn 1992, nofel sy'n darlunio rhyfel yn y dyfodol rhwng cenedl fechan sy'n ceisio'i rhyddid a thotalitariaeth gwledydd mwy. Gwobrwywyd Robin Llywelyn am ei ail nofel yn ymwneud â rhyfel hefyd, *Un Diwrnod yn yr Eisteddfod*,<sup>19</sup> nofel fuddugol Gwobr Goffa Daniel Owen yn 2004. Ymdriniaeth gyfoes sydd yma wrth i gyn-filwr a fu'n ymladd yn Irac dreulio diwrnod yn y brifwyl yn cyfarfod â hen gyfeillion iddo. Un arall sy'n ymddiddori mewn rhyfel fel thema lenyddol ac yn gyfarwydd â maes newyddiaduraeth rhyfel yw Llion Iwan. Mae ganddo yntau ei nofel, *Yr Anweledig* (2008),<sup>20</sup> sy'n dilyn llwybrau hunanfomiwr yn Affganistan a milwr Americanaidd, nofel fodern nad oes iddi unrhyw gwllwm Cymreig. Cyfrol o straeon byrion yw *Sgrech Rhyfel* (2001)<sup>21</sup> gan Martin Huws sy'n dangos milwyr o Gymru'n ceisio dygymod â'u profiadau, a rhyfel y Falklands/Malvinas yw cefndir *Mae Heddwch yn*

---

<sup>17</sup> T. Wilson Evans, *Y Pabi Coch* (Llandysul, 1983).

<sup>18</sup> Robin Llywelyn, *Seren Wen ar Gefndir Gwyn* (Llandysul, 1992).

<sup>19</sup> Robin Llywelyn, *Un Diwrnod yn yr Eisteddfod* (Llandysul, 2004).

<sup>20</sup> Llion Iwan, *Yr Anweledig* (Llandysul, 2008).

<sup>21</sup> Martin Huws, *Sgrech Rhyfel* (Llanrwst, 2001).

*Brifo* (2009),<sup>22</sup> nofel ddiweddarach gan yr un awdur. Cofiw'n hefyd am nofel y Fedal Ryddiaith yn 2010, *Gwenddydd* gan Jerry Hunter,<sup>23</sup> sydd wedi ei gosod yng nghyfnod yr Ail Ryfel Byd ac sy'n archwilio effaith y rhyfel ar un teulu o Gymru a'r mab yn dioddef o PTSD. Trodd ambell awdur arall yn ôl ymhellach at gyfnod y Rhyfel Byd Cyntaf, a dyna gefndir *I Dir Neb* (1999) gan Eurig Wyn,<sup>24</sup> *Rhagom* (2004) gan Angharad Tomos,<sup>25</sup> a *Traed Oer* (2004) gan Mari Emlyn.<sup>26</sup>

Mae'r thema'n un hyblyg y gellir ymdrin â hi'n hanesyddol, yn gwbl gyfoes neu'n llwyr ddychmygol, ac mae'n thema sy'n parhau i godi yn y nofelau a'r cyfrolau barddoniaeth diweddaraf. Gan mor eang fu'r ymateb barddol i ryfel ar draws yr hanner canrif ddiwethaf, mae'r ymdriniaeth â'r pwnc yn amrywio. Fe geir i rai fynd ati i ysgrifennu o safbwynt milwr neu ddioddefwr rhyfel; dyma duedd Grahame Davies yn bur aml yn ei gerddi rhyfel a ddaw'n bennaf o'r gyfrol *Achos*.<sup>27</sup> Ysgrifenna Gerwyn Williams fel gwylwr o'r tu allan, a'r pellter yn caniatáu iddo fynd i'r afael â'r pwnc o safbwynt beirniadol. Ceir bod ei ymateb yn bersonol iawn ac yn tueddu i aros yn y presennol hyd yn oed wrth ysgrifennu am ryfeloedd y gorffennol.

Bob hyn a hyn, caiff agwedd wrth-Brydeinig ei lleisio mewn cerddi, yn enwedig felly yn y cerddi i ryfel y Falklands/Malvinas, a Thatcher dan y lach yn weddol aml. Dwrddio ynghylch rhwysg byddin Brydeinig a wna Myrddin ap Dafydd yn 'Milwr',<sup>28</sup> lle mae'n gweld y chwarae'n troi'n chwerw, a balchder y martsio yn y parêd yn cyflym droi'n ddagrau. Buan y try'r parch yn amarch, a'r wladwriaeth yn poeni dim am urddas marwolaeth. Gwelwn ddychan a gwawdio rhyfela gan eraill, felly i raddau gan Meirion MacIntyre Huws yn 'Ym Methlehem dref',<sup>29</sup> ac arddull delynegol carol Nadolig y gerdd yn mynd yn gwbl groes i'r geiriau o fraw. Felly hefyd Gwyn Thomas yn 'Cyfarchion'<sup>30</sup> wrth iddo longyfarch y

---

<sup>22</sup> Martin Huws, *Mae Heddwch yn Brifo* (Llandysul, 2009).

<sup>23</sup> Jerry Hunter, *Gwenddydd* (Caernarfon, 2010).

<sup>24</sup> Eurig Wyn, *I Dir Neb* (Talybont, 1999).

<sup>25</sup> Angharad Tomos, *Rhagom* (Llanrwst, 2004).

<sup>26</sup> Mari Emlyn, *Traed Oer* (Llandysul, 2004).

<sup>27</sup> Grahame Davies, *Achos* (Llandybie, 2005).

<sup>28</sup> Iwan Llwyd a Myrddin ap Dafydd (gol.), *Cywyddau Cyhoeddus* (Llanrwst, 1994), t.84.

<sup>29</sup> Meirion MacIntyre Huws, *Melyn* (Llanrwst, 2004), t.75.

<sup>30</sup> Gwyn Thomas, *Am Ryw Hyd* (Dinbych, 1986), t.15.

ddynoliaeth ar ei llanast a'i difrod, ac eto yn 'Dowch i Belffast'<sup>31</sup> wrth iddo annog y twristiaid i ymweld â'r ddinas lle gallent brofi'r gwrthdaro crefyddol. Yr un arddull ddychanol sydd i 'Porth Menin'<sup>32</sup> lle mae Grahame Davies yn cenfigennu wrth 'y meirw ar y maen', ac i 'Achos'<sup>33</sup> sy'n fath o weddi goeglyd yn erfyn ar Dduw am barhad rhyfeloedd er mwyn rhoi ystyr a gwerth i fywyd. Mae ei feirniadaeth ar grefydd i'w gweld yn 'Cydwobodol'<sup>34</sup> hefyd, lle mae'n holi pa un yw Duw, 'Arglwydd y Lluoedd neu Dywysog Hedd?'. Dirmygu crefydd, mae'n debyg, a wna Emyr Edwards yntau yn 'Y Sanctaidd Wlad',<sup>35</sup> sy'n barodi miniog ar Weddi'r Arglwydd lle gwêl eironi yn yr enw hwn ar Israel gan nad oes 'dim sydd yn sanctaidd yn y sanctaidd wlad'.

I'r gwrthwyneb, ymateb Cristnogol i ryfel sydd gan Gwyn Thomas, Alan Llwyd, Aled Lewis Evans, D. Islwyn Edwards a Siôn Aled yn rhai o'u cerddi. Cynnig gobaith a wna'r ffydd i D. Islwyn Edwards yn 'Entre Nous'<sup>36</sup> wrth iddo olrhain erchyllterau rhyfeloedd yr ugeinfed ganrif a chroesi'r ffin i'r unfed ganrif ar hugain. Fe gwestiyna a ydym yn deilwng o aberth Iesu ar y Groes wrth inni hyd yn oed lwyddo i droi'r cymun yn beth gwrthun, y bara'n deilchion, a'r gwin yn 'rhosynnau gwaed', ond yng nghrefydd y bardd ac yng Nghrist y mae ei gysur:

Ti yw'r hwn  
a roes inni  
eiliadau  
o lawenydd gwawr  
pan oedd y nos  
yn ddagrau  
ar obennydd.<sup>37</sup>

Tywyll a diobaith yw naws gyffredinol cerddi rhyfel Alan Llwyd, ond gwelir yn 'Mae Hi'n Anodd...'<sup>38</sup> ei fod yntau'n cael ei angori gan ei grefydd. A hithau'n dymor y Nadolig yn y

---

<sup>31</sup> Ibid., tt.54-5.

<sup>32</sup> Grahame Davies, *Cadwyni Rhyddid* (Abertawe, 2001), tt.38-9.

<sup>33</sup> Ibid., t.40.

<sup>34</sup> Grahame Davies, *Achos*, t.78.

<sup>35</sup> Emyr Edwards, *Guernika a Cherddi Eraill* (Caerdydd, 2007), t.87.

<sup>36</sup> D. Islwyn Edwards, *Cyn i'r Dydd Hwyrhau* (Llandybïe, 2005), tt.22-7.

<sup>37</sup> Ibid., t.26.

<sup>38</sup> Alan Llwyd, *Clirio'r Atig a Cherddi Eraill* (Llandybïe, 2005), t.13.

flwyddyn 2001, mae'r bardd yn cydnabod mai anodd yw ymroi i'r dathliadau wrth feddwl am derfysgaeth 9/11 a ddigwyddodd yn gynharach y flwyddyn honno ac wrth gofio fod 'Bethlehem heno dan gysgod gwn'. Daw'r weledigaeth Gristnogol yng nghynffon y gerdd wrth iddo ddatgan mai anos byth fyddai parhau â'n bywydau a'n harferion heb Dduw, heb ffydd a heb addoliad i ysgafnhau'n beichiau. Mae Gwyn Thomas yn arddel ei ffydd trwy'r gyfeiriadaeth ysgrythurol sy'n lliwio'i farddoniaeth yn bur aml, ac sy'n frith yn ei gerddi rhyfel hefyd. Un gerdd sydd wedi ennyn cryn sylw yw 'Hiroshima',<sup>39</sup> a'r gyfeiriadaeth at hanes Samson yn lladd y llew. Dyma gerdd a alwodd Alan Llwyd yn 'un o gerddi mawr Gwyn Thomas', ac ymhellach yn 'un o gerddi mawr yr ugeinfed ganrif yn Gymraeg'.<sup>40</sup> Mae'r arddull Feiblaidd yn parhau yn y gyfrol *Teyrnas y Tywyllwch* ac fe ymdebyga agoriad ambell gerdd i ddechrau dameg neu adnod gyda'r cysylltair ar ddechrau'r gerdd yn awgrymu'r dilyniant sydd i holl gerddi'r gyfrol. Gweler, er enghraifft, ddechrau 'I Be', I Ble?': 'A dechreuodd y Natsïaid gasglu',<sup>41</sup> neu ddechrau 'Dad-ddynoli, Y Waith Gyntaf': 'A dywedodd Adolf Hitler'.<sup>42</sup> Mae rhyw adlais Beiblaidd ar ddechrau 'Triniaeth Arbennig'<sup>43</sup> hefyd, gyda'r geiriau 'Bu hefyd yn y dyddiau hynny' yn debyg i ddechrau'r ail bennod yn Efengyl Luc yn y Testament Newydd.

Yn naturiol, mae ymateb rhai beirdd yn fwy diffuant na'i gilydd, a gall rhyfel, o'i osod yn destun cystadleuaeth neu ei ddefnyddio fel pwnc cyfleus, droi'n thema ystrydebol a dienaid ar brydiau, heb ystyriaeth lawn i'r geiriau. Dyma'r perygl wrth drin a thrafod thema mor astrus ac mor sensitif, a sarhad, bron, yw troi at ystrydebau ailadroddus. Cadwodd rhai o'n beirdd Cymraeg eu pellter oddi wrth yr ystrydebau, fodd bynnag, ac ymddengys eu hymateb fod yn ddeallus ac o'r galon. Pedwar o'r beirdd cyfoes sy'n eu hamlygu eu hunain fel cofnodwyr cwbl argyhoeddiadol yn fy marn i, sef Gwyn Thomas, Alan Llwyd, Gerwyn Williams a Grahame Davies. Mae'r pedwar wedi ymddiddori yn y Rhyfeloedd Byd; Alan Llwyd a Gerwyn Williams wedi ymchwilio'n fanwl i lenyddiaeth a hanes y rhyfeloedd, Gwyn Thomas yntau wedi darllen am yr Ail Ryfel Byd er mwyn porthi ei gof plentyn o'r rhyfel, a Grahame Davies yn gyfarwydd â chymeriadau a hanesion penodol o'r ddau ryfel.

---

<sup>39</sup> Gwyn Thomas, *Y Weledigaeth Haearn* (Dinbych, 1965), t.41.

<sup>40</sup> Alan Llwyd, *Gwyn Thomas, Cyfres 'Llên y Llenor'* (Caernarfon, 1984), t.51.

<sup>41</sup> Gwyn Thomas, *Teyrnas y Tywyllwch* (Llandybïe, 2007), t.22.

<sup>42</sup> *Ibid.*, t.55.

<sup>43</sup> *Ibid.*, t.24.



Mae ysgrifennu am ryfel wedi peri anhawster dros y blynyddoedd, a dyfyniad yr athronydd Almaenig, Theodor Adorno, am anweddustra barddoniaeth wedi'r Holocost yn atseinio'n anghyfforddus yng nghefn y meddwl: 'To write poetry after Auschwitz is barbaric'.<sup>44</sup> Mae'r broblem o farddoni am ryfel ac o ddod o hyd i eiriau a all wneud cyfiawnder â sefyllfaoedd go iawn, yn ddigon eironig, yn cael ei thrafod mewn ambell gerdd. Dywed Emyr Davies, er enghraifft, yn 'Kosovo':

Sut meiddiaf drwy'r gyflafan  
Wario'i gwaed ar liwio'r gân,  
Gwario'i hofn ar frawddeg rad  
I ddelweddu hil-laddiad?<sup>45</sup>

A dyma Alan Llwyd yn 'Disgrifiadau' yn methu a dod o hyd i eiriau i ddisgrifio'r Holocost:

Mae pethau, rhai pethau,  
pethau fel y llwyth llywethau,  
pethau fel y blychau yn llawn o hen ddillad blêr  
a phethau fel y pentwr esgidiau,  
yn ein gadael  
yn rhy fud i'w disgrifio hwy.<sup>46</sup>

Ond mae pwysigrwydd i gofnodi hanesion rhyfeloedd y gorffennol a'r presennol, a phwysigrwydd i'w cofnodi yn Gymraeg er mwyn profi fod gan yr iaith yr hyblygrwydd angenrheidiol i drafod pynciau'r dydd ac i ymateb i ddigwyddiadau rhyngwladol. Ar wahân i lond dwrn o feirdd y ddau Ryfel Byd a lwyddodd i ddal gwir erchyllterau'r rhyfeloedd yn eu cerddi, rhyw 'farddoniaeth glên Gymraeg' oedd cynnyrch barddol y Cymry, yn ôl Gerwyn Williams yn ei gerdd 'Cysgodion Chernobyl'.<sup>47</sup> Dywed Alan Llwyd, hefyd, yn ei ragymadrodd i *Gwaedd y Lleiddiad* fod beirdd Cymru'r Ail Ryfel Byd 'yn nes at Afallon nag at Armagedon'.<sup>48</sup> Rhaid oedd i farddoniaeth Gymraeg wynebu realiti a mentro wrth sylwebu ar yr hagr yn

---

<sup>44</sup> Theodor W. Adorno, 'Cultural Criticism and Society', *Prisms*, Nawfed argraffiad (Massachusetts, 1997), t.34.

<sup>45</sup> Gerallt Lloyd Owen (gol.), *Pigion Talwrn y Beirdd*, 10 (Caernarfon, 2000), t.153.

<sup>46</sup> Alan Llwyd, *Ffarwelio â Chanrif*, t.113.

<sup>47</sup> Nigel Jenkins a Menna Elfyn (gol.), *Glas-Nos: Cerddi Dros Heddwch/Poems for Peace*, t.46.

<sup>48</sup> Alan Llwyd ac Elwyn Edwards (gol.), *Gwaedd y Lleiddiad: Blodeugerdd Barddas o Gerddi'r Ail Ryfel Byd 1939-1945* (Llandybie, 1995), t.xvii.

ogystal ag ar yr hardd, a haws yw gwneud hynny bellach, mae'n debyg, wrth inni bellhau oddi wrth y rhyfel mawr cyntaf, y Rhyfel Byd Cyntaf, ac wrth i ryfel a thrais ddod yn themâu mor agored a chyfarwydd i bawb. Ymhelaetha Gerwyn Williams yn nhudalennau olaf *Y Rhwyg*:

Mae'r beirdd diweddar wedi ymbellhau yn ddigonol oddi wrth *immediacy* personol profiadau'r Rhyfel Mawr i drafod y pwnc yn gwbl gignoeth a graffig. Ac yntau wedi'i wreiddio'n gorfforol yng nghyfnod y Rhyfel o bosib, ni fyddai mor hawdd i fardd o'r cyfnod hwnnw ganu mewn dull mor sioclyd rhag ofn iddo sathru ar deimladau.<sup>49</sup>

Mae'r cerddi rhyfel yn ychwanegu at y dystiolaeth gadarn o fodolaeth y rhyfeloedd, a gall fod iddynt ddiben addysgiadol i genedlaethau a ddaw. Yr hen syniad o gadw cof am filwyr drwy gerddi sy'n cymell Gwyn Thomas i farddoni am ryfel. Mae'n nodi ei fwriad fel bardd yn glir ym mhennill olaf 'Yr Ail Ryfel Byd', ac yn cynnig mai un o ddyletswyddau barddoniaeth yw cadw cof parhaol a threchu anghofrwydd:

Os oes dibenion i farddoni,  
Efallai mai un o'r rheini  
Ydi fod rhywun – yma, fi – yn cofnodi  
Ar freuder y papur hwn,  
Yn fy iaith frau,  
Yn fy ngeiriau brau, brau innau,  
Gyda pharch, i'r hogiau hyn fodoli.<sup>50</sup>

Gwyn Thomas ac Alan Llwyd, yn sicr, yw'r prif gofnodwyr yn y Gymraeg a'r mwyaf toreithiog eu cerddi rhyfel. 'Mewn gair y mae Alan yn rhyw fath o gofnodwr y genedl,' meddai Gwyn Thomas amdano.<sup>51</sup> Ac yntau'n fardd sy'n canu am ei oes ei hun, does ryfedd i Alan Llwyd gyfansoddi degau o gerddi rhyfel, ac fe geir yn aml ganddo gyfeiriadaeth neu eirfa rhyfel yn y cerddi nad ydynt yn sôn am ryfel yn benodol, gan ddangos fel y suddodd profiadau'r ugeinfed ganrif i ymwybyddiaeth dyn. Sylwa yn ei gerddi ar ddatblygiad technoleg rhyfel ac ar gieidd-dra'r Ail Ryfel Byd yn benodol; 'bron na synhwyrir ymgyrch-un-

<sup>49</sup> Gerwyn Williams, *Y Rhwyg: Arolwg o farddoniaeth Gymraeg ynghylch y Rhyfel Byd Cyntaf* (Llandysul, 1993), t.236.

<sup>50</sup> Gwyn Thomas, *Murmuron Tragwyddoldeb a Chwningod Tjioclet* (Llandybïe, 2010), t.45.

<sup>51</sup> Gwyn Thomas, 'Alan Llwyd: Bardd', *Alan: Casgliad o gerddi ac ysgrifau ar Alan Llwyd, gyda llyfryddiaeth o'i waith gan Huw Walters*, gol. Huw Meirion Edwards (Abertawe, 2003), tt.92-3.

dyn i orfodi barddoniaeth Gymraeg i wynebu'r profiadau a ddaeth yn ei sgil', fel y dywed Gerwyn Williams.<sup>52</sup> Beirniadodd Alan Llwyd y beirdd Cymraeg sy'n barddoni heb fath o ystyriaeth ynghylch anferthwch dioddefaint a difrod yr Ail Ryfel Byd, gyda bomio Guernica a gwersyll Treblinka yn staen ar gynfas y ganrif. Cyfyd gwaith y ddau fardd yn gyson yn y penodau a ganlyn, gyda Gerwyn Williams yn enw arall sy'n codi'n rheolaidd.

Plethu themâu a sylwi ar y tebygrwydd yn ogystal â'r gwahaniaethau yn ymateb y beirdd yw bwriad y gwaith hwn, gan archwilio symbolaeth a delweddaeth, dylanwad datblygiad technoleg ar bynciau trafod y beirdd, a chyfeiriadaeth ac ôl yr ymwybod Cymreig, i gyd yng nghyd-destun cerddi sy'n ymateb i ryfel. Hen thema a drafodwyd dro ar ôl tro a gaiff sylw eto fyth yn y bennod gyntaf, sef natur. Fe welir yn aml i feirdd cyfnod y Rhyfel Mawr gyfeirio'n gyson at wyrddni eu mamwlad, at y golygfeydd o harddwch naturiol ac at elfennau o fyd natur yr oeddent yn eu cysylltu â'u cartrefi. Yn achos y beirdd-filwyr a oedd yn ymladd dros y môr, byddai disgrifiadau telynegol o fyd natur yn cynnig cysur gan borthi atgofion melys am eu cynefin ac o ddiniweidrwydd bywyd cyn corwynt y rhyfel. Boed yn fwriadol ai peidio, mae'r beirdd cyfoes wedi cadw'n driw i'r thema. Ymddengys y pabi coch a dyfodd ar gaeau Fflandrys yn gyson yn y farddoniaeth i gynrychioli rhyfel a'i holl gymhlethdodau, a chaiff symbolaeth y pabi ei thrafod yn y bennod, ynghyd â symbolaeth blodau eraill. Cyfeiria rhai at fyd amaeth, eraill at y ddelwedd ddarluniaidd o fyd natur, a defnyddia ambell fardd ei gyfeiriadau mewn modd cwbl wreiddiol wrth sôn am ryfeloedd diweddar gan droi thema a all fod yn ystrydebol ar ei phen. Mae natur yn amlwg yn dal i gael lle yn nychymyg beirdd, a'r cyfeiriadau'n ymddangos yn barhaus yn eu cerddi, fel y gwnânt yn y cerddi rhyfel, pwnc annhelynegol os bu un erioed. Tybed, felly, a oes lle i amau a lwyddodd barddoniaeth Gymraeg erioed i gefnu ar ddylanwad Rhamantaidd dechrau'r ugeinfed ganrif yn gyfan gwbl, ac ymgaledu i wynebu realiti â geirfa gras a mynegiant amrwd?

Syniad a gododd yng ngwaith nifer o feirdd oedd y pellter a grëwyd gan sgriniau teledu rhwng y gwyliwr a'r dioddefwr, ac fel y daeth rhyfel i fod yn beth mor gyffredin y dyddiau hyn fel nad yw'n synnu neb bellach. Anelir beirniadaeth gan rai tuag at y cyfryngau

---

<sup>52</sup> Gerwyn Williams, *Tir Newydd: Agweddau ar Lenyddiaeth Gymraeg a'r Ail Ryfel Byd* (Llandybie, 2005), t.269.

ac fel y cyflwynir rhyfel ganddynt fel peth adloniannol. Mae beirniadaeth fwy hallt fyth ar ddynoliaeth sy'n derbyn bwletinâu newyddion heb fawr o ystyriaeth, ac yn cau'r llen pan fo'r llun yn pigo'r cydwybod. Technoleg ac effaith yr holl gofnodion solet sydd gennym, yn lluniau, yn ddarnau o ffilm neu'n erthyglau papur newydd, yw canolbwynt yr ail bennod, a sut y caiff y pethau hyn eu harchwilio ym marddoniaeth yr hanner canrif diwethaf, cyfnod lle gwelwyd nifer o ddatblygiadau technolegol. Yn ogystal â'r dystiolaeth ddiriaethol, mae'r ymwybyddiaeth sydd wedi treiddio i gnewyllyn dynoliaeth yn hawlio sylw, a lluniau'r cof yn gallu bod mor effeithiol â ffotograffau. Cyffyrddir hefyd yn y bennod hon â thechnoleg rhyfel ac â'r gofidiau a ddaw yn sgil datblygiad arswydus arfau.

Gellir rhannu'r bennod olaf yn dair wrth i'r cerddi sy'n Cymreigio'r profiad o ryfel hawlio'u lle yn y drafodaeth ac wrth i'r beirdd roi gwedd Gymreig ar destunau rhyngwladol. Closio'r darllenydd at neges y gerdd yw'r bwriad, mae'n debyg, a chodi ymwybyddiaeth o hunaniaeth Gymreig unigryw. Chwilio'r cyfeiriadau at yr hengerdd a wneir yn gyntaf gan fod rhyfela a brwydro wedi bod yn rhan annatod o fywyd ein cyndadau Celtaidd yn ystod y canrifoedd cynnar, a bod dyletswydd ar feirdd y cyfnod i gofnodi'r hanesion. Caiff rhai llinellau a delweddau o eiddo Aneirin a Thaliesin eu hatgyfodi yn y farddoniaeth ddiweddar, a'r cyfeiriadau'n cyfoethogi'r cerddi gan ein hatgoffa o gyfoeth hynafol ein traddodiad barddol Cymraeg yr un pryd. Nid at yr hengerdd yn unig y cyfeiria'r beirdd er mwyn angori wrth gadernid y gorffennol; fe welir bod cyfeiriadau at gymeriadau chwedlonol ein llên ac at yr isfyd Celtaidd fel uffern drosiadol hefyd. Cerddi i Hedd Wyn a'r Gadair Ddu sy'n dilyn, gydag ymateb i fedd Hedd Wyn, i'r goflech yn Fflandrys ac i englynion coffa R. Williams Parry. Dyma ffigur hanesyddol y mae'r wlad wedi ei gofleidio, ac mae'n parhau i uno cenedl mewn galar gan amlygu natur wastraffus rhyfel. Ar wahân i'r ddau Ryfel Byd, rhyfel diweddarach a gafodd effaith uniongyrchol ar Gymru oedd rhyfel y Falklands/Malvinas yn 1982. Ymetyb hynny o gerddi sydd ar gael am y rhyfel i fomio llong y Sir Galahad ac i'r berthynas rhwng Cymru a'r Wladfa yn bennaf, ac fel y soniwyd, yn y cerddi hyn y cwyd protestiadau gwrth-Brydeinig amlaf.

Gofynnwyd imi sawl gwaith a oedd digon o gerddi Cymraeg gan feirdd cyfoes ar gael i lunio astudiaeth ohonynt. Trwy fanylu ar agweddau thematig, y gobaith yw ateb y cwestiwn hwnnw. Yn wir, mae digonedd o gerddi rhyfel ar gael yn Gymraeg a chyfran

gymharol fechan ohonynt a drafodir yma mewn gwirionedd. Er nad yw'r cerddi'n gynnyrch a ddaw o wres maes y gad, fel ag yr oedd gwaith Aneirin a Thaliesin gynt, yr un bwriad sydd i lawer o'r farddoniaeth, sef cadw cof. Er breuder y papur ailgylchadwy ac eiddilwch y geiriau a gaiff eu llefaru yn ein hiaith leiafrifol, mae'r farddoniaeth yn gofnod cadarn, diriaethol o hanes. Tra bydd rhyfel, bydd y llyfrgell o gerddi rhyfel Cymraeg yn dal i dyfu.

**‘Gardd o waed, ond gwyrdd yw hi’  
Y Pabi a Delweddau Natur Eraill**

Cyfarwydd i bawb yw’r torchau o babïau coch sy’n cael eu gosod ar gofebion y Rhyfel Mawr ar Sul y Cofio, a thraddodiad wedi ei wreiddio’n ddwfn bellach yw gwisgo’r blodyn ar yr unfed ar ddeg o Dachwedd er cof am laddedigion rhyfel. Nodwedd amlwg o symbolaeth blodau, a symbolaeth natur yn gyffredinol, yw iddynt gynrychioli harddwch nwyfus a bywyd, boed y symbolaeth yn gweddu i’r achlysur neu’n gyferbyniad urddasol i naws ddifrifol a phrudd; amhosib, er enghraifft, yw cerdded drwy fynwent heb sylwi ar dusw o flodau yma ac acw’n tasgu lliw dros lwydni’r beddau. Fel y mae byd natur yn harddu profiadau pob dydd, mae hefyd yn addurno ein barddoniaeth, ac felly’n cael lle mewn cerddi sy’n ymdrin â rhyfel. Roedd y ddelweddaeth yn boblogaidd gan feirdd Cymraeg a Saesneg a ganodd yn ystod y Rhyfeloedd Byd, ac fel y gwelwn maes o law, mae’n dal i gael ei defnyddio mewn barddoniaeth gyfoes.

Nid yw’n syndod mai blodyn y pabi sy’n derbyn y sylw mwyaf yn y farddoniaeth, yn enwedig yn y cerddi hynny sy’n coffáu neu sy’n sôn am gyfnod y Rhyfel Mawr. Bu’r blodyn yn symbol o golled y Rhyfel Byd Cyntaf er 1915, gan mai hwnnw oedd y blodyn cyntaf i dyfu ar feysydd y brwydro yn Ffrainc, yng ngwlad Belg ac yn Galipoli.<sup>53</sup> Fe welwyd yn syth i’w liw coch gynrychioli gwaed y milwyr a fu farw ar y meysydd hynny. Cafodd y symbolaeth hon ei hailadrodd droeon yng nghanu’r beirdd yn ystod cyfnod y Rhyfel, ac mae’n ddelwedd sy’n dal i ymddangos yn gyson yng ngherddi’r beirdd diweddar hefyd.

Cyferbynna Alan Llwyd, yn ei gerdd ‘Blodau Pabi ym Medi’,<sup>54</sup> liw melyn yr yd mewn cae â choch y pabïau sydd ‘fel lladdfa ar bob llaw’. Dafnau gwaed yw petalau’r blodau a thry’r cae a’i lond o babïau coch yn faes brwydr ym meddwl y bardd, a chyrrff gwaedlyd wedi eu gwasgaru dan draed. Ymddengys yr un cyferbyniad rhwng lliw yr yd a’r pabi yn ‘Milwyr’ gan Gwyn Thomas,<sup>55</sup> sy’n agor â’r geiriau, ‘Mae’r pabi yn loyw / Fel gwaed yn yr yd’. Cynrychiola’r yd gnwd iach ac fe’i defnyddir yn aml fel symbol o helaethrwydd; dyma greu

<sup>53</sup> <http://www.greatwar.co.uk/article/remembrance-poppy.htm> (Cyrchwyd 05/12/2012).

<sup>54</sup> Alan Llwyd, *Ffarwelio â Chanrif* (Llandybie, 2000), tt.14-15.

<sup>55</sup> Gwyn Thomas, *Cadwynau yn y Meddwl* (Dinbych, 1976), t.61.

cyferbyniad arall rhwng ffrwyth a bywyd y tir ar y naill law, a marwolaeth a gwaed y bechgyn ar y llaw arall. Gall fod adlais o draddodiad y canu gwerin cynnar yn y cerddi wrth i'r beirdd gysylltu'r yd â bywydau ifainc a gafodd eu medi'n rhy gynnar. Fel y dangosodd E. G. Millward, nodwedd a ddirywiodd yn sylweddol yn sgil y Diwygiad Methodistaidd oedd iaith y blodau yn y canu gwerin cynnar, wrth i ddelweddau Beiblaidd gymryd lle'r delweddau natur a ystyrid yn elfennau paganaidd.<sup>56</sup> Nid blodyn hardd mo pabi Alan Llwyd na phabi Gwyn Thomas yn y cerddi hyn, ac mae'r ddau yn mynd yn groes i ramantiaeth ddisgwyliedig y ddelwedd o flodau, fel y gwna nifer o feirdd eraill hefyd. Cyflwyno Alan Llwyd ddarlun afiach, barus o'r blodau wrth iddynt 'besgi yn eu baw', a defnyddia eirfa hyll a chras er mwyn cyfleu hagrach rhyfel: 'pesgi' yn lle tyfu neu flodeuo, 'baw' yn hytrach na phridd, a 'gwaed' i ddisgrifio'r maeth a ddaw o belydrau'r haul.

Defnyddia Norman Closs Parry hefyd ddelwedd y cae yd mewn englyn â'r teitl 'Pabi Coch';<sup>57</sup> cyfeiria at y pabiau fel 'blodau co', sy'n 'rhudd / Yn yr yd yn chwifio'. Gwelwn eto'r ystrydeb o'r coch yn britho'r cae euraidd, ond i'r glust mae hon yn llinell amwys. Gallwn gyferbynnu yma ryddid y blodau â chaethiwed y milwyr a glymwyd wrth eu tynged dan orfodaeth filwrol. Mae amwysedd yn rhan gyntaf y paladr hefyd: 'Petalau cain yw blodau co'. Gall gyfeirio'n syml ar freuder petalau'r pabi, y blodau a gysylltir â chofio am ryfeloedd, neu at eiddilwch cof rhai am ryfel, ac at hydeimledd y pwnc yn gyffredinol. Noda'r bardd swyddogaeth arall i'r pabi, sef cofio'r 'graith ar bellennig ro'; cofiwn am y modd y rhwygwyd y tir dramor ac am y modd y mae craith yn beth parhaol sy'n cysylltu digwyddiad â lle am byth. Meddyliwn hefyd am 'bridd tramor' R. Williams Parry yn ei englynion coffa i Hedd Wyn. Gadawodd y Rhyfel Mawr, fel pob rhyfel arall, greithiau dyfnion eraill: creithiau llythrennol ar gyrff milwyr i'w hatgoffa o'u hanafiadau, a chreithiau a gafodd eu naddu a'u sgraffinio ar fywydau'r teuluoedd a gollodd anwyliaid. Wrth gofio am amwyster dechrau'r englyn, tybed a oes craith arall dan sylw yma? Craith ar gof dynoliaeth? Mae hanes y Rhyfel Mawr mor gyfarwydd i ni bellach, bron nad yw'r ffeithiau'n wybodaeth reddfol ynom, yn graith ar ein hanes.

---

<sup>56</sup> E. G. Millward, 'Delweddau'r Canu Gwerin', *Canu Gwerin*, 3 (1980), t.19.

<sup>57</sup> *Barddas*, 169 (Mai 1991), t.17.

Ynghlwm wrth ddelwedd y pabi, caiff delweddau milwrol eu cynnal drwy gerdd Alan Llwyd, 'Blodau Pabi ym Medi', a gwelwn debygrwydd rhwng y blodau ar wasgar a'r 'catrodau' llonydd ar faes y brwydro; fe ddisgrifia'r blodau'n 'Helmedau dan haul Medi / â bidog dan bob un'.<sup>58</sup> Ymdebyga'r blodau hefyd i'r 'cyrff di-rif dan draed' gan ymestyn ymhellach drosiad y blodau'n gyrff meirw. Cyflwyna'r bardd y syniad o fedi yd y cae, ac felly ddifa'r pabïau; yn y weithred o fedi, gwêl Alan Llwyd y genhedlaeth a gafodd ei lladd yn cael ei chasglu oddi ar y ddaear. Dengys mor hawdd yw cael gwared ar gynifer o bobl. Wrth ddefnyddio'r gymhariaeth hon, mae un gwahaniaeth amlwg yn codi rhwng y milwyr a'r cnydau yd ac fe gaiff y gwahaniaeth hwnnw ei bwysleisio yn y pennill olaf; bydd tyfiant arall o yd ac o flodau, ond ni fydd ailddyfodiad i'r meirw.

Ceisio grynhoi holl arwyddocâd y pabi yn y gerdd, a thrwy'r blodyn hwnnw y clyw 'ochneidiau' a sgrechfeydd y milwyr sy'n cael eu dal a'u cyffeithio yn symbol y pabi. Wrth iddynt riddfan mewn poen, mae'r 'sgrech ymysg yr yd' yn gadael ei hôl dolefus, 'yn glwyf o waedd, yn hyglyw fud';<sup>59</sup> sgrech arswydus sy'n cyniwair drwy'r distawrwydd. Cyfeiria eto at waedd y bechgyn sydd i'w chlywed drwy'r petalau cochion mewn englyn o'r gerdd 'Hedd Wyn':<sup>60</sup>

Ond dolef yw'r petalau, dolef fud  
Olaf oll eu hangau;  
Gwaedd o'r geg a oedd ar gau,  
Gwaedd oer o geg ddieiriau.<sup>61</sup>

Dyma waedd sy'n rhy boenus i'w hyngan, gwaedd sydd wedi ei weldio yn nhragwyddoldeb y pabi coch fel symbol cenedlaethol. Mewn englyn arall yn y gerdd i Hedd Wyn, mae sôn am waedd y gweddwon sydd i'w chlywed yr un mor daer â gwaedd y milwyr.

Cyflwyno Alan Llwyd ddelweddau treisgar yn 'Blodau Pabi ym Medi' i gyfleu realiti'r sefyllfa yng nghaeau Fflandrys yn ystod cyfnod y Rhyfel Mawr. Gwêl y blodyn fel archoll

---

<sup>58</sup> Alan Llwyd, *Ffarwelio â Chanrif*, t.14.

<sup>59</sup> Ibid.

<sup>60</sup> Alan Llwyd, *Yn y Dirfawr Wag* (Llandybïe, 1988), tt.23-5.

<sup>61</sup> Ibid., t.23.



poenus ar wyneb milwr, yn ‘ffrwydrad coch bwledi / yng nghanol wyneb dyn’.<sup>62</sup> Mae ‘fel cusan gwaed,’ meddai, gan halogi’r darlun traddodiadol o flodyn. Dyma droi tynerwch yn wae, a throi harddwch yn beth atgas. Mae Alan Llwyd yn cydnabod tlysnîr pabi, ond anaddas yw symbol cain i gofio’r fath drallod:

Coffáu y maent yn ffiaidd  
brydferth yr aberth rad,  
ac yn eu tlysnî ciaidd  
mae bryntni coch pob cad ...<sup>63</sup>

Caiff harddwch a hylltra eu cyfochri’n aml yn y cerddi, a hynny’n arbennig wrth i’r beirdd gyfeirio at flodau. Fe geir yr un cyfosodiad gan feirdd Saesneg adnabyddus o gyfnod y Rhyfel Mawr, yn ‘Two Fusiliers’ gan Robert Graves ac yn ‘Easter, 1916’ gan W. B. Yeats, er enghraifft. Noda James Anderson Winn yn ei ragymadrodd i *The Poetry of War*:

Poets true to their calling, however, use the full range of poetry’s powers to express the full range of our contradictory responses to war, including our ability to find beauty amid the horror.<sup>64</sup>

Yr un cyferbyniad sydd gan Alan Llwyd yn ‘Y Ddwy Awen’.<sup>65</sup> Yn y gerdd honno, mae’n cyflwyno inni ei ddwy awen, Heledd a Blodeuwedd; Heledd yn llun gwynfydedig o ddewrder prudd, ac yna Blodeuwedd, hedyn drygioni. Cyfeirir at wersyll crynhoi yr Ail Ryfel Byd yma, ond cofiwn hefyd am y Rhyfel Mawr drwy’r cyfeiriad at y pabi. Y blodau, a Blodeuwedd ei hun, yw’r harddwch sy’n cuddio’r hagrwch:

O Ddachau y daw Blodeuwedd:  
hi yw’r trais dan wrid rhosyn,  
y felltith yn rhith yr hardd,  
y lladdfa dan y fantell o wyddfïd,  
a hi yw ubain y gwaed yn y pabi.<sup>66</sup>

---

<sup>62</sup> Alan Llwyd, *Ffarwelio â Chanrif*, t.14.

<sup>63</sup> Ibid.

<sup>64</sup> James Anderson Winn, *The Poetry of War* (Cambridge, 2008), t.4.

<sup>65</sup> Alan Llwyd, *Cerddi Alan Llwyd 1968-1990: Y Casgliad Cyflawn Cyntaf* (Llandybïe, 1990), t.64.

<sup>66</sup> Ibid.

Gwelwn yr hardd a'r hagr yn cael eu cyfochri eto yn 'Hedd Wyn' wrth i Alan Llwyd gyfeirio at y pabi: 'A'i degwch yn bidogi / Daear ddofn ein hangof ni'.<sup>67</sup> Eglura fel y mae'r blodyn wedi ei angori gan ei wreiddiau yn gadarn yn y pridd fel y mae'r atgof o ryfel wedi ei naddu i mewn i'n meddyliau ac i'n cof ni.

Fel yn 'Blodau Pabi ym Medi', cynrychioli gwaed ac angau y mae'r pabi yn englynion Alan Llwyd i Hedd Wyn wrth iddo gyfeirio at y milwyr meirw: 'Y rhai mud, dirwymedi, ailwaedant / Ym mlodyn y pabi'.<sup>68</sup> Mae'r pwyslais ar y cofio yma wrth i ninnau weld gwaed y lladdedigion ym mhetalau'r blodyn. Ond mewn englyn arall a ddaw o gerdd sy'n gyfres o englynion, 'Geiriau drwy'r Garreg',<sup>69</sup> awgryma na all un blodyn bychan 'gwaetgoch' gynrychioli na chyfleu mawredd yr aberth a'r boen a brofwyd adeg y Rhyfel. Lleisiau chwerw lladdedigion y Rhyfel Mawr sydd i'w clywed yn y gerdd:

Ni yw'r rhai nas cofiasoch: – o'n hangau  
Ac o'n hing lluniasoch  
Atgof o babi gwaetgoch:  
Gwifren fain dan gelain goch.<sup>70</sup>

Mae'r gwaed yn dal i fod yn lliw'r petalau, ond symbol heb wir ystyr yw'r pabi inni bellach; ni chofiwn am y rhai a laddwyd wrth inni edrych ar y blodyn ac nid ystyriwn ei symbolaeth chwaith. Dywed Alan Llwyd wrthym yn yr englyn olaf am beidio â thrafferthu ceisio harddu marwolaeth â'n pabiau a'n rhosod galarus:

Ni chofleidiwch chwi flodau'n – dyddiau ir;  
Nid addurnwch feddau  
Â'ch pabi a'i gochni gau,  
Na chroes wen â'ch rhosynnau.<sup>71</sup>

Mae cywair dilornus i eiriau'r bardd wrth iddo awgrymu naifrwydd a ffolineb y rhai sy'n cofio marwolaethau'r milwyr, yn meddwl y gallent weld y gwaed yn lliw'r pabi. Ni wyddom ni mewn gwirionedd sut goch oedd coch marwolaeth ar y meysydd, a rhyfygus yw hyd yn

<sup>67</sup> Alan Llwyd, *Yn y Dirfawr Wag*, t.23.

<sup>68</sup> Ibid.

<sup>69</sup> Alan Llwyd, *Cerddi Alan Llwyd 1968-1990: Y Casgliad Cyflawn Cyntaf*, tt.375-7.

<sup>70</sup> Ibid., t.376.

<sup>71</sup> Ibid., t.377.

oed meddwl ein bod ni'n gallu uniaethu â phrofiad y milwyr. Gwelwn ddelwedd arall o fyd natur yn yr englyn hwn wrth i'r bardd gyfeirio at y milwyr ym mlodau eu hieuenctid. Mae'r sôn am 'flodau'n – dyddiau ir' yn ein hatgoffa i'r bechgyn gael eu lladd yn ystod cyfnod melysaf eu bywyd, ac mae'n pwysleisio na chawsant fyw i brofi bywyd yn ei lawnder, i briodi ac i fagu teulu.

Ceir englyn arall i'r pabi gan Rhys Dafis mewn rhifyn o *Barddas* yn 1982, 'Y Pabi',<sup>72</sup> sydd eto'n cyfeirio at waed, ond sy'n mynd gam ymhellach wrth drosi ymyl crwn y petal yn ddarn o gnawd cignoeth bachgen o filwr. Mae'r 'gwron' yn y llinell olaf a'r cyferbyniad rhwng yr ifanc a'r hen yn ein hatgoffa o 'greddf gŵr, oed gwas' Aneirin o awdl gyntaf y Gododdin, gan ddangos llanc ifanc wedi ei orfodi i dyfu'n ddyn cyn ei amser. Cyfleu colli diniweidrwydd a chaledu i erchyllterau'r byd a wna'r bardd, felly, ond nid yw'r caledu'n atal yr wylo chwaith; bachgen ifanc yw hwn o hyd mewn gwirionedd:

Ennyd o boen wedi byw, – hen wayw'n  
Cyniwair hyd heddyw;  
Boch o gnawd bachgen ydyw,  
Deigryn o waed gwron yw.<sup>73</sup>

Nid yw'r pabi'n ymddangos mewn golau ffafriol yma chwaith. Pwysleisio'r boen sydd ynghlwm wrth y blodyn y mae Rhys Dafis, ac o'i weld daw hunllefau rhai o'r dioddefwyr yn ôl i'w haflonyddu.

Ni chaiff y pabi ei enwi'n benodol yn 'Blodau' gan Iwan Llwyd,<sup>74</sup> ond gwyddom mai dyma'r blodyn dan sylw wrth iddo gyfeirio at ei liw a'i leoliad yn Fflandrys: 'Mae'r blodau yn Ypres / yn goch fel y gwaed'. Dyma gerdd sy'n rhestru'r hyn a gynrychiola'r pabi gan roi gogwydd Cymreig ar y symbolaeth; disgrifir y blodau 'fel cadair eisteddfod / yn dywyll a dof'.<sup>75</sup> Wrth gwrs, cyfeirio at Gadair Ddu Hedd Wyn a wna Iwan Llwyd, a hynny'n clymu â'r modd y gwastraffwyd bywydau gwŷr ifanc, dawnus. Cymhara'r bardd aberth y milwyr ag aberth Crist yn y pennill olaf, cymhariaeth a welir yng nghanu rhyfel beirdd Cymraeg a

<sup>72</sup> *Barddas*, 68 (Tachwedd 1982), t.2.

<sup>73</sup> Ibid.

<sup>74</sup> Iwan Llwyd, *Be 'di blwyddyn rhwng ffrindia?: Cerddi 1990-99* (Bodedern, 2003), t.68.

<sup>75</sup> Ibid.

Saesneg y Rhyfel Byd Cyntaf. Mae Alan Llwyd, yn ei ragymadrodd trwyadl i *Gwaedd y Bechgyn*, yn cyfeirio at gerddi gan Hedd Wyn, Elias Williams, Herbert Read a Siegfried Sasoon sy'n cynnwys y gymhariaeth.<sup>76</sup> Yn wahanol i fwriad Iwan Llwyd, cynnig math o gysur yr oedd y cymariaethau hyn gan feirdd cyfnod y rhyfel. Awgryma'r bardd yn y pennill olaf mai tristach yw gweld y miloedd o filwyr yn cael eu gorfodi i laddfa'r frwydr na gweld Iesu yn dewis marw ar y Groes:

mae'r blodau yn Ypres  
deirgwaith mor drist  
â'r blodau a blethwyd  
am arddyrnau'r Crist.<sup>77</sup>

Sigodd y ffydd Gristnogol yn arw gyda'r Rhyfel Byd Cyntaf; cefnodd milwyr a galarwyr ar Dduw a chollodd rhai eu cred ynddo'n gyfan gwbl. Ysgrifennodd Cynan, Dyfnallt a sawl bardd arall yn gwbl ddidwyll a chyhoeddus am y prawf a roddwyd ar eu ffydd. Efallai mai ergyd at grefydd sydd i'r pennill hwn, arlliw o ddirmyg sy'n bychanu aberth Crist ac yn dyrchafu safle'r milwyr a laddwyd. Ond anodd yw dyfalu pam y mae'r blodau 'deirgwaith mor trist'. Gwyddom fod y rhif tri yn ymddangos sawl gwaith yn y Beibl; cofiwn mai am dri o'r gloch y bu Iesu farw ar y Groes a chofiwn i Pedr wadu Iesu deirgwaith; ond efallai mai pwysleisio a wna Iwan Llwyd fod y tristwch o golli'r milwyr yn llawer nes at ein dirnadaeth ni, yn nes at realiti efallai? Ai gosod Crist mewn traddodiad o lèn gwerin neu o chwedloniaeth yw bwriad y bardd, gan wfftio'r drain a'u troi'n flodau tebyg i'r hyn a gaed ar Galan Mai? Nid yw gwaith Iwan Llwyd yn dangos argyhoeddiad Cristnogol amlwg, er iddo brofi drwy ei farddoniaeth ei fod yn gyfarwydd â'i Feibl fel mab i weinidog. Ai dirmygu Cristnogaeth, felly, a'r holl bropaganda crefyddol oedd ynghlwm â'r Rhyfel Mawr, oedd ei fwriad? Neu efallai mai cyfeirio at y drain y mae'r blodau, ac at y modd y cadwynwyd Crist i'w ffawd, y drain fel gefynnau amdano, a hynny'n adlewyrchu fel y gorfodwyd y bechgyn i ymuno â'r fyddin dan ddeddf gwlad.

---

<sup>76</sup> Alan Llwyd ac Elwyn Edwards (gol.), *Gwaedd y Bechgyn: Blodeugerdd Barddas o Gerddi'r Rhyfel Mawr 1914-1918* (Llandybie, 1989), tt.64-5.

<sup>77</sup> Iwan Llwyd, *Be 'di blwyddyn rhwng ffrindia?: Cerddi 1990-99*, t.68.

Cynhwyswyd englyn arall yn dwyn y teitl ‘Y Pabi’<sup>78</sup> ym mlodeugerdd Alan Llwyd ac Elwyn Edwards, *Gwaedd y Bechgyn*. Ithel Rowlands yw awdur yr englyn ac mae ei eiriau’n gyforiog o arwyddocâd:

Ifanc yn nrama’r cofio, – dwfn ei wrid,  
Dyfnha’r ing lle byddo;  
Y mae barn Ypres arno,  
A dafn o waed o’i fewn o.<sup>79</sup>

Efallai fod y bardd yn cyfeirio yn y llinell gyntaf at y cysylltiad cynnar a wnaed rhwng y pabi a rhyfel; yn wir, bu’n symbol swyddogol gan Leng Frenhinol Prydain er 1921 i ddynodi cofio’r Rhyfel Mawr.<sup>80</sup> Neu hwyrach mai awgrymu y mae fod pob pabi newydd yn ifanc, fel y milwyr a orfodwyd i’r drin. Diddorol hefyd yw’r cyfeiriad at ‘[dd]rama’r cofio’. Tybed a oes ergyd ddilornus yma wrth awgrymu mai sioe yw’r ddefod ffurfiol o gofio, sioe flynyddol lle nad yw’r pabi ond rhan o’r set? A yw’r pabi’n gwrido gan y cywilydd o fod yn rhan o’r seremoni hon o ffug alaru cyhoeddus? Yr un agwedd sydd gan Meirion MacIntyre Huws tuag at seremoni’r cofio yn ‘Y Maes’,<sup>81</sup> lle gwêl y ddefod yn un artiffisial ger y gofeb:

Â hen glwt coch, gwyn a glas  
Yn aileni’r alanas,  
Hyd ei herchwyn rhown dorchau  
Yn eco ffug o’n coffáu.<sup>82</sup>

Os mai’r un syniad oedd gan Ithel Rowlands, efallai mai dychanol yw ail linell ei gerdd yntau. Neu a yw’r pabi mewn difrif yn cael y fath effaith ysgytwol arnom, fel ei fod yn peri inni uniaethu i’r byw â’r golled? Mae’n debyg mai dyna fwriad y symbol, yn ôl y bardd: ein hatgoffa o dynged dywyll Ypres rhwng 1914 ac 1918 a chofio am y gwaed a dywalltwyd yn ofer.

---

<sup>78</sup> Alan Llwyd ac Elwyn Edwards (gol.), *Gwaedd y Bechgyn*, t.205.

<sup>79</sup> Ibid.

<sup>80</sup> <http://www.greatwar.co.uk/article/remembrance-poppy.htm> (Cyrchwyd 05/12/2012).

<sup>81</sup> Alan Llwyd ac Elwyn Edwards (gol.), *Gwaedd y Bechgyn*, tt.219-21.

<sup>82</sup> Ibid., t.220.

Gyda 'dafn o waed o'i fewn o', cawn eto'r ystrydeb ynglŷn â lliw'r pabi, ond yr awgrym y tro hwn yw fod gwaed y milwyr a laddwyd yn Ypres yn llythrennol y tu mewn i'r blodyn. Byddai'r gwaed wedi bod yn gymysg â'r pridd mewn darn o dir a gafodd ei aredig gan frwydr, lle tyfodd y pabïau yn Fflandrys, a byddai eu gwreiddiau wedi amsugno gwaed yn ogystal â maeth y pridd. Caiff yr un syniad ei fynegi mewn cerdd gan y bardd Saesneg Isaac Rosenberg, a ysgrifennai adeg y Rhyfel Mawr. Mae'r dweud yno'n fwy moel ac agos at yr asgwrn wrth iddo ddisgrifio 'Poppies whose roots are in man's veins' mewn cerdd o'r enw 'Break of Day in the Trenches'.<sup>83</sup> Eglura Dawn Bellamy ymhellach: 'Nourished by the constant flow of blood from dying soldiers, the poppies fall, but are constantly replaced to drop again'.<sup>84</sup> Ar hyd yr un trywydd, disgrifia Alan Llwyd gyrff lladdedigion y Rhyfel Mawr fel gwrtaithe yn cael ei wasgaru dros y tir yn 'Ar Gynhaef Gwair'<sup>85</sup> ac eto yn 'Wilfred Owen: Lloegr';<sup>86</sup> ac fe gyflwyno'r un ddelwedd yn 'Lleoedd':<sup>87</sup>

Ni chlywsom am y Somme nes i waed  
y bechgyn fwydo ei fwd ...<sup>88</sup>

Rhodddwyd pwyslais ar waed y milwyr yng ngherddi'r Rhyfel Mawr, fel y nododd Alan Llwyd yn rhagymadrodd *Gwaedd y Bechgyn*, ond dyrchafu gwerth y gwaed a wnaed yn y cerddi hynny gan geisio darbwyllo galarwyr fod eu hanwyliaid wedi marw dros achos teilwng.<sup>89</sup> Mae'r pwyslais ar y gwaed yr un mor amlwg yn y cerddi diweddar, fel y gwelsom eisoes, ond pwyslais ychydig yn wahanol a geir erbyn hyn, a hynny ar wastraff y gwaed. Nid dyrchafu'r meirw a geir bellach ond yn hytrach dristáu ynghylch y golled.

Syniad arall a gyflwyno Alan Llwyd yw i'r pabi ennill ei liw drwy gael ei olchi yng nghlwyfau ac ym marwolaeth waedlyd y milwyr. Tebyg iawn yw 'trochi'r pabïau'n eu hangau hwy', o 'Galarnad Cenedhedaeth',<sup>90</sup> i esgyll yr englyn sy'n ymateb i Frwydr y

---

<sup>83</sup> Dyfynnir yn Dawn Bellamy, "'Others have come before you': The Influence of Great War Poetry on Second World War Poets", *The Oxford Handbook of British and Irish War Poetry*, gol. Tim Kendall (Oxford, 2007), t.300.

<sup>84</sup> *Ibid.*, tt.300-1.

<sup>85</sup> Alan Llwyd, *Oblegid Fy Mhlant* (Abertawe, 1986), t.27.

<sup>86</sup> Alan Llwyd, *Cerddi Alan Llwyd 1968-1990: Y Casgliad Cyflawn Cyntaf*, t.370.

<sup>87</sup> Alan Llwyd, *Ffarwelio â Chanrif*, tt.93-4.

<sup>88</sup> *Ibid.*, t.93.

<sup>89</sup> Alan Llwyd ac Elwyn Edwards (gol.), *Gwaedd y Bechgyn*, t.64.

<sup>90</sup> Alan Llwyd, *Yn Nydd yr Anghenfil* (Caernarfon, 1982), tt.41-2.

Falklands/Malvinas, 'Milwriaeth':<sup>91</sup> 'Yn goch y trochasoch oll / Dorchau yng ngwaed eu harcholl'. Diseremoni a diurddas yw 'trochi', ac eto, gwêl y bardd gyfle i gyfleu moelni aflednais rhyfel drwy'r geiriau, gan amddifadu'r ddelwedd filwrol o bob balchder ac ymffrost. Seremoni amharchus a ddarlunnir yma. Nid oes ond ffurfioldeb oeraidd tu ôl i'r torchau coch, ond mae gwthio'r rheiny i'r briw yn brifo hefyd. Dengys y bardd nad oes teimlad nac addfwynder yn perthyn i'r weithred o osod torch wrth gofeb bellach; gweithred ystrydebol, ddefodol ydyw.

Addurn i guddio poen a chuddio creithiau yw pabi Philippa Gibson yn ei soned 'Y Pabi Coch'.<sup>92</sup> Fe restrir celwyddau gwlad a llywodraeth drwy'r gerdd gan bwysleisio'r modd y mawrygwyd rhyfel, ond parod iawn yw'r bardd i gynnig y gwirionedd inni hefyd. Stori am arwyr dewr a ddewisodd aberth dros eu gwlad a gawn gan fyddinoedd a llywodraethau, ond defnyddia Philippa Gibson ddelwedd Feiblaidd o Eseia 53:7 i ddangos y milwyr yn dilyn ei gilydd fel wŷn i'r lladdfa. Gwnânt hynny dan regi wrth golli cyfeillion, a dyna ddangos gwirionedd truenus y sefyllfa. Nid gwŷr hyderus oedd y rhain a gredai fod Duw yn ymladd o'u plaid, ond llanciau'n llawn ofn wrth iddynt weld cyfraith y Beibl a thraddodiad y capel, a fyddai, mae'n debyg, yn gyfarwydd i'r rhan helaeth o Gymry cyfnod y Rhyfel Mawr, yn cael eu sathru. Symbol gwrthun yw'r pabi yma hefyd, symbol sy'n rhamanteiddio rhyfel, sy'n anwybyddu'r boen, y golled a'r orfodaeth i frwydro. Mae'r gerdd yn gorffen gan ddangos siomedigaeth y bardd at y sefyllfa:

Cawn wisgo'r pabi coch: o'u gweld yn llu  
Gorchuddiwn noethni hyll pob celwydd du.<sup>93</sup>

Fe awgrymir bod gwisgo'r pabi'n mynd i leddfdu gofidiau ac esmwytho'r profiad o gofio; ond gwêl Philippa Gibson mai gwadu dioddefaint a wna mewn gwirionedd, a dyrchafu rhyfel i fod yn fath o ddelfryd filwrol.

Er mai difrïo'r pabi a wna'r rhan fwyaf o'r cerddi, defnyddia Alan Llwyd flodau a gwyrddni fel symbolau cadarnhaol yn 'Mawl y Rhai Da'<sup>94</sup> gan droi arfau'n flodau mewn

<sup>91</sup> Alan Llwyd, *Einioes ar ei Hanner* (Caernarfon, 1984), t.47.

<sup>92</sup> *Barddas*, 290 (Tachwedd/Rhagfyr/Ionawr 2006-2007), t.61.

<sup>93</sup> *Ibid.*

delwedd heddychlon. Yng nghanol tywyllwch adran olaf *Ffarwelio â Chanrif*, lle mae rhyfel a thrais yn themâu llywodraethol, cofio mae'r gerdd hon am y rhai a fu'n ymgyrchu ac yn gweithredu er da dros y ganrif. Fe enwir y Fam Teresa, Bonhoeffer ac Anwar Sadat yn benodol; dyma'r rhai a fu'n cynnal gobaith yng nghanol dyddiau du:

troesant y gynnu'n rhosynnau, a'r sarff yn oen;  
gorchuddiasant bob bidog â'u blodau a phob helmed â'u palmwydd ...<sup>95</sup>

I'r gwrthwyneb, a gan gadw'n driw i anfri'r pabi, gwelsom yn 'Blodau Pabi ym Medi' i'r bardd drosi'r blodyn i gynrychioli arfau a chynrychioli'r milwyr eu hunain, yn gatrawd â'u 'Helmedau dan haul Medi / â bidog dan bob un'.<sup>96</sup> Cyflwyno John Gruffydd Jones ddelwedd debyg yn ei gerdd 'Arras',<sup>97</sup> y gerdd gyntaf yn y casgliad a enillodd y Goron iddo yn Eisteddfod Genedlaethol 1987. Ymdrech sydd gan y bardd yma i uniaethu â phrofiadau ei dad a fu'n filwr yn y ddinas yng ngogledd Ffrainc yn ystod blynyddoedd y Rhyfel. Yn y gerdd hon, dail y blodau melyn yw'r arfau:

A'r blodau melyn  
I gyd yn wynebu'r haul  
Fel milwyr balch,  
A'u dail yn fidogau sglein yn y tes.<sup>98</sup>

Trosir y milwyr yn flodau eto mewn englyn gan fardd dan y ffugenw 'Y Pabi Coch'. Englyn yw hwn a gyhoeddwyd yn y cylchgrawn *Barddas* yn 1999 fel cynnig ar gystadleuaeth. Pwnc yr englyn ar gyfer y gystadleuaeth oedd 'Porth Menin, Ypres', ac er nad 'Y Pabi Coch' oedd yn fuddugol, mae'n werth rhoi sylw i'r englyn â'i gyfeiriadau perthnasol:

Er i lwydrew a'i ladrad ymledu  
Ym mlodau'n gwareiddiad  
Yn hirlwm o waed 'sgarlad,  
Gwêl i lawr betalau'n gwlad.<sup>99</sup>

---

<sup>94</sup> Alan Llwyd, *Ffarwelio â Chanrif*, tt.151-2.

<sup>95</sup> *Ibid.*, t.151.

<sup>96</sup> *Ibid.*, t.14.

<sup>97</sup> J. Elwyn Hughes (gol.), *Cyfansoddiadau a Beirniadaethau Eisteddfod Genedlaethol Frenhinol Cymru Bro Madog 1987* (Llandysul, 1987), tt.34-5.

<sup>98</sup> *Ibid.*, t.34.

<sup>99</sup> *Barddas*, 250 (Ionawr/Chwefror 1999), t.38.



Cafodd gwareiddiad dynoliaeth ei ddifa, yng ngolwg y bardd; gwêl i bob cynnydd a flagurodd o'n gwareiddiad erioed gael ei sathru, ac fe laddwyd ffrwyth y blagur hynny, sef y blodau y cyfeirir atynt, gan farrug oerllyd rhyfel. Rhydd Alan Llwyd ei sylwebaeth fanwl, arferol ar holl englynion y gystadleuaeth, ac fe betrusa i egluro amwyster llinell olaf yr englyn hwn. Gellir darllen y llinell gyda'r ddealltwriaeth fod y milwyr, sef petalau'n gwlad, wedi eu torri, a'u bod bellach wedi eu gwasgaru'n flêr dros y tir lle bu'r frwydr. Neu, o gofio testun yr englyn: y mur hwnnw sy'n dal dros 54,000 o enwau. Noda Alan Llwyd bosibilrwydd arall, sef mai 'gwêl i lawr' yn yr ystyr o'u cofnodi, neu eu hysgrifennu i lawr a olyga'r bardd. 'Ai ceisio dweud y mae eu bod yn fyw er iddyn nhw gael eu difa?', hola'r golygydd.<sup>100</sup> Wedi'r cyfan, dyma swyddogaeth beirdd ers cyfnod cynharaf ein barddoniaeth, cadw cof am y meirw'n fyw a'u coffáu'n deilwng. Mae Porth Menin yn sicrhau tragwyddoldeb i'r meirw, heb os; ond trwy ysgrifennu a chofnodi'r englyn, cyfranna'r bardd at y cofio hefyd.

Yn wahanol iawn i weddill y beirdd sy'n sôn am y pabi, ceisio chwalu'r ddelwedd waedlyd a wna Idwal Lloyd. 'Y Pabi'<sup>101</sup> yw teitl ei englyn yntau, a'i fwriad yw ein hannog i werthfawrogi'r blodyn am ei harddwch a'n hysgogi i edrych arno fel addurn sy'n lliwio'r dolydd dros dymhorau'r gwanwyn a'r haf. Mae'r cysylltiad â'r Mis Du ac â thristwch wedi ei serio ar ein meddyliau, ac ymgais sydd gan Idwal Lloyd i ddileu'r syniad o'r pabi fel 'addurn bedd' yn unig.

Dyna, ar y llaw arall, union swyddogaeth pabïau Alan Llwyd yn 'Blodau',<sup>102</sup> 'Geiriau drwy'r Garreg'<sup>103</sup> ac eto yn 'Blodau Pabi ym Medi'<sup>104</sup> lle y cyfeiria atynt yn ddigon diseremoni fel 'blodau blêr'. Dyma ddelwedd a gaiff ei chyflwyno gan Gerwyn Williams hefyd, a delwedd sy'n mynd yn groes i fwriad addurniadol y blodau. Dengys y beirdd yr elfen wastraffus sydd i'r cofio swyddogol. Cofeb a mynwent Thiepval sy'n dwyn sylw Gerwyn Williams mewn rhan o'i gerdd 'Cofio'r Daith',<sup>105</sup> ac fe sylwa mai 'Dim ond torchau blodau

---

<sup>100</sup> Ibid.

<sup>101</sup> *Barddas*, 166 (Chwefror 1991), t.2.

<sup>102</sup> Alan Llwyd, *Ffarwelio â Chanrif*, tt.89-90.

<sup>103</sup> Alan Llwyd, *Cerddi Alan Llwyd 1968-1990: Y Casgliad Cyflawn Cyntaf*, tt.375-7.

<sup>104</sup> Alan Llwyd, *Ffarwelio â Chanrif*, tt.14-15.

<sup>105</sup> Gerwyn Williams, *Tafarn Tawelwch* (Llanrwst, 2003), tt.15-22.

bras / yn prysur wywo / sy'n difwyno'r lle, / sy'n drysu'r unionder symetrig'.<sup>106</sup> Amharu ar daclusrwydd y fynwent a wna'r blodau yn hytrach na'i harddu. Yn 'Washington',<sup>107</sup> y gerdd olaf yn ei ddilyniant buddugol yn Eisteddfod Genedlaethol 1994, 'Dolenni', fe gyflwyno'r un ddelwedd eto. Yno, mae'n crybwyll y bobl wrth gofeb Fiet-nam yn Washington, yn 'gwthio torchau / eu blodau blêr / i'r hafnau rhwng y meini'.<sup>108</sup> Nid oes urddas na pharch yn rhan o'r ddefod, ac mae golwg rad a di-chwaeth ar y gybolfa flodeuog, gan ddibrisio aberth y milwyr.

Yn yr un gerdd, mae Gerwyn Williams yn gweld 'daffodil Hooson' yng nghanol y fyddin o flodau, 'a grymai'n llawn cywilydd'.<sup>109</sup> Mae'n debyg mai awgrymu a wna'r bardd mai llawer gwell fyddai i'r blodau aros yn y pridd, 'yn dawnsio yn y gwynt a'r glaw', a dyfynnu o gerdd I. D. Hooson 'Daffodil'.<sup>110</sup> Pwysleisio'r gwastraff a wna Gerwyn Williams yma, yn enwedig felly wrth ychwanegu: 'doedd a wnelo hyn / ddim â ni'.<sup>111</sup> Fe'n beirnedir am ddifetha byd natur, am wastraffu blodau a'u dwyn o'u cynefin naturiol, a hynny heb reswm teilwng. Mae yma hefyd ergyd tuag at ein cenhedlaeth ni a'n hagwedd hunangyfiawn, ac ergyd arall i raddau tuag atom ni'r Cymry sy'n gweld Washington fel rhywle rhy bell i boeni amdano. Cywilyddio at ein diffyg cydymdeimlad a'n hagwedd hunanol a wna'r Genhinen Pedr Gymreig yma.

Ein difaterwch ni ynghylch rhyfeloedd sydd dan sylw yn 'Ar ôl yr Ail Ryfel Byd' gan Gwyn Thomas,<sup>112</sup> lle y dywed fod arch y rhyfel wedi ei chladdu yn y pridd, o'r golwg mewn anghofrwydd. Ond awgrym y bardd yw nad claddu'r rhyfel a wnaethom, ond plannu rhywbeth erchyll; gyda'r gwanwyn 'blodeuodd yr haearn a'r tân' a 'deiliodd marwolaeth'.<sup>113</sup> Neges Gwyn Thomas yw bod angen cofio erchyllterau rhyfeloedd er mwyn eu hatal yn y dyfodol. Claddu peth haniaethol y mae Alan Llwyd yntau yn 'Blodau'<sup>114</sup> wrth roi'r ganrif i'w bedd, a gwna hynny wrth gofio ac edrych yn ôl ar yr ugeinfed ganrif. Sylwa nad oes gennym flodau ar ôl i'w gosod ar arch y ganrif ei hun, wrth iddi hithau lithro i ebargofiant. Noda i bob

---

<sup>106</sup> Ibid., t.20.

<sup>107</sup> Gerwyn Williams, *Cydio'n Dynn* (Talybont, 1997), t.38.

<sup>108</sup> Ibid.

<sup>109</sup> Ibid.

<sup>110</sup> I. D. Hooson, *Cerddi a Baledi* (Dinbych, 1958), t.41.

<sup>111</sup> Gerwyn Williams, *Cydio'n Dynn*, t.38.

<sup>112</sup> Gwyn Thomas, *Chwerwder yn y Ffynhonnau* (Dinbych, 1962), t.36.

<sup>113</sup> Ibid.

<sup>114</sup> Llwyd, Alan, *Ffarwelio â Chanrif*, tt.89-90.

pabi gael ei hawlio gan y Rhyfel Byd Cyntaf, ac i ‘flodau na ad fi’n angof’ gael eu defnyddio pan aeth y pabiau’n brin; blodau addas i bwysleisio’r cofio sy’n ganolog i’r gerdd. Defnyddia Rosyn Saron a lili’r dyffrynnoedd i goffáu Iddewon yr Holocost drachefn, dau flodyn sy’n cael eu henwi gyda’i gilydd yn yr Hen Destament, yng Nghaniad Solomon 2:1. Awgrym y bardd ar ddiwedd y gerdd yw bod mwy o feddau wedi eu cloddio yn ystod y ganrif ddiwethaf nag oedd o wahanol flodau yn y byd i goffáu’r meirwon.

Mae Gerwyn Williams hefyd yn gosod ‘lili’r dyffryn gwargam yn offrwm’ yn ‘Cofio’r Daith’.<sup>115</sup> Mae’n debyg i’r lili ddal chwedlau Cristnogol, ac i’w symbolaeth o burdeb a diniweidrwydd droi’n symbol mwy uniongyrchol o’r Forwyn Fair. Yn ôl un chwedl, ffurfiodd dagrau Mair y blodau wrth iddi wylo wrth droed y Groes.<sup>116</sup> Wylo dros genhedlaeth gyfan a wna lili Gerwyn Williams ac mae ei dristwch yn cael ei adlewyrchu yn osgo’r blodyn.

Cerdd drawiadol sy’n llawn delweddau byd natur yw ‘Y Rhyfel Mawr’ gan Gwyn Thomas.<sup>117</sup> Ceir nodyn i ragflaenu’r gerdd yn egluro mai ‘ymson un clwyfedig wrth iddo edrych i ardd ysbyty’ sydd yma. Cawn gyfeiriad yn syth at y cymylau o siapiau blodeuog sy’n cuddio’r lleuad bob hyn a hyn fel ‘rhosynnau porffor ar draws y lloer’.<sup>118</sup> Ai cymylau mwg yn codi o ffrwydradau bomiau yw’r cymylau tanlyd eu lliw ym meddwl aflonydd y milwr? Disgrifia’r bardd wedyn wreiddiau’r rhosod:

A’u gwreiddiau’n gwaedu yn y pridd, fel mamau,  
I fwytho glwth y petalau.  
Mae fy meddwl yn llawn o waed.<sup>119</sup>

Cofiwn yma am wreiddiau’r milwyr, eu cartrefi a’u teuluoedd, a chofiwn yn arbennig am famau’r milwyr a’u calonnau’n gwaedu mewn galar. Newidir delwedd y fam yn y llinell nesaf yn un sinistr; dyma fam sy’n annog glythni, a daw’r rhosod i fod yn bethau erchyll sy’n pesgi’n farus ar fwynau’r pridd.

---

<sup>115</sup> Gerwyn Williams, *Tafarn Tawelwch*, t.16.

<sup>116</sup> Marina Heilmeyer, *The Language of Flowers* (Munich, 2006), t.50.

<sup>117</sup> Gwyn Thomas, *Ysgyrion Gwaed* (Dinbych, 1967), t.43.

<sup>118</sup> Ibid.

<sup>119</sup> Ibid.

Efallai i'r gosodiad sy'n dilyn, 'Mae fy meddwl yn llawn o waed', gynnig rheswm dros liw porffor y cymylau a welwyd ynghynt. Gwêl y milwr hwn waed ym mhob man – mae wedi staenio ei feddwl ac ni all weld heibio i ryfel bellach. Mae'n debyg y gellir dweud heddiw iddo ddioddef o syndrom ôl-drawmatig neu 'PTSD'. Deil Gwyn Thomas lais y milwr yn effeithiol, ac fel y prawf llythyr Hedd Wyn o 'Rhywle yn Ffrainc',<sup>120</sup> nid gormodiaith yw dweud fod milwr yn gweld gwaed yn y pethau prydferthaf ac yn gweld delweddau rhyfel yn y pethau harddaf. Fel hyn y disgrifiodd Hedd Wyn y machlud a'r hen 'shell' yn ei lythyr, yr haul i'w weld 'yr ochr draw i fataliwnau o goed':

Ymhen ennyd gwelid llen denau o liw gwaed tros y gorwel a rhyw felyndra tebyg i liw briallu wedi eu [*sic*] gyfrododdu ynddi, ond y peth tlysaf a welais i hyd yn hyn oedd corff hen 'shell' wedi ei droi i dyfu blodau: 'roedd coeden fechan werdd yn cuddio rhan uchaf yr hen 'shell' a naw neu ddeg o flodau bychain i'w gweled cyd-rhwng y dail yn edrych mor ddibryder ag erioed.<sup>121</sup>

Cafodd milwr y gerdd ei anfon i le hardd ac i awyrgylch heddychlun gan feddwl y byddai hynny'n ddigon i gael gwared â'r profiadau ofnadwy sydd wedi eu hoelio i'w feddwl. Y syniad oedd i 'hel ohonof liwiau lladd', a'u disodli, mae'n debyg, â lliwiau'r blodau. Disgrifia Emyr Edwards liw rhyfel fel 'rhywle yn y llwyd / rhwng y du a'r gwyn' mewn cerdd o'r casgliad 'Guernika'.<sup>122</sup> Eglura'n union ddüwch y 'lliwiau lladd' y cyfeiria Gwyn Thomas atynt:

Nid oes enfys mewn rhyfel;  
mae lliwiau'n rhacs,  
yn llosg ulw.<sup>123</sup>

Anfonwyd y milwr i'r ysbyty er mwyn iddo gael mwynhau'r lliwiau eto, a chyfnewid arogl marwolaeth a 'sŵn angau' am berarogl a gosteg.

Gwelwn eto feddwl y milwr wedi ei lenwi â delweddau a syniadau hunllefus wrth i'r blodau tewion ei atgoffa o'r 'cyrff wedi eu chwyddo gan ddyfroedd'.<sup>124</sup> Gwêl debygrwydd

<sup>120</sup> Alan Llwyd, *Gwae Fi Fy Myw: Cofiant Hedd Wyn* (Llandybie, 1991), tt.218-19.

<sup>121</sup> *Ibid.*, t.219.

<sup>122</sup> Emyr Edwards, *Guernika a Cherddi Eraill* (Caerdydd, 2007), t.35.

<sup>123</sup> *Ibid.*

wedyn rhwng siâp blodyn a chlwyf ar gnawd wedi i fwled ei rwygo, yr archoll fel 'sêr-goronau o harddwch yn eu gwaed'. Eironig yw bod siâp blodyn hardd i'w weld yng nghanol y fath ddifrod i gorff rhywun. Mae meddwl a dychymyg y milwr yn llygredig ac yn chwerw, a gwelwn hyn yn amlwg yng nghynffon y gerdd wrth iddo barhau ei fyfyrdod ar gyrff meirw ei gyd-filwyr:

'Fedlylais i erioed fod angau ynddynt mor hardd  
Nes cael fy hun yn yr hwyr rhwng lliwiau porthiannus, madreddog yr ardd.<sup>125</sup>

Gweld Uffern yn Eden a wna'r milwr yma. Mae brwydro, lladd a difrodi wedi tyfu'n ail-natur iddo bellach, a hyd yn oed blodau, pethau a gynrychiola fywyd, yn farwaidd iddo.

Gardd wahanol sydd yn englyn trawiadol Gerallt Lloyd Owen. Y gwrthdaro yn lwerddon sy'n gefndir i 'Gardd Goffa Dulyn',<sup>126</sup> ac ni all y bardd werthfawrogi ceinder yr ardd gan wybod bod ei thyfiant yn dynodi marwolaethau treisgar. Ymateb i'r cyferbyniad rhwng y byw a'r marw y mae'r englyn yn ei hanfod:

Nid blodau ond bwledi – a wnaeth hon,  
A'i thwf yw merthyri;  
Eu haberth yw ei pherthi,  
Gardd o waed, ond gwyrdd yw hi.<sup>127</sup>

Gweld gwerth a thristwch mewn blodau mân yr oedd Edward Thomas, bardd-filwr o dras Gymreig y cân Alan Llwyd deyrnged iddo yn 'Edward Thomas: Lloegr'.<sup>128</sup> Pwysleisir diniweidrwydd y bardd gan Alan Llwyd ac fe noda'r pleserau bychain a oedd yn lliwio'i fyd: 'Carai edrych ar gorteddu gwridog / y gwyddfif',<sup>129</sup> er enghraifft. Cyfeiria wedyn at un o gerddi enwocaf Edward Thomas, 'In Memoriam' a ysgrifennwyd adeg y Pasg yn 1915, cerdd bedair llinell sy'n rhoi sylw i ffyniant blodau'r goedwig gan nad oes llanciau ar ôl yn yr ardal i'w casglu i'w cariadon:

---

<sup>124</sup> Gwyn Thomas, *Ysgyrion Gwaed*, t.43.

<sup>125</sup> Ibid.

<sup>126</sup> Gerallt Lloyd Owen, *Cerddi'r Cywilydd* (Caernarfon, 1990), t.34.

<sup>127</sup> Ibid.

<sup>128</sup> Alan Llwyd, *Cerddi Alan Llwyd 1968-1990: Y Casgliad Cyflawn Cyntaf*, t.371.

<sup>129</sup> Ibid.

Sylwodd un tro fod y blodau'n lledrithiol doreithiog

am fod y rhai a'u casglai gynt yn y coed  
i'w cariadon yn llonydd. Felly hwn cyn ei ddeugain oed.<sup>130</sup>

Dyma ddangos mor synhwyrus oedd y bardd, ac mae'r tristwch yn dwysáu wrth feddwl am y merched wedi colli eu cariadon, a'r bechgyn ifainc wedi eu llarpio gan ddannedd rhyfel. Dengys Hedd Wyn sensitifrwydd a diniweidrwydd tebyg yn ei lythyr lle mae'n disgrifio'r '[l]lwyni o rosynnau, 'r oedd gwefusau pob rhosyn mor ddisglair a gwridog a 'thai myrddiwn o gusanau yn cysgu ynddynt'.<sup>131</sup> Roedd gwerthfawrogi natur yn beth cynhenid gan nifer o filwyr o ardaloedd gwledig a fu'n ymladd yn y Rhyfel Mawr. 'Aeth y ddelwedd hon o gefngwlad yn rhan o ymwybyddiaeth y milwyr', fel yr eglura Alan Llwyd yn rhagymadrodd *Gwaedd y Bechgyn*.<sup>132</sup> Gwelwn y gwerthfawrogiad oedd gan filwyr yr Ail Ryfel Byd o natur mewn cerdd arall gan Alan Llwyd, 'Galarnad Cenhedlaeth',<sup>133</sup> wrth iddo bentyrru delweddau amaethyddol a oedd yn cyfareddu ac a oedd yn ganolbwynt byd i'r milwyr o Gymru cyn iddynt adael am y rhyfel:

Carent wyllo'r aradr yn troelli'r cwysi fel nadredd,  
a'r gaseg ddi-rus â'i thresi amdani yn dynn;  
carent wyllo'r coedlannau'n cyd-ddeilio, a'r hydref a'i fadredd  
yn tanbeidio'n y bedw, yn mudlosgi'n yr ysgaw a'r ynn;  
carent ollwng y cŵn i brocio'r cwningod o'u tyllau,  
a chydorwedd â merched eu hiraeth yng nghysgod y pîn;  
gwyllo'r gwenyn, yn feddw gan baill, yn diflannu i drobyllau  
bysedd y cŵn, ar eu hymdaith yn nhrymder yr hin.<sup>134</sup>

Caiff cyfeiriadau at flodau ac at fyd natur yn aml eu cysylltu â hiraeth y milwyr am eu cynefin yng Nghymru. Dyma nodwedd ar rai o gerddi Cynan a ysbrydolwyd gan y rhyfel. Gwelwn mewn rhan o'i bryddest 'Buddugoliaeth'<sup>135</sup> iddo freuddwydio, tra oedd yn y

<sup>130</sup> Ibid.

<sup>131</sup> Alan Llwyd, *Gwae Fi Fy Myw: Cofiant Hedd Wyn*, t.219.

<sup>132</sup> Alan Llwyd ac Elwyn Edwards (gol.), *Gwaedd y Bechgyn*, t.55.

<sup>133</sup> Alan Llwyd, *Yn Nydd yr Anghenfil*, tt.41-2.

<sup>134</sup> Ibid., t.42.

<sup>135</sup> Cynan, *Cerddi Cynan: Y Casgliad Cyflawn* (Liverpool, 1959), tt.126-9.

ffosydd, am gael bod gartref lle mae'r blodau menyn a'u harogl yn llenwi ei ffroenau. Ceir syniad tebyg yn 'Anfon y Nico'<sup>136</sup> wrth iddo anfon yr aderyn yn llatai i Gymru, ac mae'n paentio darlun delfrydol o'i ardal er mwyn rhoi cyfarwyddiadau i'r aderyn. Mae'n hiraethu yn y gerdd am y bryniau, am gân y gog, am y Fenai ac am ardd Glan Dŵr, 'gardd o flodau teca'r byd', lle bydd ei gariad yn aros y Nico. Roedd y cyfeirio parhaus hwn at natur a chefn gwlad yn beth cyffredin ym marddoniaeth beirdd-filwyr y Rhyfel Mawr, yn sicr, a barddoniaeth yr Ail Ryfel Byd i raddau llai. Â Alan Llwyd ati i ddadansoddi'r rhesymau dros boblogrwydd y ddelwedd yn ei ragymadrodd i'r flodeugerdd *Gwaedd y Bechgyn*. Yno, mae'n wfftio'r syniad fod y cyfeiriadau at fyd natur yng nghanu'r Rhyfel Mawr yn brawf o fethiant y beirdd i droi cefn ar Ramantiaeth dechrau'r ugeinfed ganrif ac yn anghytuno â'r feirniadaeth na lwyddodd y beirdd i wynebu realaeth y Rhyfel yn eu cerddi:

Rhaid ystyried yr elfen hon o natur neu'r gwledig nid fel nodwedd anffodus o'r canu, fel y gwna rhai beirniaid, ond fel rhan annatod, *anochel*, ohono.<sup>137</sup>

Cynnig math o sefydlogrwydd a chysur a wnaeth y delweddau hyn i'r milwyr gan esgor ar hiraeth ar yr un pryd am eu mamwlad.

Caiff yr un elfen ei defnyddio gan feirdd diweddarach gan gadw'n driw i ganu rhyfel y Rhyfel Mawr a'r Ail Ryfel Byd. Cyfeiriwyd eisoes at gerdd John Gruffydd Jones, 'Arras',<sup>138</sup> ac wrth i'r bardd feddwl am ei dad yn filwr yno, mae'n dychmygu'r hyn a fyddai wedi bod ar ei feddwl wrth iddo hiraethu am ei gartref:

Ai yma  
Lle mae'r parlyrau gwin  
Yn gynnes gan groeso  
Y breuddwydiaist  
Am y gwllith ar lethrau'r Garn  
A sŵn y gwenyn  
Yn ei grug?<sup>139</sup>

---

<sup>136</sup> Ibid., t.15.

<sup>137</sup> Alan Llwyd ac Elwyn Edwards (gol.), *Gwaedd y Bechgyn*, t.57.

<sup>138</sup> J. Elwyn Hughes (gol.), *Cyfansoddiadau a Beirniadaethau Eisteddfod Genedlaethol Frenhinol Cymru Bro Madog 1987*, tt.34-5.

<sup>139</sup> Ibid., t.35.

Ymddengys fod Cymru'n cael ei phortreadu fel rhyw Ardd Eden o le gan y rhai a oedd wedi gorfod cefnu arni. Yn sicr, roedd milwyr yn gwerthfawrogi eu mamwlad a'r llonyddwch a berthynai iddi lawer yn fwy o edrych arni o'r tu allan.

Gwelwn fod yr un ddelfrydiaeth yn ymddangos mewn cân werin gyfoes a ryddhawyd yn 2006 gan Gai Toms, ac a gyhoeddwyd fel cerdd yn 2011. Cyhoeddwyd 'Ellis Humphrey Evans'<sup>140</sup> yn rhan o gyfrol o gerddi storïol a olygwyd gan Myrddin ap Dafydd, ac ynddi cawn hanes Hedd Wyn. Gwelwn fod natur eto yn rhan amlwg ac annatod o gartref Hedd Wyn yn Nhrawsfynydd, ac mai 'sŵn yr afon Prysor ro'th yr awen iddo fo' er mwyn ei alluogi i ysgrifennu ei farddoniaeth. Pan fu farw yng Ngwlad Belg, dychmyga Gai Toms fod meddwl Ellis Evans yn ôl yn Nhrawsfynydd a'i fod ymhell o sŵn y frwydr:

Ni chlywodd mwy yr arfau, na sŵn y tanciau trwm,  
Dim ond sŵn 'rhen afon Prysor yn canu yn y cwm.<sup>141</sup>

Fe adleisir yn y llinell olaf hon linellau o eiddo Hedd Wyn ei hun a ddaw o'r pennill 'Atgo',<sup>142</sup> ei gerdd olaf yn argraffiad cyntaf *Cerddi'r Bugail*:

Dim ond lleuad borffor  
Ar fin y mynydd llwm;  
A sŵn hen afon Prysor  
Yn canu yn y Cwm.<sup>143</sup>

Mae pwyslais gan amryw o feirdd ar bridd y tir estron, ac mae Gai Toms yn ymuno â'r traddodiad drwy nodi fod 'hiraeth yn y pridd'. Rhaid cofio mai mab ffarm oedd Hedd Wyn fel sawl un arall a orfodwyd i'r drin, un oedd wedi hen arfer â phridd a daear, ond pridd anghyfarwydd oedd dan draed ar faes y frwydr. Disgrifia'r canwr y bechgyn 'yn gawl o emosiynau' a hwythau'n gwybod y gallent syrthio i'w marwolaeth ar y tir tramor hwn.

---

<sup>140</sup> Myrddin ap Dafydd (gol.), *Cerddi Storïol Carreg Gwalch* (Llanrwst, 2011), tt.26-7.

<sup>141</sup> Ibid., t.27.

<sup>142</sup> Hedd Wyn, *Cerddi'r Bugail: Ynghyd ag Atodiad o waith y bardd nas cynhwyswyd yn argraffiadau 1918 na 1931* (Llandybie, 1994), t.117.

<sup>143</sup> Ibid.



Hiraeth, nid am Gymru, ond am adeg mwy heddychlon sydd gan ‘fab y fföedigaeth’ yn ‘Cwm Tawelwch’ gan Gwilym R. Jones.<sup>144</sup> Ynndi, mae’r mab yn ceisio ffoi rhag holl boenau’r byd, rhag y ddau Ryfel Byd, rhag yr Holocost a phob newyddion drwg all ddod i’w ran. Chwilio y mae am ‘Gwm Tawelwch’ lle caiff fyw yn rhydd heb unrhyw loes. Cysylltir irder y dail â’r adeg heddychlon y mae’r mab yn ei gofio cyn y Rhyfeloedd Byd:

’Roedd mwy o flas ar fyw,  
A deufwy gwyrddach oedd y dail  
Pan oedd y ddaear yn ieuengach.<sup>145</sup>

Y tir sydd gan John Phillips dan sylw yn ei soned ‘Fflandrys’,<sup>146</sup> lle mae’n canolbwyntio ar adferiad tiroedd Ffrainc wedi’r Rhyfel Mawr. Yn rhag-nodyn i’r gerdd mewn cromfachau, mae’r un gair syml, ‘Gwanwyn’, sy’n dynodi fod cyfnod tywyll, gaeafol y Rhyfel Mawr ar ben a bod gobraith eto am ddychweliad yr haf trosiadol. Gwêl John Phillips fod natur yn adfywio ac yn disodli’r llwydni a fu; ond er i’r adar fentro canu eto ac i’r tir ffrwythloni, mae’r cof am farwolaeth miloedd yn dal yn effro iawn, gyda’r fynwent gerllaw yn atgof beunyddiol o’r golled. Mae’r tristwch yn dal i gael lle amlwg yn y soned; ond coffáu, cofio a chamu ymlaen sy’n bwysig yn y gerdd hon. Y presennol cadarnhaol sy’n cael sylw yma, ac fe ddaw bywyd yn ôl i drefn yn ei dro:

Heddiw amaethwr gwargrwm sydd yn hau  
Yr erwau lle tywalltwyd gwaed yn rhydd;  
Mae tymor yr adferiad yn nesáu  
Gan ddefro’r pabi a’i betalau prudd.<sup>147</sup>

Sylwer mai gydag adferiad a dyfodiad normalrwydd y daw’r pabi i’r golwg yma, gan roi gwedd fwy cadarnhaol i’w symbolaeth; a thrwy wella’r clwyf, ‘Mae cân aderyn lle bu’r gynnau ddoe’ i’w chlywed. Ble cafodd y tir ei falu gan frwydr gynt, cael ei drin gan hen ffermwr a wna bellach, a’r ‘gwargrwm’ yn awgrym cynnil fod cenhedlaeth o fechgyn ifainc, y rhai a ddylai fod yn gweithio’r tir, yn hau ac yn medi, wedi eu colli yn y rhyfel.

---

<sup>144</sup> Gwilym R. Jones, *Cerddi Gwilym R.* (Bala, 1969), tt.29-31.

<sup>145</sup> *Ibid.*, t.31.

<sup>146</sup> *Barddas*, 290 (Tachwedd/Rhagfyr/Ionawr 2006-2007), t.41.

<sup>147</sup> *Ibid.*

Plannu hadau tra gwahanol a wna heuwyr Dafydd John Pritchard ac Einion Evans. Nid yn annhebyg i 'Ar ôl yr Ail Ryfel Byd' gan Gwyn Thomas, lle gwelwyd claddu arch y rhyfel, dinistr yw ffrwyth yr hadau hyn hefyd. Troi at y gwrthdaro hir a fu yng Ngogledd Iwerddon y mae cerdd rydd Dafydd John Pritchard, 'Briw',<sup>148</sup> a gyfansoddwyd ar gyfer un o ornestau Talwrn y Beirdd. Yma, mae'r bardd yn cyfeirio at y briw sydd ar 'ddinas goncrïd' Belfast yn ogystal â'r briw a ddaeth o rwygo calonnau mamau. Awgryma'r bardd mai ffolineb ynghyd ag atgasedd cynhenid dyn a fu'n gyfrifol am y ddau archoll, ac fe welwn wallgofddyn yn plannu 'hadau'r ofn / sy'n ffynnu / mewn tir sâl';<sup>149</sup> hadau a fyddai, heb os, yn tyfu cynnyrch arswydus hefyd. Ceir adlais o ddameg Feiblaidd yr heuwr yn y llinellau hyn, ond yn wahanol i'r ddameg lle nad yw'r hadau'n tyfu ar y tir gwael, llwyddo i ffynnu a wnânt yma dros goncrïd Belfast. Arwyddocaol yw'r cyfeiriad Beiblaidd yn y gerdd, o gofio mai rhyfel cartref rhwng y Protestaniaid a'r Pabyddion oedd yng Ngogledd Iwerddon ar y pryd, ac fe gyflëir eironi'r sefyllfa fod Cristnogion yn ymladd yn erbyn ei gilydd.

Wedi gwasgaru'r hadau, parhau y mae'r ddelwedd amaethyddol gyda'r syniad o blannu bomiau:

Plannu bom fel cusan  
yng ngerddi'r mamau.<sup>150</sup>

Dyma brofi'r gusan angheuol sy'n chwalu teuluoedd, a rhy gyfleus yw pwyntio'n syth at y gwallgofddyn, ond nid hyrddio'r bai at rywun arall a wneir yma, fel y gwelwn:

y gusan a blannwyd  
gan ei mab ei hun.<sup>151</sup>

Cawn ddelwedd sinistr gan Einion Evans yn ei englynion i 'Un o'r Gwleidyddion',<sup>152</sup> lle disgrifir y gwleidydd fel amaethwr a'i reolaeth yn dynn dros ei gnydau. Gall y cnydau gyfeirio

---

<sup>148</sup> Gerallt Lloyd Owen (gol.), *Pigion Talwrn y Beirdd*, 7 (Caernarfon, 1994), t.75.

<sup>149</sup> Ibid.

<sup>150</sup> Ibid.

<sup>151</sup> Ibid.

<sup>152</sup> *Barddas*, 169 (Mai 1991), t.20.

at y bechgyn ifainc adeg y Rhyfel Mawr a orfodwyd gan ddeddf i ymladd. Gwelwn y gwleidydd fel y 'Bomiwr o heuwr yn hau / a medelwr medalau';<sup>153</sup> o'r hadau a heuwyd ganddo tyf marwolaeth, gan ledaenu fel 'chwyn di-chwaeth'. Mae'r undod delweddol sy'n llifo trwy'r englyn arbennig hwn yn effeithiol ac yn daclus wrth i'r bardd ddangos y cynaeafu wedi'r hau. Casglu medalau milwrol a wna'r gwleidydd, medalau balch yn brawf i filwyr ymladd dros eu gwlad, neu fedalau sydd â'u perchnogion wedi eu lladd bellach. Beth bynnag fo hanes y medalau, cofiwn nad aeth y gwleidydd barus yn agos at unrhyw frwydr; medi'r medalau ac ennill y wobwr heb orfod baeddu ei ddwylo a wnaeth hwn.

Un arall sy'n pwysu ar ddelweddau amaethyddol yw Tom Huws yn ei gerdd 'Croen'.<sup>154</sup> Dyma un o gynhyrchion Eisteddfod Gŵyl Ddewi Cymdeithas Ceredigion 1988; cerdd sy'n edrych ar ôl-effaith Bergen-Belsen, un o wersylloedd crynhoi yr Ail Ryfel Byd, ac sy'n dadansoddi'r ddoe, yr heddiw, a'r yfory a ddaw yng nghyd-destun yr Holocaust. Ymddengys mai croen llyfn merch ifanc sy'n cael ei ddisgrifio yn y pennill cyntaf, yn 'felfedaidd' ac yn harddach na blodau magnolia, cyn iddi orfod wynebu dioddefaint y gwerysll. A ninnau bellach yn edrych arni yn y gwerysll, wedi heneiddio cyn ei hamser ac wedi cael ei cham-drin, gwelwn gyffelybu ei chroen i dir wedi ei aredig:

Heddiw:

yn femrwn a chreithiau agored  
Fel cae o sofl newydd ei droi.  
gan brentis wrth gyrn yr arad.<sup>155</sup>

Mae'r tair llinell hon yn gyforiog o ddisgrifiadau sy'n cyfleu traul amser, ac ers y cyfnod cynnar heddychlon, mae'r ferch sy'n garcharor yng ngwerysll Belsen bellach wedi ei chreithio gan brofiadau erchyll. Sylwn fod ei chroen, a oedd mor llyfn ac ifanc ddoe, wedi torri a chrychu. Ceir y ddelwedd amaethyddol, effeithiol o'r croen fel cae wedi ei aredig yn flêr gan un nad yw'n brofiadol yn troi'r tir. Ychwanega hyn at hagrwrch y creithiau dyfnion sy'n dynodi'r dioddefaint a brofodd y dioddefwyr a oedd dan lach y Natsïaid. Cyfoethog iawn yw'r trosiad o'r croen yn femrwn hefyd. Mae memrwn yn rhoi lle rhychiog i gofnodi

---

<sup>153</sup> Ibid.

<sup>154</sup> *Barddas*, 133 (Mai 1988), t.2.

<sup>155</sup> Ibid. (Ni chywirwyd yr atalnodi).

hanes, ac fel y mae'n bosib darllen oddi ar femrwn, mae'r crychau ar groen y wraig yn adrodd stori egr o galedi ac erchylltra tu hwnt i'n dirnadaeth ni. Dyma ddelwedd gymwys a llythrennol ar un olwg o ystyried mai croen llo, dafad neu afr yw deunydd memrwn. Efallai fod ymgais yma gan y bardd i gyfleu fel y bu i ddiodefwr yr Holocaust gael eu darostwng i fod o'r un gwerth ag anifeiliaid a'u dad-ddynoli'n llwyr. Cawsant yn sicr eu trin fel anifeiliaid, fel y dengys Gwyn Thomas mewn amryw o'i gerddi yn y gyfrol *Teyrnas y Tywyllwch*.<sup>156</sup>

Y defnydd honedig a wnaed o groen yr Iddewon, wedi eu llofruddio, sydd gan Tom Huws dan sylw wrth droi at yr 'yfory':

Yfory:

yn addurnol o'i ddarnio  
Ychydig o'i fodfeddi crin,  
Yn gysgod ar lusern  
Ac yn llewyrch i droed  
'Yr anifail bras'.<sup>157</sup>

Creda rhai i groen yr Iddewon a laddwyd yn yr Holocaust gael ei ddefnyddio i greu cysgodion lampau, ac mae sôn arall am sebon yn cael ei greu o'u bloneg. Er y tybia rhai mai myth oedd hynny, daethpwyd o hyd i lamp yn ddiweddarach yn New Orleans, ac fe gredid iddi fod o ddefnydd croen dynion, croen Iddewon yr Holocaust. Cofnododd yr awdur Americanaidd, Mark Jacobson, yr hanes mewn llyfr ffeithiol, *The Lampshade: A Holocaust Detective Story from Buchenwald to New Orleans*, llyfr sy'n archwilio hanes y lamp.<sup>158</sup> Fe gyfeiria Ifor ap Glyn at y defnydd erchyll honedig a wnaed o groen ac o fraster yn ei gerdd yntau, 'Gwerth',<sup>159</sup> fel y gwna Gwilym R. Jones yn 'Cwm Tawelwch',<sup>160</sup> a Bobi Jones yn 'Carcharor Iddewig'.<sup>161</sup>

---

<sup>156</sup> Gweler 'Materion Hollol Gyfrinachol'; 'Ar y Trên'; 'Dad-ddynoli, Y Waith Gyntaf'; 'Dad-ddynoli, Yr Ail Waith'; 'Ugain, Dyweder, o Fenywod', ac 'Nid, o hyd, fel Defaid' yn Gwyn Thomas, *Teyrnas y Tywyllwch* (Llandybïe, 2007).

<sup>157</sup> *Barddas*, 133 (Mai 1988), t.2.

<sup>158</sup> Mark Jacobson, *The Lampshade: A Holocaust Detective Story from Buchenwald to New Orleans* (New York, 2010).

<sup>159</sup> Iwan Llwyd, Myrddin ap Dafydd ac Ifor ap Glyn, *Bol a Chyfri' Banc* (Llanrwst, 1995), tt.80-1.

<sup>160</sup> Gwilym R. Jones, *Cerddi Gwilym R.*, tt.29-31.

<sup>161</sup> Bobi Jones, *Casgliad o Gerddi* (Llandybïe, 1989), tt.244-5.

Darlunnir yn 'Croen' fel y tywyllodd erchyllterau gwersylloedd fel Belsen gorneli o'r ddaear; ond drwy ddŵch dieflig dynoliaeth gyda chymorth y lamp ddychrynlyd honno, y gwêl 'yr anifail bras' ei lwybr. Tyn Tom Huws 'yr anifail bras' o'i gynefin yng nghyfieithiad William Morgan o Lyfr Eseia yr Hen Destament,<sup>162</sup> ond mae'n debyg i'r bardd fod yn ymwybodol hefyd o gerdd gan Gwenallt, 'Yr Anifail Bras',<sup>163</sup> a ddaw o'i drydedd gyfrol, *Eples*; cerdd arall sy'n crybwyll enw Belsen. Darlunia Gwenallt yr anifail anhysbys hwn fel bwystfil sy'n cynrychioli pechod a chwypm dynoliaeth, a'r un syniad a gyflëir gan Tom Huws: dan fantell cysgod tywyll y cama'r diafol sydd o fewn dyn yn ei flaen.

Rhyfel Bosnia yw cefndir englyn Myrddin ap Dafydd, 'Rhyfel',<sup>164</sup> lle mae'n delweddu llymder y brifddinas a'r naws aeafol sydd yno gydol y flwyddyn. Nid yw hyd yn oed y goeden, â'i dail bytholwyrdd, yn dynodi pa dymor o'r flwyddyn yw hi. Mae'r ywen yn goeden a gysylltir yn draddodiadol â mynwentydd, ac efallai mai dyna reswm y bardd dros gyfeirio ati, er mwyn ychwanegu at yr awyrgylch farwaidd sydd yn Sarajevo:

Di-haul, a'r yw yn deilio, – a newyn  
Tan aeaf y brwydro  
A phoer oer ar gyrff heb ro  
Yw'r haf yn Sarajevo.<sup>165</sup>

Yr un rhyfel a ysbrydolodd gerdd gan R. John Roberts. 'Gwobr'<sup>166</sup> oedd un o destunau telynegion Talwrn y Beirdd rhwng 1992 ac 1994, a'n gwobrwyo ni fel Cymry, a'i dafod yn ei foch, a wna'r bardd o dîm talwrn Llanrug. Cawn ein gwobrwyo ganddo am gefnogi rhyfeloedd, am 'wrteithio'r had', tra ydym ni'n fodlon gysurus ein bywydau heddychlon. Ffrwyth yr hedyn yw rhosyn Sarajevo, yr enw a roddwyd ar yr ôl a adawodd ffrwydradau taflegrau ar goncrid y ddinas yn ystod rhyfel Bosnia, fel yr eglura'r bardd mewn rhag-nodyn. Mae sawl 'rhosyn' dros y ddinas ac mae'r olion wedi eu llenwi â lliw coch erbyn hyn er mwyn tynnu sylw. Dyma eto enghraifft o'r eironi a geir o gyfosod yr hardd a'r hagr, lle caiff

---

<sup>162</sup> 'A'r blaidd a drig gyda'r oen, a'r llewpard a orwedd gyda'r myn; y llo hefyd, a chenau y llew, a'r anifail bras, fyddant ynghyd, a bachgen bychan a'u harwain.' (Eseia 11:6).

<sup>163</sup> D. Gwenallt Jones, *Eples: Cyfrol o Farddoniaeth* (Llandysul, 1951), t.43.

<sup>164</sup> *Barddas*, 185 (Medi 1992), t.5.

<sup>165</sup> *Ibid.*

<sup>166</sup> Gerallt Lloyd Owen (gol.), *Pigion Talwrn y Beirdd*, 7, t.56.

cysgod neu atgof o rywbeth erchyll ei enwi ar ôl rhywbeth prydferth. Gwelwn fod y rhosyn hwn ‘Yn difa eirlysiau yn yr eira gwyn’, yn tarfu ar heddwch, diniweidrwydd a phurdeb.

Âr bardd yn ei flaen i ddarlunio fel y lledaenodd rhosyn rhyfel a dinistr adeg y Rhyfel Mawr dros wahanol wledydd, ond yn Sarajevo y blodeuodd y tro cyntaf bryd hynny hefyd:

Plannwyd o’r blaen yn y ddinas hon  
Rosa Ferdinandus a ledaenodd ar garlam  
I Galipoli, Fflandrys a ffosydd Ffrainc.<sup>167</sup>

Enw wedi ei fathu gan y bardd yw ‘Rosa Ferdinandus’ mae’n debyg, er bod rhosyn ag enw tebyg arno’n bodoli. Mae ei ddewis o’r enw ‘Ferdinand’ yn fwriadol a phwrpasol o gofio mai yn Sarajevo y llofruddiwyd arch-ddug Awstria, Franz Ferdinand. Dyma’r digwyddiad a sbardunodd y Rhyfel Mawr, ac felly byddai’r cyfeiriad at ‘o’r blaen’ yma yn sôn am fis Mehefin 1914, pan y’i llofruddiwyd. Ein hatgoffa’n gynnill a wna’r bardd o wreiddyn chwerw’r blodyn trwy dynnu ar enw’r arch-ddug yn enw’r rhosyn. Tyfodd y rhosyn dinistriol hwnnw wedyn mewn meysydd eraill wrth i storm y Rhyfel Mawr chwyrlïo i ‘Galipoli, Fflandrys a ffosydd Ffrainc’. A blagurodd ymhellach ‘yng Ngernica, Belsen a Nagasaci’, ac ‘yng Nghorea, Cambodia a Fiet Nam’.<sup>168</sup>

Diddorol yw’r syniad sy’n cael ei gyfleu yn y pedwerydd pennill wrth i’r bardd ddangos y bywyd newydd parhaus sydd gan ‘Rhosyn y fall’:

Heddiw impir o’r newydd ar ei hen stoc  
Yn yr Iwcrân, Georgia a gweriniaethau pell  
‘Na wyddom nemor ddim amdanynt’ ...<sup>169</sup>

Wrth ddisgrifio’r broses dechnegol o impio, sef gosod un darn o rywbeth i mewn i rywbeth arall, mae’r bardd yn dangos fel y mae’r planhigyn yn atgenhedlu, gan dyfu ychydig yn wahanol bob tro. Yr un yw gwraidd y planhigyn, a’r un yw canlyniad pob rhyfel yn y pen draw, ond mae newydd-deb technoleg a dulliau o ladd yn rhoi amrywiad i broses rhyfel.

---

<sup>167</sup> Ibid.

<sup>168</sup> Ibid.

<sup>169</sup> Ibid.

Caiff y blodyn gwenwynig hwn sy'n cario rhyfel o le i le ei ddiwygio'n gyfoes er mwyn parhau i ledaenu mewn llefydd newydd eto, llefydd sy'n rhy bell i ni boeni amdanynt. Clywn y celwydd ystrydebol mewn dyfynodau ar ddiwedd y pennill, yn union fel y'i clywn yng ngherdd Grahame Davies, 'Wydden Ni Ddim'.<sup>170</sup>

Ergyd gyhuddgar sydd ar ddiwedd y gerdd tuag atom ni'r Cymry:

Tra yng Nghymru, am i ninnau wrteithio'r had,  
Dyfarnwn i'n hunain Oscar,  
Yn hedd gwyn ein borderi bach.<sup>171</sup>

Digon hawdd yw i ni 'wroteithio'r had', sefyll yn ôl a gwyllo rhyfeloedd heb orfod dioddef y chwalfa ein hunain. Mae'n debyg mai cyfeirio at y ffilm *Hedd Wyn* y mae'r wobr yn nheitl y gerdd, ffilm a gafodd ei henwebu am Oscar yn 1994; mae'r 'hedd gwyn' yn awgrym cynnil hefyd mai am y ffilm honno y sonnir yma. Ymddengys fod rhywfaint o feirniadaeth gan y bardd tuag at y ffilm; efallai iddo gredu nad oedd gan genhedlaeth na phrofodd boen y Rhyfel Mawr lawn hawl i geisio ail-greu'r profiad ar y sgrin, a defnyddio'u profiad eildwym er mwyn ennill clod yn sgil y ffilm. Cawn ein hatgoffa o elfen arall o ddiwylliant Cymreig yn llinell olaf R. John Roberts, lle cofiwn am delyneg enwog Crwys, 'Y Border Bach'. Efallai mai ceisio cyfleu ein cyfforddusrwydd Cymreig heddychlon a wna wrth inni ymhyfrydu yn ein hamgylchfyd hardd a'n barddoniaeth dlos yn hytrach na wynebu realiti'r byd sydd ohoni.

Clyma Gwyn Thomas elfen Gymreig wrth ei gerdd yntau, 'Tra Bo'n Gwaedu Rosyn Aberth',<sup>172</sup> lle cawn ein hatgoffa o chwedl Branwen ac fel y bu i Efnisien daflu Gwern i'r tân. Cerdd am derfysgaeth, am hunanfomwyr ac am ladd y diniwed yw hon; cerdd wleidyddol, fel y geilw Alan Llwyd hi yn ei astudiaeth o gerddi Gwyn Thomas yng nghyfres 'Llên y Llenor'.<sup>173</sup> Er nad oes sôn am ryfel penodol ynddi, daw'r gwrthdaro yn lwerddon i'r cof gyda'r cyfeiriad at yr ail gainc ynghyd â'r gyfeiriadaeth at gerdd W. B. Yeats, 'The Rose Tree', sy'n gerdd wleidyddol arall am sefyllfa lwerddon.

---

<sup>170</sup> Grahame Davies, *Cadwyni Rhyddid* (Abertawe, 2001), tt.32-4.

<sup>171</sup> Gerallt Lloyd Owen (gol.), *Pigion Talwrn y Beirdd*, 7, t.56.

<sup>172</sup> Gwyn Thomas, *Symud y Lliwiau* (Dinbych, 1981), t.8.

<sup>173</sup> Alan Llwyd, *Gwyn Thomas, Cyfres 'Llên y Llenor'* (Caernarfon, 1984), t.100.

Mae sôn ynddi am 'Yr Achos' y mae pobl yn fodlon aberthu eu hunain drosto. Er bod y gerdd wedi ei chyhoeddi yn 1981, bron nad yw hi'n fwy amserol a pherthnasol heddiw, dri degawd yn ddiweddarach, lle mae rhyfel bellach yn erbyn 'Yr Achos' anweledig, ac ymosodiadau terfysgol yn ddigwyddiadau nodedig yn ystod y ddau ddegawd diwethaf. Ymhelaethir ar 'rosyn aberth' y gerdd yn y pennill olaf, lle yr adleisir geiriau W. B. Yeats o'i gerdd 'Easter 1916': 'A terrible beauty is born', yn llinell olaf Gwyn Thomas:<sup>174</sup>

Tra bo'n gwaedu rosyn aberth  
Fe all pryfyn duaf distryw  
Besgi yn ei glwyfau prydfferth:  
Enbyd o brydfferthwch ydyw.<sup>175</sup>

Gall y pryfyn y cyfeirir ato fod yn fenthyciad o'r Saesneg hefyd, benthyciad y tro hwn gan William Blake, o bosib, o'i gerdd 'The Sick Rose' lle y cyfeiria at 'the invisible worm'.<sup>176</sup> Dod â chwymp i ran dynion y mae pryfyn Blake, fel y gwna yng ngherdd Gwyn Thomas. Delwedd sinistr yw honno o 'rosyn aberth' a'i 'glwyfau prydfferth'. Eto mae cyfochri'r hardd a'r hagr yn amlwg, ond o gofio am Gwyn Thomas fel bardd Cristnogol ac o gofio cyd-destun crefyddol y gwrthdaro yn Iwerddon, a ellir awgrymu bod osgo Cristnogol yma yn y cyfeiriadau at 'rosyn aberth' a'i 'glwyfau prydfferth'? Hynny yw, y gellir dod o hyd i '[b]ryfyn duaf distryw' yn bwydo ar aberth Crist hyd yn oed, bod rhyfel yn gallu codi o brydfferthwch yr aberth mwyaf a bod y Diawl yn medru gorthrymu gwarineb Cristnogol os gadawn iddo wneud hynny.

Aeth tair canrif heibio oddi ar gyfnod y canu gwerin cynnar lle roedd traddodiad iaith y blodau yn ei anterth mewn cymdeithas, a chanrif oddi ar gyfnod Rhamantiaeth llenyddiaeth dechrau'r ugeinfed ganrif, ond parhau i dreiddio i'n barddoniaeth y mae hen thema oesol natur. Fel y gwelwyd, mae toreth o gerddi'n enwi ac yn cyfeirio at flodau, ac mae gan bob bardd ei fwriad penodol wrth eu defnyddio. Y pabi, yn ddigon naturiol, sy'n hawlio'r sylw pennaf, ond diddorol yw sylwi ar y blodau eraill a'r cyfeiriadau eraill at fyd

---

<sup>174</sup> Ibid., t.103.

<sup>175</sup> Gwyn Thomas, *Symud y Lliwiau*, t.8.

<sup>176</sup> William Blake, *Songs of Innocence and of Experience* (Oxford, 1990), t.31.



natur sydd wedi eu gosod yng nghanol y farddoniaeth. Gwelwyd i rai blodau hawlio'r un swyddogaeth â'r pabi, sef i gofio trallod rhyfel a chofio am y lladdedigion. Cynrychioli diniweidrwydd y milwyr a wna ambell gyfeiriad, ac fe amlygir y cyferbyniad sydd rhwng llwydni rhyfel a lliw a bywiogrwydd byd natur gan eraill wrth i natur harddu atgofion milwyr o'u cartrefi yng Nghymru. Defnyddid delweddau o fyd natur ac o gefn gwlad yn bur aml yng nghanu rhyfel y ddau Ryfel Byd fel y nodwyd, a hwyrach mai ymgais i adlewyrchu hynny a welir gan y beirdd cyfoes, hynny ynghyd â'u greddf i gydymffurfio â thraddodiad llenyddol efallai. Er bod ymdriniaeth barddoniaeth y Rhyfeloedd Byd ac ymdriniaeth barddoniaeth ddiweddar â natur yn clymu'n aml, gwelir bod cywair mwy amrwd ac egr i rai o gerddi'r hanner canrif diwethaf, ac i ddelweddaeth natur hyd yn oed allu troi'n beth hyll. Wrth i Alan Llwyd a John Gruffydd Jones droi blodau'n arfau ac i Gwyn Thomas gyflwyno delwedd hunllefus o ardd ysbyty, nid yw'r cyfeiriadau o reidrwydd yn cynrychioli heddwch.

Fe adlewyrcha barddoniaeth y ddau ryfel agosatrwydd dyn at natur a'i wybodaeth o gynnyrch y tir, gan dynnu llun o Gymro hanner cyntaf yr ugeinfed ganrif fel amaethwr yn anad dim arall. Gyda'n hymwybyddiaeth wedi tyfu'n beth mwy trefol erbyn hyn a delwedd yr amaethwr wedi pylu rhywfaint a'r rhan fwyaf ohonom wedi ymbellhau oddi wrth fyd natur, diddorol yw sylwi nad yw'r gyfeiriadaeth at natur wedi prinhau'n ormodol mewn barddoniaeth ddiweddar. Dengys y cerddi hyn fod modd clymu traddodiad wrth agwedd gyfoes gan roi newydd wedd ar natur fel thema farddonol.

## ‘Y cymhlethdod modern’ Cyfryngau Gwybodaeth a Thechnoleg Rhyfel

Gyda channoedd o sianeli teledu ar gael heddiw, dewis helaeth o orsafoedd radio, gwefannau newyddion fyrdd a chyfryngau cymdeithasol sy’n trosglwyddo newyddion ar y we, nid yw’n syndod inni gael ein boddi gan y cyfryngau torfol. Gallwn bellach weld hunllefau rhyfeloedd mewn gwledydd pell ar y sgrin o esmwythder ein sofffa, a thystio, wrth iddynt ddigwydd, i drychinebau terfysgol a naturiol sy’n digwydd filoedd ar filoedd o filltiroedd i ffwrdd. Nid ydym oll ond yn rhy gyfarwydd â’r lluniau sy’n cael eu dangos ar raglenni newyddion ac mae perygl weithiau inni gymryd y bwletinâu newyddion yn rhy ganiataol. Gan fod clywed am filwyr yn cael eu lladd neu glywed am ryfeloedd ar ddechrau yn beth mor gyffredin y dyddiau hyn, fe gwyd y cwestiwn a ydym ni’n genhedlaeth sydd wedi ei chaledu i newyddion o’r fath, gan eu derbyn fel rhan annatod o fywyd yn yr unfed ganrif ar hugain?

Ydi, mae clywed ystadegau, gweld darn o ffilm neu wyllo dagrau dioddefwyr yn ein hysgwyd, ond am ba hyd rydym ni’n oedi i feddwl am y sefyllfaoedd hyn mewn difri? Rhwng amllder y lluniau newyddiadurol, y ffilmiau treisgar a’r gemau cyfrifiadurol o’r un natur, ai gormod fyddai awgrymu fod erchylltra rhyfel wedi dod yn beth ‘normal’ i ni erbyn hyn? Mae rhyfel yn sicr yn rhywbeth sydd ynghlwm wrth ddynoliaeth erioed ac yn rhywbeth y gellir ei olrhain yn bell mewn hanes, fel y gwna cerddi agoriadol Gwyn Thomas yn ei gyfrol *Teyrnas y Tywyllwch*.<sup>177</sup> Mae felly’n rhywbeth yr ydym yn tueddu i’w dderbyn, a’i dderbyn yn rhy hawdd ar adegau wrth inni gysylltu rhyfel â phellter. Dyma’n sicr bwnc sy’n crafnu crachen ein cydwybod, sy’n herio’r syniad cyfforddus hwnnw o wareiddiad, ac sy’n codi cwestiynau ynglŷn â’n moesoldeb ni fel pobl. Mae’n bwnc sydd wedi cydio yn nychymyg ein beirdd dros yr hanner canrif diwethaf wrth i’r cyfryngau ymestyn dros gyfandiroedd, chwalu ffiniau rhyngwladol a goresgyn anawsterau pellter; hyn i gyd yn sgil globaleiddio. Amcan pob un o’r beirdd a gaiff sylw yn y bennod hon, yn y pen draw, yw rhoi ysgytwad go nerthol i’n

---

<sup>177</sup> Gweler y dilyniant o dair cerdd, ‘Rhai Pethau o’r Hen Ddyddiau Gynt’, yn Gwyn Thomas, *Teyrnas y Tywyllwch* (Llandybïe, 2007), tt.11-13.

cyfforddusrwydd, a hynny drwy dynnu ar brofiadau personol neu drwy fyfyrto ar ein hymateb llugoer i newyddion y dydd.

Un sy'n methu diffodd y llun a'i daflu i gefn y meddwl yw Alan Llwyd. Mae'r ymwybod o ryfel a thrais o hyd yn effro iawn yn ei ddychymyg ac fe adlewyrchir hynny yn ei farddoniaeth. Ac yntau'n ceisio anghofio delweddau'r Holocaust yn ei gerdd 'Noson Tân Gwyllt',<sup>178</sup> a chanolbwyntio yn hytrach ar gyfaredd diniwed y plant wrth iddynt syllu ar liwiau'r tân gwyllt, gwelwn fod ei ddychymyg yn drech nag ef: 'yn ddelwedd i'm meddwl /dychwelodd Dachau eilwaith'. Cerdd arall ganddo sy'n trafod profiad personol, a'r profiad hwnnw'n esgor ar feddyliau am yr Holocaust, yw 'Cerddorion Auschwitz'.<sup>179</sup> Yno, mae'n sylwi ar wylan yn cael ei thrydanu gan wifrau uwch Tirdeunaw, ger Abertawe. Mae'r olygfa'n cymell ei feddwl i grwydro at wersyll crynhoi Auschwitz lle mae'n dychmygu'r Iddewon, yn eu trallod, yn ceisio cyflawni hunanladdiad er mwyn osgoi mwy o ddiodefaint, a'u hanobaith yn cael ei foddi gan gerddoriaeth Mozart neu Bach. Wrth drafod yr ymwybyddiaeth hollbresennol o'r Ail Ryfel Byd sydd ym meddwl Alan Llwyd, nodir Gerwyn Williams yn ei gyfrol *Tir Newydd* fel y profa'r ddwy gerdd 'na all ddianc rhag cysgodion y rhyfel: hyd yn oed yng nghlydwch ei gynefin yng Nghymru, mae delweddau'r rhyfel yn pwysu ar feddwl dyn'.<sup>180</sup> Gwelwn yr un math o bigo cyson ar gydwybod Meirion MacIntyre Huws yn ei gerdd yntau, 'Cydwbyod',<sup>181</sup> lle ceisia ddianc rhag y 'swynyn hollbresennol' a ffoi oddi wrth y lluniau o'r tlawd a'r diodefus. Er iddo geisio'i bellhau ei hun oddi wrth y lluniau drwy ymroi i'w hunaniaeth Gymreig neu ei foddi ei hun yn nhraddodiad cysurus cymun y capel, caiff ei atgoffa, heb unrhyw gymhellant, o '[f]iloedd Somalia' a fu'n byw dan gysgod rhyfel cartref er 1991. Cyfeiria hefyd yn benodol at ryfel Bosnia a ddaeth i ben flwyddyn cyn cyhoeddi'r gerdd yn y gyfrol *Y Llong Wen*, lle y dywed am ei gydwybod mai 'Hwn yw llef Sarajevo / yn rhoi cic rhwng coesau'r co'.<sup>182</sup> Caiff ei gydwybod yn y gerdd ei phersonoli'n gydymaith anffodus nad oes dichon cael gwared arno. Er bod ambell ergyd erwin yn y cywydd hwn ynghyd â chyffyrddiadau o dosturi bob hyn a hyn, diflastod a phoen meddwl sy'n hawlio naws y gerdd. Efallai fod geiriau Alan Llwyd yn tueddu i fod yn fwy cignoeth, ac

---

<sup>178</sup> Alan Llwyd, *Cerddi Alan Llwyd 1968-1990: Y Casgliad Cyflawn Cyntaf* (Llandybie, 1990), tt.381-2.

<sup>179</sup> Alan Llwyd, *Oblegid Fy Mhlant* (Abertawe, 1986), t.14.

<sup>180</sup> Gerwyn Williams, *Tir Newydd: Agweddau ar Lenyddiaeth Gymraeg a'r Ail Ryfel Byd* (Llandybie, 2005), t.272.

<sup>181</sup> Meirion MacIntyre Huws, *Y Llong Wen* (Llanrwst, 1996), tt.40-1.

<sup>182</sup> *Ibid.*, t.40.

yn debycach yn hynny o beth i arddull ddiaddurn Gwyn Thomas ar brydiau, lle mae delweddau treisgar yn dryllio'r meddwl.

Cafodd Alan Llwyd ei eni yn 1948, dair blynedd wedi diwedd yr Ail Ryfel Byd, ac felly nid oes ganddo brofiad uniongyrchol o'r rhyfel hwnnw. Diddordeb personol a gwaith ymchwil treiddgar sydd i gyfrif am yr ymwybyddiaeth ddofn sydd ganddo o ryfel ac o'r Holocaust, ac mae'n anochel fod i'r cyfryngau eu lle fel rhan o'r dylanwad arno hefyd. Yn wir, mae ganddo gerdd sy'n sôn am ei waith ymchwil yn y maes; cerdd ac iddi dri chaniad o'r enw 'Galarnad Cenhedlaeth'<sup>183</sup> sy'n cofnodi'r profiad o ddarllen rhifynnau o'r *Cymro a'r Fanner* a gyhoeddwyd yn ystod cyfnod yr Ail Ryfel Byd, lle mae 'Rhyfel drwy inc pob rhifyn yn gwaedu'n goch'. Caiff ei gyfareddu gan y cofnodion dirdynnol, cymaint felly fel nad yw'n clywed cloch y llyfrgell yn dynodi amser cau. Wrth ddarllen, mae'n dychmygu bywydau'r milwyr Cymreig cyn i grafangau'r rhyfel eu trywanu; dychmyga eu marwolaethau, ac mor druenus yw cymharu llun gwaedlyd ei ddychymyg â 'llun ambell un yn llawn o obeithion y llynedd'<sup>184</sup> cyn gadael am y rhyfel. Heb ddychymyg y bardd, nid yw'r milwyr ond 'enwau diwyneb' yn y papurau neu ar gofebion, heb arlliw o alar ar eu holau; ond camp Alan Llwyd yw iddo drosglwyddo gwaith ei ddychymyg yn ei gerdd gan roi wynebau i'r lladdedigion a chyfleu'r golled a'r hiraeth a fu am y bechgyn.

Profiad tebyg iawn a geir yn 'Y Genhedlaeth Goll',<sup>185</sup> cerdd a gyhoeddwyd dros saith mlynedd ar hugain wedi cyhoeddi 'Galarnad Cenhedlaeth'. Dyma brawf ynddo'i hun na phallodd diddordeb Alan Llwyd yn y Rhyfeloedd Byd wrth iddo barhau i ymchwilio a thyrchu drwy hen bapurau newydd y ddau gyfnod. Darllen rhifynnau'r Rhyfel Mawr o bapur cenedlaethol a ysgogodd 'Y Genhedlaeth Goll', ac fe ysgrifenna eto am y profiad o ymchwilio. Daw rhyw anesmwythder drosto wrth i lygaid y milwyr yn y lluniau niferus gyfarfod â'i lygaid yntau, ac wrth i gannoedd o enwau'r lladdedigion gael eu rhestru'n oeraidd rhwng normalrwydd y colofnau ffasiwn, garddio a phêl-droed a oedd ar weddill tudalennau'r papur. Cyflwynir delwedd drosiadol o ddadweindio ffilm wrth i'r bardd sgubo

---

<sup>183</sup> Alan Llwyd, *Yn Nydd yr Anghenfil* (Caernarfon, 1982), tt.41-2.

<sup>184</sup> Ibid., t.41.

<sup>185</sup> Alan Llwyd, *Darnau o Fwydau* (Llandybïe, 2009), tt.14-15.

am yn ôl drwy rifynnau'r papur newydd nes cyrraedd dechreuad y rhyfel pan oedd y bechgyn yn dal i fod yn ddiniwed a heb eu dadrithio eto:

Mae rîl y ffilm yn dadweindio yn ôl i'r pen,  
dadweindio blynyddoedd diniweidrwydd yn ôl i ddechreuad  
pob rhifyn o'r papur rhyfel ...<sup>186</sup>

Erbyn diwedd y gerdd, fe ddisodlir y teimlad o anesmwythder gan euogrwydd miniog. Fel y bwydodd y milwyr flys y fidog am waed ar ddechrau'r gerdd, mae yntau'r bardd yn bwydo'u marwolaethau i'w gyfrifiadur drachefn, gan gollu gafael bron ar y syniad fod yr enwau a restrir a'r holl luniau yn gofnodion o bobl go iawn a fodolai ar un adeg. Gwêl Alan Llwyd fel y gall y broses o ymchwilio ddad-ddyneiddio lladdedigion y rhyfel a'u gadael yn destunau ôl-ystyriaeth ddibwys:

awn ninnau'n ôl  
i fwydo'r holl feirwon hyn –  
y meirwon hyn sy'n syllu arnon ni o hyd  
o ryw fyd arall – i berfedd ein cyfrifiaduron,  
ac ar ôl didol ein holl nodiadau  
a chael trefn ar ein hymchwil, trown  
hunllef y bechgyn hyn yn droednodyn oer  
ar waelod tudalen.<sup>187</sup>

Er gwaethaf beirniadaeth a rhybudd Alan Llwyd yn 'Y Genhedlaeth Goll', dyma fardd nad yw ei ddelweddau newyddiadurol wedi troi'n ystrydebau yn ei feddwl. Maent yn parhau i'w anesmwytho'n dragwyddol ac mae lluniau o'r Holocaust, yn enwedig, wedi eu serio ar ei gof. Gwelwn iddynt ddod i'r fei mewn amgylchiadau cyffredin gan dywyllu profiadau pob dydd, nad oes ganddynt unrhyw gyswllt penodol â rhyfel.

Ceisio dygymod â hanes y mae Alan Llwyd, ac ymddengys ei fod yn gwbl ddiymadferth pan gaiff ei ddychymyg ei danio. Yn 'Oblegid Fy Mhlant',<sup>188</sup> mae'n darllen am blant yng ngwersyll Treblinka, ac yn methu peidio â dychmygu ei fab ei hun yn cael ei

---

<sup>186</sup> Ibid., t.15.

<sup>187</sup> Ibid.

<sup>188</sup> Alan Llwyd, *Oblegid Fy Mhlant*, tt.10-11.

'fidogi...yn orffwyll', neu'n dychmygu ei wraig yn Belsen yn gorfod ei wyllo yntau'n cael ei grogi. Er mai amhosib yw dirnad profiadau'r dioddefwyr yn llawn, ceisia Alan Llwyd uniaethu rhywfaint â'u gwewyr, a thrwy'r uniaethu, mae'n cofnodi'n ddidwyll ei brofiad o ddygymod â chieidd-dra dynoliaeth. Ni chredaf mai math o gatharsis yw ei farddoniaeth i'r bardd, gan nad yw'r delweddau hunllefus yn gadael ei feddwl ar ôl iddo eu cofnodi; yn hytrach ymgais ydyw i ychwanegu at y dystiolaeth ddiriaethol fod yr erchyllterau hyn wedi digwydd yn ystod canrif y bu ef byw ynddi, ac ymgais lwyddiannus heb os.

Caiff y dystiolaeth ddiriaethol sydd gennym o ryfeloedd a thrais sylw amlwg yng nghorff gwaith Alan Llwyd wrth iddo ysgrifennu am gofebau milwrol<sup>189</sup> neu gyfeirio at gerddi,<sup>190</sup> ffilmiau<sup>191</sup> neu luniau penodol.<sup>192</sup> Gwêl y bardd dechnoleg fel peth ac iddo ei fanteision yn 'Tystiolaeth',<sup>193</sup> lle gwelir bod datblygiadau technolegol wedi ein galluogi i gofnodi hanes yr ugeinfed ganrif yn fanwl drwy ffilm a thrwy gyfrwng y we. Gofid y bardd yw i genedlaethau'r dyfodol pell 'amau mai ffrwyth dychymyg / oedd y pethau a wnaethom yn ystod / y cyfnod dieflig hwn'.<sup>194</sup> Drwy groniclo hanes rhyfeloedd yn electronig gyfrifiadurol, rhoddir mwy o sicrwydd inni nad aiff yr hanes yn angof, ac o gadw cof, mae'n debyg ei bod yn fwy tebygol na chaiff y fath ddigwyddiadau eu hailadrodd. Noda'r bardd eto yn 'Yng Nghanrif yr Anifail'<sup>195</sup> fod yr holl ffilmiau a archifwyd yn atgofion gwerthfawr. Mae ei lach yn drwm ar ddynoliaeth yma, ac mae'n ffeiddio wrth ei rywogaeth ei hun:

Croniclwyd y gorffennol ar ffilm yn dystiolaeth ddiriaethol  
na chadwasom y cieidd-dra sydd ynom am eiliad yn ddof,  
ac yn un â'r dystiolaeth, y mae gan y ddynoliaeth hithau

<sup>189</sup> Gweler: 'Wrth Gofeb Filwrol Aberystwyth' (*Yn y Dirfawr Wag*, t.65); 'Geiriau drwy'r Garreg' (*Cerddi Alan Llwyd 1968-1990*, tt.375-7); 'Coflech Hedd Wyn yn Fflandrys' (*Sonedau i Janice a Cherddi Eraill*, t.59); 'Ar Gofeb y Rhyfel Mawr' (*Ffarwelio â Chanrif*, t.101); 'Ar Gofeb yr Ail Ryfel Byd' (*Ffarwelio â Chanrif*, t.120); 'Dadorchuddio Cofeb Ryfel Fietnam: Washington 1982' (*Ffarwelio â Chanrif*, t.130), a 'Maen Coffa yr Ugeinfed Ganrif' (*Ffarwelio â Chanrif*, t.147).

<sup>190</sup> Gweler ei gerddi o'r gyfres 'Requiem i Feirdd o'r Ugeinfed Ganrif' yn *Cerddi Alan Llwyd 1968-1990*, tt.370-5. Sylwer fod nifer o'r cerddi'n dwyn cyfeiriadaeth at gerddi'r beirdd sydd dan sylw, yn aralleirio llinellau o'u gwaith neu'n creu'r un delweddau ag a greodd y beirdd a gaiff eu henwi a'u cofio gan Alan Llwyd.

<sup>191</sup> Cyfeirir yma at 'All Quiet on the Western Front: 1930' (*Ffarwelio â Chanrif*, tt.105-6) a 'Schindler's List: 1993' (*Ffarwelio â Chanrif*, tt.138-9).

<sup>192</sup> Gweler: 'Chwilio am Ddelwedd Gymwys' (*Oblegid Fy Mhlant*, tt.12-13); 'Phan Thi Kim Phuc: 1972' (*Ffarwelio â Chanrif*, tt.128-9); 'Rhyfel y Culfor: 1990' (*Ffarwelio â Chanrif*, t.136), a 'Delwedd o'r Amseroedd' (*Clirio'r Atig a Cherddi Eraill*, tt.72-3).

<sup>193</sup> Alan Llwyd, *Ffarwelio â Chanrif* (Llandybie, 2000), t.140.

<sup>194</sup> Ibid.

<sup>195</sup> Alan Llwyd, *Yn Nydd yr Anghenfil*, t.22.

Dyma gyflwyno'r syniad o 'oriel oer y co', chwedl John Gruffydd Jones yn 'Tanchwa',<sup>197</sup> y delyneg a ddaeth yn ail yn Eisteddfod Wrecsam 2011 ac a gyhoeddwyd yng nghylchgrawn *Barddas*. Mae'r bore y gadawodd y mab i frwydro yn y Rhyfel Byd Cyntaf wedi glynu wrth gof y llefarydd yn y gerdd honno, a'r mab wedi ei ladd mewn brwydr. Dengys y gerdd nad oes dim wedi newid er cyfnod y Rhyfel Mawr yn nechrau'r ugeinfed ganrif wrth i filwyr ifainc barhau i gael eu lladd yn Irac, a'r rhyfel yno'n dal i ddigwydd ar adeg cyfansoddi'r gerdd. Dyma gerdd amserol sy'n clymu ddoe a heddiw wrth gyfeirio at y sefyllfa economaidd a'r diweithdra sy'n gyrru'r bechgyn i ymuno â'r fyddin.

Caiff archifau'r cof ymdriniaeth fanylach gan Alan Llwyd yn y gerdd 'Cof'.<sup>198</sup> Yno, pwysleisir nad y dystiolaeth ddiriaethol sy'n cadw'r atgof am yr Ail Ryfel Byd yn fyw, ond yn hytrach gof cenedl. Wrth gwrs, mae cofebau, llyfrau ac ati yn sbarduno cofio am ryfeloedd ac yn fodd i drosglwyddo gwybodaeth ffeithiol, ond neges Alan Llwyd yw y gellid difa'r holl dystiolaethau hyn heb fyth gael gwared o'r ymwybod sy'n treiddio o genhedlaeth i genhedlaeth o ddigwyddiadau treisgar yr ugeinfed ganrif. Rhydd bwyslais ar y cof sy'n oriel o gipluniau; efallai nad ydynt yn lluniau mor gyflawn â lluniau'r sgrin neu'r camera, ond maent yno'n ddwfn yng nghyfansoddiad ein bod. Yn union fel y 'treiddiodd / y Somme a'i ebyrth i isymwybod / y ganrif' yn ei gerdd 'Lleoedd',<sup>199</sup> mae lluniau'r Ail Ryfel Byd wedi ymdoddi'n rhan naturiol o wybodaeth dyn yn 'Cof':

Hyd yn oed os dilëwn bob llun o'r cyfnod hwnnw  
a oedd mor anhygoel o giaidd, mae'r negydd  
du a gwyn o hyd gennym.<sup>200</sup>

Trawiadol yw'r 'du a gwyn' yn y llinell glo, gan ddwyn ymaith fywiogrwydd lliwiau a chyfleu marweidd-dra'r lluniau, naws briodol o ystyried y cyd-destun dwys a galarus. Dengys hefyd fel y bydd y deunydd crai, sef y negydd, yn aros hyd byth yn y cof.

---

<sup>196</sup> Ibid.

<sup>197</sup> *Barddas*, 313 (Hydref/Tachwedd/Rhagfyr 2011), t.5.

<sup>198</sup> Alan Llwyd, *Oblegid Fy Mhlant*, t.17.

<sup>199</sup> Alan Llwyd, *Ffarwelio â Chanrif*, tt.93-4.

<sup>200</sup> Alan Llwyd, *Oblegid Fy Mhlant*, t.17.

Fel Alan Llwyd, ni all Geraint Roberts ddiffodd lluniau ei ddychymyg ac mae agwedd y ddau fardd yn debyg gyda'r ymwybyddiaeth barhaol o ryfel a thrais yn mynnu lle ym meddwl y ddau. Cywydd yw 'Etifeddiaeth'<sup>201</sup> sy'n rhan o gasgliad a dderbyniodd ganmoliaeth hael yng nghystadleuaeth y Gadair yn Eisteddfod Genedlaethol Tyddewi yn 2002. Ymateb y mae'r cywydd hwn i'r ymosodiadau terfysgol a fu ar yr unfed ar ddeg o Fedi 2001 yn Efrog Newydd, fel y gwna cerdd arall a geir yn yr un casgliad. Fis cyn y derfysgaeth, bu'r bardd yn ymweld ag Efrog Newydd, ac wrth edrych yn ôl ar y lluniau a dynnodd o'r gwyliau, nid atgofion pleserus a ddaw i'r cof, ond ymdeimlad cryf o dristwch ac o freuder bywyd. O weld lluniau o'r ddau dŵr yn sefyll, caiff ei atgoffa o natur ddinistriol dyn a gwêl fod pob llun, diarwyddocâd ar adeg ei dynnu, bellach yn adrodd stori ddirdynnol:

Y llun sy'n agor llenni  
ar ryw ran o'n hanian ni  
a gair trwy y lliwiau'n gwau:  
mae llên mewn albwm lluniau.<sup>202</sup>

Fe gyfeirir eto at y lluniau lliw a'r cyferbyniad sy'n codi rhwng y lliwiau a thywyllwch y sefyllfa yn nes ymlaen yn y cywydd. Mae meddwl am y trychineb yn gwmwl du dros brofiad y bardd o ymweld â'r ddinas, a'r 'bedd a'i lwch heddiw / yn llwyd ar y lluniau lliw'.

Ar ddiwedd y cywydd y clywn am yr ymwybyddiaeth sydd ynghlwm wrth feddwl y bardd, ac a ddatblygodd o'r profiad o fod yn yr union le y digwyddodd yr ymosodiadau. Yr ymwybyddiaeth ddofn yw'r 'Etifeddiaeth' na all ei gwrthod; yr hunllef sy'n hawlio cornel o'i feddwl yn barhaol. Fel y 'dychwelodd Dachau eilwaith'<sup>203</sup> i feddwl Alan Llwyd, mae sgrech y delweddau ym meddwl Geraint Roberts hefyd yn mynnu aros a'i lethu:

oer yw'r waedd sydd nawr ar ôl –  
y waedd sydd imi'n waddol,  
a darlun pob llun o'r lle  
yn mynnu rhan o'm meinwe,

---

<sup>201</sup> *Barddas*, 269 (Medi/Hydref/Tachwedd 2002), t.17.

<sup>202</sup> *Ibid.*

<sup>203</sup> Alan Llwyd, *Cerddi Alan Llwyd 1968-1990: Y Casgliad Cyflawn Cyntaf*, t.382.



a'i liw yn gadael ei ôl  
yn gadarn o ddigidol.<sup>204</sup>

Mae'r lliw yn amlwg wedi tynnu sylw'r bardd. Mae fel petai rhywbeth amhriodol amdano wrth iddo fywiogi'r lluniau; ond ar yr un pryd, yn y cwpled sy'n cloi'r pennill hwn, bu'r lliw yn fodd i gryfhau realiti'r sefyllfa. Mae'r gynghanedd 'yn gadarn o ddigidol' yn ein trywanu â'i chaledrwydd, ac yn cyfleu i'r lluniau digidol, lluniau o ansawdd uchel, mae'n debyg, a phob brycheuyn wedi ei ddal gan lygad y camera, gael eu hoelio'n boenus i'r cof. Cyfeiria'r llinell hon hefyd at y dystiolaeth ddiriaethol, thema arall y mae Alan Llwyd wedi sylwebu'n fanwl arni. Mae'r digidol-dechnolegol wedi ei gadw mewn sawl archif gyfrifiadurol, a'r lluniau felly'n gadarn yn yr ystyr na chânt fyth eu dileu. Er i'r lluniau ymdroi ym meddwl y bardd, mae'n debyg fod gor-ddweud wrth iddo honni mai 'Y boen sydd ym mhen draw'r byd / yw 'mhoenau i bob munud'. Ond fe ddilynir y cwpled gan brofiad credadwy o'i anhunedd liw nos, a bryd hynny y 'daw'r ffilm i aros,' meddai. Gwelsom ganddo dystiolaeth ddiriaethol y cadernid digidol yn unol â syniadaeth Alan Llwyd, ond i gyd-fynd ymhellach â'i gilydd, cawn ar ddiwedd cywydd Geraint Roberts y syniad eto o archif y cof:

yn dawel yn oriel nos,  
am hir, daw'r ffilm i aros  
yn y chwys, gwelaf a chael  
nad yw'n Medi'n ymadael  
a chamera Kodak y cof,  
eleni, sy'n dal ynof.<sup>205</sup>

Yn debyg i 'negydd / du a gwyn' Alan Llwyd sy'n aros, mae camera'r cof yn 'Etifeddiaeth' hefyd yn dal y lluniau crai sy'n magu hunllefau.

Mae'r lluniau du a gwyn bellach yn lluniau lliw yn 'Aneirin' gan Iwan Llwyd,<sup>206</sup> cerdd sy'n disgrifio swyddogaeth gohebydd rhyfel heddiw ac a ysgrifennwyd ar ôl darllen cyfrol y newyddiadurwr Michael Herr, *Dispatches*, oedd â rhyfel Fiet-nam yn gefndir iddo. Un o swyddogaethau'r newyddiadurwr yw dod â rhyfel yn fyw i'r rhai sy'n dilyn ei ohebiaeth ac

---

<sup>204</sup> *Barddas*, 269 (Medi/Hydref/Tachwedd 2002), t.17.

<sup>205</sup> *Ibid.*

<sup>206</sup> Iwan Llwyd, *Dan Anesthetig* (Caerdydd, 1987), t.22.

sy'n gwrandio neu'n darllen ei adroddiadau, ac fe wna hynny drwy 'dynnu llun / dyn yn lladd mewn lliw'.<sup>207</sup> Dyma ddychwelyd at drafodaeth y cyffyrddwyd â hi yn y bennod gyntaf ar liwiau rhyfel, ac er i Iwan Llwyd grybwyll y llun lliw yng nghyd-destun datblygiad technoleg, di-liw yw pob rhyfel yn ei olwg ef pa bynnag gyfnod y perthyn iddo:

mewn du a gwyn,  
yng Nghatraeth a Kampuchea,  
y Somme a'r Chwe Sir ...<sup>208</sup>

Efallai fod lle i amau amcanion newyddiadurwr y gerdd hon: ai dangos camp dechnolegol yn unig yw ei fwriad, neu ai ceisio cyfleu realiti'r sefyllfa gystal ag y gallai yw ei nod, a hynny er mwyn annog cydymdeimlad a chymorth dyngarol? Anodd yw gwybod weithiau sut i ddehongli geiriau Iwan Llwyd heb wneud cam â'r bardd. Wrth iddo debygu swyddogaeth newyddiadurwr heddiw i rôl Aneirin yn y chweched ganrif, cyflwyno'r hen syniad fod cadw cofnod o'r milwyr yn cadw'r cof amdanynt yn fyw hyd byth. Gallai fod llinell glo'r gerdd yn gwbl ddiwyll ganddo, ond mae tuedd i'w darllen â dynnod o wawd y tu ôl iddi wrth i'r bardd gyfeirio at ffafr y newyddiadurwr â'r milwyr:

rhoddaist iddynt fri a oroesai frwydr  
a chip ar dragwyddoldeb  
yn awen ddi-duedd y newyddiadurwr.<sup>209</sup>

Os oedd gan Iwan Llwyd ergyd goeglyd at y newyddiadurwr gyda'r cyfeiriad at yr 'awen ddi-duedd', yna tybed beth oedd ganddo mewn golwg? Yn sicr, nid oedd Aneirin yn sylwebydd diduedd ar frwydrau'r Gododdin yn ei oes yntau; cael ei noddi i ganmol byddin Mynyddog Mwynfawr a wnâi gan adrodd hanes cwbl unochrog. Wrth inni ystyried newyddiadurwyr y papurau newydd poblogaidd heddiw, tipyn o jôc fyddai disgrifio'r rheiny'n diduedd hefyd wrth iddynt gael eu cysylltu'n aml ag un adain wleidyddol neu'r llall. Os nad yw newyddiadurwr y gerdd yn ddiwyll ei adroddiadau, mae yma led awgrym fod ganddo gymhellion eraill dros wneud y gwaith. Yn ei ragymadrodd i'r flodeugerdd *Gwaedd y*

---

<sup>207</sup> Ibid.

<sup>208</sup> Ibid.

<sup>209</sup> Ibid.

*Bechgyn*, â Alan Llwyd mor bell â gosod y newyddiadurwyr yn un o '[d]riawd celwyddog pob oes', ynghyd â gwleidyddion a militarwyr.<sup>210</sup>

Caiff byd y newyddiadurwyr rhyfel ei drafod gan dîm talwrn Caernarfon mewn englyn ar y testun 'Ymwelydd'.<sup>211</sup> Beirniadu newyddiadurwraig a wna'r englyn hwn a chri plentyn sy'n dioddef mewn rhyfel sydd i'w chlywed ynddo, fel y deallwn o'r rhagnodyn sydd i'r gerdd. Caiff y newyddiadurwraig ei phortreadu heb fath o gydymdeimlad yn perthyn iddi; cyflwyno stori afaelgar sy'n bwysig yn ei golwg hi yn anad dim arall:

Neithiwr daeth â'i gobeithion i dynnu  
ar dannau fy nghalon,  
ond dod wnaeth cydwybod hon  
dros dro i nodi'r straeon.<sup>212</sup>

Mae Gerwyn Williams yn dychanu'r newyddiadurwyr yn ei gerdd yntau, 'Baghdad',<sup>213</sup> a ddaw o'r dilyniant 'Dolenni' a gipiodd y Goron iddo yn 1994. Cawn ein cludo'n ôl yn y gerdd i gyfnod Rhyfel Cyntaf y Gwlff a gychwynnodd ym mis Awst 1990 ac a ddaeth i ben yn 1991.<sup>214</sup> Ar y trydydd ar ddeg o Chwefror yn 1991, cafodd dros bedwar cant o drigolion cyffredin eu lladd gan ddau fom a ddisgynnodd ar Baghdad. Yn y gerdd hon, fe dry'r brwydro'n gêm ping-pong uwch prifddinas Irac, a'r newyddiadurwyr yn sylwebyddion ar yr adloniant. Fe amlygir yn syth fel y mae'r newyddiadurwyr yn cadw hyd braich oddi wrth y brwydro 'o eisteddle'u myfyrdod'. Cawn yr argraff fod y bomio'n digwydd yn ystod darllediad newyddion ar y teledu, ac fe gyflëir teimlad o banig a chynnwrf wrth i'r darlledwyr ymbalfalu am eiriau i ddarlunio'r hyn sy'n digwydd. A hwythau heb sgript o'u blaenau a thechnoleg rhyfel mor newydd, rhaid bathu termau ar y pryd. Wrth glywed am '[d]udalennau'r sgript', dychmygwn fod yr olygfa yn Baghdad yn ymdebygu i olygfa mewn ffilm, bron â bod yn afreal; dyma ychwanegu eto at yr elfen adloniannol sydd i'r gwyllo. Unwaith i'r newyddiadurwyr ymgynefino â'r sefyllfa, maent yn 'ffyrnig bysgota am yr eirfa, /

<sup>210</sup> Alan Llwyd ac Elwyn Edwards (gol.), *Gwaedd y Bechgyn: Blodeugerdd Barddas o Gerddi'r Rhyfel Mawr 1914-1918* (Llandybie, 1989), t.31.

<sup>211</sup> Gerallt Lloyd Owen (gol.), *Pigion Talwrn y Beirdd*, 8 (Caernarfon, 1996), t.83.

<sup>212</sup> Ibid.

<sup>213</sup> Gerwyn Williams, *Cydio'n Dynn* (Talybont, 1997), t.36.

<sup>214</sup> Gwelir, hefyd, gerddi i Ryfel Cyntaf y Gwlff gan Gareth Alban Davies yn ei gyfrol, *Galar y Culfor* (Llandybie, 1992).

y bathiadau / i gwmpasu'r cyffroadau'.<sup>215</sup> Gallwn dychmygu'r math o fathiadau milwrol Saesneg a ddefnyddiwyd: 'surgical strikes', 'smart bombs', 'friendly fire' ac 'acceptable losses',<sup>216</sup> ac yn y blaen; termau sy'n haws eu llyncu, a geiriau sy'n fygydau taclus dros eithafiaeth greulon y gweithredoedd. Trwy ddefnyddio'r termau hyn y 'Cabolwn / fesul delwedd / gelfyddyd lladd';<sup>217</sup> fe grëir storfa o eiriau a thermau er mwyn perffeithio'r modd y disgrifir y darlun, ac fe droir y lladd yn grefft gan helaethder y ffurfiau arbenigol o ymosod. Mae'r defnydd o ymadroddion milwrol yn dechneg arall gan y cyfryngau i chwyddo'r pellter rhwng y gwylwyr a'r brwydro; ymhelaetha Stuart Allan yn ei astudiaeth *News Culture*, wrth iddo drafod y sylwebu a fu ar Rhyfel Cyntaf y Gwlff:

One of the possible effects of this apparent willingness to reprocess the military's preferred definitions of the situation, it has been argued, is that the reality of the conflict was effectively 'sanitized' for news audiences.<sup>218</sup>

Caiff difaterwch newyddiadurwraig ei drafod yn 'Harlem'<sup>219</sup> hefyd, cerdd arall a ddaw o'r un dilyniant. Er nad yw'r gerdd hon yn ymwneud â rhyfel yn benodol, mae'n werth rhoi sylw i'r modd y darlunia Gerwyn Williams agwedd y cyfryngau ynddi. Dychmygwn mai stori am derfysgoedd ardal groenddu Harlem yn Efrog Newydd yw'r eitem olaf ar y newyddion yn y gerdd, eitem a 'lanwodd slot' cyn i'r gyflwynwraig gael diflannu o'r stiwdio, a hithau fel ninnau wedi llwyr anghofio am y stori'n syth. Defnyddia'r bardd eirfa ysgafn er mwyn adlewyrchu sut y gwarchoda'r cyfryngau eu gwylwyr; mae'r 'piciodd draw... am gwta bum munud' a'r 'cludo'n ôl' yn glustogau i'n cydwybod. Nid bwriad y rhaglen newyddion yw rhoi cic galed inni a'n hannog i feddwl ddwywaith cyn parhau â 'meddwad y Sul'; nid yw am fentro ein gwneud yn anghyfforddus am fwy nag sy'n rhaid. Diddorol yw nodi'r ffugenw a ddefnyddiodd Gerwyn Williams ar gyfer cystadleuaeth y Goron yn 1994, sef 'Ti-Fi'. Mae'r cyfryngau, a'r teledu'n arbennig, yn cael eu plethu i bob cerdd yn ei ddilyniant, a'r gwahaniaeth rhwng y *nhw* sy'n dioddef a'r *ni* sy'n gwyllo yn cael ei ddinoethi. Mae yn y

---

<sup>215</sup> Ibid.

<sup>216</sup> Stuart Allan, *News Culture*, Trydydd argraffiad (Maidenhead, 2011), t.200.

<sup>217</sup> Gerwyn Williams, *Cydio'n Dynn*, t.36.

<sup>218</sup> Stuart Allan, *News Culture*, t.200.

<sup>219</sup> Gerwyn Williams, *Cydio'n Dynn*, tt.34-5.

ffugenw hefyd eironi'r syniad o ddadfeiliad cymuned ochr yn ochr â'r 'pentref byd-eang' y cyfeirir ato yn y gerdd 'Pentref'.<sup>220</sup>

Llai na phum munud yw'r bwletin newyddion sy'n cael ei ddarlledu ar deledu Gerwyn Williams; llai fyth yw'r amser a neilltuir ar gyfer eitem debyg sy'n sylwebu ar ryfel ar sgrin Hywel Griffiths yn 'Rhyfel'.<sup>221</sup> Dyma gerdd a ysgrifennodd ar y cyd ag Eurig Salisbury ar achlysur dathlu trigain mlynedd ers diwedd yr Ail Ryfel Byd, ac ynddi fe geir yr un syniad eto nad yw clipiau newyddiadurool yn cyflwyno'r darlun cyfan o dân rhyfel:

Eiliadau'r sgrin deledu  
Ydyw lliwiau'r dyddiau du,  
Tân y clywaf amdano –  
Nid anodd ei ddiffodd o.<sup>222</sup>

Mae rhoi lliw i'r 'dyddiau du' yn sicr yn ein gosod yn y presennol cyfoes: ym myd y teledu a'r lluniau lliw yn hytrach na'r du a gwyn. Ond efallai fod gormod o liw yn amhriodol ar gyfer cyflwyno sefyllfaoedd tywyll rhyfel, gan iddo roi gwedd ry gadarnhaol ar sefyllfa druenus. Mae'r lliw a gyflwynir ynghyd â'r ffaith fod 'rhyfel yn dawelach / Ar ein bocs' yn awgrymu bod rhywfaint o sensro ar yr eitemau newyddion ac na ddangosir realiti'r sefyllfaoedd wrth i'r cyfryngau gael dewis beth i'w ddangos a beth i'w hepgor. Wedi dweud hynny, nid yw'r bai yn cael ei lwytho'n gyfan gwbl ar y cyfryngau chwaith; cawn yn y gerdd hon i'r beirdd gyfeirio at agwedd hunangyfiawn ynghyd â naifrwydd rhai ohonom sydd â'n hunig brofiad o ryfel yn un ail-law. Rhydd y beirdd fai arnom ni hefyd am beidio ag ymateb i newyddion, am inni barhau â'n bywydau cysurus yn rhy hawdd gan wthio rhyfeloedd i bellafion y meddwl. Maent yn crisialu ein meddylfryd cul ni ynghylch rhyfel fel peth sy'n digwydd mewn gwledydd pell, ac na chaiff unrhyw effaith uniongyrchol arnom ni:

Rhyfel ar orwel yw hwn,  
Hwn yw'r rhyfel na phrofw'n.<sup>223</sup>

---

<sup>220</sup> Ibid., tt.28-9.

<sup>221</sup> Hywel Griffiths, *Banerog* (Talybont, 2009), t.52.

<sup>222</sup> Ibid.

<sup>223</sup> Ibid.

Gwelwn ar ddiwedd y gerdd wyleidd-dra'r beirdd wrth iddynt sylweddoli fod bechgyn ifainc yr Ail Ryfel Byd wedi brwydro i ddiffodd tân y rhyfel, a brwydro dros y dyfodol y maent bellach yn rhydd i'w fwynhau.

Yn wahanol i'r cerddi hynny sy'n amheus o'r sylw y mae'r cyfryngau a'r wasg yn ei roi i ryfel, teyrnged i ffotograffydd newyddiadurwl, sef Philip Jones Griffiths, sydd gan Gerwyn Wiliams yn 'Ffotograffydd'.<sup>224</sup> Cymro, yn enedigol o Ruddlan, oedd Philip Jones Griffiths a ddaeth yn adnabyddus yn sgil ei luniau o Fiet-nam a gyhoeddwyd yn 1971 mewn cyfrol o'r enw *Vietnam Inc.*. Yn hytrach na dangos y wedd arwynebol, a dewis a dethol beth i'w ddangos, tyrchu'n ddwfn i ddangos adlewyrchiad teg a wnaeth Philip Jones Griffiths o'r rhyfel, 'dal y drwg sy'n llechu / dan y wyneb cyhoeddus, / dan ryfelgri'r gwleidydd'.<sup>225</sup> Dyma newyddiadurwr didwyll a ddefnyddiodd ei ddawn i 'hel tystiolaeth ar ddu a gwyn / i liwio anwybodaeth / byd sy'n gwrthod gwrando'. Gwelwn eto'r du a gwyn gyfochr â'r lliw; du a gwyn yw lluniau enwog y ffotograffydd, ond mae'r cyfeiriad hefyd yn awgrymu fod y golygfeydd a welodd Griffiths yn Fiet-nam wedi eu cofnodi a'u cadw, yn dystiolaeth ddiriaethol gadarn. Mae i'r lliwio ystyr arall yma hefyd: dod â'r cyfan yn fyw inni wna'r lluniau, ac felly gobaith y ffotograffydd oedd ein haddysgu am yr hyn a oedd yn digwydd yn ystod rhyfel Fiet-nam a llenwi'r bylchau yn ein gwybodaeth drwy ddangos inni drallod y dioddefwyr. Yn sicr, fe lwyddodd yn ei ymdrech, ac mae'r deyrnged iddo wedi ei farwolaeth ym mis Mawrth 2008 yn *Barn* yn ategu diffuantrwydd geiriau Gerwyn Wiliams. Dywedodd David Hurn, cyfaill i'r ffotograffydd, amdano:

Credai Philip mai tasg newyddiadurwr oedd dweud y caswir a fyddai'n arwain at newid, ac at gynnydd. Roedd yn casáu'r modd y mae newyddion wedi cofleidio straeon ysgafn; roedd yn amheus o ddylanwad y *mogul* cyfryngol a'r golygydd lluniau digidol, ac roedd yn credu bod gan ffotograffwyr werth arbennig, fel llygad-dyst i ddigwyddiadau o bwys.<sup>226</sup>

Wrth fyfyrrio ar 'y byd sy'n gwrthod gwrando', cofiwn am gerdd arall o eiddo Gerwyn Wiliams, 'Goroeswyr',<sup>227</sup> a ddaw o'i gyfrol *Rhwng Gwibdaith a Coldplay*. Dyma gerdd sy'n

---

<sup>224</sup> Gerwyn Wiliams, *Tafarn Tawelwch* (Llanrwst, 2003), t.27.

<sup>225</sup> Ibid.

<sup>226</sup> *Barn*, 543 (Ebrill 2008), t.28.

<sup>227</sup> Gerwyn Wiliams, *Rhwng Gwibdaith a Coldplay* (Caernarfon, 2011), t.48.

rhoi llwyfan i Henry Allingham a Harry Patch, dau o oroeswyr olaf y Rhyfel Mawr a fu farw ill dau yn 2009. Honni y mae yma na roesom ni gyfle i'r ddau gyn-filwr rannu eu profiadau; disgrifia hwy fel 'Mudain y ganrif', cyn ychwanegu mai 'dyna'r ciplun newyddiaduro!' a gawn ohonynt. Awgryma 'ciplun' na chafodd yr un o'r ddau fawr o gyfle gan y cyfryngau i ymhelaethu ar eu profiadau. Sylweddola'r bardd fel y collasom gyfle i glywed eu hanesion gwerthfawr gan inni dorri ar eu traws byth a beunydd gyda'n hagwedd drahaus. Ond ar ddiwedd y gerdd, a'n 'sgrïpt' â'i geiriau gwag dibrofiad wedi methu ag argyhoeddi, rydym yn plygu gan gyhoeddi: 'Henry, Harry – mae pawb heddiw'n gwranddo!' A hithau'n rhy hwyr a'r ddau yn eu bedd, mae'r gerdd yn cloi â dagrau'r gwirionedd, sef fod yr 'hogia'n dal i fynd i frwydro'. Cyfleu'r un gwirionedd y mae llinell o gerdd arall ganddo, 'Sul y Cofio, 1987',<sup>228</sup> lle mae'n nodi fod, y 'tu hwnt i'r cofio, y cwffio'.

Mae Iwan Llwyd yntau'n gwylio goroeswyr y Rhyfel Mawr yn 'Cofio'r Somme 1916',<sup>229</sup> ond ymddengys i'r 'hen ddynion' hyn, yn wahanol i ddau oroeswr Gerwyn Williams, gael cyfle i fynegi eu colled yn gyhoeddus. Darlunia Iwan Llwyd y boen y maent yn ei dioddef yn feunyddiol, a'r golled a brofasant sy'n bell y tu hwnt i'n dealltwriaeth a'n profiad ni heddiw. Wrth i'r hen wŷr 'anadlu mewn eiliad / fwy o hagrwach a chyfog hanes / nag a welwn ni mewn einioes / o sgriniau antiseptig',<sup>230</sup> cawn ein llorio a'n rhoi yn ein lle. Trawiadol eithriadol yw'r ansoddair 'antiseptig' sydd eto'n awgrymu'r sensro sy'n digwydd i adroddiadau newyddion o ryfel; awgrymir bod yr hyn sy'n cael ei ddangos i ni wedi ei dylino neu ei esmwytho ar ein cyfer. Mae yma elfen warchodol i raddau; mae'r profiad fel petai wedi ei lanhau fel nad oes yn rhaid i ni halogi ein meddyliau. Wrth gloi'r gerdd, tyn y bardd ar brofiad y goroeswyr o heddwch y cyfnod presennol gan nodi iddynt ei werthfawrogi mewn modd na allwn ni mo'i wneud. Maent yn ddiolchgar am gartref, am drefn ac am degwch gwleidyddol, ac efallai mai awgrymu a wna'r bardd ein bod ni'n cymryd y pethau hynny'n rhy ganiataol.

---

<sup>228</sup> Gerwyn Williams, *Rhwng y Cŵn a'r Brain* (Caernarfon, 1988), tt.23-5.

<sup>229</sup> Iwan Llwyd, *Dan Fy Ngwynt* (Caerdydd, 1992), t.55.

<sup>230</sup> Ibid.

Ymhellach, ein hanwybodaeth ni o ryfel sydd gan Emyr Davies mewn golwg yn 'Bosnia',<sup>231</sup> cywydd a gomisiynwyd gan Barddas ar gyfer cyfarfod yn Eisteddfod Nedd a'r Cyffiniau, ac a gyhoeddwyd yn ddiweddarach yn ail gyfrol *Cywyddau Cyhoeddus*. Chwalu ein hyder hunangyfiawn yn llwyr a wna yma, a'n hatgoffa nad oes gennym le i feirniadu heb fod â phrofiad o fyw dan orthrwm rhyfel ein hunain. 'Ni wyddom' yw geiriau cyntaf y gerdd, gosodiad sy'n cael ei ailadrodd ar ddechrau'r ail a'r trydydd pennill, gan nodi rhestr o brofiadau dychrynlyd na allwn uniaethu â nhw. Gwahanol yw'r 'Ni wyddom' ffeithiol yma i 'Wydden ni ddim' Grahame Davies,<sup>232</sup> sy'n esgus parod a chyfleus pan gaiff pob cenhedlaeth ei holi beth wnaeth hi i atal anfadwaith ei chyfnod. 'Wydden ni ddim ... Mai i'w difa 'roedd yr Iddewon yn mynd',<sup>233</sup> oedd ateb yr Almaenwyr wedi'r Ail Ryfel Byd, yn ôl y bardd; fe adlewyrcha'n anesmwyth ein tuedd i wadu sefyllfaoedd annymunol a'n hamharodrwydd i gynnig cymorth i ddioddefwyr rhyfel a newyn. Mae'r dychan yn gryf yn y gerdd hon wrth i Grahame Davies ddangos agwedd yr Almaenwyr er gwaethaf y dystiolaeth amlwg oedd o'u blaenau o'r driniaeth a gafodd Iddewon yr Holocaust. Try'r feirniadaeth arnom ni wedyn, wrth i ninnau wadu inni wybod sut i estyn llaw at y 'sgerbydau ar y sgrîn bob nos'.

Lladd ar gymdeithas honedig waraidd a wna Emyr Davies yn 'Bosnia' hefyd. Ni all unrhyw lun gyfleu sefyllfa dioddefwyr rhyfel yn union, ac felly ni allwn fyth ddirnad eu poen na'u profiadau:

Ni wyddom am ddioddef;  
Ni all llun ailyngan llef  
Na dal rhan o'i dolur hi,  
Unrhyw ran o'i thrueni.<sup>234</sup>

Â yn ei flaen i ddarlunio'r newyddiadurwyr ar faes y frwydr, sydd â'u hadroddiadau'n ysgogi ein 'gofid gwâr', rhyw ofid dros dro. Dywed ar ddiwedd y cywydd mor hawdd yw inni anghofio am ryfeloedd nad ydynt yn effeithio'n uniongyrchol arnom ni. Yn ein 'hanymyrraeth', ni ddown i wybod chwaith am y dioddefwyr a lyncwyd gan y rhyfel:

---

<sup>231</sup> *Barddas*, 209/210 (Medi/Hydref 1994), t.33.

<sup>232</sup> Grahame Davies, *Cadwyni Rhyddid* (Abertawe, 2001), tt.32-4.

<sup>233</sup> *Ibid.*, t.32.

<sup>234</sup> *Barddas*, 209/210 (Medi/Hydref 1994), t.33.



A hanes eu trueni  
Mwy yn nos na wyddom ni.<sup>235</sup>

Yr un ergyd tuag at ein dallineb sydd gan Gerwyn Williams yn 'Milwyr Papur',<sup>236</sup> cerdd o'i gyfrol *Rhwng y Cŵn a'r Brain*. Wedi darllen y rhagnodyn i'r gerdd, deallwn mai ymateb i erthygl mewn papur newydd y mae'r bardd am blant deuddeg oed sy'n filwyr mewn byddinoedd yn y Dwyrain Canol. Mae'r gerdd yn agor â chwestiwn nawddoglyd: 'Be wyddoch chi, hogia'', cwestiwn sy'n cael ei holi deirgwaith gan ymhelaethu ar ddiffyg profiad bywyd y bechgyn ifainc sy'n brwydro. Ond erbyn diwedd y gerdd, mae'r 'chi' wedi troi'n 'ni', a'n difaterwch a'n hanwybodaeth yn pwyso ar gydwybod y bardd:

Be wyddom ni, hogia',  
tra'n fflitian-darllen –  
rhwng ein coffi a'n smôc a'n bisgedi –  
yr horosgôp a'r dudalen deledu,  
eich hanes bregus chi?<sup>237</sup>

Eto, fe chwelir y syniad myfiol ein bod ni'n hollwybodus am broblemau'r byd. Daw i gof adnod o lyfr y Diarhebion: 'Nid yw'r ynyfod yn ymhyfrydu mewn deall, dim ond mewn mynegi ei feddwl ei hun.'<sup>238</sup> Dyma adnod sy'n mynd law yn llaw â'r gerdd hon, ac sy'n berthnasol hefyd wrth droi at gerdd agoriadol Gerwyn Williams yn y dilyniant 'Dolenni', sef 'Pentref'.

Dyma gerdd arall sy'n trafod anwybodaeth dyn ac mae hi'n gyforiog o gyfeiriadau at gyfryngau gwybodaeth. Cyfeirir, ar ddechrau'r gerdd, at syniad Marshall McLuhan o'r 'pentref byd-eang' gan chwalu'r syniad o gymdeithas glòs ac ymestyn gorwelion ein cymuned trwy ddatblygiadau technoleg. Gwêl y bardd fod y cyfryngau gwahanol, y papurau newydd a'r teledu, cyfryngau y gellid eu defnyddio i godi ymwybyddiaeth o broblemau y mae angen eu trin, yn hytrach yn fodd inni anwybyddu'r problemau hynny. Yn lle cynnig llaw, 'cloi'r llenni'n dynnach' a wnawn, a chloi'n derfynol, sylwer, nid cau dros dro. Llwythwn ein hunain â ffeithiau newyddiadurol er mwyn bwydo'r trachwant sydd gan ddyn am

---

<sup>235</sup> Ibid.

<sup>236</sup> Gerwyn Williams, *Rhwng y Cŵn a'r Brain*, t.26.

<sup>237</sup> Ibid.

<sup>238</sup> Diarhebion 18:2 yn *Y Beibl Cymraeg Newydd*.

wybodaeth, ond gwahanol yw gwybodaeth a dealltwriaeth a gwir gydymdeimlad, fel y noda'r bardd:

porthwn  
gawr ein gwybodaeth  
corrach ein dealltwriaeth.<sup>239</sup>

Caiff ein diffyg dealltwriaeth ni o sefyllfaoedd o wrthdaro a thywallt gwaed sylw gan amryw o feirdd. Sylweddoliad sydd gan Enid Wyn Baines yn 'Bosnia',<sup>240</sup> wrth iddi gofio nad yw hi wedi clywed am helyntion rhyfel Bosnia ar y newyddion ers tro. Cyhoeddwyd y gerdd yn rhifyn Medi/Hydref o *Barddas* yn 1994, rhyw ddwy flynedd a hanner ers cychwyn y rhyfel. 'Mae Bosnia ar goll,' meddai, ac wrth i'r cyfryngau golli diddordeb yn sefyllfa'r wlad, 'llithrodd oddi ar sgrin / cyfrifiadur fy ymennydd' hefyd; '*out of sight, out of mind*', chwedl yr idiom Saesneg. Fe chwilia am hanes Bosnia dan amryw o benawdau, ond yn ofer. Daw i'r amlwg fod ganddi feirniadaeth gynnill ar grefydd wrth iddi ychwanegu at y rhestr o'i chwiliadau: 'Mohamed' ac yna 'Duw'. Arwyddocaol yw'r cyfeiriadau o ystyried cyd-destun rhyfel Bosnia lle cafodd grwpiau Mwslemaidd a Croatiaid Pabyddol eu herlid gan y Serbiaid, sy'n Gristnogion uniongred, mewn ymgyrch glanhau ethnig. Gorfodwyd grwpiau ethnig cynhenid i ffoi oddi yno ac mae'r union nifer a laddwyd yn ystod yr hil-laddiad yn dal i fod yn niwlog heddiw.

Daw ton o ludded i'n mygu ar ddechrau'r gerdd: 'Caed syrffed ar wae Sarajevo', ac wrth gyfeirio at Gorazde, dinas yn nwyrain Bosnia a Herzegovina, dywed y bardd y 'Diflaswyd ar ei chur'. Dyma gyflwr a elwir yn Saesneg '*compassion fatigue*', a all afael mewn pobl wrth iddynt glywed yr un hen newyddion digalon dro ar ôl tro. O sylwi ar brinder ei gwybodaeth am ryfel Bosnia a methu â dod o hyd i unrhyw gofnod yn archif ei chof chwaith, mae Enid Wyn Baines yn cydnabod na all hi ddadlennu ffeithiau penodol yn ei cherdd; dim ond rhyw eiriau tawel, amhendant sydd ganddi i'w cynnig:

a myngus yw 'ngerdd [*sic*].  
Rhyngddi hi a'i thestun

---

<sup>239</sup> Gerwyn Williams, *Cydio'n Dynn*, t.29.

<sup>240</sup> *Barddas*, 209/210 (Medi/Hydref 1994), t.33.

y mae uffern o anwybod  
y mae miliwn ar ddisberod  
ac mae dau gan mil o gyrff.<sup>241</sup>

Mae'n debyg fod y cyfryngau wedi honni'n gyson tan 1994 fod 200,000 wedi eu lladd yn y rhyfel, er bod y ffigurau'n ansicr ac yn amrywio rhwng 25,000 a 200,000 mewn gwahanol adroddiadau.<sup>242</sup> Yr un mor ansicr oedd y nifer y credid eu bod ar goll hefyd. Gall y ffigurau hyn a ddefnyddia'r bardd fod yn adlewyrchiad o'r prinder gwybodaeth oedd ar gael pan ysgrifennodd y gerdd. Os felly, mae'r amcangyfrif yn ychwanegu at ergyd y gerdd ac yn brawf na chafodd Bosnia sylw teilwng dros flwyddyn olaf y brwydro.

Gwelwn yma hefyd mor annigonol yw geiriau er mwyn cyfleu tristwch a llymder rhyfel, problem sy'n wynebu nifer o feirdd. Cyfeiriwyd eisoes at honiad y beirniad o Almaenwr, Theodor Adorno, yn 1949, fod ysgrifennu barddoniaeth yn beth barbaraidd wedi artaith Auschwitz.<sup>243</sup> Mynegodd Gwyn Thomas hefyd wrth drafod y golygfeydd o'r Ail Ryfel Byd a naddwyd yn ei gof, ac wedi iddo ddarllen mwy am yr Holocaust, fod y 'cyfan y tu hwnt i eiriau',<sup>244</sup> ond dywed hefyd wrth ystyried swyddogaeth barddoniaeth fod 'bardd o bwys yn canu meddwl a theimlad ei gyfnod ac yn darganfod enwau i brofiadau ei amserau'.<sup>245</sup> Eglura Alan Llwyd hefyd yn ei nodiadau golygyddol yn y cylchgrawn *Barddas* ei fod yntau'n 'un o'r beirdd hynny sy'n credu y dylai bardd adlewyrchu ei oes yn ei ganu'.<sup>246</sup>

Mae sylweddoliad na all geiriau leddfu poen rhyfel yng nghân Tecwyn Ifan, 'Cân yr Adar Mân', ei geiriau gan Mererid Hopwood. Cân yw hi sy'n wrthdystiad yn erbyn yr awyrennau rhyfel dibelot, y 'drones' neu adar angau, a ddefnyddiwyd am y tro cyntaf ym mlynnyddoedd cynnar y Rhyfel Mawr ond sydd bellach wedi dod yn arfau poblogaidd a llawer mwy datblygedig. Dywed yn syml dan wylo: 'Ac am nad oes geiriau'n falm / canaf eiriau

---

<sup>241</sup> Ibid.

<sup>242</sup> Steven L. Burg & Paul S. Shoup, *The War in Bosnia-Herzegovina: Ethnic Conflict and International Intervention* (New York, 2000), tt.169-70.

<sup>243</sup> Theodor W. Adorno, 'Cultural Criticism and Society', *Prisms*, Nawfed argraffiad (Massachusetts, 1997), t.34.

<sup>244</sup> Gwyn Thomas, 'Gwyn Thomas', *Dylanwadau*, gol. Eleri Hopcyn (Llandysul, 1995), t.98.

<sup>245</sup> Gwyn Thomas, *Golwg ar Farddoniaeth Ddiweddar* (Llandysul, 1976), t.24.

<sup>246</sup> *Barddas*, 264 (Awst/Medi/Hydref 2001), t.9.

cur'.<sup>247</sup> Wrth geisio dirnad golygfa waedlyd yng Nghoed Mametz yn ystod brwydr gyntaf y Somme yn y Rhyfel Byd Cyntaf, mae Ifor ap Glyn yntau'n dweud fel hyn yn 'Y Tyst':<sup>248</sup>

Mae fy ngherdd yn Jiwdas yn fy ngenau.  
Dwi'n gorfod byw hefo'r hyn a welais  
A'm hanallu i'w gyfleu.<sup>249</sup>

Fel yng ngherdd Enid Wyn Baines, dallineb dyn a'r modd y cyflwynir rhyfel gan y cyfryngau sydd yn englyn Einion Evans hefyd, 'Rhyfel y Bocs':

I wŷr heb gno galaru – mawr yw'r llwydd  
ym mro'r lladd a'r gwaedu.  
Erchyllterau'r dyddiau du  
a wnaed yn sioe deledu.<sup>250</sup>

Nid yn unig y mae pwyslais ar yr elfen adloniannol yma o ddangos rhyfel ar y sgrin, ond mae dweud hefyd i'r 'sioe' fod yn llwyddiant ysgubol. Ond sylwer mai llwyddiant ydyw yng ngolwg rhai nad ydynt erioed wedi profi'r galar sy'n dod law yn llaw â rhyfel; mae'n debyg nad yr un fyddai barn y rheiny sydd wedi dioddef profedigaethau. Gall y 'sioe deledu' gyfeirio, mae'n debyg, at y darllediadau newyddiadurol, lle mae'r wedd adloniannol yno'n gref i ddenu gwylwyr; yr un 'sioe deledu' a welsom yn 'Baghdad' gan Gerwyn Williams. Neu efallai mai cyfeirio y mae at ffilm neu ddrama deledu, ac at y modd y defnyddir rhyfel fel thema adloniannol heddiw.<sup>251</sup> Ymhelaethir ar y wedd adloniannol sy'n perthyn i adroddiadau newyddion yn y bennod 'Live TV and Bloodless Deaths' yn *War and the Media*:

There are certain key features of the presentation of war on television that have emerged over the last decade of war reporting, which demonstrate the tendency to using entertainment formats ... As a result of this homogenization of coverage of

---

<sup>247</sup> *Cristion*, 169 (Tachwedd/Rhagfyr 2011), t.14.

<sup>248</sup> Ifor ap Glyn, *Waliau'n Canu* (Llanrwst, 2011), tt.67-8.

<sup>249</sup> *Ibid.*, t.68.

<sup>250</sup> *Barddas*, 169 (Mai 1991), t.20.

<sup>251</sup> Defnyddia Dylan Iorwerth y syniad o ryfel fel adloniant mewn stori fer o'i gyfrol *Darnau* (Caernarfon, 2005) a enillodd y Fedal Ryddiaith yn 2005. Stori ar ffurf sgript rhaglen realaeth yw 'I'r Gad' lle gwelir pedwar Cymro yn gorfod byw mewn ffos yng ngwlad Belg o dan yr un amgylchiadau ag y byddai milwyr y Rhyfel Mawr wedi gorfod eu dioeddef, tra gwylia'r gynulleidfa yn y stiwdio'n awchus.

conflicts – bloodless and largely devoid of any real sense of death and destruction – the audience can be desensitized to the tragedy and horror of war.<sup>252</sup>

Mae R. John Roberts o dîm talwrn Llanrug yn cyfannu'r holl sylwadau uchod mewn hir-a-thoddaid dan y testun 'Rhyfeloedd ar deledu' wrth iddo yntau gyfeirio at yr adloniant cyfrifiadurol, at guddio'r gwaed a'r marwolaethau, ac at galedu'r gwylwyr:

*Yma ar f'aelwyd y mae rhyfeloedd*  
Yn rhwydd, ddiangau, yn rhydd o'u hingoedd;  
Ar faes y sgrin ni cheir gwaed byddinoedd;  
Arcêd giamocs a roceda gymoedd;  
Hidlir galar cenhedloedd ganddo fo,  
Sgwâr amwyso ein holl ysgarmesoedd.<sup>253</sup>

Awgrymir eto gyda'r berfenw 'amwyso' y gall y cyfryngau ddewis sut i ddehongli rhyfeloedd, ac yn yr achos yma maent yn glanhau'r profiad mor drwyadl nes bod y dychryn a'r dagrau'n cael eu golchi ymaith hefyd. Gwelsom eisoes i Gerwyn Williams gyfeirio at eiriau Marshall McLuhan yn 'Pentref', ac fe adleisir geiriau'r athronydd yma hefyd yn y llinell gyntaf. Wrth ddweud fod y teledu wedi cyflwyno rhyfel i ddiddosrwydd ein cartrefi, daw dyfyniad Marshall McLuhan i gof: 'Television brought the brutality of war into the comfort of the living room',<sup>254</sup> ond fe hepgorwyd pob erchyllter a chreulondeb yn yr hir-a-thoddaid hwn, a rhoddwyd y pwyslais yn gyfan gwbl ar y wedd adloniannol. Ychydig yn wahanol i weddill y beirdd â'u tuedd i ganolbwyntio ar raglenni teledu'n unig, fe gyfeiria R. John Roberts at y gemau cyfrifiadurol sy'n llythrennol yn troi rhyfel yn gêm ddi-chwaeth. Dyma ddiwyg poblogaidd i gemau cyfrifiadurol erbyn hyn yn ôl erthygl ym mhapur y *Guardian* sy'n beirniadu'r diwydiant: 'the videogame market is essentially a bad-taste exploration of varieties of violence,'<sup>255</sup> meddai'r newyddiadurwr Mark Lawson wrth drafod penderfyniad un cwmni i atal eu cynlluniau i gynhyrchu gêm wedi ei seilio ar Ail Ryfel y Gwlff.

<sup>252</sup> Daya Kishan Thussu, 'Live TV and Bloodless Deaths: War Infotainment and 24/7 News', *War and the Media*, gol. Daya Kishan Thussu & Des Freedman (London, 2003), t.124.

<sup>253</sup> Gerallt Lloyd Owen (gol.), *Pigion Talwrn y Beirdd*, 6 (Caernarfon, 1992), t.176.

<sup>254</sup> <http://www.britannica.com/EBchecked/topic/355118/Marshall-McLuhan/355118suppinfo/Supplemental-Information> (Cyrchwyd 05/12/2012).

<sup>255</sup> Mark Lawson, 'War games and gaffes', *The Guardian* (19/04/03), t.17.

Pregethu yn erbyn y syniad o adloniant rhyfel y mae Alan Llwyd wrth ymateb i'r ffilm enwog yn ei gerdd 'Schindler's List: 1993'.<sup>256</sup> Nid ffilm i'w gwyllo er difyrrwch yw hon, ond ychwanegiad sylweddol at y casgliad o dystiolaeth gadarn sy'n bod o ddiodefaint yr Ail Ryfel Byd a'r Holocaust yn benodol. Yn groes i 'gelfyddyd lladd' Gerwyn Wiliams yn 'Baghdad',<sup>257</sup> nodda Alan Llwyd yn ddiysgog:

Nid celfyddyd yw hyn, y dychryn yng nghyfnos y dydd,  
yr arswyd yn y llwydwyll;  
nid difyrrwch mo'r egrwch a roir  
yn ddelwedd ar y sgrin ddeuliw,  
ar sgrech ddilafar o sgrin,  
y tywyllwch yn y lled-dywyllwch dychrynlyd hwn.<sup>258</sup>

Caiff y lliwiau, neu'r prinder lliwiau, yn hytrach, fwy o sylw wrth i'r gerdd fynd yn ei blaen, a chôt goch y ferch fach yn trawiadol dynnu sylw. Gwelwn ar ddiwedd y gerdd y 'ffilm ddu a gwyn yn gwaedu'n y gwyll', wrth i'r cyfuniad sylfaenol o dri lliw adlewyrchu'n ddigonol dywyllwch stormus a gwaedlyd yr Ail Ryfel Byd. Fe atgyfnerthir ymhellach y pwyslais ar y camwedd o ddefnyddio rhyfel fel adloniant wrth i'r bardd gyfeirio at yr anfadrwydd sydd wedi ei wreiddio mewn dynion, thema sy'n codi'n aml ym marddoniaeth Alan Llwyd fel yng ngwaith Gwyn Thomas:

Nid adloniant, yn y gwyll, yw dadlennu  
y creulondeb a'r casineb sy' ynom.

I'r gwrthwyneb, adloniannol a hamddenol eto yw osgo 'Hwiangerdd'<sup>259</sup> Gerwyn Wiliams wrth inni 'syrffio diodefaint' ar y we neu drwy sianeli'r teledu a 'sgimio wyneb môr digofaint'. Dyma gerdd sy'n cyfochri lluniau'r sgrin, 'claf Irac a'i fyd yn g'reiau' a'r 'milwr ym mherfeddion Dallas' â'r hyn sy'n ennyn mwy o'n diddordeb a hithau'n noson braf ar y sofffa mewn cartref clyd. Rhyw hanner sylwi a wnawn ar fwletinau'r newyddion, tra crwydra'n meddyliau at ddillad o gatalog Next, at y modelau golygus ac at wyliau'r flwyddyn nesaf. Trafod ein difaterwch ni y mae Gerwyn Wiliams yn y gerdd, gan ddangos pa mor hawdd yw

<sup>256</sup> Alan Llwyd, *Ffarwelio â Chanrif*, tt.138-9.

<sup>257</sup> Gerwyn Wiliams, *Cydio'n Dynn*, t.36.

<sup>258</sup> Alan Llwyd, *Ffarwelio â Chanrif*, t.138.

<sup>259</sup> Gerwyn Wiliams, *Rhwng Gwibdaith a Coldplay*, t.55.

hi inni anghofio'n syth yr hyn a welsom ar y newyddion wrth inni barhau â'r ddefod nosweithiol a phwyso'n gyfforddus ar hen batrwm: 'ymolchi, gwely, sws-nos-da'. Arddull debyg i un Gerwyn Williams sydd gan Bobi Jones yn 'Lluniau o'r Swdán',<sup>260</sup> lle mae'r lluniau ar y teledu o'r newyn a ddaeth yn sgil y rhyfel cartref yno yn toddi i ganol yr hysbysebion llachar. Gwelir, hefyd, Aled Lewis Evans yn 'Llythrennau',<sup>261</sup> yn cyfosod rhyfel a normalrwydd bywyd bob dydd, a'r normalrwydd y tro hwn yn gryfach paradocs gan mai diniweidrwydd plentyn sydd dan sylw.

Caiff y normalrwydd cyfforddus hwnnw sylw eto gan Gerwyn Williams yn 'Rhywle',<sup>262</sup> lle dywed fod y lluniau newyddiadurol o ryfel Bosnia, fel y lluniau o unrhyw ryfel arall, yn rhan o'n profiad bob dydd ni bellach, ac nad ydynt yn amharu dim ar lif bywyd:

Dim ond  
llun i'w gartrefu  
yn niddosrwydd ein trosiadau,  
ei lapio mewn normalrwydd,  
tra pery'r ddawns.<sup>263</sup>

Gwelsom eisoes gan Gerwyn Williams, yn ei gerdd 'Baghdad', fel y 'cabolwn fesul delwedd' bob golygfa dreisgar a'u trosi'n rhaff o dermau gweigion gan lapio'r llun mewn geiriau gwlan cotwm. Syniad tebyg i'r trosiad hawdd ei lyncu sydd gan y bardd yn 'Bugail y Ffosydd',<sup>264</sup> hefyd, lle mae'n sôn am y llun ystrydebol hwnnw o filwr a ymddengys ar ein sgriniau dro ar ôl tro: 'Pobun y rhaglenni dogfen, / trosiad herciog du a gwyn'. Cysyniad yw llun y milwr clwyfedig yn ein meddyliau ni, ac ni welwn ef fel unigolyn trallodus mwy; mae llun pob milwr wedi toddi'n un gennym.

Byrdwn Gerwyn Williams mewn sawl cerdd yw ein bod ni, ac yntau'n gynwysedig, yn gwylio rhaglenni newyddion heddiw heb ystyried y straeon, a gwêl fod ein cydymdeimlad wedi ei golli gan mor aml y clywn am sefyllfaoedd o'r un anian. 'Dim ond llun' yw'r hyn a

---

<sup>260</sup> Bobi Jones, *Canu Arnaf*, Cyfrol 2 (Llandybie, 1995), tt.201-3.

<sup>261</sup> Aled Lewis Evans, *Tonnau* (Llandybie, 1989), t.46.

<sup>262</sup> Gerwyn Williams, *Cydio'n Dynn*, t.32.

<sup>263</sup> Ibid.

<sup>264</sup> Gerwyn Williams, *Tafarn Tawelwch*, t.24.

welwn ar y sgrin yn 'Rhywle';<sup>265</sup> llun ffuglenol yn hytrach na golygfa go iawn, ac mae'r holl wledydd y clywn amdanynt, fel lluniau'r milwyr, yn un gybolfa amhersonol. Cywilydd ein difaterwch a'n diffyg diddordeb sydd yma eto wrth inni gyfeirio at y 'rhywle' amhenodol sydd o hyd dan gysgod rhyfel. Caiff byd y cyfryngau a'r newyddion hefyd ei feirniadu yn y gerdd; dim ond 'pan yw blas y stori'n melysu' y rhydd y cyfryngau sylw i ryfel, a gorau oll os yw'r wlad yn un ac iddi enw egsotig. Down yn ôl drachefn at y syniad o'r sioe deledu, a'r straeon newyddiadurol yn berfformiadau, yn 'piriwetio i ganol / llwyfan y newyddion'.<sup>266</sup> Fe ailadroddir 'Dim ond llun' bedair gwaith drwy'r gerdd gan ychwanegu pwyslais gwahanol bob tro; yn enwedig felly wrth gloi lle caiff pob gair ei linell ei hun gan orfodi arnom ysgytwad y 'Dim'. Dyna roi cic haeddiannol inni er mwyn deffro ein heuogrwydd.

Sylwn yn aml yn y cerddi na allwn weld heibio i ffiniau ein bydoedd unigol am yn rhy hir, a phan fydd delweddau'r sgrin yn ein hanesmwytho neu'n ein blino, digon hawdd yw diffodd y llun fel y dengys R. John Roberts mewn cerdd a gyfansoddwyd ar gyfer un o ornestau'r Talwrn. Diniweidrwydd plentyn sydd yn 'Coel',<sup>267</sup> a'r goel tu ôl i'r teitl yw 'Fod cuddio'i llygaid / Yn ddigon i guddio'r byd'. Sôn y mae yma am ferch fach yn chwarae gêm o guddio, yn berffaith fodlon ei byd; ond tu ôl i'r hwyl a'r ysgafnder chwareus, gwêl y bardd arwyddocâd dyfnach i gred 'Anwen fach' y gall gau'r byd allan drwy gau ei llygaid. Mae yntau'n gobeithio, wedi 'diffodd y set', y bydd newyn Somalia, a'r golygfeydd truenus sy'n ganlyniadau i'r rhyfel cartref yno, i gyd yn cael eu cuddio. Ymgais i leddfu'r gydwybod yw diffodd y teledu, mae'n debyg, gan wthio'r lluniau o'r neilltu.

Digwydd yr un peth yn 'Lockerbie' gan Gerwyn Williams.<sup>268</sup> Yno, mae cyferbyniad rhwng goferu llyfn y llinellau a'r feirniadaeth lem sydd ym mhlygion y geiriau. Yn wawdlyd, dywed mai ni, o flaen y teledu, sy'n 'drueiniaid' yma am inni orfod dioddef gwylio'r erchyllterau ar y newyddion, ac am inni gael ein hysgwyr a ninnau ar fin ymlacio a dechrau gwylio rhaglen ysgafn. Mae'n adlewyrchiad miniog o'n hunanoldeb; sylwer mai 'ni' sy'n cael sylw yn y gerdd, a bod yr unig gyfeiriad at y dioddefwyr go iawn, 'fe'u plastrwyd yn garcas ar gynfas', yn cael ei ddilyn yn syth gan yr 'ein' hunanbwysig eto. Roedd hi'n 21ain o Ragfyr,

---

<sup>265</sup> Gerwyn Williams, *Cydio'n Dynn*, t.32.

<sup>266</sup> Ibid.

<sup>267</sup> Gerallt Lloyd Owen (gol.), *Pigion Talwrn y Beirdd*, 7 (Caernarfon, 1994), t.26.

<sup>268</sup> Gerwyn Williams, *Cydio'n Dynn*, tt.30-1.



1988, pan fomiwyd yr awyren uwch Lockerbie yn ne'r Alban gan derfysgwyr gwrth-Americanaidd, a lladdwyd 270 i gyd gan y ffrwydrad a'r darnau o'r awyren a ddisgynnodd dros dai yn y dref. Gan mor annymunol inni oedd gwylio hyn oll, a'r naws drist yn tarfu ar gyffro'r Nadolig, cafodd y sgrin ei diffodd. Caiff cymdeithas ei darlunio eto'n oeraidd a dihid, ac mae'r bardd ei hun yn cydnabod nad yw'n cofio iddo yntau ymateb i'r drychineb:

Felly'r noson annhymhorol honno,  
be wnaethom ni wedyn,  
ar ôl hyn?  
Fawr ddim, am wn i.  
Dim,  
dim ond gwasgu y botwm  
er mwyn diffodd y llun.<sup>269</sup>

Caiff lluniau'r sgrin a'r camera yn ogystal â lluniau'r cof gryn sylw gan feirdd. Bu Alan Llwyd yn 'Chwilio am Ddelwedd Gymwys'<sup>270</sup> yn ei gyfrol *Oblegid Fy Mhlant* wrth iddo geisio crisialu '[g]wae'r amseroedd' mewn un llun. Yno mae'n 'darllen pob cerdd ddolurus'; mae'n meddwl am ddigwyddiadau penodol yn Iwerddon, am farwolaeth Lorca yn Sbaen, ac am Heledd yr hen ganu englynol, cyn troi at 'bob delwedd o'r gwirionedd ar y sgrin, / arswyd ar ein haelwydydd drwy'r teledu / nad oes dim dianc rhagddo'.<sup>271</sup> Ond ni wna'r un o'r delweddau hyn y tro. Daw o hyd i'w ddelwedd ar ddiwedd y gerdd, ac fe baentia'r llun yn ofalus gan ddangos fel yr â bywyd rhagddo er gwaethaf holl drais y byd a'r ymwybyddiaeth ohono; ymwybyddiaeth sy'n ein llethu ar brydiau ac sy'n amhosib ei hanwybyddu. Trosiad sydd ganddo'n cloi'r gerdd wrth iddo debygu llif bywyd i lif afon:

yr afon honno yn ymlifo ymlaen  
dan oerni'r îâ, dan drais y gwydr iasoer  
sy'n fferru hoywder ffrwd pob calon lew:  
y dŵr a'i dreigl isel dan y gwydr glasoer,  
bywyd yn llifo rhagddo dan y rhew.<sup>272</sup>

---

<sup>269</sup> Ibid., t.31.

<sup>270</sup> Alan Llwyd, *Oblegid Fy Mhlant*, tt.12-13.

<sup>271</sup> Ibid., t.13.

<sup>272</sup> Ibid.

Bedair blynedd ar ddeg yn ddiweddarach, yn y flwyddyn 2000, mae'n 'Ffarwelio â'r Delweddau'<sup>273</sup> sydd wedi eu hoelio i'r ugeinfed ganrif, cyn parhau yn 2005, yn ei gyfrol *Clirio'r Atig a Cherddi Eraill*, i bysgota delweddau'r oesoedd mewn cerdd, 'Delweddau o'r amseroedd'.<sup>274</sup> Ystyria'r delweddau o'r Rhyfel Mawr a oedd ynghlwm wrth oes ei daid, y delweddau o'r Holocaust a oedd wedi eu naddu i feddwl ei dad, ac mae yntau'n cofio cwmwl madarch Hiroshima, saethu J. F. Kennedy a thrychineb Aber-fan. Wrth restru digwyddiadau treisgar yr ugeinfed ganrif, perthnasol yw cofio am ddiwedd cerdd Edwin Brock, 'Five Ways to Kill a Man', y cyfeirir ati gan Gerwyn Williams yn 'Baghdad'. Awgryma'r bardd o Sais mai'r ffordd symlaf a mwyaf didrafferth o ladd dyn yw trwy ei osod yng nghanol yr ugeinfed ganrif, gan y bydd un o helyntion niferus y cyfnod yn sicr o'i ladd yn hwyr neu'n hwyrach. Â Alan Llwyd yn ei flaen i feddwl am genhedlaeth ei blant a'r delweddau sy'n gysylltiedig â phum mlynedd gyntaf yr unfed ganrif ar hugain, ac mae digon ohonynt: ymosodiadau 9/11, y bomio a fu yn Llundain ar y seithfed o Fehefin 2005, y brwydro yn Irac a gychwynnodd ym mis Mawrth 2003, a'r saethu mewn ysgolion. Synna'r bardd at amllder terfysgaeth, ac mae'n tristáu o weld bod cymaint o drais wedi digwydd mewn cyfnod mor fyr wedi troad y mileniwm. Dyma'n sicr fynd yn groes i ddisgrifiad Gerwyn Williams o lendid 'glannau gwyrff gwladfa 2000' yn 'Goroeswyr';<sup>275</sup> dengys Alan Llwyd i'r ganrif newydd gael ei threisio a'i halogi'n gynnar iawn.

Un o luniau enwocaf rhyfel Fiet-nam gan Nick Ut sy'n dwyn sylw Gerwyn Williams mewn dwy gerdd ganddo, sef 'Washington'<sup>276</sup> a 'Dau Lun'.<sup>277</sup> Mae'n cyfeirio yn 'Washington' ati 'Hi, / fechan bitw, /noethlwm y llun', sef Phan Thi Kim Phuc, a daw'r llun enwog ohoni i'w feddwl wrth iddo syllu ar gofeb Washington, y wal sgleiniog lefn a'i rhestrau o enwau lladdedigion y rhyfel. Mae hi'n mynnu lle yn ei feddwl, yn ymrithio drwy'r wal goffa; sylwa Gerwyn Williams yn ddigon eironig i hon, 'fregus, ansylweddol' gael mwy o effaith o lawer arno na'r gofeb nodedig ei hun. Hi sy'n torri 'drwy lifrai'n gwrthrychedd' gan orfodi ein cydymdeimlad a'n hystyriaeth ddwysaf o'r rhyfel. Mae hi'n ein maglu a'n dal yn y fan a'r lle gan rymused yw'r llun ohoni, ac mae'r bardd yn dysgu nad drwy alar ffug-barchus a thrwy'r

---

<sup>273</sup> Alan Llwyd, *Ffarwelio â Chanrif*, t.148.

<sup>274</sup> Alan Llwyd, *Clirio'r Atig a Cherddi Eraill* (Llandybie, 2005), tt.72-3.

<sup>275</sup> Gerwyn Williams, *Rhwng Gwibdaith a Coldplay*, t.48.

<sup>276</sup> Gerwyn Williams, *Cydio'n Dynn*, t.38.

<sup>277</sup> *Ibid.*, tt.40-1.

arferiad o gyffwrdd â'r mur y mae cofio am ryfel Fietnam, ond drwy'r llun hwn sy'n sgrechian gwaedd ddychrynlyd. Cymharu a wna wedyn yn ei ail gerdd y llun gwreiddiol hwnnw a llun diweddarach, y ferch fach bellach yn wraig a chanddi faban yn ei breichiau. Rhydd Gerwyn Williams sylw i'r cyhoeddusrwydd a gafodd y lluniau, a'r modd y'u defnyddiwyd mewn hysbysebion gan y gweisg, a ninnau'n llyncu'r hysbysebion hynny gan droi Pan Thi Kim Phuc yn 'swfenîr o Vietnam'. Ni fetha'r bardd ei gyfle i feirniadu agwedd oeraidd y gorllewin:

Ei phrynu fu'n hanes ninnau,  
ein swfenîr o Vietnam,  
model y llun cyntaf  
yr amheuwyd ei gwedduster  
i fyrddau brecwast y gorllewin ...<sup>278</sup>

Mae gan Alan Llwyd yntau ei gerdd i gofeb Fiet-nam yn Washington, 'Dadorchuddio Cofeb Ryfel Fietnam: Washington 1982',<sup>279</sup> sy'n fwy canmoliaethus o'r gofeb nag yw cerdd Gerwyn Williams. Mae ganddo hefyd gerdd i lun Nick Ut. Yn 'Phan Thi Kim Phuc: 1972',<sup>280</sup> cyfeiria ati fel gwraig a mam fel y gwnaeth Gerwyn Williams, ac er iddi, mae'n debyg, roi cyfnod ei phlentyndod y tu ôl iddi, dywed Alan Llwyd y 'delweddwyd / ei hofn yng nghyfnod ei phlentyndod tân / yng nghof y ganrif am byth'.<sup>281</sup>

Casgliad o ddelweddau o'r Ail Ryfel Byd, ac o'r Holocaust yn benodol, sydd gan Gwyn Thomas yn ei gyfrol ef, *Teyrnas y Tywyllwch*, a'r delweddau hynny'n hagr ac eithriadol agos at yr asgwrn. Yn y gyfrol hon, mae'r bardd yn darlunio dioddefaint heb sensro dim ar y llun; fe'n tywysa drwy hanes prudd gan ganolbwyntio ar natur anifeilaidd dyn a ffeiddio at warineb arwynebol, twyllodrus. Mae i'r gyfrol arddull nid annhebyg i'r hyn a geid yn *Am Ryw Hyd*, arddull ddiaddurn a rhyddieithol. Dros ugain mlynedd yn ddiweddarach, yr un ieithwedd sydd gan Gwyn Thomas yn *Teyrnas y Tywyllwch* wrth iddo 'stripio iaith barddoniaeth' fel y dywedodd Gerwyn Williams iddo ei wneud.<sup>282</sup> Dweud diwastraff sydd

---

<sup>278</sup> Ibid., t.40.

<sup>279</sup> Alan Llwyd, *Ffarwelio â Chanrif*, t.130.

<sup>280</sup> Ibid., tt.128-9.

<sup>281</sup> Ibid., t.129.

<sup>282</sup> Gerwyn Williams, *Tir Newydd*, t.266.

drwy gyfrol *Teyrnas y Tywyllwch*, a'r disgrifiadau graffig yn codi cyfog. Dywed y bardd yn ei ragair i'r gyfrol:

Does yna ddim dychmygu yma, a does yna ddim gwreiddioldeb yn ystyr arferol y gair ychwaith. Y mae'r tystiolaethau a gofnodir yma yn ddarnau o brofiadau go-iawn pobol go-iawn...<sup>283</sup>

Mae'n amlwg i'r bardd deimlo'r angen i gofnodi ei brofiad o'r Ail Ryfel Byd; efallai y teimla felly am i'r ymateb Cymreig yng nghyfnod y rhyfel ei hun fod yn gymharol brin. Fel y soniwyd eisoes, noda Alan Llwyd yn ei ragymadrodd i *Gwaedd y Lleiddiad* nad ymatebodd beirdd Cymru'r Ail Ryfel Byd yn ddigonol i argyfwng y cyfnod.<sup>284</sup> Gwelwn i Gwyn Thomas deimlo, fel Alan Llwyd, fod angen cofnodi'r dystiolaeth yn ddiriaethol, ac mae'r ddau'n gwneud hynny wedi cryn waith ymchwil ar hanes y cyfnod. Treuliodd Gwyn Thomas ei flynyddoedd cynnar yn gwylio cyflafan y rhyfel drwy lygaid plentyn, a dywed Alun Llywelyn-Williams mewn adolygiad o'r gyfrol *Chwerwder yn y Ffynhonnau* iddo 'adlewyrchu'n naturiol ddigon osgo meddwl a theimlad y genhedlaeth a fagwyd yng nghysgod y Bom'.<sup>285</sup>

Eglura'r bardd ymhellach, yn ei ragair i *Teyrnas y Tywyllwch*, ei gymhelliad dros ysgrifennu am y rhyfel, a'r effaith a gafodd y lluniau arno yn blentyn:

Yr oeddwn i yn blentyn yn ystod yr Ail Ryfel Byd. Fe ymosododd Hitler ar Wlad Pwyl ar ddiwrnod fy mhen-blwydd yn dair oed. Pan oeddwn i'n wyth oed daeth y rhyfel i ben. Heblaw'r hyn a welwn i mewn papurau newydd ac a glywn i gan bobol am y rhyfel pan oeddwn i'n blentyn, yr oedd yna, ymhob pictjiwrs, gyda phob llun mawr, 'Newyddion' a ddangosai ddarnau o hynt y rhyfel. Fy atgof cliriaf un o'r 'Newyddion' hyn oedd y lluniau enbyd a ddangoswyd pan aeth byddin Prydain i mewn i Belsen ym 1945.

Dydi'r fath luniau ddim yn rhai y gellir eu hanghofio. Daethant ag ystyriaethau brawychus i'w canlyn, amdanom ni fel hil, ac ystyriaethau am reolaeth y cread.

Am y rhesymau hyn yr wyf, ar wahanol brydiau yn ystod fy oes, wedi darllen cryn dipyn am y rhyfel, ac yn enwedig am yr hyn a elwir yn 'wersylloedd y crynhoi'

---

<sup>283</sup> Gwyn Thomas, *Teyrnas y Tywyllwch*, t.7.

<sup>284</sup> Alan Llwyd ac Elwyn Edwards (gol.), *Gwaedd y Lleiddiad: Blodeugerdd Barddas o Gerddi'r Ail Ryfel Byd 1939-1945* (Llandybie, 1995), t.xvii.

<sup>285</sup> *Barn*, 4 (Chwefror 1963), t.115.

(*concentration camps*). Ond yr wyf wedi gwyllo hyd yn oed fwy o gofnodion ar ffilm am y pethau hyn. Canlyniad hyn oll yw'r geiriau a geir yma.<sup>286</sup>

Felly, mae'n debyg mai troi lluniau'r sgrin a newyddion y cyfryngau ar y pryd yn eiriau a wnaeth Gwyn Thomas yn ei gyfrol, gan gyflwyno ei oriel ei hun o hunllefau'r Ail Ryfel Byd. Deillio o'r cyfryngau ac o brofiad personol y mae'r cerddi, ond nid oes gyfeiriadau penodol ynddynt at dechnoleg na lluniau'r sgrin wrth inni gael ein tynnu'n ôl i gyfnod yr Ail Ryfel Byd. Mae'r cerddi'n syml eu hieithwedd a'u hergydion yn bwrpasol wrth osod y sefyllfaoedd fel ag yr oeddent yn hytrach na cheisio rhoi profiad ail-law inni o'r Holocost. Er nad oes cyfeiriadau at dechnoleg y cyfryngau fel y cyfryw, mae sôn yn y gyfrol am ddatblygiadau gwyddonol: am yr arbrofion meddygol ffaidd a wnaethpwyd ar ddiodefwyr yr Holocost ac am nwy gwenwynig y siamberi yn y gwerysilloedd. Daw'r disgrifiadau hynny o ddatblygiadau modern law yn llaw â chyferbyniad llwyr yr elfen anifeilaidd, wyllt sy'n rhan o natur dynoliaeth, ac mae'r bardd yn ein llusgo gydag ef i'r gwter i arsylwi ar y llanast. Mewn cerdd sy'n ddilyniant i 'Nod Cain'<sup>287</sup> ac iddi'r teitl 'Ac Eto',<sup>288</sup> gwelwn iddo ddirmygu ein gwybodaeth wrth i ddelweddau o'r gwerysilloedd ein dychryn, er inni 'wybod / Y gwaethaf amdanom ni, ddynion' bellach:

Y mae Auschwitz, Belsen, Buchenwald,  
A llefydd eraill felly  
Yn dal i'n dychryn,  
Yn malurio arfogaeth unrhyw wybodaeth,  
Ac unrhyw siniciaeth.<sup>289</sup>

Â yn ei flaen i feddwl am ddarluniau'r ugeinfed ganrif, ond yn wahanol i Alan Llwyd, ni restrar delweddau, gadawa hynny i'r dychymyg. Wrth ein llusgo'n ôl i ddechreuad dynoliaeth, gwna inni sylweddoli nad oes fawr o wahaniaeth rhwng tywyllwch byd y dyn gwyllt cyntefig a gwarineb honedig dyn heddiw:

Delweddau'r ugeinfed ganrif o bethau hen  
A ddaeth o laid enbyd ein dechreuad,

---

<sup>286</sup> Gwyn Thomas, *Teyrnas y Tywyllwch*, t.7.

<sup>287</sup> *Ibid.*, t.14.

<sup>288</sup> *Ibid.*, t.15.

<sup>289</sup> *Ibid.*

Arwyddion o'r cynheddfau hynny sydd ynom ni  
Yn hen a dwfn wedi eu gwreiddio,  
Cynheddfau yr ydym yn eu rhannu –  
Er gwaethaf haenau ein diwylltio –  
Â chreaduriaid cyntefig yn saim eu corydd,  
Eu fforestydd, a'u nos.<sup>290</sup>

Yr un islais iasol sydd yn 'Nod Cain', lle noda fod yr ysfa i ladd ei frawd yn rhan o gyfansoddiad dyn. Fe geir yr un cyfeiriad at Cain ac Abel yr Hen Destament mewn cerdd gan Hedd Wyn, 'Rhyfel': 'Pan deimlodd fyned ymaith Dduw / Cyfododd gledd i ladd ei frawd'.<sup>291</sup> Er i ddyn golli gafael ar wyleidd-dra ac iddo awchu am gael rheolaeth dros ffiniau bywyd, gwêl Gwyn Thomas lygedyn o ddaioni'n perthyn i'r ddynoliaeth weithiau wrth i ddyn godi ei lygaid tua'r sêr. Ond er iddi ddangos addewid o dro i dro, syrthio'n ôl i'w chyflwr truenus a wna drachefn:

Oherwydd, hyd yn oed ac yntau,  
Ar brydiau, yn gallu codi ei olygon tua'r sêr,  
Yr oedd yng ngwêr gwneuthuriad dyn  
Rywbeth hen, ac anfad, gwaradwyddus;  
Yn ei fod yr oedd 'na nod  
A ddrysa ei amgyffred o ddaioni;  
Yr oedd ynddo yr arwydd hen, hen hwnnw,  
Nod Cain, ysy'n dynodi Lleiddiad.<sup>292</sup>

Sôn am gwmp dyn a wna Alan Llwyd yntau yn 'Dyn yr Ugeinfed Ganrif'.<sup>293</sup> Mae ganddo fwy o bwyslais ar dechnoleg yn ei gerdd ef, a dengys fel y ceisia dyn a'i drachwant, 'drwy gamp ei dechnoleg', fod yn hollalluog a'i ddyrchafu ei hun yn gydradd â Duw. Mae'r bardd yn cydnabod dawn gwyddonwyr a datblygwyr technoleg wrth iddo gyfeirio at lwyddiant dyn i gyrraedd y lleuad, ond gwêl hefyd fod perygl tu ôl i'r datblygiad wrth i dechnoleg roi gormod o rym i ddynion. Ar un llaw, mae clyfrwch dyn yn ei godi 'yn uwch na'i hil', ond ar y llaw arall, gall ei ddarostwng hefyd wrth iddo golli gafael ar wyleidd-dra. O

---

<sup>290</sup> Ibid.

<sup>291</sup> Hedd Wyn, *Cerddi'r Bugail: Ynghyd ag Atodiad o waith y bardd nas cynhwyswyd yn argraffiadau 1918 na 1931* (Llandybie, 1994), t.1.

<sup>292</sup> Gwyn Thomas, *Teyrnas y Tywyllwch*, t.14.

<sup>293</sup> Alan Llwyd, *Ffarwelio a Chanrif*, t.149.

ystyried cyd-destun diwinyddol y gerdd, cofier mai o lwch a baw y ddaear y crëwyd dyn yn y lle cyntaf. Dangos cyflwr truenus ‘Dyn yr Ugeinfed Ganrif’ a wna Alan Llwyd yma, gan ei osod ar lwyfan i arddangos ei gieidd-dra ger bron y byd. Fe brofodd yr Holocost y gall technoleg fod yn ddinistriol a gyda thrachwant dyn am rym, mae’r natur gyntefig honno’n dod i’r wyneb eto:

er dyheu am fod yn gyfystyr â Duw ei hun,  
ni chododd dyn  
uwchlaw ei faw ef ei hun,  
ac ar yr un pryd  
yr oedd dyn yn un â’r nef  
ac yn is na’r anifail,  
oherwydd yr oedd meirwon  
Dachau yn wylo drwy gamp ei dechnoleg.<sup>294</sup>

Fe ailadroddir ‘gamp ei dechnoleg’ ag eironi ar ddiwedd y gerdd; yr un ‘gamp’ a adawodd i ddyn weld tu hwnt i’r sêr ag a laddodd ddeuddeg mil ar hugain o garcharorion y gwerysll crynhoi. Gwelsom eisoes i Alan Llwyd weld manteision ac anfanteision i dwf technoleg, ac mae’n egluro’r amwysedd wrth drafod cyfrol Gwyn Thomas, *Gweddnewidio*: ‘Mae hi’n dechnoleg sy’n gallu creu dinistr ac ennyn cydymdeimlad yr un pryd’.<sup>295</sup> Gwelir yr amwysedd ganddo eto yn ‘Camerâu’.<sup>296</sup> Yn oes y camerâu cylch cyfyng sy’n gwylio pob symudiad, mae rhywbeth anfad a sinistr yn y syniad eithafol fod llygaid yn ein dilyn ddydd a nos lle bynnag yr awn. Awgryma Alan Llwyd, â’i or-ddweud yn llawn eironi, mai trwy’r camerâu hollbresennol y crëir cymdeithas heddychlon, y ‘paradwys’ neu’r ‘lwtopia’. Ni fyddai godinebu’n digwydd gan i lygaid y camera wyllo’r stafell wely, byddai diwedd ar drais ac ar ladrata, a byddai’r un llygaid yn dilyn yr ‘un â bom yn ei law’.

Hoff yw Alan Llwyd o gyfuno’r Beiblaidd a’r technolegol, fel y gwelsom yn ‘Dyn yr Ugeinfed Ganrif’ ac fel y gwna eto yn ‘Oblegid Fy Mhlant’.<sup>297</sup> Gwelwn yn Efengyl Luc 23, i Iesu ddweud wrth y dyrfa cyn ei groeshoeliad: ‘wylwch yn hytrach amdanoch eich hunain ac am eich plant’ a dyna a wna’r bardd yma; mae’n poeni fod datblygiadau technolegol gwaeth

---

<sup>294</sup> Ibid.

<sup>295</sup> *Barddas*, 264 (Awst/Medi/Hydref 2001), t.7.

<sup>296</sup> Alan Llwyd, *Ffarwelio â Chanrif*, tt.143-4.

<sup>297</sup> Alan Llwyd, *Oblegid Fy Mhlant*, tt.10-11.

ar ddyfod, ac y daw diwedd byd trwy'r dechnoleg honno yn ystod dyddiau ei blant.  
Dychmyga fel y bydd modd gwasgu un botwm er mwyn difa'r ddaear:

a phan wesgir y switsh cynhyrchir can Auschwitz, neu waeth;  
can Somme mewn un bom, un bedd  
yn fedd i fyd,  
a chan Belsen mewn ennyd.<sup>298</sup>

Dyma ddychymyg y bardd yn carlamu eto wrth iddo feddwl am y gwaethaf posib. Nid yn ysgafn y mae defnyddio enw Auschwitz, y Somme neu Belsen. Cafodd Alan Llwyd ei feirniadu gan Gerwyn Williams am ddefnyddio enw Treblinka yn rhy ysgafn a ffwrdd-â-hi yn 'Anorexia Nervosa',<sup>299</sup> cerdd a ysgrifennwyd dan *alter ego*'r bardd, Meilyr Emrys Owen, a cherdd nad oedd a wnelo hi ddim â'r Ail Ryfel Byd. Ond mae'r defnydd o'r enwau yn 'Oblegid Fy Mhlant' yn sicr bwrpasol. Gwyddom eisoes fod gwybodaeth Alan Llwyd yn drylwyr o'r ddau Ryfel Byd, ac mae'n ystyried y rhyfeloedd fel cwmp dynoliaeth. Ni all feddwl am ddim byd gwaeth ac felly mae'n lluosir digwyddiadau ofnadwy hyn gan gwaith er mwyn cyfleu rhywbeth na allwn ddechrau ei ddeall na'i ddychmygu.

Gwelwn eto'r Beiblaidd a'r technolegol ynghyd yn 'Yng Nghanrif yr Anifail'<sup>300</sup> wrth i'r bardd sôn am 'Eden y dechnoleg fodern'. Dyma eto gyfochri'r hen a'r newydd, y cadernid traddodiadol a'r datblygiadau ansicr. Ymestynna'r ddelwedd Feiblaidd drwy drosiad: 'yr afal yw'r arbrofion gwyddonol, / a phren y wybodaeth yw athrylith ein gwyddoniaeth ddall'. Dengys fel y cawn ein temtio gan y dechnoleg ddiweddaraf a'n temtio ymhellach i'w defnyddio hyd eithaf ein gallu. Profwn pa mor bell y gallwn wthio'r ffiniau gwyddonol nes, yn y pen draw, ein bod yn ymgymryd â rôl Duw: yn meddu ar reolaeth dros fywyd a marwolaeth. Unwaith inni flasu'r ffrwyth, derbyniwn 'wybodaeth enbydus' o 'goeden dysgeidiaeth y Fall', a'r ffrwyth yn bwydo'r bwystfil y sonnir amdano yn nechrau'r gerdd sy'n bresennol ynom oll. Mae cywair sinistr yn perthyn i ddechrau'r gerdd:

Gobeithiem y diflannai pob arlliw o'r bwystfil ohonom

---

<sup>298</sup> Ibid., t.11.

<sup>299</sup> Gerwyn Williams, *Tir Newydd*, t.277.

<sup>300</sup> Alan Llwyd, *Yn Nydd yr Anghenfil*, t.22.



ar drothwy ein canrif orffwyll, ond dysgasom gan bwyll, bob un,  
fod ein bryntni a'n drygioni ar gynnydd, yng nghanrif dyrchafu'r anifail,  
ac mai tenau yw'r ffin rhwng gwarineb a diawlineb dyn.<sup>301</sup>

Traetha Gwyn Thomas ar warineb honedig yr Almaenwyr yn 'Cyn Bod Adolf Hitler';<sup>302</sup> mae'n canmol diwylliant yr Almaen, ei chrefydd a'i haddysg cyn troi'r cywair yn llwyr gan nodi mai'r rhai diwylliedig ac addysgedig hyn a welodd hiliaeth a llofruddiaeth yn bethau derbyniol yn ddiweddarach. Mae'n syndod ganddo i'r fath enbydrwydd allu digwydd dan ddeddf y Drydedd Reich, mewn gwlad mor waraidd yr olwg, ac mae'n peri i ni ailystyried natur cymdeithas honedig ddiwylliedig:

Hyn i gyd mewn gwlad Gristnogol, mewn gwlad waraidd,  
Mewn gwlad â'i diwylliant a'i dysg  
Yn destun rhyfeddu, yn destun edmygu –  
Dyma rai, dwys eu diwylliant,  
Ddar'u ddechrau saethu plant.<sup>303</sup>

Y gwarineb ymddangosiadol yma sydd gan Alan Llwyd ar ddiwedd y gyntaf o'r ddwy gerdd 'Hanes Canrif: Dwy Gerdd'.<sup>304</sup> Wedi rhoi'r manylion am anfadrwydd anfaddeuol y dynion sydd dan sylw yn y gerdd – ac mae awgrym cryf mai Natsïaid yr Ail Ryfel Byd ydynt er na chânt eu henwi – fe ychwanega gan bwysu ar yr anghyfiawnder: 'Ond nid dynion gwallgof mohonynt ... dynion cyffredin a dinod'. Dynion didrugaredd oedd yn llofruddio babanod a phobl oedrannus fel ei gilydd, a'r lladd yn rhan o batrwm bywyd beunyddiol, 'cyn sleifio i'w gwllâu i faldodi meistresi eu traserch, / neu i osod cusan 'Nos da' ar wefusau eu plant'.<sup>305</sup> Awgrym y bardd wrth gloi'r gerdd gyntaf hon yw fod y diafol ei hun ar gerdded ymysg y dynion hyn.

O'r diawl at y Duwdod yr awn yn yr ail gerdd, a hwnnw'n Dduw digalon wedi ildio ei bŵer yn llwyr i ddynion. Fel bardd sy'n arddel ffydd Gristnogol yn ei waith, annhebygol ydyw mai adlewyrchiad o weledigaeth Alan Llwyd o Dduw sydd yma; go brin y byddai'n credu i

---

<sup>301</sup> Ibid.

<sup>302</sup> Gwyn Thomas, *Teyrnas y Tywyllwch*, tt.16-17.

<sup>303</sup> Ibid., t.17.

<sup>304</sup> Alan Llwyd, *Yn Nydd yr Anghenfil*, tt.23-5.

<sup>305</sup> Ibid., t.24.

Dduw gydnabod bod dyn wedi dringo'n uwch nag Ef. Mwy credadwy yw'r syniad mai cyfleu meddylfryd dynion y dechnoleg fodern a wna'r bardd wrth i'r rheiny lunio eu dehongliad eu hunain o hanes y creu, fel y gwelir yn y llinellau agoriadol sy'n Feiblaidd eu harddull:

A dywedodd y Duwdod:

Distadl fy nghamp wrth orchest yr ymennydd dilestair  
a greodd y cymhlethdod modern;  
rhof iddynt fy etifeddiaeth, rhof fy nghreadigaeth yn degan  
yn nwylo'r meistri technoleg.<sup>306</sup>

Eto, mae eironi yma wrth i'r bardd gyfeirio at y 'meistri technoleg' sy'n ystyried eu dawn yn llawer uwch na champ Duw ei hun. Datblyga'r gerdd i ddangos maint gwybodaeth y dyn modern, a chawn glywed am y cynlluniau sydd ar y gweill ganddo i ddysgu mwy eto. Mae bellach wedi cymryd lle a chymryd rôl Duw yn gyfan gwbl, ac mae'r adlais a geir o weddi'r Arglwydd yn un crafog wrth i'r geiriau cyfarwydd 'canys eiddot Ti yw'r deyrnas' droi'n 'canys eiddom yn etifeddiaeth yw treftadaeth y Duwdod'. Diddorol yw sylwi wrth fynd heibio ar y cyfeirio parhaus at y 'Duwdod' yn hytrach nag at Dduw; nid Duw'r Tad sydd yma ond rhyw gysyniad o awdurdod cyfrin, stad nad yw y tu hwnt i afael dyn. Yma, fe geir beirniadaeth gynnill ar oes ddigrefydd lle mae'r pwyslais yn gyfan gwbl ar lenwi bywydau ag adloniant, a rhyfel maes o law yn dod yn rhan o'r adloniant hwnnw.

A dyn yn hollwybodus ac yn hollalluog, gwelwn i'r cenedlaethau nesaf ddiflasu ac i undonedd eu bywydau droi'n feichus, heb unrhyw ddarganfyddiadau ar ôl i'w harchwilio. Mynnent adloniant i fygydu gwacter eu bodolaeth, ac felly y bu nes i'r technolegwyr ddarganfod rhyfel, rhywbeth sy'n chwa o awyr iach i'r cenedlaethau blinedig ac sy'n deffro bywiogrwydd a'r ymdeimlad o farwoldeb ynddynt. Mae'r gwyddonol a'r materol yn drech na'r ysbrydol, ac aeth moesoldeb ar ddifancoll yn gyfan gwbl wrth i ryfel droi'n gêm fawr. 'Cyfunwyd technoleg / a chnaf,' meddai Alan Llwyd eto yn 'Keith Douglas: Lloegr',<sup>307</sup> a sylwa â chryn dristwch fel y 'Troes technoleg wneuthurwr telyneg yn beiriant dileu', gan halogi'r addfwynaf o ddynion.

---

<sup>306</sup> Ibid., t.25.

<sup>307</sup> Alan Llwyd, *Cerddi Alan Llwyd 1968-1990: Y Casgliad Cyflawn Cyntaf*, t.373.

Y cysylltiad rhwng dynoliaeth a thechnoleg faterol sy'n dwyn sylw Gwyn Thomas yn 'Technoleg, Meddai'.<sup>308</sup> Yma, mae'r ddau beth wedi eu plethu'n llythrennol:

'Technoleg. A!' meddai, 'Technoleg!  
A mynd ati i roi portread enbyd o ddyn  
Yn wythien a gwifren ynghyd,  
Wedi ymbriodi â haearn,  
A'i galon yn galed i gyd.'<sup>309</sup>

Sylwa Gwyn Thomas nad syniad cwbl newydd yw'r ymbriodi yma rhwng cnawd a deunyddiau amgen; bu'n digwydd yn ystod yr Ail Ryfel Byd hefyd. Cyfeiria'r bardd at frawd y dyn modern a fu'n filwr yn y rhyfel, a rhydd fanylion ei farwolaeth erchyll, ddisymwth gan ddisgrifio ei waed yn llifo yn un â'r olew o'r tanc a gafodd ei 'chwythu'n racs', ei gorff wedi ei ddarnio rhwng y gweddillion haearn:

Yno, ag un ergyd, y cafodd ei gnawd ei aredig  
Yn siafins gwlyb;  
Yno, hefyd, y rhaflwyd yr haearn,  
Ac yno y plethwyd y rhain ynghyd  
Yn ystod trydedd flwyddyn yr Ail Ryfel Byd.<sup>310</sup>

Mae'r 'Weledigaeth Haearn' yn thema ganolog gan Gwyn Thomas yn ei dair cyfrol gyntaf o farddoniaeth yn arbennig, a dyna'r enw ar ei ail gyfrol, gan awgrymu'n syth fod gerwinder egr i'r cynnwys. Yr un effaith yn union a gaiff enw ei gyfrol gyntaf, *Chwerwder yn y Ffynhonnau*, ac enw'i drydedd gyfrol, *Ysgyrion Gwaed*. Ceir yn aml yn y cyfrolau hyn y gwrthdrawiad rhwng dynoliaeth a materoliaeth, nid o reidrwydd yng nghyd-destun rhyfel, ond mae'n sicr fod gan y bardd ei ofidiau pan fyfyrfa ar ddatblygiadau materol, ac fe gyflwynna ddarluniau digon gwyrddoedig mewn cerddi fel 'Dyn mewn car'<sup>311</sup> a 'Damwain'.<sup>312</sup> Noda Alan Llwyd wrth drafod cerdd arall o eiddo'r bardd, sef 'Darn a llawer o 'au' ynddo', fod 'gorchestion technolegol a datblygiadau gwyddonol yr ugeinfed ganrif yn arwain at

---

<sup>308</sup> Gwyn Thomas, *Wmgawa* (Dinbych, 1984), tt.6-7.

<sup>309</sup> *Ibid.*, t.6.

<sup>310</sup> *Ibid.*, t.7.

<sup>311</sup> Gwyn Thomas, *Ysgyrion Gwaed* (Dinbych, 1967), t.46.

<sup>312</sup> *Ibid.*, t.50.

ddinistr sicr',<sup>313</sup> a dyna grynhoi meddylfryd Gwyn Thomas yn ei gerddi diweddarach hefyd sy'n ymdrin â rhyfel technolegol.

O dan do 'technoleg', sy'n derm llawer rhy gyffredinol mewn gwirionedd, mae canghennau'n ymestyn i sawl cyfeiriad: at y teledu a'r sgrin, at luniau a'r dystiolaeth gadarn ar ein camerâu, ac at dechnoleg rhyfel hefyd a datblygiad arfau peryglus. Negyddol yw'r naws a red drwy'r cerddi sy'n trafod technoleg rhyfel, a choegni sydd y tu ôl i'r ganmoliaeth i'r gwyddonwyr a'r datblygwyr sydd ynghlwm wrth y dyfeisiadau modern. Caiff y thema sylw gan Gwyn Thomas, Alan Llwyd a Gerwyn Williams yn arbennig. Dyma'r tri bardd sydd hefyd yn ymdrin fwyaf â newyddiaduraeth a'r cyfryngau mewn perthynas â rhyfel: gwedd arall ar dechnoleg sy'n ein harwain ar hyd sawl trywydd ehangach eto. Mae'r tri wedi ymchwilio'n fanwl i hanes ryfeloedd ac yn ymddiddori yn y maes, ac Alan Llwyd a Gerwyn Williams yn arbenigwyr ar lenyddiaeth y ddau Ryfel Byd. Nid yw'n syndod felly i'r tri ganolbwyntio ar ryfel fel thema yn nifer o'u cerddi, ac i'r pwnc ymestyn dros sawl cyfrol ganddynt hefyd gan adlewyrchu eu diddordeb diflino yn y maes a'r ysgogiad parhaus i ysgrifennu a chofio am ryfeloedd penodol.

Wrth ganolbwyntio ar luniau a delweddau o ryfel, gwelwn gyffwrdd â sawl thema arall gan yr holl feirdd y trafodwyd eu gwaith. Y lluniau sy'n esgor ar ymwybyddiaeth barhaol a lecha yn nghorneli'r meddwl, yr ymwybyddiaeth sy'n herio cydwybod Alan Llwyd a Gerwyn Williams yn gyson yn eu gwaith. Cawn ymdriniaeth wedyn â'r dystiolaeth ddiriaethol y mae'r lluniau hyn yn ei darparu, tystiolaeth a fydd yn profi bodolaeth amryw ryfeloedd am ganrifoedd i ddod, ac yna gwelwn symud o'r diriaethol at yr haniaethol: lluniau'r cof. Y lluniau hyn sydd eto'n mynnu lle ar sgrin dychymyg Alan Llwyd yn enwedig.

Dyma thema sy'n rhoi rhwydd hynt i feirdd feirniadu, ac maent yn sicr yn cofleidio'r rhyddid i wneud hynny. Ceir beirniadaeth lem ar newyddiadurwyr, a phrin iawn yw'r ymateb canmoliaethus tuag at y cyfryngau'n gyffredinol. Ond nid bwch dihangol mo'r newyddiadurwr chwaith; cawn ninnau, gynulleidfa'r Gorllewin, ein siâr o'r feirniadaeth ac mae lladd cyson ar ein hagwedd hunangyfiawn a'n hanwybodaeth. Trafodir rhyfel fel adloniant ar y sgrin, ac fel y mae eitem newyddiadurol bellach yn saga, yn stori a glywsom droeon o'r blaen sy'n ein diflasu ar brydiau. Yn plethu drwy'r trafodaethau hyn oll, rhydd y

---

<sup>313</sup> Alan Llwyd, *Gwyn Thomas*, Cyfres 'Llên y Llenor' (Caernarfon, 1984), t.35.

beirdd sylw i liwiau'r lluniau a welwn ar y sgrin, gan amlygu datblygiad technoleg i allu dangos mwy na du a gwyn, ond hefyd gwelir cyferbynnu'r lliwgar yn erbyn cefnlen dywyll rhyfel gan droi'r lliw yn addurn chwithig.

Tyn nifer o feirdd eu lluniau eu hunain yn eu cerddi sy'n ymateb i ryfel wrth iddynt baentio â brwsh eu dychymyg sefyllfaoedd sy'n ennyn cydymdeimlad y darlennydd, neu ddarlunio profiadau o ymweld â mynwentydd neu gofgolofnau. Trawodd Iwan Llwyd yr hoelen ar ei phen mewn cwpled o'r gerdd 'Y wers':

barddoniaeth yw creu â geiriau lun  
o'r gyfrinach ddi-ddeall yn nagrau dyn ...<sup>314</sup>

Byddai'r trafodaethau'n ddi-ben-draw wrth ddilyn llinyn lluniau'r dychymyg yn y cerddi Cymraeg diweddar, a'r rheiny eto'n ychwanegu at y dystiolaeth ddiriaethol fel y gwna pob clip fideo, pob llun, pob erthygl a bwletin newyddion. Gellid mynd ar drywydd cerddi gafaelgar, cwbl ddirdynol o gyfrol Grahame Davies, *Achos*:<sup>315</sup> 'Coedwig Mametz, 1916', 'Y Ffrynt Gorllewinol, 1918', 'Berlin, 1945' ac 'Enniskillen, 1987'; cerddi sy'n dod â'r sefyllfaoedd yn fyw o'n blaenau, sy'n llenwi'n synhwyrâu ac yn tynnu dagrau o'u darllen. Mae cyfrol Emyr Edwards *Guernika*<sup>316</sup> hefyd â'i llond o luniau Picasso, a beth am gerddi Donald Evans ac Iwan Llwyd sy'n ymateb i'r un darlun? Ac wrth gwrs, o ddilyn y trywydd hwnnw, byddai angen llawer mwy o le eto i drafod gwaith Gwyn Thomas, Alan Llwyd a Gerwyn Williams. Ond dal yr ymateb i luniau'r cyfryngau, ac i luniau'r cof yn fwy na lluniau'r dychymyg a wna'r cerddi yr ymdrinnir â nhw yma. Trwy'r lluniau hynny, trwy newyddiaduraeth a thrwy ddod yn ymwybodol o'r arfau technolegol newydd, clywn lais cenedlaethau yn y cerddi hyn yn ymateb i'w profiad nhw o ryfel, a hwnnw gan amlaf yn brofiad drwy gyfrwng y sgrin a'r newyddion.

---

<sup>314</sup> Iwan Llwyd, *Hanner Cant* (Bodedern, 2007), t.30.

<sup>315</sup> Grahame Davies, *Achos* (Llandybie, 2005), tt.71-2, 73, 74, 76.

<sup>316</sup> Emyr Edwards, *Guernika a Cherddi Eraill* (Caerdydd, 2007).

## ‘Yn nhrueni yr heniaith’ Y Profiad Cymreig o Ryfel

‘Yn y traddodiad hwn y mae yna elfennau cwbl Gymraeg, pethau sy’n perthyn i ni a’n hiaith ac i neb arall’.<sup>317</sup> Dyna eiriau Gwyn Thomas wrth iddo grynhai ei sylwadau ar hanes y traddodiad barddol Cymraeg; gosodiad sy’n parhau i fod yn wir heddiw ac y gellir ei ystyried wrth droi at farddoniaeth Gymraeg ddiweddar. Gellir meddwl am sawl cerdd neu gân a ysgrifennwyd yn yr hanner canrif diwethaf sy’n dwyn cyfeiriadaeth at ddarnau o’r hengerdd, at chwedlau’r Mabinogi neu sy’n cyfeirio at ddigwyddiadau gwleidyddol a fu o bwys i Gymru, a’r cyfeiriadau hynny’n Cymreigio’r testunau’n syth. Mae sawl bardd cyfoes wedi ysgrifennu am foddi cwm Tryweryn, am Owain Glyndŵr ac am farwolaeth Llywelyn ap Gruffudd yn 1282; digwyddiadau sylfaenol Gymreig. A gwelwyd cerddi a chaneuon protest lu am yr hunaniaeth Gymreig, am yr iaith ac am ddatganoli yng Nghymru. Mae gan Dafydd Glyn Jones restr hir o gerddi sy’n cyfeirio at y Mabinogi mewn atodiad i’w ysgrif yng nghyfrol deyrnged Gwyn Thomas,<sup>318</sup> ac mae ysgrif gan Marged Haycock yn yr un gyfrol sy’n sôn am y cyfeiriadau at Gylch Heledd.<sup>319</sup> Wrth drafod y pynciau hyn neu ddefnyddio cyfeiriadaeth, mae beirdd yn sicrhau bod eu barddoniaeth nid yn unig yn farddoniaeth Gymraeg ond yn farddoniaeth Gymreig. Yn yr un modd, caiff nifer o’r cerddi rhyfel diweddar eu Cymreigio, wrth i feirdd droi at gyfoeth etifeddiaeth lenyddol a hanesyddol ein cenedl am gyfeiriadaeth ac ysbrydoliaeth. Nid dyna’r unig ffordd o Gymreigio barddoniaeth wrth reswm; gall bardd sôn am Gymry penodol, am ardaloedd yng Nghymru neu am y wlad yn gyffredinol; gall ddefnyddio tafodiaith a diarhebion neu drafod elfennau o ddiwylliant Cymreig.

Profiad anuniongyrchol o ryfel sydd gan y rhan helaeth o’r beirdd y trafodir eu cerddi yma; a’r her i’r beirdd yw ennyn ymateb cynulleidfa fodern Gymreig i ryfel heb i’r canu daro’n ystrydebol neu’n ddiystyr. Mae’n bwysig cofio bod traddodiad o ganu rhyfel yn y Gymraeg wedi ei wreiddio yng nghyfnod cynharaf ein llenyddiaeth, ac mai canu rhyfel neu ganu arwrol yw’r cerddi cynharaf sydd gennym ar glawr: canu Taliesin a chanu Aneirin, y

---

<sup>317</sup> Gwyn Thomas, *Y Traddodiad Barddol* (Caerdydd, 2002), t.240.

<sup>318</sup> Dafydd Glyn Jones, ‘Canu’r Mabinogi: Rhagarweiniad’, *Gweledigaethau: Cyfrol Deyrnged Yr Athro Gwyn Thomas*, gol. Jason Walford Davies (Llandybie, 2007), tt.173-200.

<sup>319</sup> Marged Haycock, ‘Hanes Heledd Hyd Yma’, *Gweledigaethau: Cyfrol Deyrnged Yr Athro Gwyn Thomas*, gol. Jason Walford Davies, tt.29-60.

ddau yn perthyn, fe gredir, i ail hanner y chweched ganrif. Digon naturiol, felly, yw i'r beirdd diweddar ddefnyddio elfennau o ganu'r Cynfeirdd yn eu gwaith eu hunain gan finiogi eu delweddau gwaedlyd a gosod sylfaen Gymreig i'r farddoniaeth fel bod modd i gynulleidfa Gymraeg gyfoes uniaethu â'r cerddi drwy ei thraddodiad llenyddol ei hun.

Cerdd sy'n Cymreigio'r profiad o ryfel drwyddi ac sy'n drwm o gyfeiriadaeth yw 'Taliesin' gan Emyr Lewis.<sup>320</sup> Mae teitl y gerdd yn haeddu sylw i ddechrau; sylwebydd gwrthrychol yw Taliesin yma ar holl ryfeloedd hanes. Fe gyplysir y Taliesin hanesyddol, bardd llyso Urien Rheged, a'r Taliesin chwedlonol wrth iddo fod yn wylwr parhaol yn tystio i bob cyflafan, a hynny drwy lygaid gwahanol adar. Cofiwn yn y chwedl i Daliesin, ac yntau yn rhith Gwion Bach wedi iddo dderbyn yr awen, ei droi ei hun yn wahanol anifeiliaid er mwyn ffoi rhag Ceridwen, a throi yn aderyn yn ei dro. Argraffiadol yw holl gerddi Taliesin, ac fe welir hynny'n arbennig yn 'Gwaith Gwen Ystrad', gydag ailadrodd y ferf 'gwelais'.<sup>321</sup> Syniad tebyg iawn sydd yng ngherdd Emyr Lewis gyda'r ferf yn gyson yn y person cyntaf: 'profais', 'ffroenais', 'tafodais', 'cofiais', ac yn y blaen; ac er na ddefnyddir 'gwelais' ond unwaith ganddo, mae'n berthnasol cofio am 'hen rym y gair "gwelais" mewn barddoniaeth Geltaidd – dyma'r "gweld" arbennig, barddol', fel y noda Gwyn Thomas.<sup>322</sup> Trwy brofiadau a ddisgrifir yn uniongyrchol fel hyn y cawn ninnau flas ar y darlun cyfan sy'n cael ei greu gan fardd.

Cyfeirir yn gyntaf yng ngherdd Emyr Lewis at frwydr Argoed Llwyfain, brwydr sy'n destun i un o gerddi Taliesin. Yn hofran uwch maes y frwydr, mae Taliesin yn 'gudyll ifanc' ac mae'n trawsnewid dair gwaith yn ystod y gerdd, yn troi i fod yn 'eryr oriog uwch caeau Fflandrys' yn ystod y Rhyfel Mawr cyn ymrithio 'yn bengwin styfnig' sy'n byw drwy ryfel y Falklands. Yn olaf, try'n 'ddodo drewllyd o flaen y teli', gan ein tywys yn ôl at un o brif themâu'r ail bennod, sef bod modd gwyllo rhyfeloedd sy'n digwydd ym mhen draw'r byd o glydwch ein cartrefi ar y sgrin fach erbyn hyn. Wrth droi at ryfel y Falklands a ymladdwyd yn 1982, aiff Emyr Lewis ar drywydd Cymreig arall wrth inni gofio i Gymry'r fyddin Brydeinig orfod wynebu Cymry'r Wladfa mewn brwydr. Trwy sôn am y rhyfel hwnnw, daw holl siomedigaeth refferendwm 1979 a'r imperialaeth Brydeinig a'i dilynodd i'r cof, ac mae'r

---

<sup>320</sup> Emyr Lewis, *Chwarae Mig* (Llandybie, 1998), t.67.

<sup>321</sup> Ifor Williams (gol.), *Canu Taliesin* (Caerdydd, 1960), t.2.

<sup>322</sup> Gwyn Thomas, *Y Traddodiad Barddol*, t.34.

cyfochredd rhwng sefyllfa wleidyddol teyrnasoedd Brythonig yr Hen Ogledd yn y chweched ganrif a sefyllfa orthrymedig y Cymry yn ystod yr wythdegau yn ein taro yma hefyd.<sup>323</sup>

Fe adleisir llinellau o 'Gwaith Argoed Llwyfain' Taliesin yn y gerdd gyda'r cyfeiriad at 'lawer celain' gan Emyr Lewis yn adleisio geiriau Taliesin: 'A rhac gweith argoet llwyfein / by llawer kelein'.<sup>324</sup> Yr un ddelwedd a geir yn 'gwledda brain ar gelanedd mud' ag oedd gan Taliesin bymtheg canrif ynghynt â'i ddisgrifiad: 'Rudei vrein rac ryfel gwyr' hefyd.<sup>325</sup> Dengys Emyr Lewis nad yw natur rhyfel wedi newid er dyddiau'r chweched ganrif. Tybed a oes arwyddocâd cysylltiedig i ddewis aderyn diflanedig, a fethodd addasu, i fod yn gwylio rhyfeloedd y Dwyrain Canol heddiw? Ai ein hamharodrwydd ni fel pobl i newid ac i gyfaddawdu sydd ganddo dan y lach?

Delwedd gyffredin yng nghanu Taliesin, fel yng 'Ngododdin' Aneirin, yw'r un o fwydo'r brain ar gyrff y meirw, a gwelwn y motiff eto mewn cerdd gan W. R. P. George. Cerdd am farwolaeth dau frawd yw 'Lladdedigion',<sup>326</sup> y ddau bellach yn ddim ond enwau ar blac mewn capel. Disgrifia'r bardd y brawd hŷn yn cael ei ddarnio gan shrapnel ac yntau ar ei ffordd yn ôl o frwydr 'ei Gatraeth ef'. Ymhellach, mae'n darlunio gweddillion ei gnawd yn 'friwigig', yr un gair ag a ddefnyddiodd Taliesin yn 'Gwaith Gwen Ystrad', cyn parhau â'r ddelwedd waedlyd:

... Gwasgarodd shrapnel ef yn ddarnau  
o friwigig ar weirennau pigog i fwydo brain.<sup>327</sup>

Mae Iwan Llwyd yntau'n defnyddio delwedd y brain yn 'Aneirin',<sup>328</sup> cerdd a drafodwyd eisoes mewn mwy o fanylder yn yr ail bennod. Wrth edrych drwy lygaid y newyddiadurwr rhyfel cyfoes, gwêl y 'cig amrwd a fwydai frain'. Sôn am olygfa a welir yng nghanol llanast

---

<sup>323</sup> Fe geir cerdd Saesneg gan Tony Conran sy'n defnyddio cyfeiriadaeth at yr hengerdd wrth sôn am Ryfel y Falklands/Malvinas hefyd. Defnyddia, yn ei gerdd, 'Elegy for the Welsh Dead, in the Falkland Islands, 1982', ran o awdl y 'Gododdin' gan Aneirin, ac fe efelycha arddull Aneirin wrth ailadrodd 'Men went to Catraeth'. Gwelir y gerdd gyfan yn Tony Curtis (gol.), *After the First Death: An Anthology of Wales and War in the Twentieth Century* (Bridgend, 2007), tt.247-8.

<sup>324</sup> Ifor Williams (gol.), *Canu Taliesin*, t.6.

<sup>325</sup> Ibid.

<sup>326</sup> W. R. P. George, *Mydylau: Cynhaeaf Cerddi* (Llandybie, 2004), tt.31-2.

<sup>327</sup> Ibid., t.32.

<sup>328</sup> Iwan Llwyd, *Dan Anesthetig* (Caerdydd, 1987), t.22.



rhyfel heddiw y mae gyda'r disgrifiad aflednais, ond wrth gyfeirio wedyn at Gatraeth y gorffennol fe atgyfnerthir yr un neges ag oedd gan Emyr Lewis, sef mai'r un yw canlyniadau dinistriol rhyfel ym mhob oes. Cyflwyno naws oesol rhyfel a wna Jerry Hunter hefyd yn ei nofel a gipiodd y Fedal Ryddiaith yn 2010, *Gwenddydd*,<sup>329</sup> wrth iddo ddefnyddio chwedl Myrddin yn gefndir i'r stori, sydd wedi ei gosod yng nghyfnod yr Ail Ryfel Byd.

Fe geir mewn sawl cerdd gyfeiriad at Gatraeth, a gwelir bod adleisio rhannau o'r 'Gododdin' yn beth cyffredin gan y beirdd yn eu cerddi rhyfel. Un a gafodd ei ysbrydoli gan ganu Aneirin yn sicr oedd Iwan Llwyd. Prawf o'i ddiddordeb yn y maes oedd iddo gymryd rhan mewn noson o farddoniaeth yng Nghanolfan y Mileniwm ar y thema 'Catraeth' ym mis Tachwedd 2006 yng nghwmni Ifor ap Glyn a Geraint Lovgreen. Cyfeiriwyd at ei gerdd 'Aneirin' yn barod ac mae ganddo gerdd arall i Gatraeth, cerdd sy'n ein tynnu'n ôl i ddyddiau'r chweched ganrif ac sy'n arddangos dawn y bardd i gyfuno mynegiant syml a myfyrio dwys. Er mai cerdd rydd odledig yw 'Catraeth',<sup>330</sup> mae'r cyffyrddiadau cynganeddol yn ei chlymu â chreffft gywrain cyfnod Aneirin ac mae mesur y penillion hefyd yn adleisio hen ganu englynol cyfnod yr hengerdd. Myfyrdod yw'r gerdd drannoeth y frwydr a'r colledion, ond myfyrdod gwahanol i'r hyn a gawn gan gofnodwr y frwydr ei hun ym marwnadau'r 'Gododdin'. Dyma Gwyn Thomas yn egluro natur y presennol yng nghanu Aneirin:

Yn 'Y Gododdin' y mae gorfoledd ymdrech yr arwyr yn goleuo'r presennol, y mae bywyd a chyffro'r ymdrech yn disgleirio trwy'r lladdfa a fu fel nad yw'r gofid ddim yn llethu.<sup>331</sup>

Taflu cysgod galarus dros bresennol y sefyllfa yn hytrach na'i oleuo a wna Iwan Llwyd yn ei ddehongliad ef. Mae'n debyg mai ein tywys ni i lys Mynyddog Mwynfawr a wna'r bardd, a'r llu i gyd wedi eu lladd, y tŷ bellach yn 'ddi-groeso' a chysgodion y milwyr a aeth i'r frwydr yn hofran fel ysbrydion yno. Yn hytrach na'r arwriaeth a'r canmol buddugoliaethus, gwacter a diffeithwch sydd yn 'Catraeth'. Tebycach yw thema a naws y gerdd i'r hyn a geir yn y canu englynol cynnar – yng nghylch Urien, cylch Llywarch Hen a chylch Heledd – sef yr anghyfanedd-dra a'r galar tawel wrth gofio'n hiraethus am y rhialtwch a'r bywiogrwydd a fu

---

<sup>329</sup> Jerry Hunter, *Gwenddydd* (Caernarfon, 2010).

<sup>330</sup> Iwan Llwyd, *Be 'di blwyddyn rhwng ffrindia?: Cerddi 1990-99* (Bodedern, 2003), t.191.

<sup>331</sup> Gwyn Thomas, *Y Traddodiad Barddol*, tt.90-1.

yn y llys. Ymhelaetha Gwyn Thomas ar y sefyllfa adfydus a geir yn y tri chylch, ac mae ei eiriau'n cyfleu'r un dagrau ag sydd yng ngherdd Iwan Llwyd: 'Mater o wrthgyferbynnu trueni anghyfannedd y presennol â chymdeithas a chynhesrwydd a chyfannedd y llys, a oedd hefyd yn gartref, a geir yn y tair'.<sup>332</sup> Mae'r cyfannedd a'r hwyl a fu yno unwaith yn amlwg wrth i'r bardd gofio am y flwyddyn o wledda ac o fwynhau'r medd cyn y daeth awr y frwydr angheuol, ac mae'r cyferbyniad rhwng y gorffennol byrlymus a'r presennol adfydus yn dwysáu'r tristwch:

Lleisiau cyfeillion a gollwyd  
yn llafar uwch y byrddau bwyd,  
yn llenwi'r gwacter i'r gronglwyd:

Lleisiau yn ffraeth, yn ymffrostgar,  
yn ffeirio rhegfeydd dros y bar,  
a'u gwawd yn folawd aflafar ...<sup>333</sup>

Ond bellach, nid yw'r sŵn a'r bywiogrwydd ond 'yn byw yn ein hymwybod ni', wrth i leisiau'r gatrwd oroesi'r canrifoedd a pharhau i gyeniwair gan i Aneirin gadw'r cof am y milwyr yn fyw drwy'i ganu.

Ychwanega Iwan Llwyd ambell linell a chyfeiriad o'r 'Gododdin' i'w gerdd gan gyfoethogi ei hygrededd. Cyfeirir yn ei gerdd at chwerthin y llu fel y cyfeirir ato bum gwaith yn y 'Gododdin', a thynnwyd y fyddin o dri chant o'r testun gwreiddiol hefyd, er bod sôn am fyddin o dri chant chwe deg a thri mewn rhai awdlau o'r 'Gododdin'. Adlais pendant o Awdl VIII sydd ar ddiwedd 'Catraeth', a'r 'elwch' yn peri i'r llinell 'a gwedy elwch tawelwch vu'<sup>334</sup> seinio yn y cof. Mae llinell Aneirin, wrth gwrs, yn crynhoi'n union yr hyn a ddywed Iwan Llwyd yn ei gerdd wrth iddo dynnu sylw at y gwahaniaeth rhwng ddoe a heddiw yn y llys. Ond nid llonyddwch tawel sy'n cloi cerdd Iwan Llwyd chwaith; y mae ef am i nwyf y gorffennol ailgynnau brwdfrydedd a thanio'r cof am Gatraeth ynom:

Lleisiau mewn tŷ di-groeso

---

<sup>332</sup> Ibid., t.90.

<sup>333</sup> Iwan Llwyd, *Be 'di blwyddyn rhwng ffrindia?: Cerddi 1990-99*, t.191.

<sup>334</sup> Ifor Williams (gol.), *Canu Aneirin* (Caerdydd, 2001), t.3.

a'u helwch yn fflam heno'n  
cynnau tân yn adfeilion y co'.<sup>335</sup>

Adlais arall o'r 'Gododdin' sydd gan rai o englynwyr *Barddas*. Englyn Dafydd Franklyn Jones oedd yn fuddugol yn y gystadleuaeth drimisol ym mis Mawrth 1995, a'r testun oedd 'Mynwent y Milwyr':

Hwn yw cwr y llanciau a aeth – i wŷr rhwysg  
A grym yn ysglyfaeth:  
Difreintiau yw ffrindiau ffraeth  
Ar aelwyd Imperialaeth.<sup>336</sup>

Cofiwn yma am y 'gwŷr a aeth Gatraeth', llinell a ailadroddir sawl gwaith yn awdlau'r 'Gododdin', a'r 'llanciau' yma yn hytrach na dynion yn dwysáu'r cywair. Gellir cyfateb y ffraethineb a ddisgrifir yn yr englyn hefyd â rhan o Awdl VIII lle defnyddiwyd yr un ansoddair i ddisgrifio'r llu. Dyma englyn sy'n lladd ar imperialaeth oeraidd, haearnaidd, ac fel y noda Alan Llwyd, mae'n englyn sy'n cyfuno 'condemniad a chydymdeimlad, agosatrwydd a dihidrwydd, oerni a chynhesrwydd'.<sup>337</sup> Caiff yr un dyfyniad o'r 'Gododdin' ei ddefnyddio eto mewn englyn ar gyfer cystadleuaeth yn *Barddas* yn 2010. 'Harry Patch' oedd y testun, bron i flwyddyn wedi marwolaeth y goroeswr olaf a fu'n brwydro yn ffosydd Ffrainc. Dyma ymgais bardd dan y ffugenw 'Trichanwaith' a osodwyd yn y dosbarth cyntaf gan y golygydd:

I edliw pob cenhedlaeth – y daw un  
Fydd yn dwyn tystiolaeth:  
Un gŵr ar ôl o'r gwŷr aeth,  
A'i lefain dros y 'sglyfaeth'.<sup>338</sup>

Mae'r gorgyffwrdd rhwng Aneirin a Harry Patch yn yr englyn yn grefftus, a bwriadol, mae'n debyg, yw ailadrodd 'un'. Awgrymwyd mai Aneirin yn unig a ddaeth yn ôl yn fyw o frwydr Catriaeth, ac ef wrth gwrs a gofnododd yr hanes. Harry Patch, goroeswr olaf y Rhyfel Mawr, yw Aneirin y rhyfel hwnnw yn ôl y bardd; ef a ddychwelodd yn brawf ac yn dyst o gyflafan y

<sup>335</sup> Iwan Llwyd, *Be 'di blwyddyn rhwng ffrindia?: Cerddi 1990-99*, t.191.

<sup>336</sup> *Barddas*, 215 (Mawrth 1995), t.13.

<sup>337</sup> Ibid.

<sup>338</sup> *Barddas*, 306 (Ionawr/Chwefror/Mawrth 2010), t.57.

rhyfel. Gall Harry fel Aneirin gynt wylo dros yr hyn a welodd ac a brofodd; ond mae'n fwy na galar am golledion yn unig wrth iddo weld hanes yn ei ailadrodd ei hun dro ar ôl tro, ac mae'r 'edliw pob cenhedlaeth' yn y paladr yn awgrymu nad yw dyn byth yn dysgu gwers.

O droi'n ôl at Iwan Llwyd, cyfeiriad arall o'r 'Gododdin' sydd gan y bardd yn ei gywydd 'Noswyl Gorffennaf yn Ffrainc',<sup>339</sup> ond cyfeiriad cynilach y tro hwn. 'Gredyf gwr oed gwas' yw'r llinell enwog o Awdl I Aneirin,<sup>340</sup> a chyflwyno'r un topos a wna cwpled clo Iwan Llwyd:

yn y storm ar y maes daw  
yn ddyn sy'n hŷn na'i ddeunaw.<sup>341</sup>

Trosi brwydr yn gêm bel-droed a wna yn ei gerdd, ac mewn cromfachau yn rhagnodyn i'r gerdd mae cyfeiriadau at y blynyddoedd 1916 ac 1998; mae'n debyg iddo nodi'r flwyddyn 1916 gan mai dyna pryd y digwyddodd y 'football charge' fel y'i hadweinir. Ar ddiwrnod cyntaf brwydr y Somme, ar y cyntaf o Orffennaf yn 1916, cyflwynodd cadlywydd o'r enw Wilfred Nevill ffordd newydd i'r gatrawd y perthynai iddi, yr *East Surrey Regiment*, ymosod ar yr Almaenwyr, ffordd a fyddai'n esmwytho'r profiad ryw fymryn o ruthro am y gelyn, sef rhedeg ar ôl dwy bêl-droed. Dyna geisio taflu rhywbeth cyfarwydd yn flanced dros sefyllfa frawychus a chwbl anghyfarwydd er mwyn annog y milwyr yn eu blaenau.<sup>342</sup> Mae'n debyg y cyfeirir at 1998 gan mai dyna'r flwyddyn y cynhaliwyd twrnamaint Cwpan y Byd FIFA yn Ffrainc a hwnnw'n ymestyn dros fis Mehefin a Gorffennaf; dyma'r flwyddyn hefyd y cyfansoddwyd y gerdd.

Yr un dyfyniad o awdl gyntaf y 'Gododdin' sy'n cael ei adleisio gan Gwyn Thomas yn '1914-1918',<sup>343</sup> lle mae llais y bardd i'w glywed yn holi milwr o'r Rhyfel Mawr a hwnnw'n chwalu'r ddelwedd wrol ac arwrol a grëwyd o'r milwyr yn y ffosydd. Cyfeirir at yr 'hogiau' gan gyfleu eto eu hieuenctid, a'r glaw yn bigog ar eu hwynebau. Er mor waraidd yr ystyriwn fechgyn dechrau'r ugeinfed ganrif, collasant eu moesau'n gyfan gwbl wrth iddynt weithredu

<sup>339</sup> Iwan Llwyd, *Be 'di blwyddyn rhwng ffrindia?: Cerddi 1990-99*, tt.86-7.

<sup>340</sup> Ifor Williams (gol.), *Canu Aneirin*, t.1.

<sup>341</sup> Iwan Llwyd, *Be 'di blwyddyn rhwng ffrindia?: Cerddi 1990-99*, t.87.

<sup>342</sup> Peter Hart, *The Somme* (London, 2005), tt.103-4.

<sup>343</sup> Gwyn Thomas, *Y Weledigaeth Haearn* (Dinbych, 1965), t.37.

ar sail greddfau cyntefig, anifeilaidd, a chael eu trin fel anifeiliaid hefyd: 'Oed gwŷr, greddfau blaidd,' meddai'r milwr am y bechgyn yn y ffosydd, gan adleisio'n eironig linell wreiddiol Aneirin. (Delwedd debyg sydd gan Alan Llwyd yn 'Dilead' wrth iddo gyfeirio at yr Ail Ryfel Byd a dweud fod 'Hil wâr yn Treblinka'r blaidd'.<sup>344</sup>) Cywilyddia'r milwr sy'n llefaru wrth edrych yn ôl, a dywed yn siomedig: "Does dim aur ar fedal f'atgofion'. Ar ddiwedd cofnod y milwr o'i brofiad, mae'n sôn am yr emyn a ganent yn y ffosydd: 'Rho im yr hedd na wŷr y byd amdano', a'i eiriau'n boenus o eironig:

Rhwng y meirwon mi fyddem yn canu am yr hedd  
Anghyraeddadwy na wŷr ein byd amdano,  
Heb hedd, heb ynom dangnefedd.<sup>345</sup>

Yn ngolwg y milwyr, roedd heddwch yn beth pell o'u gafael, ac awgryma milwr y gerdd mai rhagrithiol oedd canu'r geiriau gan nad oedd cymod nac arddel heddychiaeth yn fwriad gan yr un ohonynt ar y pryd.

Gan aros dan gwmwl y Rhyfel Mawr, caiff emyn Cymraeg ei ganu yn 'Coedwig Mametz, 1916' gan Grahame Davies hefyd,<sup>346</sup> sef 'Iesu, cyfaill f'enaid i'. Ymdrech fawr llu Cymreig y *38th (Welsh) Division* oedd brwydr Coed Mametz rhwng y seithfed a'r deuddegfed o Orffennaf 1916, ac mae'r ddraig goch o gofeb a saif ger pentref Mametz yn Ffrainc yn coffáu'r Cymry a laddwyd yno. Ysgrifennodd un o'r milwyr a fu fyw drwy'r frwydr, Ll. Wyn Griffith, ei gofnod ef o'r rhyfel mewn cyfrol o'r enw *Up to Mametz*, a gyhoeddwyd yn wreiddiol yn 1931. Yno fe geir hanes y Cadfridog Horatio James Evans, a hanes y cadfridog hwnnw sydd yng ngherdd Grahame Davies hefyd. Rhydd y bardd nodyn o gefndir i'r gerdd mewn cromfachau, ac fel y tystia *Up to Mametz*, fe brotestiodd y Cadfridog H. J. Evans yn erbyn y gorchmynion a roddwyd iddo gan atal ymosodiad y milwyr yr oedd ef yn gyfrifol amdanynt. Gwelsai nifer y colledion yn dilyn yr ymosodiadau blaenorol a phenderfynu nad llai na llofruddio'r milwyr fyddai bwrw ymlaen â'r ymosodiad. Sylwn yn syth mai Cymry Cymraeg yw milwyr y gatrawd yn y gerdd, gan ein closio atynt, hogiau'r

---

<sup>344</sup> Alan Llwyd, *Cerddi Alan Llwyd 1968-1990: Y Casgliad Cyflawn Cyntaf* (Llandybie, 1990), t.378.

<sup>345</sup> Gwyn Thomas, *Y Weledigaeth Haearn*, t.37.

<sup>346</sup> Grahame Davies, *Achos* (Llandybie, 2005), tt.71-2.

capel a oedd yn ceisio cysur yn eu mamiaith a'u crefydd, mae'n debyg. Cafodd H. J. Evans ei eni yng Nghymru cyn symud i Loegr ac ef yw'r llefarydd a glywn yn y gerdd:

Ni fedrwn eiriau Cymraeg yr emyn a ganent,  
a'u rhengoedd yn dynn fel llinyn bwa ar ben y bryn,  
a choedwig Mametz fel annwfn o fwg islaw;  
ond fe wyddwn y dôn, 'Aberystwyth';  
a cherais gyda hwy yn Saesneg, dan fy anadl:  
'*Jesu, Lover of my Soul*'.<sup>347</sup>

Fe geir cofnod o filwyr y gatrawd Gymreig yn canu'r emyn hwn yn ystod eu cyfnod ym Mametz yn arwrgerdd David Jones, *In Parenthesis*.<sup>348</sup> Mae'n emyn addas o ystyried ei eiriau Cymraeg: 'cudd fi, Geidwad, oni ddaw / terfyn y tymhestloedd maith' a 'dwg fi'n iach i'r hafan draw'.<sup>349</sup> Gwelir bod cyfeiriadau at ganu emynau yn *Up to Mametz* hefyd, a chyfeiriad at ganu emyn angladdol Cymraeg yn benodol.<sup>350</sup>

Clywn yn y gerdd y brawddegau stoc, milwrol, '*Press home the attack with all vigour*' a '*Press home the attack without delay*', er gwaethaf protestio'r cadfridog, ac fe wyddai fod ei ateb haerllug yn mynd i roi terfyn ar ei yrfa filwrol:

Gelwais nhw'n ffyliaid.  
Gwrthodais eu gorchymyn.  
Tynnais fy nynion o'r lein.<sup>351</sup>

Cofnodwyd geiriau'r cadfridog gan Ll. Wyn Griffith, geiriau sy'n mynegi ei ddieter tuag at y pencadlys a'u penderfyniad i barhau â'r ymosodiad amhosib:

---

<sup>347</sup> Ibid., t.71.

<sup>348</sup> David Jones, *In Parenthesis* (London, 1969), t.160: 'and the Royal Welsh sing: / Jesu / lover of me soul... to *Aberystwyth*'.

<sup>349</sup> Emyn 366 yn *Caneuon Ffydd*.

<sup>350</sup> Wyn Griffith, *Up to Mametz* (London, 1981), t.187: 'The Devil had taken his seat at the keyboard to play the opening bars of his morning hymn'; a gweler t.191: 'The only thing he said that I could make out was that bit of a Welsh hymn – you'll know it, the one they sing at funerals to that tune that curdles your blood worse than the Dead March'.

<sup>351</sup> Grahame Davies, *Achos*, t.71.

The General was cursing last night at his orders. He said that only a madman could have issued them. He called the Divisional Staff a lot of plumbers, herring-gutted at that.<sup>352</sup>

Fe ychwanega'n nes ymlaen ragor o eiriau H. J. Evans:

You mark my words, they'll send me home for this: they want butchers, not brigadiers.<sup>353</sup>

Wrth gloi'r gerdd, mae Grahame Davies yn creu dihareb o fath er mwyn cyfleu'r rhyddhad a deimlodd y cadfridog o adael y fyddin. Gwell oedd ganddo ddiodeff cywilydd y bluen wen a fyddai'n cael ei rhoi i filwyr methiannus fel arwydd o lwfrdra na diodeff yr euogrwydd o gael gwaed ar ei ddwylo:

Ond gwn hyn: fy ngwarth a'm gwardodd,  
a gwell na holl fedalau fy oes yw pluen wen Mametz.<sup>354</sup>

Mae'n werth rhoi sylw i'r gyffelybiaeth a welwn yn y dyfyniad cyntaf o'r gerdd: 'a choedwig Mametz fel annwfn o fwg islaw', sydd eto'n lliwio'r gerdd â chyfeiriadaeth Gymreig. Fe ddefnyddir Annwfn neu Annwn yn lled aml er mwyn cyfleu uffern rhyfel gan wahanol feirdd, gan ddiystyru'r syniad gwreiddiol o Annwn a ddisgrifiwyd yn y *Cydymaith i Lenyddiaeth Cymru* fel 'lle o lawenydd tragwyddol a hapusrwydd'.<sup>355</sup> Nid isfyd hunllefus na chartref y meirw yw'r Annwn Celtaidd mewn chwedlau a cherddi cynnar lle ceir cyfeiriadau at yr arallfyd. Dylanwad Cristnogaeth a fu'n gyfrifol am droi'r lle i gynrychioli uffern yn ddiweddarach wrth i chwedloniaeth gael ei chysylltu â phaganiaeth. Diffiniad gwahanol iawn i'r un a geir yn y *Cydymaith i Lenyddiaeth Cymru* sydd ym mynegai T. Gwynn Jones yng nghefn *Welsh Folklore & Folk-Custom*: 'the underworld, the void, hell',<sup>356</sup> disgrifiadau addas ar gyfer cyfleu erchylltra a thywyllwch rhyfel. Yn nefnydd Grahame Davies o'r ddelwedd, crëir naws dywyll, ansicr; a'r goedwig yn lle sinistr, myglyd sy'n gwahodd angau. Ymddengys

---

<sup>352</sup> Wyn Griffith, *Up to Mametz*, t.194.

<sup>353</sup> *Ibid.*, t.206.

<sup>354</sup> Grahame Davies, *Achos*, t.72.

<sup>355</sup> Meic Stephens (gol.), *Cydymaith i Lenyddiaeth Cymru* (Caerdydd, 1997), t.19.

<sup>356</sup> T. Gwynn Jones, *Welsh Folklore & Folk-Custom* (London, 1930), t.236.

coedwig Mametz fel byd arall, byd wedi ei droi ben i waered, a neb am fentro camu i'r ddrysfa frawychus.

Caiff Annwn ei grybwyll mewn sawl cerdd sy'n ymwneud â rhyfel, cerddi fel 'Y Tad a'r Mab a'r Ysbryd Aflan' gan T. James Jones,<sup>357</sup> cerdd am y rhyfel diweddar yn Irac; 'Ffin' eto gan T. James Jones,<sup>358</sup> sef awdl fuddugol 2007 lle mae'n cyfeirio at fynydd Epynt fel maes ymarfer milwrol; 'Kosovo' gan Emyr Davies,<sup>359</sup> 'Kosovo' gan John Phillips,<sup>360</sup> 'Cwm Tawelwch' gan Gwilym R. Jones,<sup>361</sup> lle sonnir am 'annwn y siamberi nwy', a 'Profiad',<sup>362</sup> englyn gan Iwan Morgan (Ffestiniog) sydd ag Annwn yn drosiad am Ypres, lle lladdwyd Hedd Wyn. Er ychwanegu at yr ystyr ac at y gyfeiriadaeth sydd mewn cerdd, mae tuedd i Annwn gael ei ddefnyddio o ran cyfleustra ar brydiau, ac fe gyll y gair – a'r holl ystyron sydd ynghlwm wrtho – eu heffaith mewn rhai cerddi. Nid felly 'Dilead' gan Alan Llwyd,<sup>363</sup> fodd bynnag. Defnyddir y cysyniad o Annwn bum gwaith yn y cywydd, cerdd sy'n trafod yr Holocost i ddechrau cyn ymestyn thema llofruddiaeth i sôn am erthylu babanod heddiw. Lle gwaedlyd yw Annwn Alan Llwyd, lle na allwn ei ddychmygu ond mewn hunllefau, ac fe ddefnyddia'r bardd y gair i olygu uffern, tranc a chraidd pob distryw. Fe adeilada ystyr i'r gair fesul haen, cyn ei ddefnyddio eto ar ddiwedd ei gywydd i gyfannu holl erchyllterau'r hil ddynol a'i chwmp. Mae'n wylo ac yn sobri wrth feddwl mor hawdd yw dileu bywydau trwy drais, a'r bywydau hynny heb eu dechrau eto:

Trist wyf yng ngwaed eu clwyfau,  
Annwfn sydd yn fy nwysáu.<sup>364</sup>

Eto, yng nghyswllt yr Holocost, fe ddefnyddir Annwn i ddisgrifio gwerysll Belsen gan Donald Evans, ac fe bwysleisir ganddo nad lle dychmygol na chyflwr meddwl ydyw: 'Ond nid

---

<sup>357</sup> T. James Jones, *Nawr* (Llandybie, 2008), tt.31-3.

<sup>358</sup> *Ibid.*, tt.120-6.

<sup>359</sup> Gerallt Lloyd Owen (gol.), *Pigion Talwrn y Beirdd*, 10 (Caernarfon, 2000), t.153.

<sup>360</sup> *Barddas*, 256 (Chwefror/Mawrth 2000), t.45.

<sup>361</sup> Gwilym R. Jones, *Cerddi Gwilym R.* (Y Bala, 1969), tt.29-31.

<sup>362</sup> *Barddas*, 194 (Mehefin 1993), t.3.

<sup>363</sup> Alan Llwyd, *Cerddi Alan Llwyd 1968-1990: Y Casgliad Cyflawn Cyntaf*, tt.378-81.

<sup>364</sup> *Ibid.*, t.381.



syniad, nid dirnadaeth / ydyw'r annwn hwn heno'.<sup>365</sup> Ymgorfforiad o'r arallfyd tywyll yw'r gwerysll crynhoi yng ngolwg y bardd hwn.

O aros ym myd chwedloniaeth Gymreig, un cymeriad sy'n ymddangos er mwyn cynrychioli gwreiddyn trais yw Efnisien ail gainc y Mabinogi. Fe'i gwelir yn 'Ar drothwy'r Milflwyddiant: Kosovo, 1999' gan Alan Llwyd,<sup>366</sup> yn batrwm cynhenid o ddrygioni dyn, fel Cain yn yr Hen Destament:

Gwyddai ein hynafiaid am natur ddiostur dyn,  
a chreasant eu delw ohono yn chwedlau eu hil ...<sup>367</sup>

Nid yw rhyfel Kosovo ond yn un arall mewn rhes o ryfeloedd ein hanes truenus, ac mae'r bardd yn dweud yn ddiamwys y bydd geni Efnisien arall cyn diwedd y ganrif. Defnyddia W. R. P. George y cymeriad milain i gynrychioli pob terfysgwr a fu drwy'r oesau mewn cerdd sy'n dwyn enw 'Efnisien'.<sup>368</sup> Dywed y 'Daw yn rhith Hitler, Nero, dienyddiwr', ef yw 'lluniwr y bom atomig', ac ef yw 'Lluniwr terfyn terfynol i deulu / ein bodolaeth ddynol'. Tebyg yw disgrifiad Bryan Martin Davies ohono fel 'gelyn pob goleuni' yn ei gerdd yntau,<sup>369</sup> ac mae Iwan Llwyd yn 'Guernica'<sup>370</sup> hefyd yn cyfeirio at 'weflau meirch Efnisien', wrth iddo roi disgrifiad manwl o baentiad Picasso o'r gyflafan wedi bomio'r dref yn 1937 yn ystod rhyfel cartref Sbaen.

Cyfeiriwyd eisoes yn y bennod gyntaf at gerdd Gwyn Thomas, 'Tra bo'n Gwaedu Rosyn Aberth',<sup>371</sup> lle ceir cyfeiriadaeth at chwedl Branwen, ac fe ddefnyddir y chwedl eto ganddo yn 'Y Ddôr yn y Mur'.<sup>372</sup> Sôn y mae yno am y drws tuag Aber Henfelen, lle gorfodwyd y saith a orosodd y frwydr yn erbyn y Gwyddelod i adael gwynfyd Gwales a wynebu erchyllterau a hagrwch y byd y tu allan. 'Eironig yw holl gywair y gerdd,' fel y noda Alan

<sup>365</sup> Donald Evans, *Machlud Canrif* (Caernarfon, 1982), t.40.

<sup>366</sup> Alan Llwyd, *Ffarwelio â Chanrif* (Llandybïe, 2000), tt.145-6.

<sup>367</sup> *Ibid.*, t.145.

<sup>368</sup> W. R. P. George, *Mydylau: Cynhaef Cerddi*, t.80.

<sup>369</sup> Bryan Martin Davies, *Cerddi Bryan Martin Davies: Y Casgliad Cyflawn* (Llandybïe, 2003), t.85.

<sup>370</sup> Iwan Llwyd, *Hanner Cant* (Bodedern, 2007), t.46.

<sup>371</sup> Gwyn Thomas, *Symud y Lliwiau* (Dinbych, 1981), t.8.

<sup>372</sup> Gwyn Thomas, *Chwerwder yn y Ffynhonnau* (Dinbych, 1962), t.9.

Llwyd yn ei gyfrol *Barddoniaeth y Chwedegau*,<sup>373</sup> a rhoi ysgytwad i'r llenorion a'r ysgolheigion a fu'n osgoi trafod yr Ail Ryfel Byd ac a fu'n cuddio 'mewn cell o lyfrau' y mae Gwyn Thomas yn y bôn. Â Alan Llwyd yn ei flaen:

Symbol grymus, mewn gwirionedd, o gyflwr barddoniaeth Gymraeg ar ôl yr Ail Ryfel Byd yw drws gwaharddedig Aber Henfelen. Bu'r telynegwyr Cymraeg yn trigo yng Ngwales am ysbaid go hir, heb unwaith feiddio agor y drws gwaharddedig, ond prin y gellid trigo yn y gwynfyd rhith hwnnw wedi Belsen ac Auschwitz, Hiroshima a Nagasaki.<sup>374</sup>

Ail gainc y Mabinogi sydd gan Grahame Davies dan sylw hefyd mewn cyfres o ganiadau mewn cerdd o'r enw 'Branwen',<sup>375</sup> lle caiff y rhannau eu lleisio gan wahanol gymeriadau sydd ynghlwm â'r gwrthdaro hir a fu yn Iwerddon. Ysgrifennwyd y gerdd yn dilyn profiad y bardd fel newyddiadurwr yng Ngogledd Iwerddon gyda Chatrawd Frenhinol Cymru; dyma gerdd sy'n awchu am heddwch ac sy'n dangos tuedd dyn i fod yn dreisgar ac i ymffrostio yn ei gryfder milwrol. Llais Branwen yw llais edifeirwch tragwyddol yr oesau wrth iddi gynrychioli pob mam, merch a gwraig sy'n galaru; fe ddyrchefir ei thynnerwch gyferbyn â thuedd dynion i ryfela, ond cael eu boddi wna'i geiriau synhwyrol gan elyniaeth feddwol:

Fe ganiatewch i Frân ei anfarwoldeb  
yn gwyllo am elyn am byth:  
ond ni chofnodir, ym memrwn milwriaeth,  
mai difarw hefyd fu fy edifeirwch i.<sup>376</sup>

Mae hi'n mynegi gofid mamol ac yn crefu am derfyn ar y trais yn Iwerddon. Ei llais hi yw llais rheswm yng nghanol monologau'r dynion: y milwr Prydeinig, y Gwyddel a'r Cymro, sydd ill tri â chasineb yn berwi yn eu gwaed dros wahanol achosion. Dyrchafu gwyleidd-dra, gostyngeddwydd a pharodwydd i gymodi y mae Branwen:

A fynno urddas, bid isel,  
a fo ben, bid fach.<sup>377</sup>

---

<sup>373</sup> Alan Llwyd, *Barddoniaeth y Chwedegau: Astudiaeth Lenyddol-hanesyddol* (Caernarfon, 1986), t.541.

<sup>374</sup> Ibid.

<sup>375</sup> Grahame Davies, *Cadwyni Rhyddid* (Abertawe, 2001), tt.67-74.

<sup>376</sup> Ibid., t.67.

Ceir yng ngeiriau'r Gwyddel a'r Cymro ddifriö arucheledd rhwysgfawr 'Prydain Fawr': Y Gwyddel yn synnu at agwedd hunangyfiawn cyfryngau Prydain, a'r Cymro am gael annibyniaeth i'w wlad, am dorri'n rhydd oddi wrth deyrnas fwy sy'n ymfalchïo'n ymffrostgar yn ei grym a'i medr milwrol, y grym a dywalltodd waed Cymreig yn y gorffennol. Mae Branwen hithau â'i thynnerwch benywaidd yn ceisio annog Prydain i ddiosg ei balchder. 'Mor wynfydedig yw gwendid,' meddai; gwelir mai gan y rhai diymhongar y mae'r gallu i ymddiheuro ac i faddau, ond rhaid yn gyntaf gael gwared â phob rhwysg, ac yn ei le, wisgo'r sachliain a'r lludw. Dyma, meddai, sydd angen i Brydain ei wneud er mwyn cymodi â Gweriniaeth Iwerddon:

Drwy dy hanes oll, dyma dy sialens eitha':  
ymerodraeth, ymddiheura.

Ar lan Alaw torcalon,  
mae man cwrdd i elynion:  
fy mrawd, rho dy fawrdra i'r llwch,  
cei faddeuant, cawn heddwch.<sup>378</sup>

Un arall o ferched galarus ein llên a gaiff ei henwi yn englyn 'Gwern' i Anne Frank, a Heledd, chwaer Cynddylan, yw honno. Ym mhedair llinell ei englyn, ymdrinia 'Gwern' â sawl thema: colli talentau ifainc, a dawn lenyddol Anne Frank yn benodol, na chawsom weld ei datblygu; ffwlbri ac oferedd rhyfel; dewrder y ferch bymtheg oed yn cuddio rhag Natsiaid yr Ail Ryfel Byd, ac fe lwydda i roi tro Cymreig i'r cyfan wrth uno'r ddwy ddiodefwaig:

Un o ddwy awen ddiwall – a falwyd  
Gan ryfeloedd cibddall;  
Yn ei llid bu fel y llall.  
Yn ddewr, yn Heledd arall.<sup>379</sup>

Gosodwyd yr englyn yn y dosbarth cyntaf yng nghystadleuaeth drimisol *Barddas*, ac eglura Alan Llwyd, y golygydd, y modd y Cymreigiwyd yr englyn:

---

<sup>377</sup> Ibid., t.74.

<sup>378</sup> Ibid.

<sup>379</sup> *Barddas*, 224/225 (Rhagfyr/Ionawr 1995-1996), t.24.

Cyplysir Anne Frank â Heledd, gan fod Anne Frank yn cynrychioli merched a gwragedd Iddewig dioddefus yr Ail Ryfel Byd, fel y mae Heledd yn cynrychioli dioddefaint a galar gwragedd mewn cyfnodau o ryfel i ni'r Cymry.<sup>380</sup>

Nid dyma'r tro cyntaf i Heledd gael ei chysylltu â dioddefaint rhyfel, fodd bynnag. O droi at un o feirdd Cymraeg mwyaf yr Ail Ryfel Byd, Alun Llywelyn-Williams, gwelir i Heledd ymddangos gyfochr ag Inge yng ngherdd gyntaf y gyfres 'Ym Merlin – Awst 1945'. Cynrychiola'r ddwy ddolef y cyfnod, ond fel y noda Marged Haycock yn ei hysgrif 'Hanes Heledd Hyd Yma', maent hefyd yn ymgorffori'r cwmp a fu yn y ffordd o fyw ar y pryd, lle'r oedd gwerthu'r corff yn gyfnewid am sigarét neu siocled, os nad yn dderbyniol, yn beth arferol, a lle'r oedd safon a hunan-barch yn bethau eilradd.<sup>381</sup> 'This modern-day Heledd is a fallen princess,' medd Gerwyn Williams amdani.<sup>382</sup> Fe adleisiwyd rhannau o Gylch Heledd mewn gweithiau llenyddol ar hyd yr ugeinfed ganrif, ac fel y dengys Marged Haycock, cydiodd y beirdd yn nelwedd yr ystafell dywyll, yr adfail a'r eryr, a chydio yn ffigwr Heledd ei hun o bryd i'w gilydd, fel y gwna Alan Llwyd yn 'Y Ddwy Awen',<sup>383</sup> cerdd y cyfeiriwyd ati eisoes yn y bennod gyntaf. Fel y gwelsom i Efnisien yr ail gainc fod yn ddelw o ddrygioni mewn cerdd arall o eiddo Alan Llwyd, Blodeuwedd y bedwaredd gainc yw gwreiddyn y fall yma, a'i magwrfa yw gweryslyoedd crynhoi yr Ail Ryfel Byd. 'O Ddachau y daw Blodeuwedd' a 'Büchenwald a'i wewyr / ydyw hi,' meddai'r bardd.

Parhau i glymu'r Cymreig wrth y byd-eang y mae Alan Llwyd yn ei gerdd i Anne Frank yn *Sonedau i Janice a Cherddi Eraill* sy'n cyflwyno'r elfen Gymreig wrth iddo droi 'Anne' yn 'Ann'.<sup>384</sup> Gwahaniaeth cynnil y sylwir arno ar bapur yn unig. Mynega Alan Llwyd anallu dynoliaeth i ddirnad marwolaeth chwe miliwn ac felly caiff y miliynau eu crynhoi'n un gennym wrth i'r ferch ifanc gynrychioli cenhedlaeth gyfan o Iddewon. Meicrocosm yw Anne Frank yn y gerdd, fel y medrwn geisio uniaethu a galaru â cholled enfawr yr Iddewon adeg yr

---

<sup>380</sup> Ibid.

<sup>381</sup> Marged Haycock, 'Hanes Heledd Hyn Yma', *Gweledigaethau: Cyfrol Deyrnged Yr Athro Gwyn Thomas*, gol. Jason Walford Davies, t.41.

<sup>382</sup> Gerwyn Williams, 'Occupying New Territory: Alun Llywelyn-Williams and the Welsh-Language Poetry of the Second World War', *The Oxford Handbook of British and Irish War Poetry*, gol. Tim Kendall (Oxford, 2007), t.354.

<sup>383</sup> Alan Llwyd, *Cerddi Alan Llwyd 1968-1990: Y Casgliad Cyflawn Cyntaf*, t.64.

<sup>384</sup> Alan Llwyd, *Sonedau i Janice a Cherddi Eraill* (Llandybïe, 1996), tt.86-7.

Holocaust, ac wrth Gymreigio ei henw, daw'r bardd â ni'n nes at yr achos, fel yr eglura Gerwyn Williams:

Diddorol yw nodi fel y daw Alan Llwyd â gwrthrych y gerdd yn nes atom, ei hawlio ymhellach ar gyfer y Gymraeg fel petai, dim ond drwy ollwng yr 'e' nas yngenir o ddiwedd ei henw priod: tua hanner y ffordd drwy'r gerdd try 'Anne' yn 'Ann'. Arwydd cynnil yw hynny hefyd o'r ffordd y newidiwyd Anne Frank ym meddyliau pobl drwy roi'r fath bwysau cynrychioladol ar ei hanes.<sup>385</sup>

Gwelwn yn 'Anne Frank' i'r Iddewes bymtheg oed ddal enwau a wynebau coll ei chenedl, ac mae hi bellach yn gofeb i'w hil ac i'r genhedlaeth anghofiedig; yn gofeb i 'neb':

Unigolyn, gwehelyth;  
un Ann, un enw, un wyneb  
yn filiynau dienwau, diwyneb;  
un ferch ifanc yn fur a chofeb,  
un Ann yn neb.<sup>386</sup>

Cerdd Gymreig ei naws, ei chyfeiriadaeth a'i mesur sydd gan Gerallt Lloyd Owen i gofio am un o ffigyrau llenyddol amlycaf y Rhyfel Mawr yng Nghymru, sef Albert Evans-Jones, neu Cynan i roi iddo ei enw barddol adnabyddus. Talu teyrnged a wna'r cywydd 'Cofio Cynan'<sup>387</sup> a gyhoeddwyd mewn rhifyn dwbl o *Barddas* yn 1995, a hynny ar achlysur canmlwyddiant geni'r bardd o Ben Llŷn. Yn ei arddull danllyd arferol, cywydd i dynnu sylw yw hwn gan Gerallt Lloyd Owen, ac mae pob gair yn talu am ei le. Un o feirdd Cymraeg mwyaf y Rhyfel Mawr yw gwrthrych y gerdd, ac felly mae'r cyfeiriadau at waith Cynan yn rhoi gwreiddiau Cymreig amlwg i'r gwaith, a'i wreiddio'n ddyfnach fyth wrth gymharu Cynan ag Aneirin. Ond nid Aneirin yr arwrgerdd mo Cynan yma, nid canmol ac annog y milwyr i'r frwydr a wnaeth ond hiraethu a thristáu ynghylch y sefyllfa a phruddhau'n arbennig o weld holl bropaganda crefyddol y wlad. Cydnabod cyfraniad arloesol Cynan i lenyddiaeth Gymraeg y mae Gerallt Lloyd Owen wrth agor ei deyrnged:

I'n llenyddiaeth daeth un dydd

<sup>385</sup> Gerwyn Williams, *Tir Newydd: Agweddau ar Lenyddiaeth Gymraeg a'r Ail Ryfel Byd* (Llandybie, 2005), t.273.

<sup>386</sup> Alan Llwyd, *Sonedau i Janice a Cherddi Eraill*, t.87.

<sup>387</sup> *Barddas*, 219/220 (Gorffennaf/Awst 1995), t.30.

hen awen â llais newydd:  
Aneirin gwrth-arwriaeth  
ac Aneirin gwerin gaeth  
a orfodwyd i'r fedel  
gan rym mwy, gan eiriau mêl.<sup>388</sup>

Clywn adlais o un o gerddi cynharach Gerallt Lloyd Owen yn agoriad 'Cofio Cynan' wrth i 'gwerin gaeth' ein tywys yn ôl at y gerdd brotest 'Fy Ngwlad' (1972): 'Fe rown wên i'r Frenhiniaeth, / Nid gwerin nad gwerin gaeth'.<sup>389</sup> Gall 'Aneirin gwerin gaeth' ddangos mai llais ar ran y bobl gyffredin a gafodd eu gyrru i'r fyddin gan ddeddf gwlad oedd llais Cynan, a'r 'caeth' yn pwysleisio na chawsant ddewis mynd chwaith. Yn y cyswllt hwnnw, ni fyddai'n syndod i Gerallt Lloyd Owen fachu ar y cyfle i ddirmygu Prydeindod a'r ddelwedd o undod Prydeinig oedd mor amlwg yn ystod blynyddoedd y rhyfel mewn posteri o bropaganda. Mae'n debyg y byddai'n gas ganddo feddwl bod gan lywodraeth Lloegr yr hawl i anfon bechgyn o Gymru i'w marwolaeth, ac i'r bechgyn hynny fod yn gaeth i ddeddfwriaeth gwlad arall.

Â'r cywydd rhagddo gan ymhelaethu ar yr hyn a welodd ac a brofodd Cynan yn y rhyfel, ac mae'n dirmygu'r 'gweinidogion diogel / eu crwyn' oedd mor barod i anfon bechgyn eu gofalaeth i'r drin, y gweinidogion rhagrithiol hynny fu'n 'rhoi Duw yn lifrai'r dydd' heb brofi maes y gad eu hunain. Fe ddyfynnir geiriau brwdfrydig o anogaeth gan y gweinidogion yn llais y bardd, cyn chwalu'r araith fer trwy ddychwelyd at Gynan a welodd dwyll a chelwydd y gwŷr honedig grefyddol, ac a welodd ffydd yn pylu ymysg y catrodau:

Na, nid ffydd oedd lond y ffos  
ond dynion wedi'u hannos,  
A'u hannos cyd, megis cŵn,  
nes eu hannos i annwn;  
dynion a droed yn y drin  
yn beiriannau i'r Brenin ...<sup>390</sup>

---

<sup>388</sup> Ibid.

<sup>389</sup> Gerallt Lloyd Owen, *Cerddi'r Cywilydd* (Caernarfon, 1990), t.24.

<sup>390</sup> *Barddas*, 219/220 (Gorffennaf/Awst 1995), t.30.

Down yn ôl drachefn at Annwn, a phriodol felly yw trosi'r dynion yn gŵn er mwyn dangos y dad-ddyneiddio a fu yn y ffosydd; creaduriaid brawychus, bwystfilaidd yw cŵn Annwn yn ôl y darlun traddodiadol chwedlonol ohonynt, a hwy sy'n dynodi dyfodiad angau.<sup>391</sup> Efallai ei bod yn werth rhoi sylw yma i ran o bryddest fuddugol Cynan yn Eisteddfod Caernarfon 1921, 'Mab y Bwthyn',<sup>392</sup> lle cyfeiria at yr awdurdodau milwrol anifeilaidd fel y 'Gwŷr a gyfarthai megis cŵn', y gwŷr hyn a drodd fab diniwed y bwthyn yn 'beiriant lladd'.<sup>393</sup> Collodd enaid unigolyn ei werth a mesur y bardd bris bywyd mewn modfeddi o dir a gaiff eu hennill gan gatrawd. Wrth i'r bardd ein hatgoffa i Gynan brofi hyn oll yn uniongyrchol, daw sgrech y meirwon i ferwino'r glust, y waedd weladwy o ing a phoen, 'y waedd na allai gweddi / na Ffydd ddoe ei diffodd hi'. Wedi sgrech y rhyfel, a Chynan wedi dychwelyd adref, nid hawdd oedd mynd yn ôl at normalrwydd a bywyd cyffredin. Cyfeiria Gerallt Lloyd Owen at yr hunllefau byw a ddioddefodd cyn-filwyr ac at y modd y sigodd y ffydd Gristnogol. Yn y cyfnod truenus wedi'r Rhyfel Mawr y daeth cerddi coffa Cynan, y cerddi oedd yn gynrychioladol o bob un a fu drwy'r drin, a'r cerddi oedd yn crefu am heddwch terfynol:

Rhoddodd i'w gerdd weddi gwŷr  
a waredwyd, cymrodyr  
a fynnai weld nef yn ôl,  
a fynnai nef wahanol  
i'r 'nef-ar-ein-hochor-ni',  
nef lydan heb fwledi ...<sup>394</sup>

Dyna ddychanu'r gweinidogion a'u galwad eto, yr oedd eu propaganda crefyddol yn mynnu'n dragywydd fod Duw o blaid eu byddin nhw. Er i Cynan fod yn gaplan yn y rhyfel, ni syrthiodd i'r fagl ac ymuno â'r rhagrithwyr crefyddol eraill yn eu hanogaeth. Yn wir, cafodd ei ffydd yntau ysgytwad wrth i amheuaeth godi ynddo ar sawl achlysur, a pharod iawn oedd i gydnabod hynny yn ei farddoniaeth, fel y gwna yn 'Pabell y Cyfarfod' ac yn ei bryddest 'Y Tannau Coll'. Diffuantrwydd a manylder Cynan a'i cododd uwchlaw beirdd eraill y cyfnod, a thybia Alan Llwyd mai ef oedd y 'bardd Cymraeg mwyaf effro a hydeiml i erchyllterau

---

<sup>391</sup> T. Gwynn Jones, *Welsh Folklore & Folk-Custom*, t.238.

<sup>392</sup> Cynan, *Cerddi Cynan* (Liverpool, 1959), tt.130-47.

<sup>393</sup> *Ibid.*, t.137.

<sup>394</sup> *Barddas*, 219/220 (Gorffennaf/Awst 1995), t.30.

rhyfel'.<sup>395</sup> Daw cywydd Gerallt Lloyd Owen i glo gyda chwpled sy'n cadarnhau cryfder ffydd y bardd dan sylw, ac yma Cynan ei hun yw 'Mab y Bwthyn':

Ym mhob iaith, Mab y Bwthyn  
ydyw Mab Duw ym mhob dyn.<sup>396</sup>

At un arall o fawrion barddoniaeth Gymraeg y Rhyfel Mawr yr awn nesaf, ac at un y mae chwedloniaeth wedi tyfu'n drwch o'i amgylch. Mae enw Hedd Wyn wedi ei hoelio wrth y Rhyfel Byd Cyntaf gennym ni'r Cymry ac fe gynrychiola'r profiad Cymreig o ryfel yn fwy na neb. Mae cerddi niferus wedi eu hysgrifennu yn cofio am fardd y Gadair Ddu ers ei farwolaeth ar faes y gad yn 1917, ac mae'r llanc o Drawsfynydd wedi tyfu i gynrychioli'r holl fechgyn ifainc a gollwyd yn y Rhyfel Mawr. Cydiodd ei gymeriad a'i hanes yn nychymyg y genedl, ac mae'r sylweddoliad inni golli cenhedlaeth o dalentau wedi tanio awch i gofnodi ac i goffáu ar hyd y blynyddoedd. Noda Alan Llwyd yn ei ragymadrodd i argraffiad 1994 o *Cerddi'r Bugail*, casgliad o farddoniaeth Hedd Wyn, fel y 'Parhaodd y diddordeb yn Hedd Wyn drwy gydol yr Ugeiniau, ac yn ychwanegol at y modd y crewyd myth ohono, cadwyd y coffadwriaeth amdano yn ddiriaethol fyw'.<sup>397</sup> Gwnaed hynny drwy'r cofebion iddo, drwy'r Gadair Ddu ei hun, a thrwy agor cartref Hedd Wyn, Yr Ysgwrn, i'r cyhoedd. Afraid dweud mai englynion arloesol R. Williams Parry yw'r coffât amlycaf i Hedd Wyn, 'yn rhan annatod o gynhysgaeth lenyddol cenedl',<sup>398</sup> fel y dywed Alan Llwyd, sydd yng nghwmni R. Williams Parry yn yr ymgais i sicrhau anfarwoldeb Hedd Wyn. Mae ei gyfraniad yn enfawr i'r achos gyda'i gofiant trylwyr, *Gwae Fi Fy Myw: Cofiant Hedd Wyn* (1991), a'i sgrïpt afaelgar ar gyfer y ffilm *Hedd Wyn* (1992), ffilm a roddodd hanes Ellis Humphrey Evans ar lwyfan y byd ac a boblogeiddiodd yr hanes yng Nghymru hefyd.

Fel bardd toreithiog a chanddo ddiddordeb diamheuol yn hanes Hedd Wyn, naturiol yw fod gan Alan Llwyd ei gyfres o englynion ei hun i brifardd 1917. Cyfres wedi ei rhannu'n

---

<sup>395</sup> Alan Llwyd ac Elwyn Edwards (gol.), *Gwaedd y Bechgyn: Blodeugerdd Barddas o Gerddi'r Rhyfel Mawr 1914-1918* (Llandybie, 1989), t.35.

<sup>396</sup> *Barddas*, 219/220 (Gorffennaf/Awst 1995), t.30.

<sup>397</sup> Hedd Wyn, *Cerddi'r Bugail: Ynghyd ag Atodiad o waith y bardd nas cynhwyswyd yn argraffiadau 1918 na 1931* (Llandybie, 1994), t.xv.

<sup>398</sup> *Ibid.*



bedair yw 'Hedd Wyn'.<sup>399</sup> Coffáu'r holl fechgyn a laddwyd yn y rhyfel a mynegi galar rhieni a gweddwon a wna'r ddwy ran gyntaf; yna ceir pum englyn i Hedd Wyn yn benodol lle clywn adleisio englynion R. Williams Parry. Disgrifia rannau ei gorff sydd bellach yn llonydd, gan ganolbwyntio ar ei ddwylo a'i lygaid fel y gwnaeth Williams Parry. Cyfeirir hefyd at fel y syrthiodd Hedd Wyn mor bell o'i gynefin, ac at y ffaith mai pridd tramor sy'n ei orchuddio. Gwelir bod cymal agoriadol Williams Parry 'Y bardd trwm dan bridd tramor', yn gwaedu drwy englynion Alan Llwyd wrth iddo ymestyn y ddelwedd:

Nid gweryd ei wladgarwch yw'r ddaear  
Ddieithr dros ei heddwch;  
Nid erwau'i wlad ar ei lwch  
Ond tir y difaterwch.

Ac yntau, o gyrrau'i gwm, yn fyddar  
I ryfeddod bwrlwm;  
Daearestron drosto'n drwm,  
Erwau gwaed ar ei godwm.<sup>400</sup>

Yn y rhan olaf, pwysleisir perthnasedd hanes Hedd Wyn heddiw, a stori'r bardd o'r Traws yn dod yn fyw wrth inni gofio amdano ac am filwyr eraill a laddwyd. Bron nad yw Alan Llwyd yn ymateb i orchymyn R. Williams Parry wrth iddo ganu am 'y llanc nac anghofiwch', ac mae delwedd y gofeb garreg sydd wedi ei phlannu ynom ni ac sy'n dal dagrau mamau yn un briodol, leddf i gloi ei deyrnged:

Mae maen y mamau o hyd ynom ni,  
Maen euog ein hadfyd;  
Ein cof yw'r cerrig hefyd,  
A'r galon faen ar glo'n fud.<sup>401</sup>

Dwyn i gof eiriau R. Williams Parry a wna Meirion MacIntyre Huws hefyd yn 'Traws',<sup>402</sup> cywydd byr sy'n cyfuno'n eironig hanes Hedd Wyn ac atomfa niwclear

---

<sup>399</sup> Alan Llwyd, *Yn y Dirfawr Wag* (Llandybïe, 1988), tt.23-5.

<sup>400</sup> Ibid., t.25.

<sup>401</sup> Ibid.

<sup>402</sup> Meirion MacIntyre Huws, *Melyn* (Llanrwst, 2004), t.79.

Trawsfynydd, fel y gwna Alan Llwyd hefyd mewn englyn yn *Barddas*.<sup>403</sup> Yma, mae Meirion MacIntyre Huws yn lled-ddyfynnu llinell Williams Parry, 'Tyner yw'r gawod heno', a'r 'gawod' y cyfeirir ati yn sôn, o bosib, am effeithiau ynni niwclear. Adleisir llinell arall hefyd, o eiddo Hedd Wyn y tro hwn, y llinell a roddodd deitl i'w gofiant ac a ddaw o'i gerdd 'Rhyfel': 'Gwae fi fy myw mewn oes mor ddreng'.<sup>404</sup> Fel yn englynion Williams Parry, nid hawdd yw anghofio am Hedd Wyn yma chwaith:

'Tyner yw'r gawod heno'  
ac mae'i thwrw'n galw i go'  
un haf ac un gyflafan,  
un dorf ac un uffern dân,  
un bardd, a gwae ni ein byw,  
arswydo i aros ydyw.<sup>405</sup>

Defnyddiwyd teitl y cofiant fel testun yr englynion cywaith mewn ymryson a gynhaliwyd yn Nhrawsfynydd ar y 9fed o Dachwedd, 1991, ar achlysur lansio'r cofiant hwnnw. Gwelir bod y syniad o anfarwoli Hedd Wyn drwy'r cofiant yn treiddio drwy bob un o'r pedwar englyn a ddyfynnir yn *Barddas*,<sup>406</sup> un o'r englynion, a ddaw dan enw tîm Clwyd, wedi ei gyfansoddi gan neb llai nag awdur y cofiant ei hun. Ceir degau o gerddi, englynion yn bennaf, i Hedd Wyn ar wasgar dros dudalennau cylchgrawn *Barddas*, a daw'r delweddau o Gadair Ddu Birkenhead, o'r Ysgwrn, ac o gofebau i'r bardd, i'r golwg fesul un. Pwysleisir yn aml hefyd yr aberth wastraffus, a'r ddawn a gollwyd mor ifanc heb weld datblygu crefft barddoniaeth Hedd Wyn yn llawn. Dyma sydd gan Alan Llwyd yn 'Francis Ledwige a Hedd Wyn: Iwerddon a Chymru'<sup>407</sup> wrth iddo gyfeirio at ddau fardd, y ddau o dras Celtaidd, a aned yn yr un flwyddyn ac a laddwyd ar yr un dydd yn yr un frwydr, sef brwydr Passchendaele:

'Roedd y cerddi nas crewyd yn crio ym mudandod eu genau,  
a chaethiwyd eu hawen am byth ym maen yr amenau.<sup>408</sup>

---

<sup>403</sup> *Barddas*, 176/177 (Rhagfyr/Ionawr 1991-1992), t.18.

<sup>404</sup> Hedd Wyn, *Cerddi'r Bugail*, t.1.

<sup>405</sup> Meirion MacIntyre Huws, *Melyn*, t.79.

<sup>406</sup> *Barddas*, 176/177 (Rhagfyr/Ionawr 1991-1992), t.19.

<sup>407</sup> Alan Llwyd, *Cerddi Alan Llwyd 1968-1990: Y Casgliad Cyflawn Cyntaf*, t.371.

<sup>408</sup> *Ibid.*

Disgrifia Alan Llwyd ddiniweidrwydd y ddau ynghynt yn ei gerdd: ‘Diniwed oedd breuddwydion eu hawen, a’u calonnau yn lân,’ meddai. Darlun tebyg y mae Iwan Llwyd yn ei gyflwyno ar ddiwedd ‘Y bugail’.<sup>409</sup> Nid yw’n cyfeirio’n benodol at Hedd Wyn yma, ond gallwn yn hawdd ei osod yn ffrâm y gerdd wrth i linellau’r bardd o’r Traws, ‘Mae’r hen delynau genid gynt / Yng nghrog ar gangau’r helig draw’, eto o’r gerdd ‘Rhyfel’, gael eu hadleisio tua diwedd y gerdd. Yng nghanol geiriau rhagrithiol beirdd a chrefyddwyr cyfnod y Rhyfel Mawr, daw llun y bugail diniwed i’r cof, ei awen yn farw gydag ef:

un ddelwedd sy’n aros,  
bardd ifanc  
na wyddai achos ei ddychryn,  
a’i delyn ynghrog ar fidog,  
a bwled yn ei gefn.<sup>410</sup>

Bu i’r rhyfel ladd diwylliant a dawn yn ogystal â milwyr, ac mae’r golled i’w gweld eto mewn dau englyn gan Alan Llwyd i Hedd Wyn, yr ail englyn yn herio anghofrwydd ac angau wrth i farddoniaeth Hedd Wyn oroesi’n fythol:

Digoncwest, er ei le stair yn ieuanc,  
Yw ei awen ddisglair;  
Nid yw’r gad yn medi’r gair,  
Nid yw’r gwaed ar y Gadair.<sup>411</sup>

Caiff y Gadair sylw gan Eilir Jones (Llangwm) mewn pennill dideitl yng nghyfrol gyntaf *Pigion Talwrn y Beirdd*.<sup>412</sup> Yno, mae’n mynegi tristwch teulu’r bardd ar eu haelwyd, a’r gadair yn atgof parhaol o drallod y teulu, ond yn y pennill hefyd y mae’r tristwch sy’n llethu pawb sy’n ymweld â’r Ysgwrn. Nid oes yn rhaid enwi Hedd Wyn na chyfeirio at y Gadair Ddu yma, ond mae’r geiriau’n ein tywys yn syth at seremoni’r cadeirio yn Eisteddfod Genedlaethol 1917. Cywydd byr, nad yw wedi ei gyhoeddi, sydd gan Hywel Griffiths i’r Gadair Ddu ac i’r cadeiriau barddol eraill sydd i’w gweld yn Yr Ysgwrn. Dyma’r gerdd yn ei chyfanrwydd:

---

<sup>409</sup> Iwan Llwyd, *Dan Anesthetig*, t.20.

<sup>410</sup> Ibid.

<sup>411</sup> Alan Llwyd, *Sonedau i Janice a Cherddi Eraill*, t.59.

<sup>412</sup> Gerallt Lloyd Owen (gol.), *Pigion Talwrn y Beirdd* (Caernarfon, 1981), t.159.

Cadeiriau fel coed derw  
Mewn coedwig hen oedden nhw,  
Hŷn heddiw na'r mynyddoedd  
A'u coesau'n wreiddiau. Lle'r oedd  
Y waun foel daeth cân i fyw,  
I ddeilio fel pe'n ddilyw.

Duwyd un gan waed dynion.  
Dychryn bechgyn yn ei bôn.  
Ond ar hyd gweundir yr iaith,  
Yn nhrueni yr heniaith  
O gylch y cadeiriau i gyd,  
Yno tyfodd tŷ hefyd.<sup>413</sup>

Awgrymir yma fod y cadeiriau mor hen, a bod hanes Hedd Wyn wedi ei wreiddio ynom mor ddwfn, fel yr ymddengys fod y cadeiriau'n hŷn na'r Ysgwrn ei hun, ac i gartref Hedd Wyn gael ei adeiladu o gwmpas y Gadair Ddu. Mae'r Gadair yn hawlio sylw'n syth yn yr ystafell fechan lle y gwelir hi, ac mae hi'n perchnogi'r tŷ â'i mawredd; dyna, fel yr esboniodd y bardd ei hun, a'i hysbrydolodd i ysgrifennu'r gerdd.

Mae gan yr englynwr Einion Evans ei gyfraniad yntau i gofio Hedd Wyn gyda 'Cadair Ddu Birkenhead'<sup>414</sup> lle gwelwn fod hiraeth wedi treiddio'n ddwfn i bren derw'r gadair. Cynnyrch yr ymryson a gynhaliwyd ar y 10fed o Awst yn Eisteddfod Sir Fflint a'r Cyffiniau yn 2007 yw englyn Emyr Lewis '1917',<sup>415</sup> lle mae'r Gadair yn wrthun ganddo ac yn wrthrych gwaedlyd a ddaeth yn gwmwl dros y pafiliwn a thros yr Eisteddfod y flwyddyn honno:

Teilyngdod, a neb yn codi wedyn  
a'r gadair yn drewi  
o waed a mwg bwledi  
un waith yn ein pabell ni.<sup>416</sup>

---

<sup>413</sup> Dyma gerdd a gafodd ei darllen gan Hywel Griffiths mewn noson a drefnwyd gan Gymdeithas Taliesin yn Aberystwyth ar y 27ain o Dachwedd 2012, ac rydw i'n ddiolchgar iawn i'r bardd am ei hanfon ataf.

<sup>414</sup> *Barddas*, 171/172 (Gorffennaf/Awst 1991), t.2.

<sup>415</sup> *Barddas*, 294 (Awst/Medi/Hydref 2007), t.45.

<sup>416</sup> *Ibid.*

Daw bloedd yr Archdderwydd am heddwch i liwio englyn Dic Jones ag eironi tra bo'n myfyrio ar gofeb Hedd Wyn ac ar y modd y daw'r gofeb hon â chenedl ynghyd yn ei gwladgarwch. Ond er i'r gofeb gael ei harddu'n gyson â blodau, mae tristwch y sefyllfa yn dal i gronni yn nhywyllwch y meddwl; tu ôl i'r gofeb addurnedig y mae hanes prudd, a pharhau mae'r holi o hyd, 'A oes heddwch?':

Rhowch ar aberth brydferthwch – ac euro'r  
Garreg â gwladgarwch,  
Yn nhir y lladd daw o'r llwch  
Y ddwys waedd 'A oes heddwch?'<sup>417</sup>

Wrth gwrs, mae coffâd arall i Hedd Wyn yng ngwlad Belg ar ffurf llechen ac arni arysgrif yn y Gymraeg, y Saesneg a'r Fflemeg, ac mae gan Alan Llwyd a Meirion MacIntyre Huws englynion i'r goflech honno yn Fflandrys. Yn y ddau englyn, mae'r beirdd yn cyfleu fel y chwistrellwyd hiraeth a galar teulu i un darn o lechen. Ar goflech englyn Alan Llwyd, mae gwaed y 'Genhedlaeth a gollwyd' wedi ei daenu'n seimllyd dros y garreg, yn union fel y gorchuddia'r gwaed y pabi ganddo yn 'Galarnad Cenhedlaeth' a 'Milwriaeth', a phoenau'r fam sydd wedi eu dal yn y maen llwyd:

Hon yw'r garreg a irwyd gan waedliw'r  
Genhedlaeth a gollwyd;  
Hiraeth pob mam a fferrwyd  
Mewn haenen o lechen lwyd.<sup>418</sup>

Mae englyn Meirion MacIntyre Huws yn trywanu'r galon yn ddyfnach fyth, a'i rhwygo'n llythrennol yn ei ddelwedd ohoni. Mae ei undod yn grefftus a'r ing ym mhob gair yn rymus eithriadol; dyma'r englyn buddugol yng nghystadleuaeth drimisol *Barddas* yn rhifyn dwbl Gorffennaf/Awst 1992:

O greigiau chwâl y galon – y tynnwyd  
haenen o bryderon;  
naddwyd gan ddagrau gweddwon,

---

<sup>417</sup> Dic Jones, *Golwg Arall* (Llandysul, 2009), t.93.

<sup>418</sup> Alan Llwyd, *Sonedau i Janice a Cherddi Eraill*, t.59.

ofnau hil yw sylfaen hon.<sup>419</sup>

Yma, mae'n cyfleu hollt y galon wedi'r golled, a'r llechen sydd ar y wal yn Fflandrys yn cynrychioli llawer mwy na marwolaeth un dyn. Mae gan R. O. Williams, Y Bala, ac R. J. H. Griffiths (Machraeth) hefyd eu henglynion i'r goflech a gyhoeddwyd yn *Llyfr Lloffion Yr Ysgwrn* (2005).<sup>420</sup> Cyflwynna R. O. Williams y syniad o garreg oer sy'n cydio'n dynn mewn darn o'r gorffennol, ond ynddi mae mwy nag atgof pell o'r ddoe enbydus, mae dagrau cenedl wedi eu dal ym mhob llythyren. Carreg sy'n 'llawn o gerydd' yw coflech R. J. H. Griffiths, ac yn hon y mae 'darn o galon Meirionnydd'; gall hyn gyfeirio'n llythrennol wrth gwrs at Hedd Wyn ei hun fel un o fechgyn Meirionnydd wedi ei gladdu ger Ypres.

Gellir gweld bedd Hedd Wyn ym mynwent Artillery Wood yng Ngwlad Belg, a syndod o hawdd yw dod o hyd i fedd y bardd yng nghanol y cannoedd o feini gwynion gan fod o hyd gasgliad o groesau pren a phabïau wedi'u gosod ger y bedd. I'r groes fach bren ar lan bedd Hedd Wyn y cân R. J. Penmorfa bedwar englyn 'Y Groes Bren',<sup>421</sup> lle darlunia'r groes fechan yn gwarchod arwr mawr. Mae yma gyfeiriadaeth at lythyr Hedd Wyn o 'Rhywle yn Ffrainc' ac at 'ddwys ddôr' Williams Parry wrth gyfeirio at gaead yr arch, ond efallai mai un o'r pethau mwyaf trawiadol am y gerdd yw i'r bardd gyfeirio at 'ein Hedd Wyn'. Dyma'i berchnogi fel eilun cenedl, ac mae teimlad gwarchodol iawn i'r geiriau wrth inni ei hawlio'n destun balchder a galar cenedl ar yr un pryd. Fe welir bod englynion a cherddi eraill i Hedd Wyn, y Gadair Ddu a'r Ysgwrn yn *Llyfr Lloffion yr Ysgwrn* ynghyd ag englynion o ddiolch i deulu'r Ysgwrn am gael ymweld â'r fferm.

Ychydig yn wahanol i weddill y cerddi i Hedd Wyn, nid coffâd na mynegiant o alar cenedl sydd gan Gai Toms yn ei gân 'Ellis Humphrey Evans';<sup>422</sup> ef yw'r unig un, hyd y gwn i, sydd wedi crynhoi hanes Hedd Wyn yn gyflawn mewn cerdd, fel stori ffeithiol. Nes yw hon o ran ei golwg wrthrychol at sript Alan Llwyd i'r ffilm, neu ddrama Iwan Llwyd, 'Mae Gynnon Ni Hawl ar y Sêr'. Teithiodd y ddrama honno yn ystod mis Mawrth 2007, a derbyniodd

---

<sup>419</sup> *Barddas*, 183/184 (Gorffennaf/Awst 1992), t.19.

<sup>420</sup> Myrddin ap Dafydd (gol.), *Llyfr Lloffion Yr Ysgwrn* (Llanrwst, 2005), t.70.

<sup>421</sup> *Barddas*, 173 (Medi 1991), t.9.

<sup>422</sup> Myrddin ap Dafydd (gol.), *Cerddi Storiol Carreg Gwalch* (Llanrwst, 2011), tt.26-7.

adolygiadau cymysg gan iddi awgrymu na fyddai Hedd Wyn wedi ennill y Gadair pe na bai wedi cael ei ladd.<sup>423</sup>

Â Alan Llwyd ar drywydd ehangach y golled i Gymru yn 'Galarnad Cenhedlaeth'<sup>424</sup> wrth iddo ddarllen yn *Y Cymro a'r Fanner* am yr 'hogiau o'r bröydd Cymreig' a fu farw yn ystod yr Ail Ryfel Byd. Noda Gerwyn Williams ym mhennod olaf *Tir Newydd* mai'r 'profiad Cymreig o ryfel sy ganddo yn "Galarnad Cenhedlaeth"<sup>425</sup> wrth i'r bardd restru enwau pentrefi gwledig a gollodd genhedlaeth o fechgyn. Tyn Gerwyn Williams sylw at debygrwydd y darlun yn 'Ar Gynhaeaf Gwair',<sup>426</sup> cerdd arall gan Alan Llwyd sy'n coffáu Cymry cefn gwlad y Rhyfel Mawr, ac fe ddisgrifia'r modd y cofleidia'r bardd y milwyr Cymreig fel 'dull *Traed mewn Cyffion* (1936) o drin rhyfel'; hynny yw, nid yw'r cerddi'n mentro tu hwnt i ffiniau diogel a chyfarwydd Cymru. Er mai coffáu a wna'r ddwy gerdd, gwelwn thema anghofrwydd yn codi ynddynt gan mai enwau diwyneb ar faen yw'r unig gofnod sydd bellach o'r bechgyn hyn. Wrth gydio yn yr un thema, cyfansoddodd Arwel Roberts o dîm Talwrn 'Criw'r Ship' gwpled crafog yn un o ornestau 2012:

Does neb i'w weld yn gwybod yn union lle mae beddi  
y milwyr o Drawsfynydd na allent gynganeddu.<sup>427</sup>

Gwelsom eisoes, ar ddechrau'r bennod, i ryfel y Falklands/Malvinas gael ei grybwyll yng ngherdd Emyr Lewis, 'Taliesin'; rhyfel yr oedd yn sicr le i Gymry ymateb iddo. Bachodd rhai y cyfle i drafod y rhyfel rhwng yr Ariannin a Phrydain a thrafod safle Cymru yn y rhyfel hefyd. Rhyfel byr a barodd ddeufis a hanner yn 1982 oedd rhyfel y Falklands/Malvinas, ond prin eithriadol yw'r ymateb llenyddol yn y Gymraeg o ystyried yr hen berthynas sydd rhwng Cymru a Phatagonia, perthynas a sefydlwyd yn 1865. Awgryma Gerwyn Williams mewn ysgrif yn *Cof Cenedl*, XXI, mai cywilydd ac anniddigrwydd ynglŷn â'r rhyfel ac ynglŷn â safle'r hunaniaeth Gymreig oedd yn gyfrifol am dawedogrwydd y Cymry.<sup>428</sup> Noda ymhellach mai byddin broffesiynol a ymladdodd y rhyfel hwn, yn wahanol i'r ddau Ryfel Byd lle cafodd

<sup>423</sup> <http://www.bbc.co.uk/cymru/adloniant/theatr/adolygiadau/hedd-wyn.shtml> (Cyrchwyd 05/12/2012).

<sup>424</sup> Alan Llwyd, *Yn Nydd yr Anghenfil* (Caernarfon, 1982), tt.41-2.

<sup>425</sup> Gerwyn Williams, *Tir Newydd: Agweddau ar Lenyddiaeth Gymraeg a'r Ail Ryfel Byd*, t.270.

<sup>426</sup> Alan Llwyd, *Oblegid Fy Mhlant* (Abertawe, 1986), t.27.

<sup>427</sup> <http://www.bbc.co.uk/radiocymru/safle/talwrn/2012/01042012.shtml> (Cyrchwyd 05/12/2012).

<sup>428</sup> Gerwyn Williams, 'Cofio Rhyfel Anghofiedig: Dehongli a Chyd-Destunoli rhyfel y Falklands/Malvinas 1982', *Cof Cenedl*, XXI, gol. Geraint H. Jenkins (Llandysul, 2006), t.162.

sifiliaid, a beirdd yn eu plith, eu gorfodi i'r frwydr, a'r beirdd wedyn yn atgynhyrchu eu profiadau eu hunain o ryfel trwy gyfrwng barddoniaeth. Fodd bynnag, ni fu'r ffaith i fyddin broffesiynol ymladd brofi'n rhwystr ym myd barddoniaeth Saesneg wrth i aelodau o'r fyddin Brydeinig a fu'n brwydro yn yr Ariannin gofnodi eu profiadau uniongyrchol o'r rhyfel drwy gyfrwng cerddi a'u cyhoeddi ar y we.<sup>429</sup> Yn ddiweddarach, ddeng mlynedd ar hugain wedi'r rhyfel, cafodd cyfrol Saesneg ei chyhoeddi, *Falklands War Poetry: Poets from Britain, Argentina and the Falklands*,<sup>430</sup> cyfrol sy'n dal ymateb y ddwy ochr.

Yr ymateb llenyddol nodedig cyntaf yn y Gymraeg, mae'n debyg, oedd 'Clymau',<sup>431</sup> pryddest fuddugol Eluned Phillips yn Eisteddfod Genedlaethol Môn 1983. Mewn cyfweiliad yn y cylchgrawn *Barddas*, dywed awdur y bryddest i'r berthynas rhwng Cymru a Phatagonia ei phoeni adeg y rhyfel, ac "Roedd colli cyfeillgarwch ein cyd-Geltiaid yn clwyfo'n ddwfn".<sup>432</sup> Y berthynas arbennig hon sydd ganddi dan sylw yn ei cherdd. 'Yr oedd yn hen bryd i rywun ddatgan teimlad y Cymry at ryfel diangen y Malfinas,' meddai Nesta Wyn Jones yn ei beirniadaeth.<sup>433</sup> Ond gwahanol oedd teimladau'r sifiliaid Cymreig hynny a fyddai wedi myfyrio mwy ar y berthynas Geltaidd ac ar yr imperialaeth Brydeinig a oedd ynghlwm â'r rhyfel, a theimladau'r llu Cymreig a oedd yng nghanol tân y brwydro. Dengys Ioan Roberts yn ei gasgliad o brofiadau'r milwyr Cymreig ar y ddwy ochr, *Rhyfel Ni*,<sup>434</sup> nad oedd lle i ystyried y cysylltiad Cymreig hwnnw pan oedd rhywun mor agos at achos y rhyfel, a'r duedd gan y milwyr y cofnodwyd eu profiadau oedd iddynt ymfalchïo yn eu Prydeindod yn ogystal â'u Cymreictod ar y pryd. Efallai fod modd gosod y cofnodion ffeithiol a'r llenyddiaeth ffuglenol ar wahân felly, a gan gofio mai ffuglenol neu ail-law yw'r ymateb barddonol Cymreig i gyd, mae lle, heb fod yn gamarweiniol, i'r rhamantiaeth a oedd yn perthyn i'r cysylltiad Cymreig a glymai Gymru a'r Ariannin.

Sefydli'r cysylltiad hwn yn syth yn 'Clymau' wrth i Eluned Phillips droi'n gyntaf at fordaith y Mimosa yn 1865. Darlunia deulu fferm Pant Glas yn mudo i'r Wladfa yn yr adran

<sup>429</sup> [http://www.warpoetry.co.uk/falklands\\_war\\_poetry.html](http://www.warpoetry.co.uk/falklands_war_poetry.html) (Cyrchwyd 05/12/2012).

<sup>430</sup> David Roberts (gol.), *Falklands War Poetry: Poets from Britain, Argentina and the Falklands* (Burgess Hill, 2012).

<sup>431</sup> T. M. Bassett (gol.), *Cyfansoddiadau a Beirniadaethau Eisteddfod Genedlaethol Frenhinol Cymru Ynys Môn 1983* (Llandysul, 1983), tt.45-53.

<sup>432</sup> *Barddas*, 80 (Rhagfyr 1983), t.4.

<sup>433</sup> T. M. Bassett (gol.), *Cyfansoddiadau a Beirniadaethau Ynys Môn 1983*, t.44.

<sup>434</sup> Ioan Roberts, *Rhyfel Ni: Profiadau Cymreig o Ddwy Ochr Rhyfel y Falklands/Malvinas 1982* (Llanrwst, 2003).



hon o'r gwaith, cyn troi at y flwyddyn 1982, lle gwelwn fod mab o'r un fferm yn ymuno â'r fyddin ac yn cael ei anfon i frwydro yn y Falklands/Malvinas. Daw diwedd y bryddest a'r mab o Bant Glas ac Archentwr o Batagonia ynghyd mewn ysbyty, y ddau yn filwyr clwyfedig yn cydnabod eu gwreiddiau ac yn cydnabod oferedd y rhyfel. Caiff y cysylltiad â'r Mimosa ei sefydlu gan Tudur Dylan Jones hefyd, ac mae'n crynhoi'r syniad i'r Archentwr ymladd yn erbyn ei frawd o Gymru mewn englyn, y brodyr nawr yn elynion:

Ganwyd ym Mhatagonia – un aelod  
o deulu'r Mimosa  
a fu'n wynebu un ha'  
wn ei elyn o Walia.<sup>435</sup>

Er nad oes lladd ar Brydeindod nac ar Thatcheriaeth yn uniongyrchol gan Eluned Phillips, mae yn y bryddest sylwebaeth ar gyflwr economaidd y wlad ac ar ddirywiad y fro Gymreig yn yr wythdegau. Cyfeirir at werthu tai haf, a hynny yn ei dro'n 'Datod clymau brogarwch' gan droi bro mebyd y llanc yn fynwent. Chwilio am fywiogrwydd ac am flas bywyd y mae mab Pant Glas wrth ymuno â'r fyddin, ac nid yw'n ystyried mewn difri'r posibilrwydd y bydd yn rhaid iddo frwydro mewn rhyfel:

Cefnu ar fro'r diweithdra.  
Gweld y byd, heb ryfela.  
Onid oedd yn ddewis da?<sup>436</sup>

A gwelir yr un agwedd ganddo eto'n nes ymlaen:

Milwr mewn siwt tywydd teg  
heb dderbyn lladd yn dechneg.<sup>437</sup>

Pan ddaw'r alwad wedyn i'r rhyfel yn y Falklands/Malvinas, daw ton o realiti i'w sobri. Rhaid yw iddo bellach gydio'n y gwn a wynebu ei gyfrifoldebau milwrol; mae'r hwyl ar ben, 'cyfenw a rhif ydyw mwy' mewn llu amhersonol, oeraidd ar fwrdd y Sir Galahad. Daw ofn i'w

---

<sup>435</sup> Gerallt Lloyd Owen (gol.), *Pigion Talwrn y Beirdd*, 6 (Caernarfon, 1992), t.138.

<sup>436</sup> T. M. Bassett (gol.), *Cyfansoddiadau a Beirniadaethau Ynys Môn 1983*, t.48.

<sup>437</sup> *Ibid.*, t.49.

lethu, ofn marwolaeth ac ofn mynd yn angof; yna digwydd yr ymosodiad hunllefus ar y llong a gwelwn y 'Syr Galahad yn wenfflam'. Ar fwrdd y llong hon yr oedd y Gwarchodlu Cymreig ac fe laddwyd 33 ohonynt yn yr ymosodiad.<sup>438</sup> Mae'r darlun yn un poenus, a'r Cymry a laddwyd fel y milwyr a aeth i Gatraeth gynt ar goll yn eu marwolaeth:

Angau creulon i'r truain  
yn y tân a'r dolefain.  
O'u catraeth ni ddaw y rhain!<sup>439</sup>

Yr un rhesymau ag oedd gan fab Pant Glas sydd gan filwyr 'Gorwelion'<sup>440</sup> Peredur Lynch dros ymrestru â'r fyddin. Dyma awdl fuddugol Eisteddfod Daleithiol Powys 1983 ac mae iddi chwe chaniad i gyd. Yn y caniad cyntaf darlunnir y bechgyn yn ymuno â'r fyddin wedi blino ar ddirwasgiad y wlad, heb swyddi na diddanwch. Mae awgrym fod tai haf yn bla dros y cwm a bod diwydiant y pyllau glo yn prinhaus gan adael yr ardal yn lle tlawd, gwag a digalon:

Yn nhir y segur oriau – y mae'r haul  
Mor welw â'n dyddiau;  
Yn y cwm mae'r llenni'n cau,  
A'r nos lle bu'r ffwrneisiau.<sup>441</sup>

Ceisio antur y mae bechgyn ifainc yr ardal ac mae'r ddelfryd o'r Ariannin a ddarlunnir trwy eu llygaid yn ein lled atgoffa o'r un weledigaeth ag a oedd gan y Cymry a fudodd yno yn 1865:

Yr oedd gwlad gyfareddol – draw'n y don,  
Darn o dir gwanwynol,  
Gwlad o wenith lledrithiol,  
Gwlad â haul yn gloywi'i dôl.<sup>442</sup>

---

<sup>438</sup> Ioan Roberts, *Rhyfel Ni: Profiadau Cymreig o Ddwy Ochr Rhyfel y Falklands/Malvinas 1982*, t.12.

<sup>439</sup> T. M. Bassett (gol.), *Cyfansoddiadau a Beirniadaethau Ynys Môn 1983*, t.51.

<sup>440</sup> *Barddas*, 81 (Ionawr 1984), t.3.

<sup>441</sup> *Ibid.*

<sup>442</sup> *Ibid.*

Parha'r antur ar y llong, a dall yw'r llu i'r ffaith mai hwylio tuag at eu hangau y maent. Wedi eu cyfareddu gan rith eu 'gwynfyd' newydd, ni welant 'Y dur marwol drwy'r miri'. Ond buan y caiff y ddelfryd ei chwalu wrth i'r niwl tywyll olchi drostynt a sylwant nad 'Eden' mo'r tir a gyrchasant, ond tir diffaith, llwyd. Byr yw'r pedwerydd caniad lle digwydd y bomio a'r lladd. Syrth 'cawod ddur' dros y llong, ac er nad enwir y Sir Galahad, gallwn gymryd mai hon yw'r llong sydd dan ymosodiad gan y cyflwynwyd yr awdl i'r Cymry a laddwyd yn y rhyfel. Mae'r olygfa o'r difrod a'r dolur yn amrwd wrth i wynebau gael eu hanffurfio ac i gyrff gael eu chwalu'n ddarnau, a pherfeddion cyrff dynol 'fel gwymon drwy'r tonnau'. Try'r awdl yn farwnad i'r lladdedigion o Gymru cyn i'r bardd gwblhau'r cylch a'n harwain yn ôl i'r cwm y trodd y bechgyn eu cefnau arno. Gwelwn nad oes dim wedi newid yno er gwaethaf aberth y bechgyn:

Ni fu i lef y gyflafan  
Ennyn dim ar yr hen dân.<sup>443</sup>

Mae'r llenni'n dal i gau ar dai sydd bellach yn wag am ran helaeth o'r flwyddyn ac mae diweithdra yn dal i dlodi'r ardal.

Awdl am oferedd rhyfel y Falklands/Malvinas yw hon yn y bôn; dengys y bardd na ddaeth unrhyw welliant yn ei sgil ac mai gwastraff llwyr oedd aberth y milwyr. Mae mwy o ddirmyg tuag at lywodraeth Brydeinig y wlad yng nghlo'r awdl hon nag sydd ym mhryddest Eluned Phillips, sydd yn fwy ymataliol a gosgeiddig ei natur. Er iddi hithau gydnabod mor ddibwynt a gwastraffus fu'r rhyfel, yn y dagrau y gwelwn oferedd y rhyfel ganddi hi, tra bo geiriau Peredur Lynch yn brathu'n chwerw. Mae'n gweld yr ymateb Prydeinig i drychineb y colledion yn oeraidd a difater, fel petai haenen o rew yn blastr dros bob problem wleidyddol, ac yn lle rhwygo'r plastr a chwalu'r îâ, ufuddhau'n wasaidd a wna Cymru mewn 'dyddiau di-her'. Mae gobaith yn brin yn yr englyn olaf, a gwêl y bardd i Brydeindod sathru ar Gymru ac i'r rhyfel hwn fod yn ymgais fawr i ddangos grym ymerodrol Prydain unedig; rhywbeth i losgi halen i friw'r Cymry a ymgyrchodd o blaid refferendwm aflwyddiannus 1979. Mae'r geiriau sy'n cloi'r awdl yn ildio'n ddiymadferth, ac fe gyflêir y syniad o daflu'r weledigaeth Gymreig i'r tân:

---

<sup>443</sup> Ibid.

Cenwch 'Hen Wlad fy Nhadau', – a chenwch  
Hi heno i'r angau,  
Yn y cwm mae'r llenni'n cau,  
A'r nos lle bu'r ffwrneisiau.<sup>444</sup>

Perthyn mwy o chwerwedd fyth tuag at Brydeindod militaraid i *Tros Ryddid*, rifiw gan Myrddin ap Dafydd a Geraint Lovgreen a gomisiynwyd ar gyfer Eisteddfod Genedlaethol Môn 1983. Tyn Gerwyn Williams sylw at glawr y llyfryn a gyhoeddwyd ar y cyd â'r cynhyrchiad, lle mae baner Jac yr Undeb yn gorwedd yn flêr mewn pwll o waed;<sup>445</sup> dyma awgrymu cywair a chyd-destun cynnwys y llyfryn yn syth. Cynhyrchiad oedd hwn a oedd yn canolbwyntio ar Gymry a gollodd eu gwaed dan faner Prydain. Nodir fel hyn yn y rhagair:

Y gwaed Cymreig a gollwyd yn ofer ym mrwydrau ymerodrol coron Lloegr fu'r ysgogiad i'r gwaith – ac yn bennaf yn dilyn trychineb Bluff Cove ym Mehefin 1982.<sup>446</sup>

Dilynwn dri milwr o Gymru, un sy'n brwydro ar ddiwedd y drydedd ganrif ar ddeg gan gynorthwyo Lloegr i atal yr Alban rhag bod yn wlad annibynnol, milwr arall sy'n perthyn i gyfnod y Rhyfel Mawr, a Chymro sy'n mynd i frwydro yn y Falklands/Malvinas.

Darlunnir yma filwr sy'n cael ei ladd ar long y Sir Galahad, ond nid y lladd ei hun sy'n cael sylw ond y golled, tristwch y sefyllfa a'r holi dolefus, 'Pam fod Cymro yn gelain 'rochor arall i'r byd?'.<sup>447</sup> Mae geiriau'r gân 'Yn Dewach Na Dŵr'<sup>448</sup> yn adrodd hanes nyrs o Gymru yn dod ar draws milwr o Batagonia mewn eglwys yn Port Stanley, y ddau yn rhannu'r un iaith. Seiliwyd y gân ar ddigwyddiad go iawn yn ystod cyfnod y rhyfel, er bod rhamantiaeth a chwedloniaeth wedi lapio o'i gylch, fel y profa Ioan Roberts yn *Rhyfel Ni*: 'Gwendid mwyaf y stori oedd nad oedd yr un o'r ddau'n siarad fawr ddim Cymraeg'.<sup>449</sup> Y berthynas Gymreig a'r orfodaeth i godi arfau yn erbyn brodyr yw'r hyn a geir yn y gân. Y llywodraethau yw'r

---

<sup>444</sup> Ibid.

<sup>445</sup> Gerwyn Williams, 'Cofio Rhyfel Anghofiedig: Dehongli a Chyd-Destunoli Rhyfel y Falklands/Malvinas 1982', t.176.

<sup>446</sup> Myrddin ap Dafydd a Geraint Lovgreen, *Tros Ryddid?* (Llanrwst, 1983), t.5.

<sup>447</sup> Ibid., t.85.

<sup>448</sup> Ibid., tt.72-3.

<sup>449</sup> Ioan Roberts, *Rhyfel Ni: Profiadau Cymreig o Ddwy Ochr Rhyfel y Falklands/Malvinas 1982*, t.13.

gelynyon yma am ddibrisio bywyd ac am beidio ag ystyried y cwlwm Celtaidd, fel y gwelwn yng nghytgan Myrddin ap Dafydd:

Rhoddwyd gwn yn nwrn Patagoniad  
A'i daflu i ganol y gad,  
A Chymro ar lynges Britannia  
A yrrwyd i'w ladd 'mhell o'i wlad,  
A gwaed un genedl fechan  
Bob ochr sydd dan draed,  
Ond i ddau [sic] lywodraeth y gynnau  
Dim ond dŵr yw eu gwaed.<sup>450</sup>

Cywydd o 'Ymddiddan rhwng Cymro a Chymro o'r Wladfa' sydd gan Cen Williams ac Irfon Jones o dîm talwrn Bro Alaw.<sup>451</sup> Galaru a wna'r ddau Gymro wedi colli eu meibion yn y rhyfel, ac mae hynny'n ddolen gyswllt arall rhyngddynt, ynghyd â'r ffaith i'r ddau ddirmygu llywodraethau eu gwledydd. Mae'r beirdd yn holi a oes drwgdeimlad rhwng y ddwy genedl drwy eiriau'r Cymro o'r Wladfa:

Ai oerach yw dy gariad  
Bellach at linach dy wlad?<sup>452</sup>

Etyb y Cymro na fydd ymdrech Thatcher yn ddigon i droi brawdgarwch blynyddoedd yn elyniaeth, ac atega'r Archentwr:

Er cri orffwyll ein twyllwr  
Yr ach sy'n dewach na dŵr.  
Haeraf y bydd ein hwyrion  
Yn un o Fadryn i Fôn.<sup>453</sup>

Fe enwir Margaret Thatcher a Galtieri, a fu'n arlywydd yr Ariannin am gwta chwe mis yn ystod 1981 ac 1982, a dirmygus yw'r cyfeiriadau at y ddau.

---

<sup>450</sup> Myrddin ap Dafydd a Geraint Lovgreen, *Tros Ryddid?*, t.73.

<sup>451</sup> Gerallt Lloyd Owen (gol.), *Pigion Talwrn y Beirdd*, 2 (Caernarfon, 1984), tt.85-6.

<sup>452</sup> *Ibid.*, t.85.

<sup>453</sup> *Ibid.*, t.86.

Cwyd ambell lais gwrth-Thatcheraidd yn y Gymraeg mewn cyswllt â rhyfel y Falklands/Malvinas. ‘Hael fenyw i’r Malvinas’ yw’r disgrifiad gwawdlyd ohoni gan Gwyn Evans (Aberystwyth) yn ‘Cywydd Protest’<sup>454</sup> sy’n rhestr o gwynion yn erbyn y cyn-brif weinidog. Lleisiodd y band *dub* Cymraeg Llwybr Llaethog eu cwyn yn ei herbyn ac yn erbyn y rhyfel yn ‘Rhywbeth Bach yn Poeni Pawb’ (1986) lle mae sôn am y Galahad, am Batagonia ac am ‘[f]yw mewn Prydain Thatcher’.<sup>455</sup> Mae gan Dafydd Iwan, wrth gwrs, ei ganeuon protest enwog yn lladd ar Thatcher; mae ganddo hefyd gân a gyfansoddodd ar gyfer Talwrn y Beirdd rywbryd rhwng 1992 ac 1994 am ‘Y Milwr Bychan’ a laddwyd yn y Malvinas.<sup>456</sup> Band Cymraeg arall a brotestiodd yn erbyn y rhyfel oedd Y Ficar gyda’u cân ‘Propaganda’,<sup>457</sup> ac mae gan Tecwyn Ifan yntau ei gân wrth-Brydeinig i ‘John Bull’,<sup>458</sup> y ffigwr boliog Prydeinig hwnnw a ymddangosodd ar bosteri’r Rhyfel Mawr yn aml; cân sy’n ffeiddio at ymateb balch, buddugoliaethus Prydain i ryfel 1982 tra bo nifer o deuluoedd mewn galar.

Mae Alan Llwyd hefyd yn anghymeradwyo ymateb Prydain wedi’r rhyfel yn ei englyn ‘Milwriaeth’<sup>459</sup> sy’n ymateb i’r gwasanaeth coffa milwrol, a welodd ar y teledu, i goffáu lladdedigion y rhyfel. Dyma englyn a gyhoeddwyd gyntaf yn *Barddas* yn 1984 ac a drafodwyd eisoes yn y bennod gyntaf:

Sarhad aflednais yw’r holl – eiriau rhwysg  
I’r rhai ar ddifancoll:  
Yn goch y trochasoch oll  
Dorchau yng ngwaed eu harcholl.<sup>460</sup>

Yn ‘Milwriaeth’, mae’r ‘rhwysg’ yn darlunio i’r dim y John Bull y canodd Tecwyn Ifan amdano gyda’i fawredd, ond mae hefyd yn awgrymu i’r geiriau gwag o goffâd fod yn gwbl ddiystyr a dideimlad. Yr union ‘eiriau rhwysg’ hynny sydd i’w clywed ar ddiwedd cerdd Eirwyn George i’r Falklands, ‘Milwr yr Wythdegau’,<sup>461</sup> wrth i’r offeiriad sy’n claddu’r milwr gyfiawnhau’r

<sup>454</sup> Gerallt Lloyd Owen (gol.), *Pigion Talwrn y Beirdd*, 3 (Caernarfon, 1986), t.127.

<sup>455</sup> Cân a ryddhawyd ar yr EP *Dull Di-Drais* dan label Anhrefn yn 1986.

<sup>456</sup> Gerallt Lloyd Owen (gol.), *Pigion Talwrn y Beirdd*, 7 (Caernarfon, 1994), t.174.

<sup>457</sup> Cân a ryddhawyd ar y record *Yn Dal i Gredu* dan label Trons yn 1984.

<sup>458</sup> Cân a ryddhawyd ar yr LP *Herio’r Oriau Du* gan gwmni Sain yn 1983.

<sup>459</sup> Alan Llwyd, *Einioes ar ei Hanner* (Caernarfon, 1984), t.47.

<sup>460</sup> Ibid.

<sup>461</sup> Eirwyn George, *Cân yr Oerwynt* (Llandybie, 2009), t.58.

rhyfel â phropaganda crefyddol. Mae Prydeindod yn amlwg iawn yn y gerdd hon, a'i mesur mydr ac odl yn adlewyrchu agwedd ysgafn yr awdurdodau at y rhyfel yn ogystal â chreu darlun eironig o delynegol o filwr fel arwr delfrydol:

Bu'n ymladd dros Brydeindod  
Ar greigiau'r Falklands draw,  
Y gwn ar gant ei ysgwydd  
A'r napalm yn ei law.<sup>462</sup>

Diddorol yw nodi pa enw a ddefnyddir am yr ynysoedd yn y cerddi, p'un ai'r Falklands ynteu'r Malvinas. Gyda'r pwyslais ar Brydain yng ngherdd Eirwyn George, efallai mai bwriadol yw defnyddio'r enw Prydeinig ar yr ynysoedd, ac yn yr un modd, efallai mai bwriadol oedd i Dafydd Iwan a Tecwyn Ifan eu galw'n Malvinas er mwyn gwneud safiad gwleidyddol a thynnu'n groes i unrhyw syniadaeth Brydeinig.

Englyn i'r Cymro Simon Weston sydd gan Emrys Roberts i'w gyfrannu. Simon Weston oedd un o oroeswyr yr ymosodiad ar y Sir Galahad, ac ef bellach yw'r wyneb a gysylltir â rhyfel y Falklands/Malvinas gan i 46% o'i gorff ddioddef llosgiadau difrifol yn sgil y drychineb. Gwêl Emrys Roberts y creithiau dros wyneb Simon Weston yn atgof parhaus o allu dyn i ddinistrio, ac nid oedd mwy o werth i wyneb dyn nag oedd i dir neb yn ystod y rhyfel hwn; cael eu difetha gan ffrwydradau a wnaeth y ddau:

Rhoed ôl anwar diawlineb, ôl hagrwch  
Taflegryn yn gofeb  
O faen wrth gerfio wyneb  
Y truan hwn fel Tir Neb.<sup>463</sup>

Coffáu'r milwyr o Wynedd a laddwyd y mae englynion W. R. P. George, 'Colledion Brwydr y "Falklands"',<sup>464</sup> dau englyn a gyfansoddwyd yn fuan wedi diwedd y rhyfel. Fel Peredur Lynch, mae W. R. P. George yn cydio yn y ddelwedd o fynwent y môr lle mae

---

<sup>462</sup> Ibid.

<sup>463</sup> Alan Llwyd (gol.), *Y Flodeugerdd Englynion Newydd* (Llandybïe, 2009), t.67.

<sup>464</sup> W. R. P. George, *Mydylau: Cynhaeaf Cerddi*, t.93.

tonnau'r Iwerydd yn golchi dros gyrff coll. Caiff ein hanthem genedlaethol ei chanu'n angladdol yma hefyd i gofio colledion 'Llong yr ing, llong yr angau', sef y Sir Galahad.

Mynd ar drywydd colled bersonol a wna Olwen Canter yn ei chyfres o dair cerdd dan y pennawd 'Gerddi',<sup>465</sup> ac fe welwn eto i fynwent y môr ymrithio i'r gerdd gyntaf. Cyfansoddodd y cerddi er cof am ei nai a laddwyd ar long y Sir Galahad, ac fe noda hynny ar ddechrau'r dilyniant. 'Gardd Bluff Cove' yw teitl y gerdd gyntaf, ac ynddi fe dreiddiwn dan wyneb y dŵr nes cyrraedd olion y llong lle mae 'gardd o esgyrn' o'i chwmpas. Mae rhyw dawlwech dwfn ar wely'r môr, a rhywbeth heddychlon am y ddelwedd o'r ardd sy'n cael ei chofleidio'n dyner 'Yng ngofal y môr'. Caiff y bardd ei atgoffa i'r esgyrn yma fod yn rhannau o gyrff pobl cyn iddynt gael eu lladd, ond bellach nid ydynt ond gwrthrychau marwaidd yn taro yn erbyn ei gilydd i bendilio'r tonnau, a hynny sy'n cynhyrfu dyfroedd Bluff Cove o dro i dro. Mae arlliw o euogrwydd yn llifo drwy'r cerddi, euogrwydd gan mor hawdd yw anghofio am y rhyfel ac am y colledion, ac mae'n debyg mai dyna pam mae'r bardd yn holi ar y dechrau beth sy'n sbarduno'r tonnau i gofio, beth sy'n 'cynnal eu hwylofain'?

Yn nheitol ei ysgrif, geilw Gerwyn Williams ryfel y Falklands/Malvinas yn 'rhyfel anghofiedig', a gyda phrinder y deunydd yn y Gymraeg sy'n trafod y rhyfel hwn, mae'r enw'n un teilwng. Rhwyddineb anghofio, neu efallai mai ein hamharodrwydd i gofio yng nghanol prysurdeb bywyd, sydd gan Olwen Canter yn ei hail gerdd lle cawn ein tywys i'r ardd nesaf: 'Gardd y Cofio, Wreccsam'. Prin y mae pobl yn sylwi ar yr ardd hon a'r golofn sy'n dwyn enwau'r rhai a fu farw yn y rhyfel, a daw ail don o euogrwydd i gysgodi'r dilyniant. 'Gardd ym Môn' yw'r drydedd ardd inni ymweld â hi, lle mae glaw ffyrnig Mehefin yn difetha'r pabi a blannwyd er cof am nai'r bardd. Dyma sy'n dod â'r atgof am y rhyfel, am y bechgyn a laddwyd ac am yr 'ardd esgyrn', yn ôl i flaen y meddwl.

Gwelwn fod y cerddi a drafodwyd yn cyfeirio at nifer o ryfeloedd yr ugeinfed ganrif gan roi inni gofnod Cymraeg o'r ryfeloedd hynny yn ogystal â'n tynnu'n nes atynt drwy dynnu ar ein hunaniaeth Gymreig, a hynny er na fu Cymru ynghlwm â'r rhyfel yn uniongychol mewn ambell achos. Trwy'r cerddi hyn, cawn ein hatgoffa o ryfeloedd ein

---

<sup>465</sup> Olwen Canter, *Cerddi Bob Lliw* (Talybont, 2011), tt.142-4.



hynafiaid Celtaidd gan y gyfeiriadaeth at yr hengerdd a'n hatgoffa ar yr un pryd ein bod yn perthyn i draddodiad hynafol o lenyddiaeth arwrol. Cawn ein huno mewn galar wrth gofio am golled Cymru yn sgil y Rhyfel Mawr a'r Ail Ryfel Byd ac fe godwn y grachen ar dristwch ac oferedd rhyfel anghofiedig y Falklands/Malvinas. Wrth inni ymdrochi yn y profiad Cymreig o ryfel, rhywfaint yn haws efallai yw inni uniaethu â sefyllfaoedd ac â phrofedigaeth rhyfel. Teimlwn golled bersonol bron wrth edrych yn ôl a hwyrach mai dyma'r modd inni amgyffred rhyw fymryn ar drychinebau ehangach rhyfel, trwy fedru uniaethu â cholled ein gwlad ein hun yn gyntaf.

## Diwedd glo

Wrth fanylu ar dair agwedd wahanol sy'n nodweddu cerddi rhyfel diweddar, ac ystyried gwerth hanner canrif o gerddi gan amryw feirdd, daw'n gwbl amlwg nad oes prinder cerddi rhyfel cyfoes yn Gymraeg. Mae, ar y llaw arall, brinder eithriadol yn yr ymdriniaeth â nhw. Un bwriad i'r gwaith hwn fu casglu nifer o'r cerddi rhyfel hynny ynghyd a manylu ar themâu a gwyd yn gyson yn y farddoniaeth. Gwyddom, diolch i waith ysgolheigion, am y cofnodion barddol sydd gennym yn Gymraeg o gyfnod y ddau Ryfel Byd, ond gobeithio bod yma brawf fod gennym, o hyd, gofnodion cyson yn y Gymraeg o ryfeloedd a ddigwyddodd wedi dwy gyflafan fawr hanner cyntaf yr ugeinfed ganrif.

Canolbwyntio ar thema a gysylltir fel rheol â disgrifiadau telynegol y mae'r bennod gyntaf wrth droi at y cyfeiriadau at natur yn y cerddi, ond troi'r ymdriniaeth ddisgwylidig ar ei phen a wna'r beirdd. Cynrychioli gwae a thristwch y mae pob irder a phob blodyn yn y cerddi hyn wrth i nifer ohonynt ymdrin â'r ddau Ryfel Byd. Bron na theimlwn nad oes lle i brydferthwch wrth drafod ryfeloedd, a harddwch naturiol y coed a'r blodau wedi ei guddio dan ddillad angladd du. Fel y cwyd amheuaeth ynglŷn â gwedduster lliw mewn ffilmiau a lluniau yn nhrefodaeth yr ail bennod, mae rhyw nerfusrwydd yma ynglŷn â phriodoldeb harddwch yng nghanol adfyd rhyfel. Dyma destun sy'n stripio barddoniaeth o'i natur delynegol. Er bod adlais o arddull beirdd y ddau Ryfel Byd i'w weld yn rhai o'r cerddi lle cysylltir harddwch y tir â chynefin y milwyr yng Nghymru, dengys y cerddi niferus am y pabi coch fod barddoniaeth Gymraeg wedi ei dargyfeirio oddi wrth bynciau Cymreig nodweddiadol wrth iddi droi at symbol rhyngwladol.

Amlycach fyth yw'r rhwyg yn y ffiniau Cymreig wrth inni droi at y cerddi a drafodir yn yr ail bennod lle gwelir i'r teledu a'r cyfryngau electronig eraill dynnu pedwar ban byd yn nes at ei gilydd. Dyma thema gyferbyniol i thema'r bennod gyntaf; yma mae'r ymdriniaeth yn gwbl gyfoes a modern heb unrhyw gyfeirio'n ôl at arddull beirdd y Rhyfeloedd Byd, a gwelir bod mwy o gerddi'n canolbwyntio ar ryfeloedd diweddar neu ar ryfel fel thema gyffredinol. Hyd yn oed wrth sôn am y Rhyfeloedd Byd, fe wneir hynny yn y presennol drwy'r cyfryngau newyddiadurol; meddyliwn am Alan Llwyd yn tyrchu drwy rifynnau'r papurau newydd o

gyfnod y ddau ryfel, neu fel yr ystyria fod y cof am yr Ail Ryfel Byd yn dal yn fyw ynom heddiw, er enghraifft. Casglwyd gan Geraint Roberts, John Gruffydd Jones, a gan Alan Llwyd fwy nag unwaith, fod lluniau'r cof yr un mor effeithiol â chofnodion cadarn y papurau newydd, y ffilmiau a'r ffotograffau a geir o ryfeloedd a fu. Ychwanegu at y dystiolaeth ddiriaethol a wna pob cerdd ryfel a ysgrifennwyd yn y pen draw, a gyda'r dystiolaeth ddu a gwyn ynghyd â'r cofnodion technolegol ac archif y cof, nid hawdd fydd i ryfeloedd y gorffennol fynd yn angof.

Cwyd sawl beirniadaeth yng ngherddi'r ail bennod. Beirnedir newyddiadurwyr a gohebyddion am sensro'u hadroddiadau ac am droi trallod yn adloniant ar brydiau ac fe'n beirnedir ni'r gwylwyr am ein hanwybodaeth, am inni ymbellhau oddi wrth y dioddef ac am ein hamharodrwydd i gynnig llaw i'r anghenus. Bwriad y bennod hon yw dangos gallu'r beirdd i ganu am eu hoes mewn cywair newydd, ac i ganolbwyntio ar argyfyngau'r presennol gan alluogi darllynydd heddiw i uniaethu â phrofiadau'r beirdd o fod yn rhan o gymdeithas fyd-eang.

Ymgais i alluogi darllynydd o Gymro i uniaethu â rhyfel sydd yng ngherddi'r bennod olaf, er bod y modd yr â'r cerddi hyn ati i wneud hynny yn gwbl wahanol i ymdriniaeth cerddi'r ail bennod. Yn hytrach na chanolbwyntio ar y presennol a'r cyfoes, manteisio ar etifeddiaeth Gymreig y darllynydd a wna'r beirdd yn y cerddi cyntaf a drafodir, gan ddefnyddio cynhysgaeth lenyddol ein cenedl i glymu'r darllynydd wrth ei wreiddiau a'i orfodi i ymateb fel Cymro i'r rhyfeloedd sydd dan sylw. Defnyddir cyfeiriadau at waith Aneirin a Thaliesin mewn cerddi sy'n trafod y syniad o ryfel yn gyffredinol ac mewn cerddi i'r Rhyfel Mawr yn bennaf. Efallai mai'r rheswm am hynny yw fod natur y brwydrau y sylwebodd y Cynfeirdd arnynt yn debycach i natur brwydrau'r Rhyfel Mawr, lle roedd dyn yn wynebu dyn i ymladd. Ymrithia cymeriadau chwedl Branwen yn ogystal â'r isfyd Celtaidd, Annwn, mewn cerddi i ryfeloedd a gwrthdrawiadau diweddar, gan ddangos, felly, fod testunau'r cyfeiriadau'n dal i fod yn berthnasol heddiw.

Hedd Wyn yw'r ail gwllwm Cymreig a gaiff ei archwilio, a bron i ganrif wedi ei farwolaeth, parhau i ymddangos y mae'r cerddi iddo. Gyda dadorchuddio coflech yn Fflandrys yn 1987, cyhoeddi cofiant y bardd yn 1991 a rhyddhau'r ffilm yn 1992, fe

borthwyd awch beirdd i'w goffáu yn ystod y degawdau diwethaf. Y trywydd Cymreig olaf a ddilynir yn y drydedd bennod yw'r ymateb i Ryfel y Falklands/Malvinas. O'r cerddi hyn yr eginar chwerwder amlycaf tuag at Brydeindod wrth i'r Cymry wynebu'r posibilrwydd o orfod brwydro yn erbyn Archentwyr, a chael eu hatgoffa eu bod yn dal ynghlwm wrth faner Prydain wedi methiant refferendwm 1979. Wedi'r pellhau yng ngherddi'r ail bennod, bwriad y cerddi hyn yw ein tynnu'n nes at yr achos eto.

Ymdrin â thair agwedd ddigswllt a wna'r penodau yma ar un olwg: natur, technoleg, a chyfeiriadaeth Gymreig, ond o'u huno gwelir i label y 'farddoniaeth glên Gymraeg'<sup>466</sup> gael ei diosg, sut bynnag yr ymdrinnir â'r pwnc. Mae'r cerddi a drafodir, yn ogystal â'r rhelyw na chawsant sylw, yn profi gallu'r iaith, erbyn hyn, i ymdopi â phynciau dwys a chymhleth. Mae ganddi'r arfau a'r hyder, bellach, i wthio heibio i ffiniau diddosrwydd y themâu Cymreig cyfarwydd pan fo'r galw, gan ehangu gorwelion barddoniaeth Gymraeg i drafod pynciau byd-eang ac i gyfrannu'n deilwng at gofnodion hanesyddol.

Holwyd ar ddechrau'r astudiaeth hon a lwyddodd beirdd i droi cefn ar arddull ramantaidd dechrau'r ugeinfed ganrif. Mae'n bendant fod ergydion y cerddi wedi caledu ers dyddiau'r Rhyfeloedd Byd, a'r disgrifiadau'n fwy gerwin a mentrus, ond er hynny, mae tuedd yn rhai o'r cerddi natur a ymddengys yn nhrafodaeth y bennod gyntaf i ymroi i ddisgrifiadau melys, melfedaidd ar brydiau. Ystyriwn ddisgrifiad Alan Llwyd yn 'Galarnad Cenhedlaeth' o'r milwyr yn eu broydd eu hunain yn gwyllo'r gwenyn 'yn feddw gan baill, yn diflannu i drobyllau / bysedd y cŵn';<sup>467</sup> neu eiriau Gwilym R. Jones yn 'Cwm Tawelwch' wrth iddo hiraethu am adeg fwy heddychlon: 'deufwy gwyrddach oedd y dail / Pan oedd y ddaear yn ieuengach,' meddai.<sup>468</sup> Gellir honni bod disgrifiad y canwr Gai Toms o'r 'hiraeth yn y pridd'<sup>469</sup> yn ymylu ar fod yn ddelwedd led ramantaidd hefyd, ond rhamantiaeth bruddglwyfus sydd i'r delweddau hyn oll wrth ystyried y cerddi'n gyflawn. Fel y nodwyd eisoes, sôn am y Rhyfeloedd Byd y mae nifer o'r cerddi natur hyn, ac felly gall y trawiadau rhamantaidd y cyfeiriwyd atynt fod yn gwbl fwriadol os mai bwriad y beirdd oedd

---

<sup>466</sup> Dyfyniad o 'Cysgodion Chernobyl' gan Gerwyn Williams yn Nigel Jenkins a Menna Elfyn (gol.), *Glas-Nos: Cerddi Dros Heddwch/Poems for Peace* (Machynlleth, 1987), t.46.

<sup>467</sup> Alan Llwyd, *Yn Nydd yr Anghenfil* (Caernarfon, 1982), t.42.

<sup>468</sup> Gwilym R. Jones, *Cerddi Gwilym R.* (Y Bala, 1969), t.31.

<sup>469</sup> Myrddin ap Dafydd (gol.), *Cerddi Storiol Carreg Gwalch* (Llanrwst, 2011), t.27.

adlewyrchu barddoniaeth cyfnod y ddau Ryfel Byd, barddoniaeth hanner cyntaf yr ugeinfed ganrif.

Diflanna pob arlliw o ramantiaeth o gerddi'r ail bennod, ac o'r rhan fwyaf o gerddi'r drydedd bennod hefyd. Cawn yn ei lle ein taro gan realaeth hallt byd y sgrin a'r cyfryngau neu ein cludo'n ôl i ddyddiau Aneirin a Thaliesin â'u disgrifiadau graffig o faes y gad. Mae'n debyg bod rhyw ramant yn perthyn i hanes Hedd Wyn erbyn hyn wrth i chwedloniaeth lapio o amgylch ei gymeriad, ac y mae rhamant hefyd yn y syniad o Gymro'n dod ar draws Cymro o'r Wladfa yn ystod Rhyfel y Falklands/Malvinas, syniad ffantasiol bron, a gaiff ei gyflwyno gan Eluned Phillips, Tudur Dylan Jones a Myrddin ap Dafydd. Ond er mêl y testunau, mae'r beirdd yn osgoi disgyn i'r fagl ac ildio i ramant y sefyllfa; galar prudd a thristwch tawel sy'n hawlio cywair eu barddoniaeth. Ar y cyfan, ymddengys fod bwriad pendant i'r defnydd o'r elfen ramantaidd a gaiff ei chyflwyno bob hyn a hyn yn y cerddi. Bwriadol hefyd yw defnydd Peredur Lynch o ddisgrifiadau rhamantaidd yn ei awdl 'Gorwelion'<sup>470</sup> wrth iddo gyfleu dyhead y bechgyn o Gymru i adael llymder eu pentref sydd dan ddirwasgiad a hwylio am yr Ariannin, gwlad sydd wedi ei goreuro gan ddychymyg y bechgyn. A dyna adael y cwm Cymreig llwyd am y 'Darn o dir gwanwynol, / Gwlad o wenith lledrithiol', dim ond i gael eu siomi a'u dadrithio ar ôl cyrraedd yno. Defnyddio'r rhamant er mwyn chwalu'r ddelwedd yn llwyr drachefn a wna Peredur Lynch, a chredaf i effaith y cwmp ychwanegu at lwyddiant yr awdl.

Er gwaethaf y caledu ym mynegiant beirdd, a'u parodrwydd i fentro trafod rhyfel yn agored ac yn ddiwyll, mae'r cerddi at ei gilydd yn dal i fod yn farddonol eu harddull, yn wahanol i rai o'r cerddi Saesneg y deuthum ar eu traws sy'n fwy rhyddieithol ac sydd wedi eu dad-delynegu'n llwyr. Y gyfrol Gymraeg debycaf o ran ei harddull i'r gweithiau Saesneg hyn, mae'n debyg, yw *Teyrnas y Tywyllwch* gan Gwyn Thomas,<sup>471</sup> lle nad yw'r bardd yn honni iddo adrodd dim ond y ffeithiau plaen. 'Does yna ddim dychmygu yma, a does yna ddim gwreiddioldeb yn ystyr arferol y gair chwaith,' meddai yn rhagair y gyfrol.<sup>472</sup> Efallai y gellid awgrymu mai amlygrwydd a phoblogrwydd telynegion a cherddi rhamantaidd

---

<sup>470</sup> *Barddas*, 81 (Ionawr 1984), t.3.

<sup>471</sup> Gwyn Thomas, *Teyrnas y Tywyllwch* (Llandybie, 2007).

<sup>472</sup> *Ibid.*, t.7.

traddodiadol Cymraeg y gorffennol sy'n rhannol gyfrifol am arddull farddonol y cerddi Cymraeg diweddar. Nid gwendid mo hynny, yn fy marn i, ond caffaeliad, wrth i'r arddull gyfoethogi'r mynegiant heb amharu dim ar gywair y cerddi. Disgwylidig, i raddau, fyddai arddull o'r fath yn y cerddi caeth sy'n fwy traddodiadol eu cywair, ond gwelir ôl mireinio ar goethder y cerddi rhydd hefyd.

Cerddi'r wers rydd a'r wers rydd gynganeddol yw'r rhan fwyaf o'r cerddi rhyfel sy'n cael eu trafod drwy'r penodau, ar wahân i'r rheini sy'n coffáu lladdedigion neu sy'n cyfeirio at gofebion penodol, sy'n tueddu i fod yn englynion. Efallai fod mwy o ffurfioldeb urddasol yn perthyn i englyn, ac mae, fel arfer, yn haws ei gofio na cherdd rydd. Mae'n gyfrwng addas, felly, i goffáu'n daclus derfynol a chadw cof am y meirw drwy ddal yr englyn ar gof, 'cloi synnwyr mewn clysineb'. Ond ymatal rhag defnyddio mesurau caeth a wna'r rhan fwyaf o'r beirdd yn eu cerddi rhyfel, er gwaethaf adfywiad yr hanner canrif diwethaf yn y defnydd o gerdd dafod. Mae'n debyg fod a wnelo hynny'n bennaf â'r beirdd sy'n canu am y pwnc. Beirdd y wers rydd yw Gwyn Thomas, Gerwyn Williams a Grahame Davies, ond ac yntau'n gynganeddwr crefftus, rhaid holi pam y bu i Alan Llwyd droi at gerddi rhydd, gan amlaf, er mwyn cyflwyno ei gofnodion barddol o ryfel? Tybed a yw'r gynghanedd yn cael ei hystyried yn rhy delynegol i ymdrin â phwnc mor hyll, mor waedlyd ac mor atgas?

Alan Llwyd yw'r pennaf englynwr yn y drafodaeth hon, ac mae'n ymuno â hen draddodiad wrth ddefnyddio'r mesur er mwyn coffáu. Fel y canodd R. Williams Parry englynion coffa niferus adeg y Rhyfel Mawr, gan gynnwys ei englynion enwog i Hedd Wyn, cyfrannodd Alan Llwyd yn helaeth at y traddodiad maes o law ac fe ganodd yntau gyfres o englynion i'r bardd o Drawsfynydd. Mae ganddo ei englynion coffa i aelodau o deulu Hedd Wyn hefyd, ac i nifer o gofebion rhyfel. Gellir gosod Alan Llwyd, felly, mewn rhes o englynwyr sy'n coffáu'n draddodiadol, ond fe ddefnyddia ei gerddi rhydd er mwyn trafod pynciau ehangach, er mwyn profi'r rhyddid i fynd i'r afael â phynciau byd-eang. Er gwaetha'r duedd a fu, yn enwedig yn ystod y chwedegau a'r saithdegau, i ystyried canu caeth yn gyfrwng sy'n cyfyngu beirdd i ymdrin â phynciau Cymreig yn unig, mae gorwelion themâu'r cerddi caeth wedi ymestyn erbyn hyn. Saif rhai o'r cywyddau a drafodir yn y penodau yn brawf o hynny wrth i'w hergyd fod yr un mor ysgytwol ag ergyd y cerddi rhydd: 'Cydwylbod'

gan Meirion MacIntyre Huws,<sup>473</sup> ‘Bosnia’ gan Emyr Davies,<sup>474</sup> a ‘Noswyl Gorffennaf yn Ffrainc’ gan Iwan Llwyd,<sup>475</sup> er enghraifft, yn ogystal ag awdl Peredur Lynch, ‘Gorwelion’. Dyna brofi, efallai, nad pwnc i feirdd y wers rydd yn unig mo rhyfel.

Cerddi’n deillio o brofiad anuniongyrchol o ryfel yw’r corff cyfan, fel y nodwyd yng nghyflwyniad y traethawd. Er i Gwyn Thomas feddu ar atgofion o’i blentyndod, atgofion o wyllo’r sgrin ac o sylwi ar luniau’r papurau newydd sydd ganddo. Nid yw’r un o’r cerddi a drafodwyd yma’n gynnyrch un a brofodd frwydro mewn rhyfel yn uniongyrchol, ac o gadw mewn cof gyfnod y cerddi yr ymdrinnir â nhw, annisgwyl fyddai gweld cerddi o’r fath. Wedi dweud hynny, ymddangosodd tair cerdd gaeth gan ŵr o’r enw John Wood, a fu’n filwr yn ystod yr Ail Ryfel Byd, mewn rhifyn o *Barddas* yn 1997,<sup>476</sup> cerddi a ysgrifennwyd yn ystod y chwedegau, mae’n debyg. Sais oedd John Wood a ddysgodd Gymraeg yn ystod y pumdegau ac a aeth ati i feistrolîr cynganeddion er mwyn cofnodi ei brofiadau o’r rhyfel drwy farddoniaeth. Erbyn heddiw, creadur prin eithriadol fyddai bardd-filwr o Gymro. Ond nid yw’r ffaith i’r beirdd ysgrifennu gan ddibynnu ar brofiad ail-law yn dirymu hygredd eu cerddi rhyfel chwaith, ac nid ydynt yn honni i’r farddoniaeth fod yn gynnyrch gwreichion maes y gad. Eglura Ceri Wyn Jones mewn sylwadau yn y cylchgrawn *Barddas* y gall y profiad ail-law o ryfel esgor ar boen meddwl sy’n corddi’n hwy ym meddyliau rhai na’i gilydd:

I rai dim ond testun cydymdeimlad dros-dro yw hwn, fel y mae Gerwyn Williams yn ei amlygu yn ei gasgliad yntau, ‘Dolenni’. I eraill, mae’n destun gofid dyfnach am fregustra’r byd a natur y ddynoliaeth. Gofid a fegir gan brofiad ail-law ar un ystyr, ond gofid dilys serch hynny.<sup>477</sup>

Mae’r gwrthrychedd sydd gan y beirdd yn eu galluogi i gofnodi’n weddol ddiduedd yn eu cerddi, ac mae’n haws hefyd gyflwyno beirniadaeth a dychan ar brydiau wrth gamu’n ôl oddi wrth y sefyllfa. Yn amlach na pheidio, fe anelir y feirniadaeth atom ni, y rhai sy’n derbyn yr adroddiadau rhyfel yn ail-law o ffynonellau newyddiadurol.

---

<sup>473</sup> Meirion MacIntyre Huws, *Y Llong Wen* (Llanrwst, 1996), tt.40-1.

<sup>474</sup> *Barddas*, 209/210 (Medi/Hydref 1994), t.33.

<sup>475</sup> Iwan Llwyd, *Be ‘di blwyddyn rhwng ffrindia?: Cerddi 1990-99* (Bodedern, 2003), tt.86-7.

<sup>476</sup> *Barddas*, 240 (Ebrill/Mai 1997), tt.2-3.

<sup>477</sup> *Barddas*, 279 (Medi/Hydref/Tachwedd 2004), t.20.

Agor cil drws yn unig y mae'r astudiaeth hon o gerddi rhyfel diweddar, ac mae sawl trywydd posib arall i'w ddilyn yn y maes. Gellir canolbwyntio'n fanylach ar yr ymateb i ryfeloedd penodol y degawdau diwethaf, yn yr un modd ag yr ystyriwyd yr ymateb i Ryfel y Falklands/Malvinas yn y drydedd bennod. Un posibilrwydd sicr fyddai llunio astudiaeth ar yr ymateb barddol a fu hyd yma i'r rhyfel yn Irac a gychwynnodd yn 2003, gan fod digon o ddeunydd wrth law. Cyhoeddodd cylchgrawn *Taliesin* gyfres o gerddi'n ymateb i luniau 'O rwbel rhyfel Irac' mewn rhifyn yn 2003, lle mae cerddi gan Dylan Iorwerth, Mererid Hopwood, Geraint Eckley, W. R. P. George, Meirion MacIntyre Huws, ac eraill.<sup>478</sup> Cyhoeddodd Dic Jones yntau gerddi newyddiadurol yn ei golofn yng nghylchgrawn *Golwg*, ac mae cerddi i Irac yn frith dros dudalennau cylchgrawn *Barddas* hefyd. Bu ymateb i'r rhyfel yng ngornestau Talwrn y Beirdd dros y blynyddoedd diwethaf, ac mae'r cerddi hynny i'w canfod ar wefan y BBC.

Yn gysylltiedig â'r rhyfel hwnnw yn Irac a ddaeth i ben yn 2011 y mae'r rhyfel yn erbyn terfysgaeth, a thra bydd y bygythiad anweledig hwnnw'n parhau, mae'n debyg y bydd ymateb iddo'n dal i godi mewn cerddi. Gwelwyd i ymdriniaeth barddoniaeth â rhyfel ymaddasu wrth i ddulliau rhyfela ddatblygu. Yn wahanol i'r cerddi sy'n cyfeirio'n ôl at y Rhyfel Mawr, ceir pwyslais ar dechnoleg rhyfel ac ar ddatblygiadau gwyddonol yn y cerddi sy'n sôn am ryfeloedd diweddar. Nid darluniau o ffosydd nac o ddynion yn wynebu ei gilydd â gynnau a gawn yn y rheini ond yn hytrach ddarluniau o arfau niwclear, o awyrennau ac o fomiau datblygedig sy'n lladd miloedd ag un botwm. Caiff y datblygiad yn natur rhyfel sylw gan Alan Llwyd yn 'Dyn yr Ugeinfed Ganrif',<sup>479</sup> yn 'Oblegid Fy Mhlant',<sup>480</sup> ac yn 'Yng Nghanrif yr Anifail',<sup>481</sup> ac mae Gerwyn Williams yn sôn am y 'bomiau'n drybowndian' a'r 'Sbotleit yn tafellu'r tywyllwch' yn 'Baghdad'.<sup>482</sup>

Un o'r bygythiadau diweddaraf sydd wedi ennyn sylw yw'r awyrennau dibelot, adar angau neu *drones*, ac fe welir eu bod wedi sbarduno ymateb mewn cerddi Cymraeg yn syth,

---

<sup>478</sup> *Taliesin*, 119 (Haf 2003), tt.81-96.

<sup>479</sup> Alan Llwyd, *Ffarwelio a Chanrif* (Llandybïe, 2000), t.149.

<sup>480</sup> Alan Llwyd, *Oblegid Fy Mhlant* (Abertawe, 1986), tt.10-11.

<sup>481</sup> Alan Llwyd, *Cerddi Alan Llwyd 1968-1990: Y Casgliad Cyflawn Cyntaf* (Llandybïe, 1990), tt.345-6.

<sup>482</sup> Gerwyn Williams, *Cydio'n Dynn* (Talybont, 1997), t.36.



yn enwedig gan fod yr awyrennau hyn yn ymarfer uwchlaw Aberporth. Cyfeiriwyd at eiriau ‘Cân yr Adar Mân’ gan Mererid Hopwood eisoes yn yr ail bennod ac fe gafwyd ymateb mewn englyn gan Aneirin Karadog i’r awyrennau ac i’r maes ymarfer milwrol yn Aberporth yn Ymryson y Beirdd yn Eisteddfod Genedlaethol 2012. Cyfansoddodd Eurig Salisbury hefyd englyn â’r teitl ‘Drone’ ar gyfer Talwrn a gynhaliwyd ar y pedwerydd ar hugain o Fawrth, 2012, yng ngwesty Pen y Baedd yng Nghaerfyrddin. Mae ei eiriau’n clymu’n berffaith â themâu’r ail a’r drydedd bennod wrth iddo blethu un o linellau enwog Aneirin a thechnoleg rhyfel er mwyn dangos y newid a fu yn natur rhyfel:

Gŵyr a aeth... Ond nid aeth un dydd – na gŵr  
Na gwas, dim ond llofrudd  
Trydanol i droi dolydd  
Y dwyrain draw yn dir rhudd.<sup>483</sup>

Felly, ymddengys fod beirdd â’u bys ar y pyls pan ddaw hi at y datblygiadau diweddaraf, ac wrth i ddulliau rhyfela ddatblygu, does dim amheuaeth na fydd ymdriniaeth y beirdd â’r pwnc yn dal i fod yn gwbl gyfoes.

Dynion yw’r rhan helaethaf o’r beirdd y cyfeiriwyd at eu cerddi, ac anodd yw anwybyddu prinder y lleisiau benywaidd wrth fynd i’r afael â cherddi rhyfel. Pum merch yn unig yr ymdriniwyd â’u gwaith gan iddynt ymdrin yn benodol â rhyfela, sef Philippa Gibson, Enid Wyn Baines, Olwen Canter, Eluned Phillips a Mererid Hopwood. Gellid ystyried barddoniaeth Menna Elfyn yma hefyd wrth gwrs; cerddi fel ‘Esgidiau’, ‘Er Cof am Kelly’ a ‘Rhwyg’,<sup>484</sup> ond gwelir mai ar heddwch y mae ei phwyslais gan amlaf, yn fwy nag ar ryfel yn uniongyrchol. A ystyrir y thema yn un wrywaidd gan mai dynion a gâi eu cysylltu â brwydro hyd nes yn lled ddiweddar? Neu a yw’n bwnc sy’n apelio at ddynion yn fwy nag yr apelia at ferched? Yng ngherdd Mererid Hopwood a ymddangosodd yn y cylchgrawn *Taliesin*, ‘Y Trip’,<sup>485</sup> fe glywir ysgafnder llais benywaidd nad yw i’w glywed yn aml yn y cerddi rhyfel. Llais mam sydd yma’n ceisio tawelu meddyliau ei phlant a’u hannog i fod mor dawel ag y gallant wrth i’r teulu ffoi am eu bywydau. Diddorol fyddai ceisio darganfod ystod ehangach o

---

<sup>483</sup> *Barddas*, 315 (Haf 2012), t.16.

<sup>484</sup> Menna Elfyn, *Merch Perygl: Cerddi 1976-2011* (Llandysul, 2011), t.33, t.34, t.49.

<sup>485</sup> *Taliesin*, 119 (Haf 2003), tt.84-5.

ymateb benywaidd diweddar a chymharu arddull ac ymdriniaeth cerddi'r merched a cherddi'r dynion.

Wrth drafod lle merched yn llenyddiaeth Saesneg y ddau Ryfel Byd, nodi Simon Featherstone fod cerddi rhyfel a ysgrifennwyd yn y cyfnodau hynny'n deillio o'r profiad o ymladd, profiad anghyfarwydd i ferched:

The argument runs that war poetry emerges from direct experience of fighting and, because such experience was unavailable to women in the First World War and hardly any more so in the Second, there can be no women's war poetry.<sup>486</sup>

O edrych ar y ddwy flodeugerdd, *Gwaedd y Bechgyn* a *Gwaedd y Lleiddiad*, mae'n amlwg mai cyfatebol fu'r sefyllfa yng nghyd-destun canu rhyfel Cymraeg y Rhyfeloedd Byd. Tybed, felly, ai'r diffyg traddodiad sy'n peri i ferched gadw draw oddi wrth y pwnc heddiw, am nad oes unrhyw ffynonellau o brofiadau uniongyrchol i droi'n ôl atynt am ysbrydoliaeth ac arweiniad?

Parhau i dyfu o hyd y bydd y corff o farddoniaeth ryfel, gyda phob rhyfel a brwydr yn esgor ar ymateb newydd. 'Poetry, we never cease to be told, makes nothing happen; but war makes poetry happen,' meddai Tim Kendall.<sup>487</sup> Yn wahanol i rai o gerddi Cymraeg y Rhyfeloedd Byd lle gwelwyd bod rhai'n mawrygu rhyfel ac yn gwthio'r bechgyn i ymrestru â'r fyddin, ni cheir yr un gerdd felly heddiw. Heddwch yw'r ddelfryd, bellach, ac er bod edmygu dewrder milwyr yn rhai o'r cerddi, tosturio wrth ddiodefwyr rhyfel a wna'r rhan fwyaf. Clodd Dic Jones ei gerdd 'Galarnad' â'r geiriau, 'Ei dawn i wylo yw gwerth dynoliaeth'.<sup>488</sup> Dyna werth y cerddi hyn hefyd wrth iddynt ddal dagrau Cymry a welodd ryfel drwy ffenest y cyfryngau.

---

<sup>486</sup> Simon Featherstone, *War Poetry* (London, 1995), t.95.

<sup>487</sup> Tim Kendall, *Modern English War Poetry* (Oxford, 2006), t.2.

<sup>488</sup> Dic Jones, *Sgubo'r Storws* (Llandysul, 1986), t.31.

## LLYFRYDDIAETH

### Cyrolau Barddoniaeth a Blodeugerddi

AP DAFYDD, Myrddin (gol.), *Cerddi Storiol Carreg Gwalch* (Llanrwst, 2011).

AP GLYN, Ifor, *Waliau'n Canu* (Llanrwst, 2011).

BLAKE, William, *Songs of Innocence and of Experience* (Oxford, 1990).

CANTER, Olwen, *Cerddi Bob Lliw* (Talybont, 2011).

CURTIS, Tony (gol.), *After the First Death: An Anthology of Wales and War in the Twentieth Century* (Bridgend, 2007).

CYNAN, *Cerddi Cynan: Y Casgliad Cyflawn* (Liverpool, 1959).

DAVIES, Bryan Martin, *Cerddi Bryan Martin Davies: Y Casgliad Cyflawn* (Llandybïe, 2003).

DAVIES, Gareth Alban, *Galar y Culfor* (Llandybïe, 1992).

DAVIES, Grahame, *Cadwyni Rhyddid* (Abertawe, 2001).

DAVIES, Grahame, *Achos* (Llandybïe, 2005).

EDWARDS, D. Islwyn, *Cyn i'r Dydd Hwyrhau* (Llandybïe, 2005).

EDWARDS, Emyr, *Guernika a Cherddi Eraill* (Caerdydd, 2007).

ELFYN, Menna, *Merch Perygl: Cerddi 1976-2011* (Llandysul, 2011).

EVANS, Aled Lewis, *Tonnau* (Llandybïe, 1989).

EVANS, Donald, *Machlud Canrif* (Caernarfon, 1982).

GEORGE, Eirwyn, *Cân yr Oerwynt* (Llandybïe, 2009).

GEORGE, W. R. P., *Mydylau: Cynhaef Cerddi* (Llandybïe, 2004).

GRIFFITHS, Hywel, *Banerog* (Talybont, 2009).

HOLLIS, Matthew, a KEEGAN, Paul (gol.), *101 Poems Against War* (London, 2003).

HOOSON, I. D., *Cerddi a Baledi* (Dinbych, 1958).

HUWS, Meirion MacIntyre, *Y Llong Wen* (Llanrwst, 1996).

HUWS, Meirion MacIntyre, *Melyn* (Llanrwst, 2004).

JENKINS, Nigel, ac ELFYN, Menna (gol.), *Glas-Nos: Cerddi dros Heddwch/Poems for Peace* (Machynlleth, 1987).

JONES, Bobi, *Casgliad o Gerddi* (Llandybïe, 1989).

JONES, Bobi, *Canu Arnaf*, Cyfrol 2 (Llandybïe, 1995).

JONES, D. Gwenallt, *Eples: Cyfrol o Farddoniaeth* (Llandysul, 1951).

JONES, David, *In Parenthesis* (London, 1969).

JONES, Dic, *Sgubo'r Storws* (Llandysul, 1986).

JONES, Dic, *Golwg Arall* (Llandysul, 2009).

JONES, Gwilym R., *Cerddi Gwilym R.* (Y Bala, 1969).

JONES, T. James, *Nawr* (Llandybïe, 2008).

LEWIS, Emyr, *Chwarae Mig* (Llandybïe, 1998).

LLWYD, Alan, *Yn Nydd yr Anghenfil* (Caernarfon, 1982).

LLWYD, Alan, *Einioes ar ei Hanner* (Caernarfon, 1984).

LLWYD, Alan, *Oblegid Fy Mhlant* (Abertawe, 1986).

LLWYD, Alan, *Yn y Dirfawr Wag* (Llandybïe, 1988).

LLWYD, Alan, ac EDWARDS, Elwyn, *Gwaedd y Bechgyn: Blodeugerdd Barddas o Gerddi'r Rhyfel Mawr 1914-1918* (Llandybïe, 1989).

LLWYD, Alan, *Cerddi Alan Llwyd 1968-1990: Y Casgliad Cyflawn Cyntaf* (Llandybïe, 1990).

LLWYD, Alan, ac EDWARDS, Elwyn (gol.), *Gwaedd y Lleiddiad: Blodeugerdd Barddas o Gerddi'r Ail Ryfel Byd 1939-1945* (Llandybïe, 1995).

LLWYD, Alan, *Sonedau i Janice a Cherddi Eraill* (Llandybïe, 1996).

LLWYD, Alan, *Ffarwelio â Chanrif* (Llandybïe, 2000).

LLWYD, Alan, *Clirio'r Atig a Cherddi Eraill* (Llandybïe, 2005).

LLWYD, Alan, *Darnau o Fywydau* (Llandybïe, 2009).

LLWYD, Alan (gol.), *Y Flodeugerdd Englynion Newydd* (Llandybïe, 2009).

LLWYD, Iwan, *Dan Anesthetig* (Caerdydd, 1987).

LLWYD, Iwan, *Dan Fy Ngwynt* (Caerdydd, 1992).

LLWYD, Iwan, ac AP DAFYDD, Myrddin (gol.), *Cywyddau Cyhoeddus* (Llanrwst, 1994).

LLWYD, Iwan, AP DAFYDD, Myrddin, ac AP GLYN, Ifor, *Bol a Chyfri' Banc* (Llanrwst, 1995).

LLWYD, Iwan, *Be 'di blwyddyn rhwng ffrindia?: Cerddi 1990-99* (Bodedern, 2003).

LLWYD, Iwan, *Hanner Cant* (Bodedern, 2007).

OWEN, Gerallt Lloyd (gol.), *Pigion Talwrn y Beirdd* (Caernarfon, 1981).

OWEN, Gerallt Lloyd (gol.), *Pigion Talwrn y Beirdd, 2* (Caernarfon, 1984).

OWEN, Gerallt Lloyd (gol.), *Pigion Talwrn y Beirdd, 3* (Caernarfon, 1986).

OWEN, Gerallt Lloyd (gol.), *Pigion Talwrn y Beirdd, 4* (Caernarfon, 1988).

OWEN, Gerallt Lloyd, *Cerddi'r Cywilydd* (Caernarfon, 1990).

OWEN, Gerallt Lloyd (gol.), *Pigion Talwrn y Beirdd, 6* (Caernarfon, 1992).

OWEN, Gerallt Lloyd (gol.), *Pigion Talwrn y Beirdd, 7* (Caernarfon, 1994).

OWEN, Gerallt Lloyd (gol.), *Pigion Talwrn y Beirdd, 8* (Caernarfon, 1996).

OWEN, Gerallt Lloyd (gol.), *Pigion Talwrn y Beirdd, 10* (Caernarfon, 2000).

ROBERTS, David (gol.), *Falklands War Poetry: Poets from Britain, Argentina and the Falklands* (Burgess Hill, 2012).

SWIFT, Todd (gol.), *100 Poets Against the War* (Cambridge, 2003).

THOMAS, Gwyn, *Chwerwder yn y Ffynhonnau* (Dinbych, 1962).

THOMAS, Gwyn, *Y Weledigaeth Haearn* (Dinbych, 1965).

THOMAS, Gwyn, *Ysgyrion Gwaed* (Dinbych, 1967).

THOMAS, Gwyn, *Cadwynau yn y Meddwl* (Dinbych, 1976).

THOMAS, Gwyn, *Symud y Lliwiau* (Dinbych, 1981).

THOMAS, Gwyn, *Wmgawa* (Dinbych, 1984).

THOMAS, Gwyn, *Am Ryw Hyd* (Dinbych, 1986).

THOMAS, Gwyn, *Teyrnas y Tywyllwch* (Llandybïe, 2007).

THOMAS, Gwyn, *Murmuron Tragwyddoldeb a Chwningod Tjioclet* (Llandybïe, 2010).

WILIAMS, Gerwyn, *Rhwng y Cŵn a'r Brain* (Caernarfon, 1988).

WILIAMS, Gerwyn, *Cydio'n Dynn* (Talybont, 1997).

WILIAMS, Gerwyn, *Tafarn Tawelwch* (Llanrwst, 2003).

WILIAMS, Gerwyn, *Rhwng Gwibdaith a Coldplay* (Caernarfon, 2011).

WYN, Hedd, *Cerddi'r Bugail: Ynghyd ag Atodiad o waith y bardd nas cynhwyswyd yn argraffiadau 1918 na 1931* (Llandybïe, 1994).

### **Cerddi o Gylchgronau a Chyfnodolion**

AMRYWIOL, 'Gwae Fi Fy Myw: Cofiant Hedd Wyn', *Barddas*, 176/177 (Rhagfyr/Ionawr 1991-1992), t.19.

AMRYWIOL, Cyfres o gerddi 'O rwbel rhyfel Irac', *Taliesin*, 119 (Haf 2003), tt.81-96.

ANHYSBYS, 'Anne Frank', *Barddas*, 224/225 (Rhagfyr/Ionawr 1995-1996), t.24.

ANHYSBYS, 'Porth Menin, Ypres', *Barddas*, 250 (Ionawr/Chwefror 1999), t.38.

ANHYSBYS, 'Harry Patch', *Barddas*, 306 (Ionawr/Chwefror/Mawrth 2010), t.57.

AP DAFYDD, Myrddin, 'Rhyfel', *Barddas*, 185 (Medi 1992), t.5.

BAINES, Enid Wyn, 'Bosnia', *Barddas*, 209/210 (Medi/Hydref 1994), t.33.

DAFIS, Rhys, 'Y Pabi', *Barddas*, 68 (Tachwedd 1982), t.2.

DAVIES, Emyr, 'Bosnia', *Barddas*, 209/210 (Medi/Hydref 1994), t.33.

EVANS, Einion, 'Un o'r Gwleidyddion', *Barddas*, 169 (Mai 1991), t.20.

EVANS, Einion, 'Rhyfel y Bocs', *Barddas*, 169 (Mai 1991), t.20.

EVANS, Einion, 'Cadair Ddu Birkenhead', *Barddas*, 171/172 (Gorffennaf/Awst 1991), t.2.

GIBSON, Philippa, 'Y Pabi Coch', *Barddas*, 290 (Tachwedd/Rhagfyr/Ionawr 2006-2007), t.61.

HOPWOOD, Mererid, 'Cân yr Adar Mân', *Cristion*, 169 (Tachwedd/Rhagfyr 2011), t.14.

HUWS, Meirion MacIntyre, 'Coflech Hedd Wyn yn Fflandrys', *Barddas*, 183/184 (Gorffennaf/Awst 1992), t.19.

HUWS, Tom, 'Croen', *Barddas*, 133 (Mai 1988), t.2.

JONES, Dafydd Franklyn, 'Mynwent y Milwyr', *Barddas*, 215 (Mawrth 1995), t.13.

JONES, John Gruffydd, 'Arras', *Cyfansoddiadau a Beirniadaethau Eisteddfod Genedlaethol Frenhinol Cymru Bro Madog 1987*, gol. J. Elwyn Hughes (Llandysul, 1987), tt.34-5.

JONES, John Gruffydd, 'Tanchwa', *Barddas*, 313 (Hydref/Tachwedd/Rhagfyr 2011), t.5.

LEWIS, Emyr, '1917', *Barddas*, 294 (Awst/Medi/Hydref 2007), t.45.

LLOYD, Idwal, 'Y Pabi', *Barddas*, 166 (Chwefror 1991), t.2.

LYNCH, Peredur, 'Gorwelion', *Barddas*, 81 (Ionawr 1984), t.3.

LLWYD, Alan, 'Atomfa Trawsfynydd', *Barddas*, 176/177 (Rhagfyr/Ionawr 1991-1992), t.18.

MORGAN, Iwan, 'Profiad', *Barddas*, 194 (Mehefin 1993), t.3.

OWEN, Gerallt Lloyd, 'Cofio Cynan', *Barddas*, 219/220 (Gorffennaf/Awst 1995), t.30.

PARRY, Norman Closs, 'Pabi Coch', *Barddas*, 169 (Mai 1991), t.17.

PENMORFA, R. J., 'Y Groes Bren', *Barddas*, 173 (Medi 1991), t.9.

PHILLIPS, Eluned, 'Clymau', *Cyfansoddiadau a Beirniadaethau Eisteddfod Genedlaethol Frenhinol Cymru Ynys Môn 1983*, gol. T. M. Bassett (Llandysul, 1983), tt.45-53.

PHILLIPS, John, 'Kosovo', *Barddas*, 256 (Chwefror/Mawrth 2000), t.45.

PHILLIPS, John, 'Fflandrys', *Barddas*, 290 (Tachwedd/Rhagfyr/Ionawr 2006-2007), t.41.

REYNOLDS, Idris, 'Y Fileniwm Hon', *Barddas*, 207/208 (Gorffennaf/Awst 1994), t.38.

ROBERTS, Geraint, 'Etifeddiaeth', *Barddas*, 269 (Medi/Hydref/Tachwedd 2002), t.17.

SALISBURY, Eurig, 'Drone', *Barddas*, 315 (Haf 2012), t.16.

## **Nofelau, Straeon Byrion a Rifiwiau**

AP DAFYDD, Myrddin, a LOVGREEN, Geraint, *Tros Ryddid?* (Llanrwst, 1983).

EMLYN, Mari, *Traed Oer* (Llandysul, 2004).

EVANS, T. Wilson, *Y Pabi Coch* (Llandysul, 1983).

HUNTER, Jerry, *Gwenddydd* (Caernarfon, 2010).

HUWS, Martin, *Sgrech Rhyfel* (Llanrwst, 2001).

HUWS, Martin, *Mae Heddwch yn Brifo* (Llandysul, 2009).

IORWERTH, Dylan, *Darnau* (Caernarfon, 2005).

IWAN, Llion, *Yr Anweledig* (Llandysul, 2008).

LLYWELYN, Robin, *Seren Wen ar Gefndir Gwyn* (Llandysul, 1992).

LLYWELYN, Robin, *Un Diwrnod yn yr Eisteddfod* (Llandysul, 2004).

TOMOS, Angharad, *Rhagom* (Llanrwst, 2004).

WYN, Eurig, *I Dir Neb* (Talybont, 1999).

## **Beirniadol a Chefndirol**

ADORNO, Theodor W., 'Cultural Criticism and Society', *Prisms*, Nawfed argraffiad (Massachusetts, 1997).

ALLAN, Stuart, *News Culture*, Trydydd argraffiad (Maidenhead, 2011).

AP DAFYDD, Myrddin (gol.), *Llyfr Lloffion Yr Ysgwrn* (Llanrwst, 2005).

BELLAMY, Dawn, "'Others have come before you": The Influence of Great War Poetry on Second World War Poets', *The Oxford Handbook of British and Irish War Poetry*, gol. Tim Kendall (Oxford, 2007), tt.299-314.

BURG, Steven L., & SHOUP, Paul S., *The War in Bosnia-Herzegovina: Ethnic Conflict and International Intervention* (New York, 2000).

*Caneuon Ffydd* (Pwyllgor Caneuon Ffydd, 2001).

FEATHERSTONE, Simon, *War Poetry* (London, 1995).



- GRIFFITH, Wyn, *Up to Mametz* (London, 1981).
- HART, Peter, *The Somme* (London, 2005).
- HAYCOCK, Marged, 'Hanes Heledd Hyd Yma', *Gweledigaethau: Cyfrol Deyrnged Yr Athro Gwyn Thomas*, gol. Jason Walford Davies (Llandybie, 2007), tt.29-60.
- HEILMEYER, Marina, *The Language of Flowers* (Munich, 2006).
- HUNTER, Jerry, 'Canrif o Gofebau', *Taliesin*, 112 (Haf 2001), tt.139-45.
- HURN, David, 'Artist Mwyaf Cymru', *Barn*, 543 (Ebrill 2008), tt.26-8.
- JACOBSON, Mark, *The Lampshade: A Holocaust Detective Story from Buchenwald to New Orleans* (New York, 2010).
- JONES, Ceri Wyn, 'Ein Barn am Gerddi'r Gadair: Cerddi i'r Diog a'r Dygn', *Barddas*, 279 (Medi/Hydref/Tachwedd 2004), tt.19-21.
- JONES, Dafydd Glyn, 'Canu'r Mabinogi: Rhagarweiniad', *Gweledigaethau: Cyfrol Deyrnged Yr Athro Gwyn Thomas*, gol. Jason Walford Davies (Llandybie, 2007), tt.173-200.
- JONES, T. Gwynn, *Welsh Folklore & Folk-Custom* (London, 1930).
- KENDALL, Tim, *Modern English War Poetry* (Oxford, 2006).
- LAWSON, Mark, 'War games and gaffes', *The Guardian* (19/04/03), t.17.
- LLOYD, D. Tecwyn, 'Llenyddiaeth Cyni a Rhyfel: (1914-1939)', *Llên Cyni a Rhyfel a Thrafodion Eraill* (Llandysul, 1987), tt.11-42.
- LLWYD, Alan, *Gwyn Thomas, Cyfres 'Llên y Llenor'* (Caernarfon, 1984).
- LLWYD, Alan, *Barddoniaeth y Chwedegau: Astudiaeth Lenyddol-hanesyddol* (Caernarfon, 1986).
- LLWYD, Alan, *Gwae Fi Fy Myw: Cofiant Hedd Wyn* (Llandybie, 1991).
- LLWYD, Alan, 'Golygyddol: Gweddnewidio Gwyn Thomas', *Barddas*, 264 (Awst/Medi/Hydref 2001), tt.4-9.
- LLWYD, Alan, 'Golygyddol', *Barddas*, 291 (Chwefror/Mawrth 2007), tt.4-5.
- LLWYD, Iwan, ac AP DAFYDD, Myrddin (gol.), *Mae'n Gêm o Ddau Fileniwm* (Llanrwst, 2002).
- LLYWELYN-WILLIAMS, Alun, 'Llyfrau: Awen loyw ei myfyrdod', *Barn*, 4 (Chwefror 1963), tt.115-16.

- MILLWARD, E. G., 'Delweddau'r Canu Gwerin', *Canu Gwerin*, 3 (1980), tt.11-21.
- PHILLIPS, Eluned, 'Holi Eluned Phillips', *Barddas*, 80 (Rhagfyr 1983), tt.3-6.
- ROBERTS, Ioan, *Rhyfel Ni: Profiadau Cymreig o Ddwy Ochr Rhyfel y Falklands/Malvinas 1982* (Llanrwst, 2003).
- STEPHENS, Meic (gol.), *Cydymaith i Lenyddiaeth Cymru* (Caerdydd, 1997).
- THOMAS, Gwyn, *Golwg ar Farddoniaeth Ddiweddar* (Llandysul, 1976).
- THOMAS, Gwyn, 'Gwyn Thomas', *Dylanwadau*, gol. Eleri Hopcyn (Llandysul, 1995), tt.81-99.
- THOMAS, Gwyn, *Y Traddodiad Barddol* (Caerdydd, 2002).
- THOMAS, Gwyn, 'Alan Llwyd: Bardd', *Alan: Casgliad o gerddi ac ysgrifau ar Alan Llwyd, gyda llyfryddiaeth o'i waith gan Huw Walters*, gol. Huw Meirion Edwards (Abertawe, 2003), tt.91-105.
- THUSSU, Daya Kishan, 'Live TV and Bloodless Deaths: War Infotainment and 24/7 News', *War and the Media*, gol. Daya Kishan Thussu & Des Freedman (London, 2003), tt.117-32.
- WILIAMS, Gerwyn, 'Cofio Rhyfel Anghofiedig: Dehongli a Chyd-Destunoli Rhyfel y Falklands/Malvinas 1982', *Cof Cenedl*, XXI, gol. Geraint H. Jenkins (Llandysul, 2006), tt.159-91.
- WILIAMS, Gerwyn, *Y Rhwyg: Arolwg o farddoniaeth Gymraeg ynghylch y Rhyfel Byd Cyntaf* (Llandysul, 1993).
- WILIAMS, Gerwyn, *Tir Neb: Rhyddiaith Gymraeg a'r Rhyfel Byd Cyntaf* (Caerdydd, 1996).
- WILIAMS, Gerwyn, *Tir Newydd: Agweddau ar Lenyddiaeth Gymraeg a'r Ail Ryfel Byd* (Llandybïe, 2005).
- WILIAMS, Gerwyn, 'Occupying New Territory: Alun Llywelyn-Williams and the Welsh-Language Poetry of the Second World War', *The Oxford Handbook of British and Irish War Poetry*, gol. Tim Kendall (Oxford, 2007), tt.340-61.
- WILLIAMS, Ifor (gol.), *Canu Taliesin* (Caerdydd, 1960).
- WILLIAMS, Ifor (gol.), *Canu Aneirin* (Caerdydd, 2001).
- WINN, James Anderson, *The Poetry of War* (Cambridge, 2008).
- WOOD, John, 'Bardd Caeth yr Ail Ryfel Byd', *Barddas*, 240 (Ebrill/Mai 1997), tt.2-3.

*Y Beibl Cymraeg Newydd* (Cymdeithas y Beibl, 2004).

### **Gwefannau**

<http://www.bbc.co.uk/cymru/adloniant/theatr/adolygiadau/hedd-wyn.shtml>

<http://www.bbc.co.uk/radiocymru/safle/talwrn/2012/01042012.shtml>

<http://bibles.org/#cym-WMB/Isa/11>

<http://www.britannica.com/EBchecked/topic/355118/Marshall-McLuhan/355118suppinfo/Supplemental-Information>

<http://www.greatwar.co.uk/article/remembrance-poppy.htm>

<http://www.guardian.co.uk/education/2002/feb/23/artsandhumanities.highereducation>

<http://www.telegraph.co.uk/culture/culturenews/8455677/Modern-war-poetry-British-soldiers-explore-Afghanistan-and-Iraq-wars-in-verse.html>

[http://www.warpoetry.co.uk/falklands\\_war\\_poetry.html](http://www.warpoetry.co.uk/falklands_war_poetry.html)